- 8.7 Following consultation, the Lord Chancellor announced on 15th December 2011 his decision to proceed with the abolition of the Public Guardian Board.
- 8.8 The Government's response to the consultation on proposals for reform of its bodies included in the Public Bodies Bill can be found on the Ministry Of Justice website at:

https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/public_bodies_bill/results/consultation-response-public-bodies.pdf

9. Guidance

- 9.1. The nature of this instrument makes it unnecessary to publish guidance in relation to it.
- 9.2 The Minister has written to the Chair of the PGB to inform them of the intention to abolish. No letter was sent in relation to HMICA, which closed administratively at the end of 2010.

10. Impact

- 10.1 An impact assessment (IA) on the abolition of HMICA was prepared in May 2011 as part of the wider consultation on the Public Bodies Bill. It covered the impacts of the formal abolition of HMICA and also included some information on the costs and benefits of the administrative closure of HMICA. The IA concluded that, as HMICA

has already closed administratively, the formal closure has minimal costs associated with it. This IA was updated after consultation to reflect the most recent available information.

- 10.2 An equality impact assessment (EIA) initial screening was carried out for HMICA. As the formal closure of this body follows its administrative closure, there is no equality impact.

The IA and EIA are available online at:

https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/public_bodies_bill/results/public-bodies-bill-abolition-hmica-ia.pdf.

https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/public_bodies_bill/results/public-bodies-bill-hmica-eia.pdf

- 10.3 An Impact Assessment was not considered necessary for the abolition of the PGB because of the very limited impact its abolition will have in any wider context, and because the financial impact of abolition is so low. The year-on-year breakdown of this financial impact over the current spending review period is spelled out above.

- 10.4 An EIA initial screening was carried out for the Public Guardian Board. This screening showed that, as the small number of PGB members are public appointees and not employees, there is no equality impact. There is one member of staff carrying out secretariat duties for the board, which takes up a small proportion of their time; the member of staff has been redeployed to other duties within the Ministry of Justice. The EIA is currently being updated to reflect the new OPG governance arrangements; the current EIA can be found online at:

https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/public_bodies_bill/results/public-bodies-bill-pgb-eia.pdf

11. Regulating small businesses

- 11.1 The legislation does not apply to small business.

12. Monitoring and review

- 12.1 Cabinet Office will carry out a post legislative scrutiny review after the passage of the Public Bodies Bill and MoJ will monitor the outcome of that.

13. Contact

- 13.1 Maggie Garrett, Ministry of Justice, tel. 020 3334 6168 or email Maggie.Garrett@justice.gsi.gov.uk can answer any queries regarding the instrument.

Paratowyd y ddogfen hon gan gyfreithwyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru i roi gwybodaeth a chynghor i Aelodau'r Cynulliad a'u staff am faterion y mae'r Cynulliad a'i bwyllgorau'n eu hystyried ac nid at unrhyw ddiben arall. Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth a'r cynghor a geir yn y ddogfen hon yn gywir, ond ni dderbynnir cyfrifoldeb am unrhyw ddibyniaeth a roddir arnynt gan drydydd parti.

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL GORCHYMYN CYRFF CYHOEDDUS (DIDDYMU BWRDD Y GWARCHEIDWAD CYHOEDDUS AC AROLYGIAETH GWEINYDDIAETH LLYSOEDD EM) 2012

Nodyn Cynghor Cyfreithiol

Y Cefndir

1. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cyflwyno hysbysiad ynglŷn â chynghor-
"Cynghor bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cytuno, yn unol ag adran 9 (6) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011("y Ddeddf"), fod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu Arolygiaeth Gweinyddiaeth Llysoedd EM a Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus) 2012 ("y Gorchymyn"), yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mai 2012."
2. Trafodwyd y Memorandwm hwn yn unol â'r trefniadau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Busnes ar 7 Chwefror 2012. Trefnwyd y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar y cynghor hwn ar gyfer 17 Gorffennaf 2012 yn amodol ar farn y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.
3. Ysgrifennodd yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder at Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2012 i geisio cytundeb i osod cynghor cydsyniad yn y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer y darpariaethau yn y Gorchymyn hwn sy'n dod o dan adran 9 (6) o'r Ddeddf. Cydsyniwyd â'r cais. Gosodwyd y Gorchymyn o dan adran 11 o'r Ddeddf ar 10 Mai 2012 gerbron Tŷ'r Cyffredin gan Kenneth Clarke, yr Ysgrifennydd Gwladol. Nid yw'r Offeryn hyd yn hyn wedi'i ystyried gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol. Daw'r cyfnod craffu yn Nhŷ'r Cyffredin i ben ar 25 Mehefin 2012.

Y Gorchymyn:-

4. Gwneir y Gorchymyn o dan adrannau 1, 6 (1), (2) (a) a (5) a 35 (2) o'r Ddeddf.
5. Nid yw hwn yn Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol o fewn ystyr Rheol Sefydlog 30, gan nad yw'n ymwneud â darpariaethau sydd wedi'u cynnwys mewn Bil gerbron Senedd y DU. Er hynny, mae'n debyg i'r graddau ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol sy'n gymwys yng Nghymru mewn perthynas â mater sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, hy Galluedd Meddyliol. Gellir cymharu hyn â'r Gorchymyn Swyddfa Rheoleiddio Leol (Diddymu a Throsoglwyddo

Swyddogaethau, etc.) 2012, a oedd yn ehangu cymhwysiadegwyddor cydsyniad deddfwriaethol i gynnwys diwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol a wneir drwy Orchymyn gan Weinidogion y DU.¹

6. Mae'r Gorchymyn yn diddymu Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus ("y Bwrdd") a sefydlwyd o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Dyletswydd y Bwrdd yw adolygu a chraffu ar y modd y mae'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn cyflawni ei swyddogaethau a gwneud trefniadau priodol i'r Arglwydd Ganghellor. Mae'r swyddogaethau a roir i'r Gwarcheidwad Cyhoeddus i'w gweld yn adran 58 o Ddeddf Galluedd Meddyliol ac yn cynnwys swyddogaethau goruchwyllo mewn perthynas ag unigolion nad oes ganddynt alluedd meddyliol i wneud penderfyniadau. Gwneir y penderfyniad i ddiddymu'r Bwrdd yn sgîl canlyniad adolygiad Llywodraeth y DU o gyrrff cyhoeddus. Yr hyn y bwriedir ei wneud wedi diddymu'r Bwrdd yw disodli swyddogaethau'r Bwrdd drwy gryfhau'r trefniadau llywodraethu o fewn Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, sy'n bodoli fel asiantaeth weithredol i Lywodraeth y DU. Nid oes trosglwyddo swyddogaethau mewn cysylltiad â'r Bwrdd. Yn ogystal â diddymu'r Bwrdd, byddai'r Gorchymyn yn gwneud diddymiadau a dirymiadau yn gysylltiedig â'r diddymu.

7. Mae hwn yn Orchymyn Cyfansawdd sydd hefyd yn cynnwys diddymu Arolygiaeth Gweinyddiaeth Llysoedd EM. Sefydlwyd yr arolygiaeth o dan adran 58 o Ddeddf Llysoedd 2003 ac mae ganddi ddyletswydd statudol i arolygu a chyflwyno adroddiadau i'r Arglwydd Ganghellor ar y system sy'n cefnogi cynnal busnes y Goron, llysoedd Sirol a llysoedd Ynadon a'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer y llysoedd hynny. O ran yr arolygiaeth, trosglwyddir dwy swyddogaeth i Brif Arolygydd Carchardai EM. Fodd bynnag, nid yw'r arolygiaeth yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

Y Memorandwm Cydsyniad

8. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol gymhwysedd mewn perthynas â "galluedd meddyliol" (o dan Bwnc 9 (Iechyd a Gwasanaethau Iechyd) Atodlen 7; a Phwnc 15 (Lles Cymdeithasol) Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006). Mae o fewn cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol sefydlu rhyw fath o drefn sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer atal, trin a lliniaru anhwylder meddyliol a/neu ar gyfer gwarchod rhai sy'n agored i niwed. Bernir bod y cymhwysedd hwn yn ddigon eang i sefydlu bwrdd y rhoir iddo'r dasg o gefnogi a diogelu hawliau unigolion sydd ag anhwylder meddyliol a hefyd i sefydlu corff sy'n arfer swyddogaethau tebyg i'r Bwrdd mewn perthynas â Chymru. I'r graddau bod gan y Cynulliad Cenedlaethol y cymhwysedd i greu corff o'r fath, byddai ganddo hefyd y pŵer i'w diddymu.

9. Mae adran 9 (6) o'r Ddeddf yn datgan bod gorchymyn i ddiddymu, cyfuno neu drosglwyddo swyddogaethau corff cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i

¹ Memorandwm Cydsyniad y Gweinidog ar gyfer Gorchymyn Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol (Diddymu a Throsglwyddo Swyddogaethau, etc.) 2012 a'r canllawiau sydd yn y Canllawiau ar Ddatganoli, Nodyn 9.

gael cydsyniad y Cynulliad Cenedlaethol i wneud darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad pe bai'n cael ei chynnwys mewn Deddf Cynulliad. Mae adran 9 (7) o'r Ddeddf yn datgan bod gorchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth nad yw'n dod o fewn is-adran (6) sydd un ai'n addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru, y Prif Weinidog neu'r Cwnsler Cyffredinol.

10. Mae'r Gorchymyn, drwy ddiddymu'r Bwrdd, yn deddfu ar gyfer diben sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, ac o'r herwydd gofynnir am gydsyniad y Cynulliad Cenedlaethol yn unol ag adran 9(6) o'r Ddeddf, i'r graddau bod y Gorchymyn yn gwneud darpariaeth i ddiddymu'r Bwrdd mewn perthynas â Chymru. Mae diddymu'r Bwrdd yn bodloni'r meini prawf a nodir o dan adran 9(6) o'r Ddeddf, gan fod gan y Cynulliad Cenedlaethol gymhwysedd mewn perthynas â thriniaeth feddygol a gwasanaethau iechyd, lles cymdeithasol a gofal am rai sy'n agored i niwed. Nid yw diddymu'r Bwrdd yn bodloni'r meini prawf o dan adran 9(7) o'r Ddeddf. Nid yw diddymu Arolygiaeth Gweinyddiaeth Llysoedd EM yn bodloni'r meini prawf o dan adran 9(6) nac adran 9(7) o'r Ddeddf.

Casgliad

11. Argymhellir bod y Pwyllgor yn ystyried a yw'n fodlon ar y gorchymyn presennol a hefyd a ellir dysgu unrhyw wersi o'r esiampyl hon ar ôl i'r Gorchymyn Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol (Diddymu a Throsoglwyddo Swyddogaethau, etc.) 2012 gael ei ystyried ym mis Chwefror 2012.

Y Gwasanaethau Cyfreithiol

Mai 2012

Atodiad

Adran 9 (6) a (7) ac Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Cyhoeddus 2011

Adran 9:-

(6) Mae gorchymyn o dan adrannau 1 i 5 yn ei gwneud yn ofynnol i gael cydsyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad pe bai'n cael ei chynnwys mewn Deddf Cynulliad.

(7) Mae gorchymyn o dan adrannau 1 i 5 yn ei gwneud yn ofynnol i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth nad yw'n dod o fewn is-adran (6) —.

(a) sy'n addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu Gwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru, neu

(b) a allai gael ei gwneud gan unrhyw un o'r rheini.

Adran 1, Atodlen 1:-

(1) Caiff Gweinidog, drwy orchymyn, ddiddymu corff neu swydd a nodir yn Atodlen 1.

Pŵer i ddiddymu: cyrff a swyddi:-

Y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwlynlysoedd

Y Pwyllgor Cyngori ar Sylweddau Peryglus (a sefydlwyd o dan adran 140(5) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990)

Y Pwyllgor Cyngori ar Blaladdwyr a'r Pwyllgor Cyngori ar Blaladdwyr i Ogledd Iwerddon (cyrff a sefydlwyd o dan adran 16(7) o Ddeddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985)

Pwyllgor Cyngori Anhedd-dai Amaethyddol ar gyfer ardaloedd yn Lloegr. Bwrdd Cyflogau Amaethyddol Cymru a Lloegr

Pwyllgor cyflogau amaethyddol ar gyfer ardaloedd yn Lloegr

Tribiwnlys Cyflafareddu Diwydiannau Awyrennau ac Adeiladu Llongau

Adeiladwyr Llongau Prydain ac unrhyw is-gwmni i Adeiladwyr Llongau

Prydain (o fewn ystyr adran 1159 o Ddeddf Cwmnïau 2006)

BRB (Residuary) Limited

Comisiwn Trefnu a Gorfodi Cynhaliaeth Plant

Comisiwn Cymunedau Gwledig

Y Pwyllgor ar Brisio Amaethyddol (y corff a sefydlwyd o dan adran 92 o

Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986)

Y Gwasanaeth Cystadlu

Byrddau Llysoedd

Pwyllgor Rheolau Llys y Goron

Bwrdd Cyngori Lwfans Byw i'r Anabl

Y Pwyllgor Ymgynghorol ar Gludiant Pobl Anabl

Pwyllgorau Ymgynghorol Gwarchod yr Amgylchedd a sefydlwyd o dan adran

12 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 ac eithrio'r un a sefydlwyd yn unol ag is-

adran (6) o'r adran honno (Cymru)

Bwyd o Brydain

Y Pwyllgor Cyngori ar Goed Cartref

Y Cyngor Cynghori ar Ddyfrffyrdd Mewndirol

Arolygiaeth Gweinyddiaeth Llysoedd Ei Mawrhydi

Cyngor Cynghori Llyfrgelloedd Lloegr

Pwyllgor Rheolau Llysoedd Ynadon (sefydlwyd o dan adran 144 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980)

Y Cyngor Defnyddwyr Cenedlaethol (“Llais Defnyddwyr”)

Y Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg a’r Celfyddydau.

Tribiwnlys Amrywogaethau a Hadau Planhigion

Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus

Pwyllgor Treftadaeth Rheilffyrdd

Pwyllgorau cynghori rhanbarthol a lleol ar bysgodfeydd a sefydlwyd o dan adran 13 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 ac eithrio’r un a sefydlwyd yn unol ag is-adran (5) o’r adran honno (Cymru)

Cofrestrydd Hawl Benthg i’r Cyhoedd

Awdurdod Diogelwch Meysydd Chwaraeon

Gwasanaeth Tribiwnlys Prisio

Panel Cynghori Dioddefwyr.

Eitem 5

Llywodraeth Cymru

Canllawiau Statudol i Awdurdodau Rheoli Perygl

Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010

**Adran 13(1) – Cydweithredu a threfniadau
Adran 14 – Pŵer i ofyn am wybodaeth**

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag Adran 8(6)
o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010

Cynnwys

1. Cyflwyniad	3
Canllawiau ar gyfer pwy?	3
Diben	3
Cefndir – Gweithio mewn Partneriaeth a Rheoli'r Perygl o Llifogydd yng Nghymru	4
Y sylfaen ddeddfwriaethol.....	5
2 Cydweithredu a threfniadau: Adran 13(1)	7
Pwy sy'n awdurdodau perthnasol?	7
Beth yw'r swyddogaethau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol?.....	7
Nodau cydweithredu	7
Manteision cydweithredu	8
Rhannu gwybodaeth ac adnoddau	8
Diwallu anghenion lleol	9
3 Pŵer i ofyn am wybodaeth: Adran 14	11
I bwy y mae Adran 14 yn berthnasol?.....	11
Cosbau Sifil ac Apelau.....	11
Beth yw gwybodaeth?.....	12
Sut i ofyn am wybodaeth o dan Adran 14	12
4 Egwyddorion cyffredinol ceisiadau am wybodaeth	13
Ceisiadau gan Awdurdodau Rheoli Perygl	13
Ceisiadau gan bersonau nad ydynt yn ARhP	16
5 Ystyriaethau cyfreithiol wrth ofyn am wybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth	17
Atodiad A – Awdurdodau Rheoli Perygl yng Nghymru	19
Atodiad B – Enghreifftiau o Swyddogaethau Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol	27

1. Cyflwyniad

Mae Rhan 1 yn nodi diben y canllawiau hyn, ac ar gyfer pwy y'u lluniwyd. Mae hefyd yn egluro'r cefndir ehangach a'r sylfaen ddeddfwriaethol.

Canllawiau ar gyfer pwy?

- 1.1 Bydd y canllawiau hyn yn berthnasol yn bennaf i'r Awdurdodau Rheoli Perygl¹ (ARhP), er y gallai cyrff ac unigolion eraill, gan gynnwys aelodau o'r cyhoedd fod â diddordeb ynddynt, yn enwedig os cânt eu gofyn, neu os oes tebygrwydd y cânt eu gofyn, am wybodaeth sydd ganddynt ynglŷn â swyddogaethau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

Diben

- 1.2 Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau statudol ar weithredu Adrannau 13(1) ac 14 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010² (y Ddeddf) yng Nghymru.
- 1.3 Diben y canllawiau yw rhoi cyngor i alluogi ARhP i gydweithio'n adeiladol i reoli'r perygl o lifogydd ac erydu arfordirol. Fe'u lluniwyd hefyd i sicrhau bod ceisiadau am wybodaeth, pan gânt eu cyflwyno, yn cael eu cyflwyno mewn ffordd briodol.
- 1.4 Mae cydweithredu rhwng ARhP yn bwysig oherwydd y cydfanteision a all ddeillio o gydweithio a rhannu gwybodaeth. Gall achosion llifogydd ac erydu arfordirol groesi ffiniau sefydliadol a chyfrifoldebau. Bydd atebion arloesol, cydgysylltiedig a chynaliadwy yn tarddu o barodrwydd i gydweithredu ac o bartneriaethau gweithredol rhwng ARhP, tîrfeddianwyr preifat, busnesau, Awdurdodau Cynllunio Lleol a chymunedau yr effeithir arnynt.
- 1.5 Dylid eu darllen ar y cyd â'r cyngor Anstatudol ar Rannu Gwybodaeth³ a gyhoeddwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd, sy'n rhoi cyngor 'arfer da' ar rannu gwybodaeth rhwng ARhP ac a baratowyd drwy ymgynghori â phartneriaid allweddol. Bydd y canllawiau anstatudol hyn yn adeiladu ar yr egwyddorion a geir yn y ddogfen hon ac maent yn cynnwys gwybodaeth megis astudiaethau achos, cytundebau enghreifftiol a safonau data.

¹ Diffinnir Awdurdodau Rheoli Perygl yn Neddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Mae Awdurdodau Rheoli Perygl Cymru yn cynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd, Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol, Byrddau Draenio Mewnol sydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, awdurdodau priffyrdd a chwmnïau dŵr sy'n arfer swyddogaethau mewn perthynas ag ardaloedd yng Nghymru (gweler Atodiad A am restr o ARhP yng Nghymru).

² <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/29/contents>

³ [Angen dolen at ganllawiau Asiantaeth yr Amgylchedd](#)

- 1.6 Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi Pecyn Cymorth ar gyfer Ymgysylltu â Chymunedau ynghylch Rheoli'r Perygl o Lifogydd⁴, sy'n seiliedig ar wersi a ddysgwyd o ymchwil i elfennau 'gweithio mewn partneriaeth' ac 'ymgysylltu â chymunedau' y tair Astudiaeth Beilot a gyflawnwyd yn y Barri, Prestatyn a Phwllheli a sampl o'n rhaglen o gynlluniau a gefnogir gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop⁵ (ERDF). Nod y Pecyn Cymorth yw helpu'r rhai sy'n gyfrifol am gynlluniau rheoli perygl llifogydd neu'r rhai sydd o bosibl yn gysylltiedig â gweithgarwch ehangach i reoli'r perygl o lifogydd; a darparu canllawiau ar sut i fynd ati i ymgysylltu â chymunedau ac i weithio mewn partneriaeth.
- 1.7 Mae'r adroddiad sy'n cyflwyno canfyddiadau'r ymchwil hon⁶ ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r adroddiadau ar y tair Astudiaeth Beilot⁷. Mae'r gwersi a ddysgwyd o'r adroddiadau yn sylfaen i'r canllawiau hyn.
- 1.8 Y Pecyn Cymorth yw'r cam cyntaf at ddarparu canllawiau i helpu ARhP i ymgysylltu â chymunedau.

Cefndir – Gweithio mewn Partneriaeth a Rheoli'r Perygl o Lifogydd yng Nghymru

- 1.9 Yn 2007 lansiodd Llywodraeth Cymru y Rhaglen Dulliau Newydd⁸, er mwyn helpu i bellhau oddi wrth yr ymagwedd draddodiadol at lifogydd ac erydu arfordirol a'i phwyslais ar amddiffyn, a symud tuag at ymagwedd fwy cyfannol o reoli perygl. Nodwyd y byddai gwaith partneriaeth cryf a chyfathrebu yn allweddol i wireddu ymagwedd at lifogydd ac erydu arfordirol sy'n seiliedig ar reoli perygl, a thanlinellwyd hynny yn y Rhaglen Dulliau Newydd.
- 1.10 I ategu'r egwyddorion hynny, lansiodd Llywodraeth Cymru dair astudiaeth beilot ar liniaru llifogydd yn y Barri, Prestatyn a Phwllheli. Roedd y prosiectau i gyd yn ymchwilio i ffyrdd newydd o weithio, gan gynnwys gwaith partneriaeth cryf ac ymgysylltu â'r cyhoedd ar faterion perygl llifogydd. Cymhwyswyd yr un egwyddorion at yr amodau sy'n gysylltiedig â darparu cyllid cyfalaf ar gyfer rhaglenni a gefnogir gan yr ERDF o dan y rhaglenni Cydgyfeirio a Chystadleurwydd Rhanbarthol.
- 1.11 Yn ôl y gwerthusiad o'r astudiaethau peilot a'r sampl o raglenni a gefnogir gan yr ERDF, ystyrid bod gweithio mewn partneriaeth yn beth da. Yn

⁴<http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epg/waterflooding/flooding/communities/toolkit/?lang=cy>

⁵ Bydd y rhaglen a ariennir gan Ewrop yn cefnogi 28 prosiect sy'n mynd i'r afael â pherygl o lifogydd. Ei nod yw lleihau'r perygl o lifogydd ar gyfer o leiaf 2,700 o bobl yng Nghymru dros chwe blynedd. Mae'r Rhaglen yn derbyn cyllid gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) -

<http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epg/waterflooding/flooding/convergence/?lang=cy>

⁶<http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epg/waterflooding/flooding/communities/toolkit/?skip=1&lang=cy>

⁷ Adroddiadau Peilot -

<http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epg/waterflooding/flooding/studies/pilotstudies/?lang=cy>

⁸ Mae'r Rhaglen Dulliau Newydd bellach wedi cau ond rhoddir yr egwyddorion ar waith drwy'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru. Mae copi o'r adroddiad terfynu ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru -

<http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epg/waterflooding/flooding/studies/newapproaches/?lang=cy>

gyffredinol, roedd yr aelodau i gyd yn meddwl bod y syniad o gyrff yn gweithio mewn partneriaeth i reoli perygl llifogydd yn dda ac yn llwyddiannus. Er bod y mwyafrif yn cytuno bod meysydd i'w gwella, credid bod gweithio mewn partneriaeth yn cryfhau cynlluniau, am fod y gyrff i gyd yn gweithio tuag at yr un nod.

- 1.12 Yn fuan ar ôl lansio'r Rhaglen Dulliau Newydd, cafwyd cyfnod o law trwm yn y DU a arweiniodd at lifogydd difethol haf 2007. Er i Gymru osgoi'r gwaethaf o lifogydd 2007, effeithiwyd yn fawr ar Lloegr a gofynnodd Llywodraeth y DU i Syr Michael Pitt gynnal adolygiad o'r llifogydd yn Lloegr.
- 1.13 Nododd Adolygiad Pitt y dylai'r asiantaethau sy'n gyfrifol am reoli perygl llifogydd fod yn barod i gydweithio a rhannu gwybodaeth, ac er ei fod yn ymwneud yn bennaf â pherygl llifogydd yn Lloegr, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddysgu gwersi'r Adolygiad i gydnabod y peryglon o lifogydd ar draws Cymru.
- 1.14 Ar sail canfyddiadau Adolygiad Pitt, ymgynghorodd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar gynigion i newid y polisïau a'r ddeddfwriaeth sy'n sylfaen i'n hymateb i'r perygl o lifogydd ac erydu arfordirol.
- 1.15 Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (y Ddeddf) a ddeilliodd o hynny yn nodi cyfrifoldebau newydd ar gyfer ARhP llifogydd ac erydu arfordirol. Yn bwysig, mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd statudol ar bob awdurdod perthnasol i gydweithredu (gweler paragraff 2.2).
- 1.16 Mae Adran 14 o'r Ddeddf hefyd yn rhoi pŵer i Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol (ALILIA)⁹ ac Asiantaeth yr Amgylchedd ofyn am wybodaeth gan bartïon eraill ('personau' yn y Ddeddf) ynglŷn â'u swyddogaethau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol¹⁰. Mae Adran 14 hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ofyn am wybodaeth mewn perthynas â'u dyletswydd i ddatblygu, cynnal a gweithredu Strategaeth Genedlaethol ar gyfer rheoli'r perygl o lifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru.

Y sylfaen ddeddfwriaethol

- 1.17 O dan Adran 8 o'r Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru wedi datblygu Strategaeth Genedlaethol ar gyfer rheoli'r perygl o lifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru. Mae'r strategaeth hon yn darparu fframwaith ar gyfer rheoli'r perygl o lifogydd ac erydu arfordirol yn genedlaethol. Mae'n

⁹ Yng Nghymru, Cyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol yw'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol. Mae'r holl Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol.

¹⁰ Diffinnir y swyddogaethau rheoli perygl llifogydd yn Adran 4 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 ac maent yn cynnwys rhai swyddogaethau penodol o dan y Ddeddf honno, Deddf Adnoddau Dŵr 1991, Deddf Draenio Tir 1991 a Deddf Priffyrdd 1980. Maent hefyd yn cynnwys swyddogaethau o dan Reoliadau Perygl Llifogydd 2009; ychwanegwyd y rhain at y diffiniad o swyddogaethau rheoli perygl llifogydd gan Orchymyn Swyddogaethau Rheoli Perygl Llifogydd 2010.

Diffinnir y swyddogaethau rheoli perygl erydu arfordirol yn Adran 5 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 ac maent yn cynnwys swyddogaethau penodol o dan y Ddeddf honno a Deddf Amddiffyn y Glannau 1949.

amlinellu amcanion cenedlaethol i reoli pob math o berygl llifogydd ac erydu arfordirol a sut i'w cyflawni. Mae copi o'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru¹¹.

- 1.18 Mae Adran 8(5) o'r Ddeddf yn nodi y gall Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar ddefnyddio'r Strategaeth Genedlaethol. Mae hyn yn fater sy'n cael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi y gall Gweinidogion Cymru, yn unol ag Adran 8(6), gyhoeddi canllawiau ar sut y dylai ARhP Cymru gydymffurfio â dyletswyddau'n ymwneud â chydweithredu a cheisiadau am wybodaeth o dan Adrannau 13(1) ac 14.
- 1.19 Mae Adran 10 o'r Ddeddf yn nodi bod gan ALLIA ddyletswydd i ddatblygu, gweithredu a chynnal Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd ar gyfer eu hardaloedd. Rhaid i Strategaethau Lleol fod yn gyson â'r Strategaeth Genedlaethol. Bydd cydweithio a chyfnwid gwybodaeth yn hanfodol i ddatblygu a gweithredu'r Strategaethau Cenedlaethol a Lleol.
- 1.20 Mae'n ofynnol i'r holl ARhP weithredu mewn ffordd sy'n gyson â'r Strategaeth Genedlaethol a'r Strategaethau Lleol. Yr unig eithriad i hyn yw cwmnïau dŵr y mae'n rhaid iddynt weithredu mewn ffordd sy'n gyson â'r Strategaeth Genedlaethol ond sydd ond yn gorfod rhoi sylw i'r Strategaethau Lleol.

¹¹<http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epg/waterflooding/flooding/nationalstrategy/strategy/?jsessionid=nYwWPPVKFlsqyyrfX6qp62VWh2JsMSyWnXXLfKq9PdkvB9CRyCl!1935070368?lang=cv>

2 Cydweithredu a threfniadau: Adran 13(1)

Mae Rhan 2 yn nodi'r awdurdodau y mae angen iddynt gydweithredu o dan Adran 13(1), y rolau a gyflawnir ganddynt o ran rheoli'r perygl o lifogydd ac erydu arfordirol, a manteision cydweithredu a rhannu gwybodaeth.

- 2.1 Mae Adran 13(1) o'r Ddeddf yn nodi bod yn rhaid i awdurdod perthnasol gydweithredu ag awdurdodau perthnasol eraill wrth arfer ei swyddogaethau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

Pwy sy'n awdurdodau perthnasol?

- 2.2 Yng Nghymru, mae awdurdodau perthnasol yn golygu Gweinidogion Cymru a'r ARhP, sy'n cynnwys:
- (a) Asiantaeth yr Amgylchedd;
 - (b) awdurdodau llifogydd lleol arweiniol ar gyfer ardaloedd sydd yn gyfan gwbl yng Nghymru;
 - (c) byrddau draenio mewnol ar gyfer ardaloedd sydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru;
 - (ch) cwmnïau dŵr sy'n arfer swyddogaethau mewn perthynas ag ardaloedd yng Nghymru;
 - (d) awdurdodau priffyrdd ar gyfer ardaloedd sydd yn gyfan gwbl yng Nghymru.

Gweler **Atodiad A** am y rhestr lawn o ARhP yng Nghymru.

Beth yw'r swyddogaethau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol?

- 2.3 Diffinnir y swyddogaethau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn gyfreithiol yn Neddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (Adrannau 4 a 5). Mae sawl Deddf Seneddol flaenorol yn dal mewn grym neu wedi'u haddasu gan y Ddeddf a chan Orchymyn Swyddogaethau Rheoli Perygl Llifogydd 2010¹². Ceir yn **Atodiad B** restr nad yw'n gyflawn o'r mathau o weithgareddau y gellid ymgymryd â hwy i gyflawni'r swyddogaethau. Felly, mae'r ddyletswydd newydd ar gyff i gydweithredu yn berthnasol i bob agwedd ar reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru.

Nodau cydweithredu

- 2.4 Nod y ddyletswydd i gydweithredu rhwng awdurdodau perthnasol yw sicrhau bod ymgysylltu adeiladol a gweithredol yn digwydd. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau ei bod yn ymgysylltu'n adeiladol â'r holl

¹² www.legislation.gov.uk/ukxi/2010/2232/contents/made

ARhP, a bydd yn disgwyl i ARhP wneud yr un peth. Mae cydweithredu yn hanfodol i helpu i adeiladu perthnasoedd lleol rhwng ARhP o fewn ac ar draws ffiniau gweithredu.

- 2.5 Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd ac ALILIA yn aml yn cymryd yr awenau o ran rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu ac yn cynnal Strategaeth Genedlaethol ac ALILIA yn datblygu ac yn cynnal Strategaethau Lleol. Mae'n hanfodol fod ARhP llifogydd ac erydu arfordirol eraill yn cynnig eu cymorth os yw'r Strategaethau hyn i esgor ar ganlyniadau effeithiol.
- 2.6 Bydd strategaethau lleol yn arbennig yn aml yn cynnwys rheoli gwahanol fathau o lifogydd. Bydd cydweithio, cydweithredu a deall amcanion yn helpu'r holl ARhP i ymrwymo i'r strategaethau lleol ac yn helpu i sicrhau'r canlyniadau a ddymunir.
- 2.7 Gall ARhP eraill (gan gynnwys cwmnïau dŵr a Byrddau Draenio Mewnol) hefyd chwarae rhan flaenllaw mewn achosion lle mae rheoli'r perygl o lifogydd ac erydu arfordirol yn canolbwyntio ar eu cyfrifoldebau.

Manteision cydweithredu

- 2.8 Mae cydweithredu yn golygu cyrff ac unigolion yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni canlyniadau mwy effeithiol nag y gallent eu cyflawni ar eu pennau eu hunain. Ategir hyn gan ganfyddiadau'r ymchwil a gynhaliwyd i'r cynlluniau peilot ac i sampl o gynlluniau a gefnogir gan y rhaglen ERDF yng Nghymru.
- 2.9 Mae cydweithredu yn seiliedig ar ymddiriedaeth, ar gyfathrebu da, ar rannu gwybodaeth ac adnoddau, ac ar well dealltwriaeth o'r cydfanteision a all ddeillio ohono.
- 2.10 Mae cydweithredu yn parchu buddiannau'r rhai dan sylw, ond mae hefyd yn hybu buddiannau ehangach y grŵp a'i randdeiliaid. Yn aml, bydd angen arweinyddiaeth glir i sefydlu'r nodau i ymgynhyrdd atynt, ond bydd cydweithredu yn hanfodol wedyn i gyflawni'r nodau hynny.

Rhannu gwybodaeth ac adnoddau

- 2.11 Gall gweithio mewn partneriaeth helpu i wella cydweithredu rhwng ARhP. At hynny, gall partneriaethau helpu awdurdodau i wella'u dealltwriaeth o reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn ehangach, ac i ddysgu mwy, er enghraifft, am arbenigedd cyrff sy'n bartneriaid. Bydd hyn yn eu galluogi i gydgyssylltu eu gwaith yn well er mwyn sicrhau manteision niferus. Lle na fydd un awdurdod yn gallu cyflawni ateb ar ei ben ei hun, efallai y bydd awdurdod arall yn gallu helpu. Er enghraifft, gallai awdurdod i fyny'r afon gyflawni gwaith mewn cytundeb¹³ ag awdurdod i lawr yr afon.

¹³ Nid oes cytundeb ffurfiol ar gyfer sefydlu partneriaethau. Dylid eu sefydlu yn ôl y ffeithiau penodol sy'n gysylltiedig â phob sefyllfa.

- 2.12 I reoli peryglon o lifogydd ac erydu arfordirol, mae'n hanfodol deall eu hachosion ac asesu atebion ymarferol. Mae'n fwy tebygol y bydd yr wybodaeth fwyaf perthnasol yn cael ei nodi pan fydd pawb dan sylw yn amlwg yn deall amcanion a manteision posibl astudiaeth neu brosiect, ac yn cyfrannu gwybodaeth o'u gwirfodd i'w hategu. Dylai trafodaethau ynghylch amcanion ddigwydd yn gynnar yn y gwaith.
- 2.13 Dylai ARhP edrych tua'r dyfodol wrth gynllunio gwaith. Bydd hyn yn eu galluogi i rannu'n rhwydd yr wybodaeth a gasglant, ac yn eu helpu i gydweithio'n well. Bydd hyn yn ei dro yn fanteisiol i'r corff unigol, am y bydd yn cynyddu'r wybodaeth sydd ar gael iddo i wneud penderfyniadau. Er enghraifft, gall estyn gwaith casglu gwybodaeth neu arolygon ryw ychydig fod yn fanteisiol weithiau i feysydd gwaith eraill.
- 2.14 Mae partneriaethau yn ffordd dda o ffurfioli trefniadau cydweithredu a chydlaferio rhwng ARhP ac eraill. Gall dogfennau fel memoranda cydddealltwriaeth a phrotocolau rhannu gwybodaeth ategu'r trefniadau hyn er na ddylai protocolau o'r fath fynd yn rhy fiwrocraidd ac anodd eu gweinyddu. Mae enghreifftiau o waith partneriaeth effeithiol ar gael yng nghanllawiau anstatudol Asiantaeth yr Amgylchedd ac ym Mhecyn Cymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer Ymgysylltu â Chymunedau ynghylch Rheoli'r Perygl o Lifogydd.

Diwallu anghenion lleol

- 2.15 Mae angen sefydlu partneriaethau fel eu bod yn diwallu anghenion lleol yn y ffordd orau. Gallant fod yn strategol neu yn gysylltiedig â phrosiect penodol. Gallant adeiladu ar drefniadau cyfredol (fel fforymau cynaliadwyedd, fforymau lleol Cymru gydnerth, neu bartneriaethau arfordirol), ond rhaid cymryd i ystyriaeth unrhyw ehangu o ran y cylch gwaith. Gallant ymdrin ag ystod o weithgareddau i'w cyflawni cyn, yn ystod ac ar ôl llifogydd, megis rhannu gwybodaeth, ffyrdd o weithio, cyfathrebu, ymateb i ddigwyddiad, datblygu strategaeth, a dylunio gwaith newydd. Gall partneriaethau gael eu gweithredu hefyd drwy Adran 13(4) yn y Ddeddf. Mae hyn yn caniatáu i un awdurdod gyflawni swyddogaethau awdurdod arall, naill ai yn gyffredinol neu ar gyfer prosiect, lleoliad neu gyfnod penodol.
- 2.16 Dylai ARhP ystyried yr agweddau canlynol wrth sefydlu partneriaethau:
- rolau clir ar gyfer arweinwyr ac aelodau;
 - llywodraethu ac atebolrwydd am benderfyniadau;
 - amserlen y cytunwyd arni;
 - cynlluniau cyfathrebu ac ymgysylltu, a sefydlu cynulleidfa darged;
 - pa wybodaeth i'w rhannu, a sut i'w rhannu;
 - rhannu adnoddau, gan gynnwys nodi'n glir rolau staff a sut y bydd cyllid yn cael ei ddefnyddio;
 - cydgysylltu gwaith i sicrhau arbedion effeithlonrwydd;

- cadarnhau cyfreithlondeb cytundebau a gwaith a sefydlir gan y bartneriaeth;
- sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol eraill yn ymdrin â chaffael, cynefinoedd *etc.*

2.17 Mae'r ddyletswydd i geisio a rhannu gwybodaeth wedi'i chynnwys yn Adran 13(2). O dan egwyddorion cydweithredu a phartneriaeth, disgwylir i ARhP gydymffurfio heb orfodaeth â'r dyletswyddau o dan Adran 13(1) a chyfnewid gwybodaeth a fydd yn helpu i reoli'r perygl o lifogydd ac erydu arfordirol heb godi tâl. Gall memoranda cyd-ddealltwriaeth neu gytundebau rhannu data ategu hyn.

D D R A F F E T

3 Pŵer i ofyn am wybodaeth: Adran 14

Mae Rhan 3 yn edrych ar yr awdurdodau sydd â'r pŵer i ofyn am wybodaeth, yn egluro'r hyn a olygir wrth y term gwybodaeth, ac yn nodi materion i'w hystyried cyn defnyddio'r pŵer.

I bwy y mae Adran 14 yn berthnasol?

- 3.1 Mae Adran 14(2) yn nodi'r awdurdodau a all ofyn i berson ddarparu gwybodaeth, fel Asiantaeth yr Amgylchedd ac ALILIA. Rhaid i'r wybodaeth y gofynnir amdani fod yn gysylltiedig â swyddogaeth rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol Asiantaeth yr Amgylchedd/ALILIA.
- 3.2 Gall Gweinidogion Cymru hefyd ofyn i berson ddarparu gwybodaeth ynghylch swyddogaeth yn gysylltiedig â'r Strategaeth Genedlaethol Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru.
- 3.3 Mae person yn golygu person cyfreithiol. Ystyr hynny yw unrhyw endid sydd â statws cyfreithiol ac mae'n cynnwys person naturiol, cwmni, ymddiriedolaeth neu gorff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdod rheoli perygl.
- 3.4 Ar bob adeg dylai'r awdurdodau sy'n cyflwyno ceisiadau weithredu'n rhesymol. Mater i gyfreithwyr yn y pen draw fyddai penderfynu a yw cais penodol yn rhesymol. Sut bynnag, dylai'r awdurdod gadw'r egwyddor hon mewn cof bob amser. Mae'r hyn sy'n rhesymol yn dibynnu ar fanylion yr achos penodol a gall amrywio, hyd yn oed mewn amgylchiadau sy'n ymddangos yn debyg.
- 3.5 Bydd cais a wneir o dan Adran 14 yn cychwyn proses y mae'n rhaid i'r person sy'n derbyn gydymffurfio â hi. Os na fydd yn cydymffurfio, dylai'r awdurdod (Asiantaeth yr Amgylchedd, ALILIA neu Weinidogion Cymru) egluro ymhellach eu pŵer i wneud y cais am wybodaeth o dan Adran 14. Dylent hefyd bwysleisio bod yn rhaid i'r wybodaeth gael ei darparu yn y ffurf neu'r ffordd ac o fewn y cyfnod a bennwyd yn y cais.

Cosbau Sifil ac Apelau

- 3.6 Mae Adran 15 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn bosibl i'r awdurdod (Asiantaeth yr Amgylchedd, ALILIA neu Weinidogion Cymru) gyflwyno hysbysiad gorfodi i berson os na fydd yn cydymffurfio â chais i ddarparu gwybodaeth. Os na chydymffurfir â'r hysbysiad hwn, gellir bwrw ymlaen â chosbau sifil. Mae'r cosbau sifil yn cynnwys hysbysiad cosb a dirwyon posibl.
- 3.7 Os caiff hysbysiad cosb ei gyflwyno i berson, neu ddirwy ei chodi arno, mae hawl i apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf¹⁴. Nodir hyn yn Rheoliadau Apelio ynghylch Gwybodaeth am Reoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (Cymru) 2011¹⁵.

¹⁴ Angen disgrifiad byr o'r THG.

¹⁵ www.legislation.gov.uk/wsi/2011/865/made.

Beth yw gwybodaeth?

3.8 Mae gwybodaeth yn golygu data, dogfennau, ffeithiau, cudd-wybodaeth neu gyngor ar unrhyw ffurf gofnodedig, a bwriedir (at ddibenion y canllawiau hyn) i'r term fod â'r un ystyr â 'dogfen' yn *Rheoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus 2005*¹⁶. Mae'n cynnwys:

- ffeiliau papur, nodiadau, adroddiadau a dogfennau copi caled eraill (mewn llawysgrifen neu wedi'u teipio);
- cofrestrau cyhoeddus;
- cronfeydd data, taenlenni;
- dogfennau electronig;
- negeseuon e-bost;
- darluniau a chynlluniau;
- ffotograffau, fideo neu ficroffilm;
- data a gwybodaeth, a all fod wedi'u cynnwys mewn neu gyda meddalwedd;
- methodolegau.

Sut i ofyn am wybodaeth o dan Adran 14

- 3.9 Pan fydd Asiantaeth yr Amgylchedd, ALILIA neu Weinidogion Cymru yn gofyn am wybodaeth dylent ddilyn yr egwyddorion ym mharagraff 4.1. Wrth wneud cais am wybodaeth dylai'r awdurdod sy'n gwneud y cais egluro:
- cyd-destun y cais,
 - sut y caiff yr wybodaeth ei defnyddio, ac
 - (i lefel sy'n briodol i'r derbynydd) amcanion cyffredinol gwaith yr awdurdod.

Er enghraifft, gall eglurhad manylach o'r rhesymau am gais fod yn fwy buddiol i aelod o'r cyhoedd nag i awdurdod arall. Mae canllawiau ar ffyrdd o ymgysylltu'n briodol â'r cyhoedd wedi'u cynnwys yn y Pecyn Cymorth ar gyfer Ymgysylltu â Chymunedau ynghylch Rheoli'r Perygl o Lifogydd.

- 3.10 Ni ellir codi tâl am geisiadau am wybodaeth o dan Adran 14, ac ni all y rhai a ofynnir adennill unrhyw gostau. Mae'r rhwymedigaeth o dan Adran 14 i ddarparu gwybodaeth yn ddiamod ac nid oes fel arfer eithriadau i hyn. Rhaid i awdurdodau ystyried bob tro a yw'n briodol gofyn am wybodaeth.
- 3.11 Disgwylir i'r holl awdurdodau rheoli llifogydd a pherygl ddilyn yr egwyddorion a nodir yn Rhan 4 isod wrth gyfnewid gwybodaeth, a chydweithredu â'i gilydd fel y nodir yn Adran 13 o'r Ddeddf. Mae Gweinidogion Cymru yn ymrwmo i ddilyn yr egwyddorion wrth wneud ceisiadau o'r fath. Nid oes gan bersonau eraill (gweler paragraff 3.1 isod) yr un dyletswyddau ac ni fydd ganddynt o reidrwydd yr un blaenoriaethau ag awdurdod rheoli perygl. Nodir ystyriaethau ychwanegol ar eu cyfer hwy ym mharagraff 4.2 isod.

¹⁶ www.legislation.gov.uk/ukxi/2005/1515/contents/made

4 Egwyddorion cyffredinol ceisiadau am wybodaeth

Mae Rhan 4 yn nodi egwyddorion da i'w dilyn wrth geisio gwybodaeth. Mae'n berthnasol i rannu gwybodaeth rhwng ARhP yn rhan o Adran 13 o'r Ddeddf, a lle y gwneir ceisiadau am wybodaeth o dan Adran 14.

Ceisiadau gan Awdurdodau Rheoli Perygl

4.1 Nodir yr egwyddorion canlynol i helpu i sicrhau bod ceisiadau am wybodaeth ac ymatebion gan ARhP yn rhesymol. Lle y gwneir cais am wybodaeth gan berson neu gorff nad yw'n ARhP, mae ystyriaethau ychwanegol wedi'u rhestru ym mharagraff 4.2 isod. Mae cysylltu o flaen llaw â'r rhai y gofynnir iddynt am wybodaeth yn fwy tebygol o arwain at geisiadau rhesymol.

Egwyddorion	Dylai'r awdurdod perthnasol sy'n gofyn	Dylai'r awdurdod perthnasol sy'n ymateb
1 – A yw'r wybodaeth gennyh eisoes?	Sicrhau bod pw y bynnag sy'n gofyn am wybodaeth yn gallu cadarnhau nad yw'r data ganddynt eisoes yn eu sefydliad.	Amherthnasol
2 – Ceisiadau ysgrifenedig ac argyfyngau	Sicrhau bod pob cais llafar am gydweithrediad neu wybodaeth yn cael ei gadarnhau yn ysgrifenedig (e-bost yn ddigon), fel bod y cais yn glir; Nodi a yw'r cais yn cael ei wneud yn ystod argyfwng go iawn, ac na fydd ceisiadau ysgrifenedig bob amser yn bosibl; Anfon cadarnhad pan fydd yr argyfwng ar ben.	Gofyn i bob cais llafar am gydweithrediad gael ei gadarnhau yn ysgrifenedig (e-bost yn ddigon), fel bod y cais yn glir; Derbyn na fydd ceisiadau ysgrifenedig bob amser yn bosibl mewn cyfnodau o argyfwng go iawn.
3 – Rhesymau am y cais a chydabod	Egluro mewn ffordd annhechnegol pam y mae'n gofyn am yr wybodaeth a sut y caiff ei defnyddio yng nghyd-destun ei swyddogaethau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol cyffredinol; Cynnwys, lle y bo'n	Cydnabod derbyn y cais a rhoi gwybod cyn gynted ag y bo'n ymarferol: <ul style="list-style-type: none"> • am unrhyw orgyffwrdd â gwaith arall; • am unrhyw broblemau a cheisio esboniad pellach, os oes angen; • pa wybodaeth sy'n debygol o

	<p>berthnasol, gyfeiriad at unrhyw ddeddfwriaeth y mae'r cais yn gysylltiedig â hi;</p> <p>Nodi y bydd yr wybodaeth ond yn cael ei defnyddio ar gyfer swyddogaethau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol penodol;</p> <p>Sicrhau mai dim ond at ddibenion o fewn y cylch gwaith rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol y bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio.</p>	<p>gael ei darparu;</p> <ul style="list-style-type: none"> • pryd y bydd ymateb llawn ar gael; • os nad yw'r wybodaeth hon ganddynt neu os nad ydynt yn meddwl eu bod yn gallu ei darparu am resymau cyfreithiol; • nodi ffynonellau posibl eraill ar ei chyfer, os dyna'r sefyllfa.
<p>4 – Union fanylion y cais am wybodaeth</p>	<p>Trafod â'r awdurdod neu'r person sy'n ymateb union faint, ansawdd a fformat yr wybodaeth sydd ei hangen cyn gofyn amdani, i sicrhau bod yn cais yn rhesymol.</p> <p>Ystyried a rhestru union ffurf a fformat yr wybodaeth y gofynnir amdani, gan osgoi ceisiadau cyffredinol am yr holl ddata.</p> <p>Penderfynu a ddylid bwrw ymlaen a chadarnhau'r cais neu ddileu'r cais.</p> <p>Asesu a yw'r wybodaeth a dderbynnir yn addas i'r diben cyn ei defnyddio.</p> <p>Cyn defnyddio gwybodaeth, rhoi sylw i unrhyw amodau trwydded, cyfyngiadau <i>etc.</i></p>	<p>Darparu'r wybodaeth benodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yn unol â'r cais, lle y gallant, ar ôl cadarnhau nad ydynt eisoes wedi darparu'r wybodaeth; • yn y fformat y gofynnwyd amdano lle y'i cedwir yn y fformat hwnnw neu lle y gellir ei newid heb achosi llwyth afresymol o waith; • egluro'n gynnar os oes unrhyw broblemau ynglŷn â darparu'r wybodaeth, er enghraifft os drafft ydyw sy'n debygol o gael ei newid, neu os nad yw newidiadau fformat yn ymarferol; • egluro a oes unrhyw faterion ynghylch hawliau neu gyfrinacheddau trydydd parti a all effeithio ar ddarparu'r wybodaeth; • egluro am faint y bydd yr wybodaeth yn parhau'n ddilys ac amllder unrhyw ddiweddariadau; • egluro unrhyw gyfyngiadau ar ddefnyddio'r data, megis eiddo deallusol, y Ddeddf Diogelu

		Data, ac addaswydd i'r diben.
5 Nodi cyngor penodol	Nodi cyngor penodol y gellid gofyn amdano ar bwnc, neu ynghylch defnyddio'r data a geisir. Wrth geisio cyngor, sicrhewch fod hyn yn canolbwyntio ar y prif feysydd o ddiddordeb.	Rhoi'r cyngor ac egluro'n gynnar os oes problemau, ar ôl cadarnhau nad ydynt eisoes wedi rhoi'r cyngor yn rhywle arall.
6 Amserlenni	<p>Gofyn am wybodaeth o fewn amserlenni rhesymol, a fydd yn dibynnu ar natur ac amgylchiadau'r cais, a'r awdurdod neu'r person sy'n ymateb;</p> <p>Rhestru ac egluro sail yr amserlenni;</p> <p>Dylid ystyried bod rhesymol yn golygu'r un peth ag o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (Adran 5(2)). Mae hyn fel arfer yn caniatáu uchafswm o 20 diwrnod gwaith i ddarparu'r ymateb;</p> <p>Yn ystod cyfnodau o argyfwng go iawn, ceisio cydweithrediad cyn gynted â phosibl i ddiwallu anghenion.</p>	<p>Cydweithredu o fewn amserlenni rhesymol, a fydd yn dibynnu ar natur ac amgylchiadau'r cais;</p> <p>Yn ystod cyfnodau o argyfwng go iawn, dylai'r awdurdod gydweithredu cyn gynted â phosibl i ddiwallu anghenion;</p> <p>Egluro'n gynnar os oes unrhyw broblemau o ran eu diwallu.</p>
7 – Camau nesaf	Egluro beth fydd yn digwydd nesaf a ble, a phryd y bydd cais am ragor o gydweithredu yn debygol o gael ei wneud.	Codi unrhyw faterion ynghylch cynlluniau i ddefnyddio'r wybodaeth yn y dyfodol a thynnu sylw at gyfleoedd posibl i gydweithredu mewn gwaith yn y dyfodol.
8 – Mwy o wybodaeth ac eglurder y cais	Rhoi mwy o fanylion, os gofynnir amdanynt.	Gofyn am fwy o fanylion er mwyn deall y cais cyn gynted â phosibl.
9 – Cwrdd yn bersonol i drafod y cais	Cwrdd a thrafod (yn rhithwir neu yn bersonol) i roi esboniad pellach, os gofynnir am hynny, o fewn amserlen resymol.	Bod yn barod i gwrdd a thrafod (yn rhithwir neu yn bersonol), os gofynnir am hynny, o fewn amserlen resymol.

Ceisiadau gan bersonau nad ydynt yn ARhP

4.2 Mae'r ystyriaethau ychwanegol canlynol yn berthnasol wrth ofyn am wybodaeth gan bersonau neu gyrff nad ydynt yn ARhP:

Egwyddor 2 (Ceisiadau Ysgrifenedig) – dylai cais:

- a) cael ei wneud drwy lythyr neu o gyfrif e-bost swyddogol o fewn yr awdurdod, i gadarnhau ei ddilysrwydd;
- b) egluro bod yr awdurdod yn gallu gofyn am yr wybodaeth o dan y Ddeddf, a'i bod yn ymwneud â'i swyddogaethau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol;
- c) nodi'n glir fod y cais yn cael ei wneud o dan Adran 14, gan ddefnyddio geiriau fel 'Mae'r awdurdod hwn / Yr wyf yn ceisio gwybodaeth o dan Adran 14 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010';
- ch) cynnwys gwybodaeth ategol fel cefndir i (b) ac (c) drwy gyfeirio at y Ddeddf, y canllawiau hyn, neu esboniadau a baratowyd o flaen llaw.

Egwyddor 2 (Ceisiadau Ysgrifenedig) – mae angen i amserlenni ar gyfer ceisiadau a wneir mewn argyfwng gydnabod y posibilrwydd nad oes gan y person y'i cyflwynir iddo rôl argyfyngau, neu'r posibilrwydd fod y person ei hun yn delio ag argyfwng.

Egwyddor 6 (Amserlenni) – bydd amserlenni rhesymol yn dibynnu ar faint o wybodaeth a'r math o wybodaeth a geisir. Dylai amserlenni ystyried y posibilrwydd nad yw'r wybodaeth yn cael ei chadw yn y ffurf a geisiwyd. Mae angen iddynt hefyd ystyried anghenion busnes neu anghenion eraill y person y cyflwynir y cais iddo.

5 Ystyriaethau cyfreithiol wrth ofyn am wybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth

Rhan 5: Mae'r rhan hon yn rhoi sylw i rai o'r darpariaethau cyfreithiol cyffredinol eraill ynghylch ceisio a darparu gwybodaeth.

- 5.1 Mae ceisiadau am wybodaeth neu ymatebion yn ddarostyngedig i egwyddorion cyffredinol cyfraith gwybodaeth. Rhaid i bawb dan sylw gadw at hyn. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, dylid ceisio cyngor cyfreithiol penodol. Nid yw'r canllawiau hyn yn ddatganiad diffiniol o gyfraith gwybodaeth, ond dylech ystyried y canlynol wrth geisio gwybodaeth gan eraill.
- 5.2 Dim ond ar gyfer swyddogaethau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol y dylid defnyddio unrhyw wybodaeth a ddarperir o dan Adran 13(1) neu 14. Os bydd dymuniad, neu angen, i ddefnyddio'r wybodaeth at ddibenion eraill dylid fel arfer ymgynghori â'r person sy'n darparu'r wybodaeth, oni bai fod y person sy'n darparu'r wybodaeth yn caniatáu yn ddiamwys (yn ysgrifenedig) iddi gael ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau eraill.
- 5.3 Gall gwybodaeth a geisir o dan Adran 13(1) neu 14 sydd wedi'i rhestru'n ddata personol, fel y nodir yn Neddf Diogelu Data 1998 (DDD), gael ei chadw'n ôl yn gyfreithlon, pe byddai rhannu'r wybodaeth honno yn torri'r DDD. Mewn achos o'r fath, fodd bynnag, gellir diwygio gwybodaeth drwy ei dadpersonoli er mwyn ei darparu heb dorri'r DDD. Nid yw'n gyfiawnhad dros wrthod darparu unrhyw beth pan ofynnir.
- 5.4 Dylai'r awdurdod neu'r person sy'n ymateb nodi pa gyfyngiadau neu bethau sensitif sydd yn yr wybodaeth pan gaiff ei darparu. Mae hyn yn cynnwys metadata (gwybodaeth ynghylch natur set ddata) sy'n gysylltiedig â data manwl y mae'n rhaid iddynt gynnwys cyfnod defnyddio'r wybodaeth ac amllder unrhyw ddiweddariadau. Dylent hysbysu'r person sy'n derbyn yr wybodaeth am unrhyw broblemau o ran ansawdd data, ei haddasrwydd i'r diben a materion cysylltiedig eraill; er enghraifft, a yw data ond yn ddilys am gyfnod penodol o amser ac a fyddant yn cael eu diweddaru yn y dyfodol. Os na ddarperir yr wybodaeth ategol hon, ni ddylai'r awdurdod sy'n gofyn am yr wybodaeth dybio nad oes cyfyngiadau ar eu defnyddio. Dylai'r materion hyn gael eu trafod a'u cadarnhau rhwng y ddau barti.
- 5.5 Efallai y bydd angen sicrwydd ar yr awdurdod neu'r person sy'n darparu'r wybodaeth na fydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio neu ei rhyddhau yn amhriodol, yn enwedig os yw'n sensitif. Efallai y byddant yn darparu'r wybodaeth o dan drwydded yn cynnwys telerau ac amodau defnyddio. Er enghraifft, amod sy'n rhoi cyfle i berchennog y data roi sylwadau ar wybodaeth cyn ei chyhoeddi.

- 5.6 O dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (RhGA)¹⁷, gellir gofyn i awdurdod cyhoeddus sy'n derbyn yr wybodaeth ddatgelu unrhyw wybodaeth a roddir iddynt. Yn yr un modd â deddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth, gellir eithrio peth gwybodaeth (megis data sy'n sensitif yn fasnachol) rhag cael ei rhyddhau o dan y RhGA. Sut bynnag, gall fod sefyllfaoedd lle y bydd rhwymedigaeth yn parhau i'w datgelu. Lle y caiff awdurdod cyhoeddus gais am unrhyw wybodaeth a rennir o dan Adran 13 neu 14, dylai'r awdurdod cyhoeddus hwnnw, fel arfer, ymgynghori â'r sawl a ddarparodd yr wybodaeth cyn i'r awdurdod cyhoeddus benderfynu a ddylid rhyddhau'r wybodaeth ai peidio.
- 5.7 Os yw'r wybodaeth yn cynnwys neu wedi defnyddio eiddo deallusol trydydd parti, dylai'r awdurdod neu'r person sy'n ymateb wirio a oes ganddynt yr hawl i'w darparu. Os nad yw hyn yn glir, dylai'r derbynydd holi'r ymatebydd a oes ganddo'r hawl i'w defnyddio.
- 5.8 Os bydd y ceisiadau am wybodaeth yn ymwneud â swyddogaethau rheoli perygl llifogydd sydd hefyd yn ddarostyngedig i Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, dylai pawb dan sylw fod yn ymwybodol o ofynion y Ddeddf honno. O dan Ddeddf 2004 a Rheoliadau Cynllunio wrth Gefn 2005, mae gan ymatebwyr Categori 1 a 2 ddyletswydd i rannu gwybodaeth ag ymatebwyr Categori 1 a 2 eraill. Mae hyn yn ofynnol er mwyn i'r ymatebwyr hynny gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl. Anogir rhannu gwybodaeth hefyd am ei fod yn arfer da. Y dybiaeth gyntaf yw y dylid rhannu pob gwybodaeth, ond efallai y bydd angen rheoli rhyddhau peth gwybodaeth, a gwybodaeth i rai cynulleidfaoedd.
- 5.9 Ni ellir rhannu pob gwybodaeth, a gall ymatebwyr Categori 1 a 2 hawlio eithriadau mewn rhai amgylchiadau (a pheidio, felly, â darparu gwybodaeth fel y gofynnwyd). Mae eithriadau o dan y Ddeddf hon a'r Rheoliadau yn ymwneud â gwybodaeth sensitif yn unig. Lle bo'r eithriadau'n gymwys, rhaid i ymatebydd Categori 1 neu 2 beidio â datgelu'r wybodaeth. Rhaid i ymatebydd Categori 1 neu 2 wrthod cydymffurfio â chais am wybodaeth os yw'r wybodaeth yn sensitif ac os oes ganddo le rhesymol i gredu y byddai cydymffurfio â'r cais yn peryglu'r wybodaeth honno. Os bydd ymatebydd Categori 1 neu 2 yn gwrthod datgelu gwybodaeth ar y sail hon, rhaid iddo roi rhesymau dros wneud hynny, oni bai fod yr wybodaeth yn sensitif oherwydd ei heffaith ar ddiogelwch gwladol. Dylid nodi, fodd bynnag, mai dim ond ar adegau prin y mae'r eithriad hwn yn debygol o fod ar gael, am na fydd yn gyffredinol unrhyw reswm cadarn dros ddisgwyl i wybodaeth gael ei throsglwyddo.
- 5.10 Mae pedwar math o wybodaeth sensitif, fel y'i diffinnir gan y Rheoliadau:
- gwybodaeth a all beryglu diogelwch gwladol
 - gwybodaeth a all beryglu diogelwch y cyhoedd
 - gwybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol
 - data personol

¹⁷ www.legislation.gov.uk/ukxi/2004/3391/contents/made

Atodiad A – Awdurdodau Rheoli Perygl yng Nghymru

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru

Corff Cyhoeddus a Noddir gan Lywodraeth Cymru yw'r Asiantaeth, a'i phrif nodau yw diogelu a gwella'r amgylchedd, a hyrwyddo datblygu cynaliadwy.

Prif Swyddfa Tŷ Cambria 29 Heol Casnewydd Caerdydd CF24 0TP	Swyddfa Ardal y De-orllewin Maes Newydd Llandarcy Castell-nedd Port Talbot SA10 6JQ
Swyddfa Ardal y De-ddwyrain Plas yr Afon Parc Busnes Llaneirwg Heol Fortran Llaneirwg Caerdydd CF3 0EY	Swyddfa Ardal y Gogledd Ffordd Penlan Parc Menai Bangor Gwynedd LL57 4DE
Rhif Ffôn: 08708 506506 E-bost: enquiries@environment-agency.gov.uk Gwefan: www.environment-agency.gov.uk	
Rhybuddion Llifogydd Rhif Ffôn: 0845 988 1188 (gwasanaeth 24 awr) Type Talk: 0845 602 6340	

Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol yng Nghymru

Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol (ALILIA) mewn perthynas ag ardal yng Nghymru yw naill ai:

- a) y cyngor sir ar gyfer yr ardal; neu
- b) y cyngor bwrdeistref sirol ar gyfer yr ardal.

Mae 22 o gynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru, sef:

<p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent</p> <p>Y Ganolfan Ddinesig Glynebwy Blaenau Gwent NP23 6XB</p> <p>Rhif ffôn: 01495 311556 Minicom: 01495 355959 Cyfeiriad e-bost: info@blaenau-gwent.gov.uk Gwefan: www.blaenau-gwent.gov.uk</p>	<p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr</p> <p>Swyddfeydd Dinesig Angel Street Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB</p> <p>Rhif ffôn: 01656 643643 Ffacs: 01656 668126 Cyfeiriad e-bost: talktous@bridgend.gov.uk Gwefan: www.bridgend.gov.uk</p>
<p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili</p> <p>Tŷ Penallta Parc Tredomen Ystrad Mynach Hengoed CF82 7PG</p> <p>Rhif ffôn: 01443 815 588 / 01495 226 622 Argyfwng y tu allan i oriau swyddfa: 01443 875 500 Ffôn testun: 01443 863 474 Cyfeiriad e-bost: info@caerphilly.gov.uk Gwefan: www.caerphilly.gov.uk</p>	<p>Cyngor Caerdydd</p> <p>Neuadd y Sir Glanfa'r Iwerydd Caerdydd CF10 4UW</p> <p>Rhif ffôn: (Cymraeg) 02920 872088 Rhif ffôn: (Saesneg) 02920 872087 Ffôn testun: 02920 872085 Ffacs: 029 2087 2086 Cyfeiriad e-bost: c2c@cardiff.gov.uk Gwefan: www.cardiff.gov.uk</p>
<p>Cyngor Sir Caerfyrddin</p> <p>Neuadd y Sir Caerfyrddin Sir Gaerfyrddin SA31 1JP</p> <p>Rhif ffôn: 01267 234 567 Cyfeiriad e-bost: direct@carmarthenshire.gov.uk Gwefan: www.carmarthenshire.gov.uk</p>	<p>Cyngor Sir Ceredigion</p> <p>Neuadd Cyngor Ceredigion Penmorfa Aberaeron Ceredigion SA46 0PA</p> <p>Rhif ffôn: 01545 570 881 Cyfeiriad e-bost: reception@ceredigion.gov.uk Gwefan: www.ceredigion.gov.uk</p>

<p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy</p> <p>Bodlondeb Conwy Gogledd Cymru LL32 8DU</p> <p>Rhif ffôn: 01492 574 000 Ffacs: 01492 592 114 Cyfeiriad e-bost: information@conwy.gov.uk Gwefan: www.conwy.gov.uk</p>	<p>Cyngor Sir Ddinbych</p> <p>Neuadd y Sir Ffordd Wynnstay Rhuthun Sir Ddinbych LL15 1YN</p> <p>Rhif ffôn: 01824 706 000 Canolfan gwasanaeth i gwsmeriaid: 01824 706 100 (Cymraeg), 01824 706 101 (Saesneg) Minicom: 01824 706170 Ffacs: 01824 706180 Cyfeiriad e-bost: customerservice@denbighshire.gov.uk Gwefan: www.denbighshire.gov.uk</p>
<p>Cyngor Sir y Fflint</p> <p>Neuadd y Sir Yr Wyddgrug Sir y Fflint CH7 6NB</p> <p>Rhif ffôn: 01352 752121 Cyfeiriad e-bost: info@flintshire.gov.uk Gwefan: www.flintshire.gov.uk</p>	<p>Cyngor Sir Gwynedd</p> <p>Swyddfeydd y Cyngor Stryd y Jêl Caernarfon Gwynedd LL55 1SH</p> <p>Rhif ffôn: 01766 771000 Ffacs: 01286 673 993 Gwefan: www.gwynedd.gov.uk</p>
<p>Cyngor Sir Ynys Môn</p> <p>Swyddfeydd y Cyngor Llangefni Ynys Môn LL77 7TW</p> <p>Rhif ffôn: 01248 750057 Gwefan: www.anglesey.gov.uk</p>	<p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful</p> <p>Y Ganolfan Ddinesig Stryd y Castell Merthyr Tudful CF47 8AN</p> <p>Rhif ffôn: 01685 725000 Cyfeiriad e-bost: customer.care@merthyr.gov.uk Gwefan: www.merthyr.gov.uk</p>
<p>Cyngor Sir Fynwy</p> <p>Neuadd y Sir Cwmbrân Gwent NP44 2XH</p> <p>Rhif ffôn: 01633 644644 Ffacs: 01633 644 666 Cyfeiriad e-bost: contact@monmouthshire.gov.uk Gwefan: www.monmouthshire.gov.uk</p>	<p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot</p> <p>Canolfan Ddinesig Port Talbot Port Talbot SA13 1PJ</p> <p>Rhif ffôn: (Cymraeg) 01639 686869 Rhif ffôn: (Saesneg) 01639 686868, Ffacs: 01639 763444 Cyfeiriad e-bost: fcs@npt.gov.uk Gwefan: www.neath-porttalbot.gov.uk</p>

<p>Cyngor Dinas Casnewydd</p> <p>Y Ganolfan Ddinesig Casnewydd De Cymru NP20 4UR</p> <p>Rhif ffôn: 01633 656656 Minicom: 01633 656657 Ffacs: 01633 244721 Cyfeiriad e-bost: info@newport.gov.uk Gwefan: www.newport.gov.uk</p>	<p>Cyngor Sir Penfro</p> <p>Neuadd y Sir Hwlfordd Sir Benfro SA61 1TP</p> <p>Canolfan gyswilt: 01437 764 551 Argyfwng y tu allan i oriau swyddfa: 0845 601 5522 Ffacs: 01437 775 303 Cyfeiriad e-bost: enquiries@pembrokeshire.gov.uk Gwefan: www.pembrokeshire.gov.uk</p>
<p>Cyngor Dinas a Sir Abertawe</p> <p>Y Ganolfan Ddinesig Heol Ystumllwynarth Abertawe SA1 3SN</p> <p>Rhif ffôn: 01792 636 000 Gwefan: www.swansea.gov.uk</p>	<p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen</p> <p>Y Ganolfan Ddinesig Pont-y-pŵl Torfaen NP4 6YB</p> <p>Rhif ffôn: 01495 762200 Ffacs: 01495 755513 Cyfeiriad e-bost: your.call@torfaen.gov.uk Gwefan: www.torfaen.gov.uk</p>
<p>Cyngor Sir Powys</p> <p>Neuadd y Sir Llandrindod Powys LD1 5LG</p> <p>Rhif ffôn ar gyfer ymholiadau cyffredinol: 0845 055 2155 Argyfwng y tu allan i oriau swyddfa: 0845 054 4847 Cyfeiriad e-bost: customer@powys.gov.uk Gwefan: www.powys.gov.uk</p>	<p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf</p> <p>Pencadlys The Pavilions Parc Cambrian Cwm Clydach Tonypany CF40 2XX</p> <p>Rhif ffôn ar gyfer ymholiadau cyffredinol: 01443 424000 Argyfwng y tu allan i oriau swyddfa: 01685 876 831 Gwefan: www.rhondda-cynon-taf.gov.uk</p>

<p>Cyngor Bro Morgannwg</p> <p>Swyddfeydd Dinesig Ffordd Holton Y Barri CF63 4RU</p> <p>Rhif ffôn: 01446 700111 Gwefan: www.valeofglamorgan.gov.uk</p>	<p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrexham</p> <p>Neuadd y Dref Wrexham LL11 1AY</p> <p>Rhif ffôn: 01978 292000 Minicom: 01978 292067 Cyfeiriad e-bost: webmaster@wrexham.gov.uk Gwefan: www.wrexham.gov.uk/</p>
---	---

D D R A F F E T

Byrddau Draenio Mewnol (BDM) yng Nghymru

Mae BDM, fel y cyfeirir ato yn Neddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, â'r un ystyr ag sydd iddo yn adran 1 o Ddeddf Draenio Tir 1991¹⁸.

Sefydlwyd BDM mewn ardaloedd lle mae angen arbennig am ddraenio er mwyn defnyddio'r tir at ddibenion amaethyddol a datblygu. Prif swyddogaeth BDM yw rheoli lefelau dŵr yn eu hardaloedd er mwyn lleihau'r perygl o lifogydd a chyflenwi dŵr (dyfrhau) i bobl, eiddo a thir. Mae gan BDM ddyletswydd i gadw golwg gyffredinol ar faterion yn ymwneud â draenio tir yn eu hardaloedd.

Mae llawer o'u gwaith yn ymwneud â rheoli lefelau dŵr drwy wella a chynnal afonydd, ffosydd draenio a gorsafoedd pwmpio at ddibenion cymdeithasol, amgylcheddol ac amaethyddol. Mae aelodaeth y BDM yn cynnwys aelodau etholedig sy'n cynrychioli meddianwyr y tir yn yr ardal ac aelodau a enwebir gan Awdurdodau Lleol i gynrychioli buddiannau lleol eraill.

Yng Nghymru, ceir tri BDM (rhestr isod) a cheir 11 o ardaloedd draenio eraill yn y Gogledd sy'n cael eu gweinyddu gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

<p>BDM Cil-y-coed a Gwastadeddau Gwynllŵg</p> <p>Pye Corner Broadstreet Common Trefonnen Casnewydd NP18 2BE</p> <p>Rhif ffôn: 01633 275922 Ffacs: 01633 281155 Gwefan: www.caldandwentidb.gov.uk E-bost: admin@caldandwentidb.gov.uk</p>	<p>BDM Rhannau Isaf Afon Gwy</p> <p>Pye Corner Broadstreet Common Trefonnen Casnewydd NP18 2BE</p> <p>Rhif ffôn: 01633 275922 Ffacs: 01633 281155 Gwefan: www.lowerwyeidb.org.uk E-bost: admin@caldandwentidb.gov.uk</p>
<p>BDM Powysland</p> <p>Fferm y Wern Burgedin Y Trallwng SY21 9LQ</p> <p>Rhif ffôn: 01691 650200 Gwefan: www.powyslandidb.org.uk E-bost: Gaw001@gmail.com</p>	

¹⁸ Adran 1 o Ddeddf Draenio Tir 1991, i'w gweld yn - www.legislation.gov.uk/ukpga/1991/59/section/1

Cwmnïau Dŵr yng Nghymru

Mae 'cwmni dŵr' yn golygu cwmni sydd â:

- phenodiad o dan Bennod 1 o Ran 2 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991¹⁹; neu
- drwydded o dan Bennod 1A o Ran 2 o'r Ddeddf honno.

<p>Dŵr Cymru - Welsh Water *</p> <p>Heol Pentwyn Ffos y Gerddinen Treharris CF46 6LY</p> <p>Rhif ffôn y brif swyddfa: 01443 452300 Gwasanaethau cwsmeriaid: 0800 052 0140 Gwefan: www.dwrcymru.co.uk</p>	<p>Cwmni Severn Trent Water Cyf.</p> <p>Cysylltiadau Cwsmeriaid Sherbourne House St Martin's Road, Finham Coventry CV3 6SD</p> <p>Ffôn: 024 7771 5000 Gwefan: www.stwater.co.uk</p>
<p>Dyffryn Dyfrdwy</p> <p>Packsaddle Ffordd Wrecsam, Rhostyllen Wrecsam LL14 4EH</p> <p>Rhif ffôn Gwasanaethau Cwsmeriaid: 01978 833200 Ffacs: 01978 846888 Llinell ollyngiadau: 0800 298 7112 Argyfwng: 01978 846946 E-bost: contact@deevalleygroup.com Gwefan: Dee Valley Group</p>	<p>Albion Water Limited</p> <p>78 High Street Harpenden Herts AL5 2SP</p> <p>Rhif ffôn: 01582 767720 Argyfyngau: 0800 917 5819 E-bost: info@albionwater.co.uk Gwefan: www.albionwater.co.uk</p>
<p>Scottish & Southern Water</p> <p>Scottish and Southern Energy ccc. Inveralmond House 200 Dunkeld Road Perth PH1 3AQ</p> <p>Rhif ffôn: 0845 744 4555 Gwefan: http://www.sse.com/Home/</p>	

* Yn ymdrin â'r rhan fwyaf o Gymru.

¹⁹ Deddf y Diwydiant Dŵr 1991, i'w gweld yn - www.legislation.gov.uk/ukpga/1991/56/contents

Awdurdod Priffyrdd

Mae i Awdurdod Priffyrdd yr un ystyr ag a roddir gan adran 1 o Ddeddf Priffyrdd 1980²⁰. Mae Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn gweithredu fel awdurdodau priffyrdd mewn cysylltiad â ffyrdd lleol²¹.

D D R A F F E T

²⁰ Deddf Priffyrdd 1980, i'w gweld yn - www.legislation.gov.uk/ukpga/1980/66

²¹ Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gefnffyrdd a thraffyrdd yng Nghymru.

Atodiad B – Enghreifftiau o Swyddogaethau Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol

Gweithgaredd	Enghraifft o Swyddogaeth Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol
Adeiladu	amddiffynfeydd rhag llifogydd neu erydu, draeniau mewn ffyrdd, carthffosydd.
Glanhau	cwlfertau, gyliau.
Cydweithredu	cydweithio a chydgysylltu gweithgareddau.
Datgomisiynu	cored, amddiffynfa rhag llifogydd, cronfa ddŵr.
Gwarchod	eiddo, tref, SoDdGA.
Cynllunio datblygiad	gan sicrhau bod datblygu'n digwydd heb waethygu'r perygl o lifogydd.
Carthu	cwrs dŵr.
Draenio	priffordd, datblygiad newydd.
Rhagweld	glawiad, llifogydd, ymchwydd llanw.
Gwella	ffyrdd, diogelwch adeileddau.
Hysbysu	darparu gwybodaeth neu ddata.
Ymchwilio	i gael gwybod pa awdurdod sydd â swyddogaethau perthnasol pan geir llifogydd ac a yw'r swyddogaethau hynny wedi'u harfer.
Cynnal	afonydd, adeileddau, systemau draenio, amddiffynfeydd môr.
Rheoli	strategaethau, astudiaethau, cynlluniau.
Mapio	llifogydd hanesyddol neu lifogydd a ragwelir.
Monitro	proffiliau traethau, llif afonydd, cyflwr asedau.
Cynllunio	strategaethau, astudiaethau, cynlluniau.
Amddiffyn	pobl, yr amgylchedd, seilwaith.
Adfer	ar ôl llifogydd.
Ailosod	gorchuddion draeniau, arwyddion diogelwch.
Adrodd	i'r llywodraeth.
Ymateb	i ddigwyddiad.
Goruchwyllo	gwaith ar safle, perygl llifogydd.
Arolygu	lefelau amddiffyn, lleoliadau asedau, hyd a lled llifogydd.
Rhybuddio	am lifogydd, cyfraddau erydu.

Explanatory Memorandum for the Information of Assembly Members

Statutory Guidance to Risk Management Authorities - Flood and Water Management Act 2010

The Flood and Water Management Act 2010 identified new responsibilities for organisations involved in flood risk management including the requirement on all relevant authorities to cooperate and share information.

Under Section 8 of the Act, the Welsh Ministers have developed a National Strategy for managing flood and coastal erosion risk in Wales. The strategy provides a framework for flood and coastal erosion risk management underpinned by national objectives.

Section 8(6) states that Welsh Ministers may in particular issue guidance about how Welsh Risk Management Authorities are to comply with co-operation and arrangements (Section 13(1)) and power to request information (Section 14) of the Act.

This guidance is issued under Section 8(6) of the Flood and Water Management Act 2010. Section 8(7) requires that the Welsh Ministers must lay any guidance in draft before the National Assembly for Wales; and it may not be issued if during the period of 40 days beginning with the date of laying (ignoring any periods for which the National Assembly is dissolved or is in recess for more than 4 days) the National Assembly resolves that it should not be issued (in that form).

Adroddiad Drafft y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

CLA150

Teitl: Canllawiau Statudol i Awdurdodau Rheoli Perygl - Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010

1. “Diben y canllawiau yw rhoi cyngor i alluogi Awdurdodau Rheoli Perygl i gydweithio’n adeiladol i reoli’r perygl o lifogydd ac erydu arfordirol. Fe’u lluniwyd hefyd i sicrhau bod ceisiadau am wybodaeth, pan gânt eu cyflwyno, yn cael eu cyflwyno mewn ffordd briodol.”
2. Ar 18 Mai 2012, gosodwyd y Canllawiau Statudol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ynghyd â Nodyn Esboniadol byr. Gall canllawiau statudol fod yn is-ddeddfwriaeth (neu beidio). Yn arferol, y prawf yw, a yw’r canllawiau’n ddeddfwriaethol eu natur. Mae’n ofynnol bod y personau (gan gynnwys cyrff cyhoeddus) y cyfeiriwyd y canllawiau atynt, yn rhoi ystyriaeth ddyladwy i ganllawiau o’r fath. Yn ymarferol, golyga hyn y dylai fod ganddynt reswm da iawn dros beidio â dilyn y canllawiau hynny. Rhaid bod modd defnyddio’r rheswm hwnnw i gyfiawnhau’r camau a fabwysiadwyd mewn unrhyw achosion adolygiad barnwrol.
3. Mae’r Canllawiau dan sylw yn ymwneud yn bennaf â threfniadau ymarferol, ac maent yn cynnwys gwybodaeth, fel manylion cyswllt yr awdurdodau perthnasol. Mae’n bosibl dadlau, felly, nad ydynt yn ddeddfwriaethol eu natur. Fodd bynnag, mae’r weithdrefn sy’n berthnasol iddynt yn ddeddfwriaethol iawn ei natur.

Pŵer galluogi

4. Y pŵer galluogi yw adran 8 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (“y Ddeddf”), is-adran (1) o’r adran sy’n darparu -

“The Welsh Ministers must develop, maintain and apply a strategy for flood and coastal erosion risk management in Wales (a “national flood and coastal erosion risk management strategy”).”

Yn y cyd-destun hwnnw, mae is-adran (6) o’r adran honno’n darparu’r canlynol -

“The Welsh Ministers may, in particular, issue guidance about how Welsh risk management authorities are to comply with the duties under sections 13(1) and 14.”

5. Mae Adran 13(1) yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau perthnasol gydweithredu ag awdurdodau perthnasol eraill wrth arfer eu

swyddogaethau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

Mae Adran 14 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd ac Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol ofyn am wybodaeth gan berson ynglŷn â'u swyddogaethau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

Mae'r canllawiau yn berthnasol i'r ddyletswydd i gydweithredu â cheisiadau am wybodaeth.

Y weithdrefn

6. Yr hyn sy'n gwneud y canllawiau hyn yn anghyffredin yw'r weithdrefn sy'n berthnasol iddynt. Mae'r weithdrefn honno wedi'i nodi yn adran 8(7) fel a ganlyn –

“The Welsh Ministers must lay any guidance in draft before the National Assembly for Wales; and it may not be issued if during the period of 40 days beginning with the date of laying (ignoring any periods for which the National Assembly is dissolved or is in recess for more than 4 days) the National Assembly resolves that it should not be issued (in that form).”

7. Nid yw canllawiau statudol yn ddarostyngedig i weithdrefn y Cynulliad fel arfer, ond yn yr achos hwn mae amrywiad ar y weithdrefn negyddol. Fel gydag achosion gweithdrefn negyddol, gall y canllawiau gael eu gwneud a dod i rym, oni bai fod y Cynulliad yn penderfynu yn groes i hyn o fewn cyfnod penodol. Fodd bynnag, yn achos offerynnau statudol a wneir o dan y weithdrefn negyddol, gwneir yr offerynnau cyn eu gosod fel arfer. Yn yr achos hwn, gosodir y canllawiau ar ffurf ddrafft, ac ni chânt eu gwneud tan ddiwedd y cyfnod penodedig. Felly, mae'r weithdrefn yn rhoi cwmpas ehangach ar gyfer craffu na gweithdrefn negyddol safonol.

Craffu

8. Os ystyrir y canllawiau, felly, fel is-ddeddfwriaeth na wnaed drwy offeryn statudol, caiff y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.7(i). Hyd yn oed os na chaiff ei ystyried yn y modd hwn, caiff y Pwyllgor gyflwyno adroddiad arno o hyd, fel mater deddfwriaethol cyffredinol o dan Reol Sefydlog 21.7(v). Byddai'n fater o'r fath yn rhinwedd y ffaith y caiff gweithdrefnau tebyg eu cynnig yn y Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) (“y Bil”) sydd gerbron y Cynulliad ar hyn o bryd. Mae Adran 33 o'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar wella ysgolion, ond yn ddarostyngedig i weithdrefn graffu a nodir yn adran 34 o'r Bil. Yn yr un modd, mae adran 39 o'r Bil yn nodi gweithdrefn i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod Statudol ar drefniadaeth ysgolion. Felly mae'r achos presennol yn rhoi cyfle i'r

Pwyllgor fynegi barn ynghylch a yw'r weithdrefn hon yn briodol, ac a yw, drwy rinwedd y weithdrefn honno, i'w hystyried fel is-ddeddfwriaeth at ddibenion y Cynulliad a'i Reolau Sefydlog.

Materion Technegol: Craffu

9. Er mwyn ei gofnodi, ni nodwyd unrhyw bwyntiau technegol a fyddai wedi bod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 21.2 pe bai hwn yn offeryn statudol.

Rhinweddau: Craffu

10. Yn yr un modd, ni nodwyd unrhyw bwyntiau rhinweddau a fyddai wedi bod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 21.3 pe bai hwn wedi bod yn offeryn statudol.

Tynnir sylw'r Cynulliad i'r mater hwn o dan Reol Sefydlog 21.7, oherwydd ei fod yn codi materion deddfwriaethol a gweithdrefnol sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

Y Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Mai 2012

Eitem 6

Rt Hon Elfyn Llwyd MP – Written Submission

Wales is undoubtedly maturing as a nation. As our means of policy shaping and law making develop and Cardiff Bay grows in confidence, the structure of our justice system must develop to encase it. It is remarkable to consider that Wales is the only country in the world that has a legislature, but no legal jurisdiction of its own.

Certainly, there are few practical impediments to addressing this discrepancy. Northern Ireland and Scotland, after all, operate successful systems without being tied to England, and Wales' General Counsel himself, Theodore Huckle QC, has insisted that separate jurisdictions can exist within the United Kingdom.

Indeed, it is arguable that debates surrounding the development of Wales as a jurisdiction have hitherto been impeded by the comparatively weak devolution settlement obtained by Wales, as compared with those of Northern Ireland and Scotland. But the burgeoning maturity of our justice system cannot be ignored. Truly, the fact that the Welsh Government is holding this consultation on a separate justice system for Wales is testament to how central – perhaps urgent – this debate is becoming.

In recent years, more and more people have joined the ranks of those experts and academics, among them Professor R Gwynedd Parry from the Institute of Hywel Dda, the solicitor Fflur Jones, Winston Roddick QC and His Honour Philip Richards, calling for a just and comprehensive legal system fit for the modern Wales.

Moreover, a comprehensive victory in the 2011 Referendum showed that the majority of Welsh voters believe that Cardiff, not Westminster, should be the home of the decisions which affect their day to day lives.

Much has been written about the gradual establishment of 'Legal Wales'. In 2007, the Wales and Chester Circuit was disbanded and Wales became a separate circuit, and both divisions of the Court of Appeal (criminal and civil), as well as the Administrative Court sit in Cardiff. There is now a Lord Chief Justice of England and Wales following Lord Bingham's decision to add 'Wales' to his title.

Already law applying in Wales is diverging from that of England. Lawyers who practice environmental, criminal, family and obviously administrative law must have a thorough knowledge of the corpus of Welsh law if they are to practice in Wales.

A question which must be addressed is whether a separate Welsh jurisdiction is a precondition of greater legislative powers for the Assembly, or whether this would be a product of enhanced powers. The Assembly must urgently tackle this issue.

This feeds in to the wider question of what is required in order to establish a separate jurisdiction. The criteria usually employed is that the jurisdiction should operate in a defined territory, that the jurisdiction should have a distinct body of law, and that it should be supported by its own court structure and legal institutions.

Since the Local Government Act 1972, Wales has been a defined territory. Wales also has a distinct and growing body of law (whether this is large enough is a debatable issue). In a sense, Wales already has its own jurisdiction, since laws passed by the Assembly pertain only to Wales. Although criminal law has yet to be devolved, any new Act passed by the Assembly may contain a new or amended criminal offence. Examples are fines imposed on shop owners who do not charge for plastic bags used, as well as those smoking in prohibited areas. But a separate courts structure to support this budding jurisdiction would undoubtedly facilitate the process.

I would agree with Fflur Jones who has argued that the Assembly should focus on establishing the minimum amount of distinctive Welsh jurisdiction which is compatible with transferring powers on the Scottish model. By this I mean that, if our aspiration is to move to the reserved powers model, the appropriate administrative systems must be established for Wales to be able to cope with those powers.

In order to do this, Schedule 7 of the Government of Wales Act 2006 should be amended to include the administration of justice. Further to this, an independent prosecution service should be set up in Wales, and Wales should assume responsibility for further administration of the courts. A Welsh Judicial Appointments Commission should be tasked with selecting the judiciary, magistrates and members of tribunals operating in Wales. In the longer term, and following a new Government of Wales Act, Wales should look towards devolving the Crime Prosecution Service; responsibilities for the probation service, prisons and policing; a separate social security system; a legal aid system administered on a Wales-only basis; and perhaps separate qualifications for a Welsh legal profession. A consensus will also have to be reached on whether appointment procedures for the judiciary should reflect the needs of what will be a more dualistic body of law.

In all of this, the Assembly would need to obtain additional financial provisions to cover the costs of the court system and the administration of justice.

The implications these developments could have for cross-border practitioners will be significant. Some have suggested that it might be attractive to develop a system similar to that which exists between lawyers in England, Wales and the Republic of Ireland, where the qualifications of each profession are mutually recognised, as opposed to the system operating in Scotland with the qualified lawyer transfer tests (QLTTs). But thought should also be given to the practicality of adopting the QLTT system in the event of separate qualifications developing.

But it is perhaps from Northern Ireland that Wales can learn most in respect to developing a separate legal jurisdiction. Alongside introducing major reform initiatives for specific programmes including the criminal legal aid system, prisons, youth justice and community safety, devolution has allowed the relevant departments and bodies in Northern Ireland to bring about a qualitative change in the justice system's relationship with the public it serves. Commitments have been given to improving the support of victims, tackling delay and developing better protection for older people.

The devolution of justice matters to the region has also a real impact on policy formation, allowing the government to consult with relevant organisations and stakeholders so that laws are drafted which meet the priorities of the local population. In the event of the devolution of the justice system to Wales, there would be a great need for engagement with the public and third sector when developing policy. The emergence of 'legal Wales' will have a holistic impact on the whole of society – not just the justice system itself.

Finally, when we consider that the justice system in Northern Ireland employs roughly 16,000 people, including police and prison officers, probation staff, youth justice and courts services, it is clear to see how the Welsh economy and jobs market could benefit from the establishment of a separate jurisdiction.

The fact that the Welsh Assembly is currently holding a consultation on the emergence of a separate Welsh jurisdiction speaks volumes about how central this issue will become in the months and years ahead. There will be significant challenges, both practical and constitutional, for the legal system in Wales to face, but they are challenges which I believe we are more than capable of meeting.

Eitem 7.1

DOGFENNAU SY'N MYND GYDA'R MESUR
Caiff Nodiadau Esboniadol a Memorandwm Esboniadol eu hargraffu ar wahân.

Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru)

[FEL Y'I CYFLWYNWYD]

CYNNWYS

RHAN 1

CYFLWYNIAD

1 Trosolwg ar y Ddeddf hon

RHAN 2

SAFONAU

PENNOD 1

YMYRRYD YM MATERION RHEDEG YSGOLION A GYNHELIR

Y seiliau dros ymyrryd

2 Y seiliau dros ymyrryd

Ymyrraeth gan awdurdod lleol

3 Hysbysiadau rhybuddio

4 Pŵer i ymyrryd

5 Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu sicrhau cyngor neu gydlafurio

6 Pŵer i benodi llywodraethwyr ychwanegol

7 Pŵer awdurdod lleol i gyfansoddi corff llywodraethu o aelodau gweithrediaeth interim

8 Pŵer awdurdod lleol i atal dros dro yr hawl i gael cyllideb ddirprwyedig

9 Pŵer cyffredinol i roi cyfarwyddiadau a chymryd camau

Ymyrraeth gan Weinidogion Cymru

10 Hysbysiad rhybuddio

11 Pŵer Gweinidogion Cymru i ymyrryd

12 Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu sicrhau cyngor neu gydlafurio

13 Pŵer Gweinidogion Cymru i benodi llywodraethwyr ychwanegol

14 Pŵer Gweinidogion Cymru i gyfansoddi corff llywodraethu o aelodau gweithrediaeth interim

15 Pŵer Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo bod ysgolion yn cael eu ffedereiddio

16 Pŵer Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo bod ysgol yn cael ei chau

17 Pŵer cyffredinol i roi cyfarwyddiadau a chymryd camau

Darpariaethau atodol

- 18 Cyrff llywodraethu sydd wedi eu ffurfio o aelodau gweithrediaeth interim
19 Cyfarwyddiadau
20 Canllawiau

PENNOD 2

YMYRRYD MEWN AWDURDODAU LLEOL

Y seiliau dros ymyrryd

- 21 Y seiliau dros ymyrryd

Hysbysiadau rhybuddio

- 22 Hysbysiad rhybuddio

Pwerau ymyrryd

- 23 Pŵer Gweinidogion Cymru i ymyrryd
24 Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gael gwasanaethau cynghori
25 Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i swyddogaethau gael eu cyflawni gan bersonau eraill ar ran awdurdod
26 Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i swyddogaethau gael eu cyflawni gan Weinidogion Cymru neu enwebai
27 Pŵer i gyfarwyddo'r modd y mae swyddogaethau addysg eraill yn cael eu harfer
28 Pŵer cyffredinol i roi cyfarwyddiadau a chymryd camau

Darpariaethau atodol

- 29 Cyfarwyddiadau
30 Dyletswydd i gydweithredu
31 Pwerau mynd i mewn ac arolygu

PENNOD 3

CANLLAWIAU GWELLA YSGOLION

- 32 Ystyr "awdurdod ysgol"
33 Pŵer i ddyroddi canllawiau gwella ysgolion
34 Ymgynghori a gweithdrefnau Cynulliad Cenedlaethol Cymru
35 Dyletswydd i ddilyn canllawiau gwella ysgolion
36 Datganiadau polisi: gofynion a phwerau ategol
37 Cyfarwyddiadau

RHAN 3

TREFNIADAETH YSGOLION

PENNOD 1

Y COD AM DREFNIADAETH YSGOLION

- 38 Cod Trefniadaeth Ysgolion
39 Llundio a chymeradwyo Cod Trefniadaeth Ysgolion

PENNOD 2

CYNIGION TREFNIADAETH YSGOLION

Sefydlu, newid a therfynu ysgolion a gynhelir

- 40 Cyfyngu ar sefydlu, newid a therfynu ysgolion a gynhelir
- 41 Cynigion i sefydlu ysgolion prif ffrwd
- 42 Cynigion i newid ysgolion prif ffrwd
- 43 Cynigion i derfynu ysgolion prif ffrwd
- 44 Cynigion i sefydlu, newid neu derfynu ysgolion arbennig

Newidiadau categori

- 45 Cynigion i newid categori ysgol
- 46 Gofyniad am gynigion i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr newid categori
- 47 Cyfyngiadau ar newid categori ysgol
- 48 Effaith newid categori

Cyhoeddi, ymgynghori a gwrthwynebu

- 49 Cyhoeddi ac ymgynghori
- 50 Gwrthwynebu
- 51 Categorïau gwrthwynebwyr

Cymeradwyo cynigion a phenderfynu arnynt

- 52 Eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru
- 53 Eu cymeradwyo gan banel penderfynu lleol
- 54 Cynigion cysylltiedig
- 55 Penderfynu
- 56 Gweithredu
- 57 Dehongli Pennod 2

PENNOD 3

RHESYMOLI LLEOEDD YSGOL

Cyfarwyddiadau i wneud cynigion i resymoli lleoedd ysgol

- 58 Cyfarwyddiadau i wneud cynigion i gywiro darpariaeth ormodol neu annigonol
- 59 Darpariaeth bellach am gynigion a wneir ar ôl gorchymyn o dan adran 58(2)

Cynigion gan Weinidogion Cymru i resymoli lleoedd ysgol

- 60 Gwneud a chyhoeddi cynigion gan Weinidogion Cymru

Y weithdrefn ar gyfer ymdrin â chynigion o dan adran 60

- 61 Gwrthwynebiadau
- 62 Ymchwiliad lleol i gynigion
- 63 Mabwysiadu cynigion
- 64 Gweithredu cynigion

PENNOD 4

DARPARIAETH RANBARTHOL AR GYFER ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

- 65 Ystyr "darpariaeth ranbarthol" a "swyddogaethau addysg arbennig"
- 66 Cyfarwyddyd i ystyried gwneud darpariaeth ranbarthol

- 67 Cyfarwyddiadau i wneud cynigion i sicrhau darpariaeth ranbarthol
- 68 Darpariaeth bellach am gynigion a wneir ar ôl gorchymyn o dan adran 67
- 69 Cynigion gan Weinidogion Cymru
- 70 Gwrthwynebiadau
- 71 Mabwysiadu cynigion

PENNOD 5

CYNIGION I AILSTRWYTHURO ADDYSG CHWECHED DOSBARTH

Gwneud cynigion a'u penderfynu

- 72 Pwerau Gweinidogion Cymru i ailstrwythuro addysg chweched dosbarth
- 73 Ymgynghori, cyhoeddi a gwrthwynebiadau
- 74 Penderfyniad gan Weinidogion Cymru

Gweithredu cynigion ar gyfer ailstrwythuro addysg chweched dosbarth

- 75 Y ffurf weithredu
- 76 Y cyfrifoldeb dros weithredu
- 77 Darpariaeth bellach o ran gweithredu

Darpariaethau atodol

- 78 Diwygiadau canlyniadol i adroddiadau arolygu ar addysg chweched dosbarth

PENNOD 6

DARPARIAETHAU AMRYWIOL AC ATODOL

- 79 Ysgolion ffederal
- 80 Gwaharddiad ar awdurdodau lleol rhag sefydlu ysgolion yn Lloegr
- 81 Hysbysiad gan gorff llywodraethu am derfynu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol
- 82 Cyfarwyddyd sy'n ei gwneud yn ofynnol bod ysgol arbennig gymunedol neu ysgol arbennig sefydledig yn cael ei therfynu
- 83 Gorchmynion esemptio trosiannol at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010
- 84 Dehongli Rhan 3

RHAN 4

CYNLLUNIAU STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG

- 85 Llunio cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg
- 86 Cymeradwyo, cyhoeddi a gweithredu cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg
- 87 Asesu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg
- 88 Rheoliadau a chanllawiau

RHAN 5

SWYDDOGAETHAU AMRYWIOL YSGOLION

Brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd

- 89 Dyletswydd i ddarparu brecwast am ddim i ddisgyblion mewn ysgolion cynradd
- 90 Darpariaeth drosiannol
- 91 Dehongli adrannau 89 a 90

Pŵer i godi tâl am brydau bwyd

92 Diwygio'r pŵer i godi tâl am brydau bwyd ysgol etc

Cwmsela mewn ysgolion

93 Gwasanaethau cwmsela annibynnol ar gyfer disgyblion ysgol a phlant eraill

94 Gwybodaeth am wasanaethau cwmsela annibynnol eraill

Cyfarfodydd rhieni

95 Dyletswydd corff llywodraethu ysgol a gynhelir i gynnal cyfarfodydd yn dilyn deiseb gan rieni

96 Diddymu dyletswydd i gynnal cyfarfod blynyddol rhieni

Cod ymarfer ar y berthynas rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion

97 Diddymu'r ddarpariaeth am god ymarfer ar gyfer y berthynas rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion

RHAN 6

CYFFREDINOL

98 Gorchmynion a rheoliadau

99 Dehongli'n gyffredinol a mynegai o ymadroddion sydd wedi eu diffinio

100 Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol

101 Cychwyn

102 Enw byr y Ddeddf hon a'i chynnwys yn un o'r Deddfau Addysg

Atodlen 1 – Cyrff llywodraethu sydd wedi eu ffurfio o aelodau gweithrediaeth interim

Atodlen 2 – Newidiadau rheoleiddiedig

Atodlen 3 – Panelau penderfynu lleol

Atodlen 4 – Gweithredu cynigion statudol

Atodlen 5 – Gweithredu cynigion i newid categori ysgol

Atodlen 6 – Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol

Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru)

[FEL Y'I CYFLWYNWYD]

Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddiwygio pwerau awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru i ymyrryd ym materion rhedeg ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol ac sy'n peri pryder; diwygio pwerau Gweinidogion Cymru i ymyrryd ym materion arfer swyddogaethau addysg gan awdurdodau lleol; darparu ar gyfer canllawiau gwella ysgolion; diwygio'r trefniadau statudol ar gyfer trefniadaeth ysgolion a gynhelir; darparu ar gyfer cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg; gwneud darpariaeth amrywiol mewn perthynas ag ysgolion a gynhelir; ac at ddibenion cysylltiedig.

Gan ei fod wedi ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi derbyn cydsyniad Ei Mawrhydi, deddfir fel a ganlyn:

RHAN 1

CYFLWYNIAD

1 Trosolwg ar y Ddeddf hon

- (1) Mae 6 Rhan i'r Ddeddf hon.
- (2) Mae Rhan 2 wedi ei rhannu'n 3 Pennod sy'n cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â chynnal a gwella safonau –
 - mewn ysgolion a gynhelir, a
 - yn y modd y mae swyddogaethau addysg yn cael eu harfer gan awdurdodau lleol.
- (3) Mae Pennod 1 o Ran (gan gynnwys Atodlen 1) –
 - yn nodi'r seiliau dros ymyrraeth gan awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru ym materion rhedeg ysgolion a gynhelir sy'n peri pryder, a
 - yn darparu amrediad o bwerau ymyrryd i alluogi awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru i ymdrin ag achosion y pryder.
- (4) Mae Pennod 2 –
 - yn nodi'r seiliau dros ymyrraeth gan Weinidogion Cymru ym materion arfer swyddogaethau addysg gan awdurdodau lleol sy'n peri pryder, a
 - yn darparu amrediad o bwerau ymyrryd i alluogi Gweinidogion Cymru i ymdrin ag achosion y pryder.

- (5) Mae Pennod 3 yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru roi canllawiau i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, penaethiaid ysgolion o'r fath ac awdurdodau lleol ynghylch sut y dylai swyddogaethau gael eu harfer gyda golwg ar wella safon yr addysg sy'n cael ei darparu mewn ysgolion a gynhelir.
- 5 (6) Mae Rhan 3 wedi ei rhannu'n 6 Phennod sy'n cynnwys darpariaeth am drefniadaeth ysgolion a gynhelir.
- (7) Mae Pennod 1 o Ran 3 yn darparu ar gyfer Cod Trefniadaeth Ysgolion ynghylch arfer swyddogaethau o dan Ran 3.
- 10 (8) Mae Pennod 2 (gan gynnwys Atodlenni 2 i 5) yn gwneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i sefydlu, newid a therfynu ysgolion a gynhelir yn unol â phroses benodedig.
- (9) Mae Pennod 3 yn darparu ar gyfer rhesymoli lleoedd ysgol os yw Gweinidogion Cymru o'r farn bod darpariaeth ormodol neu annigonol ar gyfer addysg gynradd neu uwchradd mewn ysgolion a gynhelir.
- 15 (10) Mae Pennod 4 yn darparu ar gyfer gwneud darpariaeth ranbarthol ar gyfer anghenion addysgol arbennig.
- (11) Mae Pennod 5 yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru ailstrwythuro addysg chweched dosbarth.
- (12) Mae Pennod 6 yn darparu ar gyfer materion amrywiol ac atodol sy'n ymwneud â threfniadaeth ysgolion.
- 20 (13) Mae Rhan 4 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg, sydd—
- (a) i'w paratoi gan awdurdodau lleol,
 - (b) i'w cymeradwyo gan Weinidogion Cymru, ac
 - (c) i'w cyhoeddi a'u gweithredu gan awdurdodau lleol (adrannau 85, 86 a 88).
- 25 (14) Mae Rhan 4 hefyd yn darparu pŵer sy'n arferadwy drwy reoliadau i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud asesiad o'r galw ymhlith rhieni am addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant (adran 87).
- (15) Mae Rhan 5 yn gwneud darpariaeth am swyddogaethau amrywiol sy'n ymwneud ag ysgolion a gynhelir, gan gynnwys darpariaeth—
- 30 (a) sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu brecwast ar gyfer disgyblion mewn ysgolion cynradd a gynhelir ar gais cyrff llywodraethu'r ysgolion hynny (adrannau 89 i 91);
- (b) sy'n diwygio pwerau presennol awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu i godi tâl am brydau ysgol, fel bod—
- 35 (i) gofyniad cysylltiedig i godi'r un pris ar bob person am yr un maint o'r un eitem yn cael ei ddileu, a
- (ii) gofyniad newydd na fydd y pris a godir am eitem yn fwy na chost darparu'r eitem honno yn cael ei osod (adran 92);

- (c) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau darpariaeth resymol am wasanaeth sy'n cwmsela mewn cysylltiad ag anghenion iechyd, anghenion emosiynol ac anghenion cymdeithasol i ddisgyblion ysgol penodedig a phlant eraill (adran 93);
- 5 (d) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir gynnal cyfarfod os gofynnir iddynt wneud hynny gan rieni mewn deiseb (adran 95) ac yn diddymu dyletswydd sy'n bodoli eisoes i gynnal cyfarfod blynyddol rhieni (adran 96);
- 10 (e) yn diddymu dyletswydd Gweinidogion Cymru i ddyroddi cod ymarfer ar gyfer sicrhau perthynas effeithiol rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion a gynhelir (adran 97).
- (16) Mae Rhan 6—
- (a) yn cyflwyno Atodlen 6, sy'n gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth arall sy'n codi o ddarpariaethau'r Ddeddf hon;
- 15 (b) yn cynnwys diffiniadau sy'n gymwys at ddibenion y Ddeddf hon yn gyffredinol a mynegai o ddiffiniadau sy'n gymwys i nifer o ddarpariaethau, ond nid yr holl Ddeddf (adran 99);
- (c) yn cynnwys darpariaethau eraill sy'n gymwys yn gyffredinol at ddibenion y Ddeddf hon.

RHAN 2

SAFONAU

PENNOD 1

YMYRRYD YM MATERION RHEDEG YSGOLION A GYNHELIR

Y seiliau dros ymyrryd

25 2 Y seiliau dros ymyrryd

At ddibenion y Bennod hon, mae'r seiliau dros ymyrryd ym materion rhedeg ysgol a gynhelir fel a ganlyn—

SAIL 1 - Mae safonau perfformiad disgyblion yn yr ysgol yn annerbyniol o isel.

30 At y diben hwn, mae safonau perfformiad disgyblion yn isel os ydynt yn isel drwy gyfeirio at unrhyw un neu fwy o'r canlynol—

- (a) y safonau y gellid yn rhesymol ddisgwyl o dan yr holl amgylchiadau i'r disgyblion eu cyrraedd;
- (b) pan fo'n berthnasol, y safonau a gyrhaeddwyd ganddynt o'r blaen;
- (c) y safonau a gyrhaeddwyd gan ddisgyblion mewn ysgolion cyffelyb.

35 SAIL 2 - Mae methiant wedi bod yn y ffordd y mae'r ysgol yn cael ei rheoli neu ei llywodraethu.

SAIL 3 - Mae ymddygiad disgyblion yn yr ysgol neu unrhyw gamau a gymerwyd gan y disgyblion hynny neu eu rhieni yn rhagfarnu'n ddifrifol, neu'n debyg o ragfarnu'n ddifrifol, addysg unrhyw ddisgyblion yn yr ysgol.

SAIL 4 - Mae diogelwch disgyblion neu staff yr ysgol o dan fygythiad (p'un ai drwy fethiant disgyblu neu fel arall).

SAIL 5 - Mae'r corff llywodraethu neu'r pennaeth wedi methu, neu'n debyg o fethu, â chydymffurfio â dyletswydd o dan y Deddfau Addysg.

SAIL 6 - Mae'r corff llywodraethu neu'r pennaeth wedi gweithredu, neu'n bwriadu gweithredu, yn afresymol wrth arfer unrhyw rai o'i swyddogaethau o dan y Deddfau Addysg.

SAIL 7 - Mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ("y Prif Arolygydd") wedi rhoi hysbysiad o dan adran 37(2) o Ddeddf Addysg 2005 i ddweud bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol a bod yr hysbysiad hwnnw heb ei ddisodli –

- (a) gan y Prif Arolygydd wrth iddo roi hysbysiad o dan yr adran honno i ddweud ei bod yn ofynnol i fesurau arbennig gael eu cymryd mewn perthynas â'r ysgol, neu
- (b) gan berson sy'n gwneud arolygiad dilynol ac yn llunio adroddiad sy'n datgan nad oes angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol mwyach yn ei farn ef.

SAIL 8 - Mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru wedi rhoi hysbysiad o dan adran 37(2) o Ddeddf Addysg 2005 i ddweud ei bod yn ofynnol i fesurau arbennig gael eu cymryd mewn perthynas â'r ysgol ac nad yw'r hysbysiad hwnnw wedi ei ddisodli gan berson sy'n gwneud arolygiad dilynol ac yn llunio adroddiad sy'n datgan nad oes angen mesurau arbennig ar yr ysgol mwyach yn ei farn ef.

Ymyrraeth gan awdurdod lleol

3 Hysbysiadau rhybuddio

- (1) Os yw awdurdod lleol wedi ei fodloni bod un neu fwy o seiliau 1 i 6 yn bodoli mewn perthynas ag un o'i ysgolion a gynhelir, caiff yr awdurdod roi hysbysiad rhybuddio i gorff llywodraethu'r ysgol.
- (2) Rhaid i'r awdurdod lleol bennu pob un o'r canlynol yn yr hysbysiad rhybuddio –
 - (a) y seiliau dros ymyrryd;
 - (b) y rhesymau pam y mae'r awdurdod wedi ei fodloni bod y seiliau'n bodoli;
 - (c) y camau y mae'r awdurdod yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff llywodraethu eu cymryd er mwyn ymdrin â'r seiliau dros ymyrryd;
 - (d) y cyfnod y mae'r camau i'w cymryd ynddo gan y corff llywodraethu ("y cyfnod cydymffurfio");
 - (e) y camau y mae'r awdurdod â'i fryd ar eu cymryd os bydd y corff llywodraethu'n methu â chymryd y camau sy'n ofynnol.

- (3) Os yw'r awdurdod lleol yn rhoi hysbysiad rhybuddio i gorff llywodraethu ysgol, rhaid iddo roi copi o'r hysbysiad rhybuddio i'r pennaeth yr un pryd.

4 Pŵer i ymyrryd

- 5 (1) Mae gan awdurdod lleol bŵer i ymyrryd ym materion rhedeg un o'i ysgolion a gynhelir o dan y Bennod hon os yw is-adran (2), (3) neu (4) yn gymwys.
- (2) Mae'r is-adran hon yn gymwys—
- (a) os yw'r awdurdod lleol wedi rhoi hysbysiad rhybuddio o dan adran 3 i gorff llywodraethu'r ysgol, a
- 10 (b) os yw'r corff llywodraethu wedi methu â chydymffurfio, neu â sicrhau cydymffurfedd, â'r hysbysiad er boddhad yr awdurdod o fewn y cyfnod cydymffurfio.
- (3) Mae'r is-adran hon yn gymwys os yw'r awdurdod lleol wedi ei fodloni bod un neu fwy o seiliau 1 i 6 yn bodoli mewn perthynas â'r ysgol a bod ganddo reswm dros gredu—
- 15 (a) bod risg cysylltiedig i iechyd neu ddiogelwch unrhyw berson a hwnnw'n risg sy'n galw am ymyriad brys o dan y Bennod hon, neu
- (b) bod y corff llywodraethu'n annhebyg o allu cydymffurfio, neu sicrhau cydymffurfedd, â hysbysiad rhybuddio.
- (4) Mae'r is-adran hon yn gymwys—
- 20 (a) os yw sail 7 (ysgol y mae arni angen gwelliant sylweddol) neu sail 8 (ysgol y mae arni angen mesurau arbennig) yn bodoli mewn perthynas â'r ysgol, a
- (b) os yw cyfnod heb fod yn llai na 10 niwrnod wedi mynd heibio er y dyddiad y rhoes y Prif Arolygydd hysbysiad i'r awdurdod lleol o dan adran 37(2) o Ddeddf Addysg 2005, yn ddarostyngedig i is-adran (5).
- (5) Caiff Gweinidogion Cymru benderfynu, mewn perthynas ag ysgol benodol, bod is-adran 25 (4)(b) yn cael effaith fel petai'r cyfeiriad at 10 niwrnod yn cyfeirio at gyfnod byrrach a bennir yn y penderfyniad.
- (6) Pan fo gan awdurdod lleol bŵer i ymyrryd, rhaid iddo gadw golwg ar yr amgylchiadau a arweiniodd at y pŵer.
- 30 (7) Os yw'r awdurdod yn dod i'r casgliad bod y seiliau dros ymyrryd wedi eu trin wrth ei fodd, neu na fyddai arfer ei bwerau o dan y Bennod hon yn briodol am unrhyw reswm arall, rhaid iddo ysgrifennu at y corff llywodraethu i'w hysbysu am ei gasgliad.
- (8) Mae pŵer awdurdod lleol i ymyrryd yn parhau i gael effaith hyd nes y bydd un o'r camau canlynol yn digwydd—
- 35 (a) bod yr awdurdod yn rhoi hysbysiad o dan is-adran (7);
- (b) bod Gweinidogion Cymru yn penderfynu nad oes effaith mwyach i'r pŵer i ymyrryd a'u bod yn ysgrifennu at yr awdurdod lleol a'r corff llywodraethu i'w hysbysu am eu penderfyniad;
- (c) bod Gweinidogion Cymru yn rhoi hysbysiad rhybuddio i gorff llywodraethu'r ysgol o dan adran 10.
- 40 (9) Nid yw awdurdod lleol sydd â phŵer i ymyrryd wedi ei gyfyngu i gymryd y camau y dywedodd ei fod â'i fryd ar eu cymryd mewn hysbysiad rhybuddio.

5 Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu sicrhau cyngor neu gydlafurio

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys os oes gan awdurdod lleol bŵer i ymyrryd ym materion rhedeg un o'i ysgolion a gynhelir.
- (2) Caiff yr awdurdod lleol, gyda golwg ar wella perfformiad yr ysgol, gyfarwyddo corff llywodraethu'r ysgol i wneud y naill neu'r llall o'r canlynol neu'r ddau ohonynt—
- (a) ymrwymo i gontract neu drefniant arall gyda pherson penodedig (a gaiff fod yn gorff llywodraethu ysgol arall) i ddarparu i'r corff llywodraethu wasanaethau penodedig sy'n gynghorol eu natur;
- (b) arfer y pwerau o dan adran 5(2) o Fesur Addysg (Cymru) 2011 (pwerau cydlafurio) a bennir yn y cyfarwyddyd, yn ddarostyngedig i ddarpariaeth a wneir mewn rheoliadau o dan adran 6 o'r Mesur hwnnw.
- (3) Cyn rhoi cyfarwyddyd rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori â'r canlynol—
- (a) corff llywodraethu'r ysgol,
- (b) yn achos ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol sy'n un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru neu'n un o ysgolion yr Eglwys Gatholig Rufeinig, yr awdurdod esgobaethol priodol, ac
- (c) yn achos unrhyw ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol arall, y person sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig.
- (4) Caiff cyfarwyddyd o dan is-adran (2)(a) ei gwneud yn ofynnol i'r contract neu'r trefniant arall gynnwys telerau ac amodau penodedig.

6 Pŵer i benodi llywodraethwyr ychwanegol

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys os oes gan awdurdod lleol bŵer i ymyrryd ym materion rhedeg un o'i ysgolion a gynhelir.
- (2) Caiff yr awdurdod lleol benodi cymaint o lywodraethwyr ychwanegol i gorff llywodraethu'r ysgol ag y gwêl yn dda; ac mae'r offeryn llywodraethu ar gyfer yr ysgol yn cael effaith fel petai'n darparu ar gyfer penodiadau o'r fath (er gwaethaf unrhyw beth mewn rheoliadau o dan adran 19 o Ddeddf Addysg 2002).
- (3) Caiff yr awdurdod lleol enwebu un o'r llywodraethwyr hynny i fod yn gadeirydd y corff llywodraethu yn lle unrhyw berson a etholwyd yn gadeirydd y corff hwnnw.
- (4) Cyn gwneud unrhyw benodiad neu enwebiad o'r fath mewn perthynas ag ysgol wirfoddol a gynorthwyir, rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori â'r canlynol—
- (a) yn achos un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru neu un o ysgolion yr Eglwys Gatholig Rufeinig, yr awdurdod esgobaethol priodol, neu
- (b) mewn unrhyw achos arall, y person sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig.
- (5) Bydd llywodraethwr a benodir o dan yr adran hon yn dal ei swydd am gyfnod a benderfynir gan yr awdurdod lleol.
- (6) Bydd llywodraethwr a enwebir gan yr awdurdod lleol i fod yn gadeirydd y corff llywodraethu yn gadeirydd am gyfnod a benderfynir gan yr awdurdod lleol.
- (7) Caiff yr awdurdod lleol dalu tâl cydnabyddiaeth a lwfansau i lywodraethwyr a benodir o dan yr adran hon.

7 Pŵer awdurdod lleol i gyfansoddi corff llywodraethu o aelodau gweithrediaeth interim

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os oes gan awdurdod lleol bŵer i ymyrryd ym materion rhedeg un o'i ysgolion a gynhelir.

(2) Caiff yr awdurdod lleol ysgrifennu at gorff llywodraethu'r ysgol i'w hysbysu bod y corff llywodraethu, o ddyddiad a bennir yn yr hysbysiad, i'w gyfansoddi'n unol ag Atodlen 1 (cyrff llywodraethu sydd wedi eu ffurfio o aelodau gweithrediaeth interim).

(3) Cyn rhoi hysbysiad rhaid i'r awdurdod –

(a) ymgynghori â chorff llywodraethu'r ysgol,

(b) yn achos ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol sy'n un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru neu'n un o ysgolion yr Eglwys Gatholig Rufeinig, ymgynghori â'r awdurdod esgobaethol priodol,

(c) yn achos unrhyw ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol arall, ymgynghori â'r person sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig, a

(d) sicrhau cydsyniad Gweinidogion Cymru.

8 Pŵer awdurdod lleol i atal dros dro yr hawl i gael cyllideb ddirprwyedig

(1) Mae'r adran hon yn gymwys –

(a) os oes gan awdurdod lleol bŵer i ymyrryd ym materion rhedeg ysgol a gynhelir, a

(b) os oes gan yr ysgol gyllideb ddirprwyedig o fewn ystyr Rhan 2 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

(2) Caiff yr awdurdod lleol atal dros dro hawl y corff llywodraethu i gael cyllideb ddirprwyedig drwy roi i'r corff llywodraethu hysbysiad am yr ataliad dros dro.

(3) Mae'r ataliad dros dro ar yr hawl i gael cyllideb ddirprwyedig yn dod yn weithredol o'r adeg y bydd y corff llywodraethu'n cael yr hysbysiad.

(4) Os yw'r awdurdod lleol yn rhoi hysbysiad yn atal dros dro yr hawl i gael cyllideb ddirprwyedig, rhaid iddo roi copi o'r hysbysiad i'r pennaeth yr un pryd.

(5) Mae ataliad dros dro sy'n cael ei osod o dan yr adran hon yn cael effaith at ddibenion Pennod 4 o Ran 2 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (ariannu ysgolion a gynhelir) fel petai wedi ei wneud o dan baragraff 1 o Atodlen 15 i'r Ddeddf honno (atal dros dro ddirprwyiad ariannol).

9 Pŵer cyffredinol i roi cyfarwyddiadau a chymryd camau

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os oes gan yr awdurdod lleol bŵer i ymyrryd ym materion rhedeg un o'i ysgolion a gynhelir.

(2) Os yw'r awdurdod lleol yn credu ei bod yn briodol at ddibenion ymdrin â'r seiliau dros ymyrryd, caiff –

(a) rhoi cyfarwyddiadau i'r corff llywodraethu neu'r pennaeth, neu

(b) cymryd unrhyw gamau eraill.

Ymyrraeth gan Weinidogion Cymru

10 Hysbysiad rhybuddio

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru roi hysbysiad rhybuddio i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir—
- 5 (a) os ydynt wedi eu bodloni bod un neu fwy o seiliau 1 i 6 yn bodoli mewn perthynas â'r ysgol, a
- (b) os yw'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol naill ai—
- (i) heb roi hysbysiad rhybuddio i'r corff llywodraethu o dan adran 3 ar un neu fwy o'r seiliau hynny, neu
- 10 (ii) wedi rhoi hysbysiad rhybuddio, ond yn nhermau sy'n annigonol ym marn Gweinidogion Cymru.
- (2) Rhaid i Weinidogion Cymru bennu pob un o'r canlynol yn yr hysbysiad rhybuddio—
- (a) y seiliau dros ymyrryd;
- (b) y rhesymau pam y maent wedi eu bodloni bod y seiliau yn bodoli;
- 15 (c) y camau y maent yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff llywodraethu eu cymryd er mwyn ymdrin â'r seiliau dros ymyrryd;
- (d) y cyfnod y mae'r camau i'w cymryd ynddo gan y corff llywodraethu ("y cyfnod cydymffurfio");
- 20 (e) y camau y maent â'u bryd ar eu cymryd os bydd y corff llywodraethu yn methu â chymryd y camau sy'n ofynnol.
- (3) Os yw Gweinidogion Cymru yn rhoi hysbysiad rhybuddio i gorff llywodraethu ysgol, rhaid iddynt roi copi o'r hysbysiad rhybuddio i'r awdurdod lleol a'r pennaeth yr un pryd ag y byddant yn rhoi'r hysbysiad rhybuddio i'r corff llywodraethu.

11 Pŵer Gweinidogion Cymru i ymyrryd

- 25 (1) Mae gan Weinidogion Cymru bŵer i ymyrryd ym materion rhedeg ysgol a gynhelir o dan y Bennod hon os yw is-adran (2), (3), (4) neu (5) yn gymwys.
- (2) Mae'r is-adran hon yn gymwys—
- (a) os yw'r awdurdod lleol wedi rhoi hysbysiad rhybuddio o dan adran 3 i gorff llywodraethu'r ysgol,
- 30 (b) os yw'r corff llywodraethu wedi methu â chydymffurfio, neu sicrhau cydymffurfedd, â'r hysbysiad er boddhad Gweinidogion Cymru o fewn y cyfnod cydymffurfio, ac
- (c) os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni nad yw'r awdurdod lleol wedi cymryd, ac nad yw'n debyg o gymryd, camau digonol at ddibenion ymdrin â'r
- 35 seiliau dros ymyrryd.
- (3) Mae'r is-adran hon yn gymwys—
- (a) os yw Gweinidogion Cymru wedi rhoi hysbysiad rhybuddio o dan adran 10 i gorff llywodraethu'r ysgol, a

(b) os yw'r corff llywodraethu wedi methu â chydymffurfio, neu sicrhau cydymffurfedd, â'r hysbysiad er boddhad Gweinidogion Cymru o fewn y cyfnod cydymffurfio.

(4) Mae'r is-adran hon yn gymwys os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod un neu fwy o seiliau 1 i 6 yn bodoli mewn perthynas â'r ysgol a bod ganddynt reswm dros gedu –

(a) bod risg cysylltiedig i iechyd neu ddiogelwch unrhyw berson a hwnnw'n risg sy'n galw am ymyriad brys o dan y Bennod hon, neu

(b) bod y corff llywodraethu'n annhebyg o allu cydymffurfio, neu sicrhau cydymffurfedd, â hysbysiad rhybuddio.

(5) Mae'r is-adran hon yn gymwys –

(a) os yw sail 7 (ysgol y mae arni angen gwelliant sylweddol) neu sail 8 (ysgol y mae arni angen mesurau arbennig) yn bodoli mewn perthynas â'r ysgol, a

(b) os yw cyfnod heb fod yn llai na 10 niwrnod wedi mynd heibio er y dyddiad y rhoes y Prif Arolygydd hysbysiad i Weinidogion Cymru o dan adran 37(2) o Ddeddf Addysg 2005, yn ddarostyngedig i is-adran (6).

(6) Caiff Gweinidogion Cymru benderfynu, mewn perthynas ag ysgol benodol, bod is-adran (5)(b) yn cael effaith fel petai'r cyfeiriad at 10 niwrnod yn cyfeirio at gyfnod byrrach a bennir yn y penderfyniad.

(7) Pan fo gan Weinidogion Cymru bŵer i ymyrryd, rhaid iddynt gadw golwg ar yr amgylchiadau a arweiniodd at y pŵer.

(8) Os yw Gweinidogion Cymru'n credu bod y seiliau dros ymyrryd wedi eu trin wrth eu bodd, neu na fyddai arfer eu pwerau o dan y Bennod hon yn briodol am unrhyw reswm arall, rhaid iddynt ysgrifennu at y corff llywodraethu a'r awdurdod lleol i'w hysbysu am eu casgliad.

(9) Mae pŵer Gweinidogion Cymru i ymyrryd yn parhau i gael effaith hyd nes y byddant yn rhoi hysbysiad o dan is-adran (8).

(10) Os oes gan Weinidogion Cymru bŵer i ymyrryd, nid ydynt wedi eu cyfyngu i gymryd y camau yr oeddent wedi dweud mewn hysbysiad rhybuddio eu bod â'u bryd ar eu cymryd.

12 Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu sicrhau cyngor neu gydlafurio

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os oes gan Weinidogion Cymru bŵer i ymyrryd ym materion rhedeg ysgol a gynhelir.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru, gyda golwg ar wella perfformiad yr ysgol, gyfarwyddo corff llywodraethu'r ysgol i wneud y naill neu'r llall o'r canlynol neu'r ddau ohonynt –

(a) ymrwymo i gontract neu drefniant arall gyda pherson penodedig (a gaiff fod yn gorff llywodraethu ysgol arall) i ddarparu i'r corff llywodraethu wasanaethau penodedig sy'n gynghorol eu natur;

(b) arfer y pwerau o dan adran 5(2) o Fesur Addysg (Cymru) 2011 (pwerau cydlafurio) a bennir yn y cyfarwyddyd, yn ddarostyngedig i ddarpariaeth a wneir mewn rheoliadau o dan adran 6 o'r Mesur hwnnw.

- (3) Cyn rhoi cyfarwyddyd rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol –
- (a) corff llywodraethu'r ysgol,
 - (b) yn achos ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol sy'n un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru neu'n un o ysgolion yr Eglwys Gatholig Rufeinig, yr awdurdod esgobaethol priodol, ac
 - (c) yn achos unrhyw ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol arall, y person sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig.
- (4) Caiff cyfarwyddyd o dan is-adran (2)(a) ei gwneud yn ofynnol i'r contract neu'r trefniant arall gynnwys telerau ac amodau penodedig.

10 **13 Pŵer Gweinidogion Cymru i benodi llywodraethwyr ychwanegol**

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys os oes gan Weinidogion Cymru bŵer i ymyrryd ym materion rhedeg ysgol a gynhelir.
- (2) Caiff Gweinidogion Cymru benodi cymaint o lywodraethwyr ychwanegol i gorff llywodraethu'r ysgol ag y gwelant yn dda; ac mae'r offeryn llywodraethu ar gyfer yr ysgol ysgol yn cael effaith fel petai'n darparu ar gyfer penodiadau o'r fath (er gwaethaf unrhyw beth mewn rheoliadau o dan adran 19 o Ddeddf Addysg 2002).
- (3) Caiff Gweinidogion Cymru enwebu un o'r llywodraethwyr hynny i fod yn gadeirydd y corff llywodraethu yn lle unrhyw berson a etholwyd yn gadeirydd y corff hwnnw.
- (4) Cyn gwneud unrhyw benodiad neu enwebiad o'r fath mewn perthynas ag ysgol wirfoddol a gynorthwyr, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol –
- (a) yn achos un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru neu un o ysgolion yr Eglwys Gatholig Rufeinig, yr awdurdod esgobaethol priodol, neu
 - (b) mewn unrhyw achos arall, y person sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig.
- (5) Bydd llywodraethwr a benodir o dan yr adran hon yn dal ei swydd am gyfnod a benderfynir gan Weinidogion Cymru.
- (6) Bydd llywodraethwr a enwebir gan Weinidogion Cymru i fod yn gadeirydd y corff llywodraethu yn gadeirydd am gyfnod a benderfynir gan Weinidogion Cymru.
- (7) Caiff Gweinidogion Cymru dalu tâl cydnabyddiaeth a lwfansau i lywodraethwyr a benodir o dan yr adran hon.
- (8) Pan fo Gweinidogion Cymru wedi arfer eu pŵer o dan yr adran hon mewn perthynas ag unrhyw ysgol –
- (a) ni chaiff yr awdurdod lleol atal dros dro hawl y corff llywodraethu i gael cyllideb ddirprwyedig o dan baragraff 1 o Atodlen 15 i Ddeddf Safonau a Fframwaith 1998, a
 - (b) os yw'r awdurdod lleol eisoes wedi arfer y pŵer hwnnw neu ei bŵer o dan adran 8, caiff Gweinidogion Cymru ddirymu'r ataliad dros dro.

(9) Pan fo Gweinidogion Cymru wedi arfer eu pwerau o dan yr adran hon mewn perthynas ag ysgol wirfoddol a gynorthwyr, nid oes dim mewn rheoliadau o dan adran 19 o Ddeddf Addysg 2002 i'w ddarllen fel petai'n awdurdodi penodi llywodraethwyr sefydledig er mwyn eu gwneud yn fwy niferus na'r llywodraethwyr eraill fel y bydd eu nifer hwy wedi ei gynyddu gan y rhai a gaiff eu penodi gan Weinidogion Cymru o dan yr adran hon.

(10) O ran dirymu ataliad dros dro o dan is-adran (8)(b)–

(a) rhaid i'r awdurdod lleol gael ei hysbysu'n ysgrifenedig amdano, a

(b) daw'n weithredol o'r dyddiad a bennir yn yr hysbysiad hwnnw.

10 14 Pŵer Gweinidogion Cymru i gyfansoddi corff llywodraethu o aelodau gweithrediaeth interim

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os oes gan Weinidogion Cymru bŵer i ymyrryd ym materion rhedeg ysgol a gynhelir.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru ysgrifennu at gorff llywodraethu'r ysgol i'w hysbysu bod y corff llywodraethu, o'r dyddiad a bennir yn yr hysbysiad, i'w gyfansoddi'n unol ag Atodlen 1 (cyrff llywodraethu sydd wedi eu ffurfio o aelodau gweithrediaeth interim).

(3) Cyn rhoi hysbysiad rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol–

(a) yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol,

(b) corff llywodraethu'r ysgol,

(c) yn achos ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol sy'n un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru neu'n un o ysgolion yr Eglwys Gatholig Rufeinig, yr awdurdod esgobaethol priodol, a

(d) yn achos unrhyw ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol arall, y person sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig.

(4) Nid yw Gweinidogion Cymru yn gorfod ymgynghori â'r personau a grybwyllwyd yn is-adran (3)(b) i (d) os yw'r awdurdod lleol wedi ymgynghori â hwy am gyfansoddiad corff llywodraethu o dan adran 7 ar sail pŵer i ymyrryd y daethpwyd ag ef i ben drwy effaith adran 4(8)(b) neu (c).

15 Pŵer Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo bod ysgolion yn cael eu ffedereiddio

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os oes gan Weinidogion Cymru bŵer i ymyrryd ym materion rhedeg ysgol a gynhelir ("yr ysgol sy'n peri pryder").

(2) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo unrhyw un o'r personau canlynol i ddarparu ar gyfer un neu fwy o'r trefniadau a nodir yn is-adran (3)–

(a) awdurdod lleol;

(b) corff llywodraethu ysgol a gynhelir;

(c) corff llywodraethu ffederasiwn.

(3) Dyma'r trefniadau–

(a) ffedereiddio'r ysgol sy'n peri pryder ac un neu fwy o ysgolion a gynhelir;

(b) ffedereiddio'r ysgol sy'n peri pryder a ffederasiwn sy'n bodoli eisoes;

- (c) ffedereiddio'r ysgol sy'n peri pryder a ffederasiwn sy'n bodoli eisoes ac un neu fwy o ysgolion a gynhelir;
- (d) pan fo'r ysgol sy'n peri pryder yn rhan o ffederasiwn, ffedereiddio'r ffederasiwn hwnnw ac un neu fwy o ysgolion a gynhelir;
- 5 (e) pan fo'r ysgol sy'n peri pryder yn rhan o ffederasiwn, ffedereiddio'r ffederasiwn hwnnw a ffederasiwn arall sy'n bodoli eisoes;
- (f) pan fo'r ysgol sy'n peri pryder yn rhan o ffederasiwn, ffedereiddio'r ffederasiwn hwnnw a ffederasiwn arall sy'n bodoli eisoes ac un neu fwy o ysgolion a gynhelir;
- 10 (g) pan fo'r ysgol sy'n peri pryder yn rhan o ffederasiwn, bod yr ysgol yn ymadael â'r ffederasiwn hwnnw.
- (4) Cyn rhoi cyfarwyddiad o dan is-adran (2), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol –
- (a) yr awdurdod lleol,
- (b) y cyrff llywodraethu sydd o dan sylw,
- 15 (c) yn achos un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru neu un o ysgolion yr Eglwys Gatholig Rufeinig, yr awdurdod esgobaethol priodol, a
- (d) yn achos unrhyw ysgol sefydledig neu wirfoddol arall, y person sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig.
- (5) Yn yr adran hon mae i "ffederasiwn" yr ystyr a roddir gan adran 21(1) o Fesur Addysg
- 20 (Cymru) 2011.

16 Pŵer Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo bod ysgol yn cael ei chau

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys os oes gan Weinidogion Cymru bŵer i ymyrryd ym materion rhedeg ysgol a gynhelir ar dir sail 8 (ysgol y mae arni angen mesurau arbennig).
- 25 (2) Caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i'r awdurdod lleol yn ei gwneud yn ofynnol i'r ysgol gael ei therfynu ar ddyddiad a bennir yn y cyfarwyddyd.
- (3) Cyn rhoi cyfarwyddyd o dan is-adran (2), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol –
- (a) yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol,
- (b) corff llywodraethu'r ysgol,
- 30 (c) yn achos ysgol sefydledig neu wirfoddol sy'n un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru neu'n un o ysgolion yr Eglwys Gatholig Rufeinig, yr awdurdod esgobaethol priodol,
- (d) yn achos unrhyw ysgol sefydledig neu wirfoddol arall, y person sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig, ac
- 35 (e) unrhyw bersonau eraill sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru.
- (4) Wrth roi cyfarwyddyd i derfynu'r ysgol, rhaid i Weinidogion Cymru roi hysbysiad ysgrifenedig hefyd am y cyfarwyddyd i gorff llywodraethu'r ysgol a'i phennaeth.
- (5) Pan fo cyfarwyddyd yn cael ei roi i'r awdurdod lleol o dan is-adran (2), rhaid iddo derfynu'r ysgol o dan sylw ar y dyddiad a bennir yn y cyfarwyddyd; ac nid oes dim yn
- 40 Rhan 3 sy'n gymwys i derfynu'r ysgol o dan yr adran hon.

- (6) Yn yr adran hon mae unrhyw gyfeiriad at derfynu ysgol a gynhelir yn cyfeirio at yr awdurdod lleol yn peidio â'i chynnal.

17 Pŵer cyffredinol i roi cyfarwyddiadau a chymryd camau

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys os oes gan Weinidogion Cymru bŵer i ymyrryd ym materion rhedeg ysgol a gynhelir.
- (2) Os yw Gweinidogion Cymru yn credu ei bod yn briodol at ddibenion ymdrin â'r seiliau dros ymyrryd, cânt—
- rhoi cyfarwyddiadau i'r corff llywodraethu neu'r pennaeth, neu
 - cymryd unrhyw gamau eraill.

Darpariaethau atodol

18 Cyrff llywodraethu sydd wedi eu ffurfio o aelodau gweithrediaeth interim

Mae Atodlen 1 (penodi aelodau o fyrddau gweithrediaeth interim, swyddogaethau'r byrddau, eu gweithdrefnau a materion cysylltiedig) yn cael effaith.

19 Cyfarwyddiadau

- (1) Rhaid i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir neu bennaeth sy'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd o dan y Bennod hon gydymffurfio ag ef.
- (2) Mae hyn yn cynnwys cyfarwyddyd i arfer pŵer neu ddyletswydd sy'n ddibynnol ar farn y corff llywodraethu neu'r pennaeth.
- (3) O ran cyfarwyddyd o dan y Bennod hon—
- rhaid iddo fod yn ysgrifenedig;
 - caniateir ei amrywio neu ei ddirymu drwy gyfarwyddyd diweddarach;
 - gellir ei orfodi drwy orchymyn mandadol ar gais gan, neu ar ran, y person a roes y cyfarwyddyd.

20 Canllawiau

Wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Bennod hon, rhaid i awdurdod lleol roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.

PENNOD 2

YMYRRYD MEWN AWDURDODAU LLEOL

Y seiliau dros ymyrryd

21 Y seiliau dros ymyrryd

At ddibenion y Bennod hon, mae'r seiliau dros ymyrryd â'r modd y mae awdurdod lleol yn arfer ei swyddogaethau addysg fel a ganlyn—

SAIL 1 - Mae'r awdurdod lleol wedi methu, neu'n debyg o fethu, â chydymffurfio â dyletswydd sy'n swyddogaeth addysg.

SAIL 2 - Mae'r awdurdod lleol wedi gweithredu, neu'n bwriadu gweithredu, yn afresymol wrth arfer swyddogaeth addysg.

SAIL 3 - Mae'r awdurdod lleol yn methu, neu'n debyg o fethu, â chyflawni swyddogaeth addysg yn ôl safon ddigonol.

5

Hysbysïadau rhybuddio

22 Hysbysiad rhybuddio

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru roi hysbysiad rhybuddio i awdurdod lleol os ydynt wedi eu bodloni bod un neu fwy o seiliau 1 to 3 yn bodoli mewn perthynas â'r awdurdod lleol.
- (2) Rhaid i Weinidogion Cymru bennu pob un o'r canlynol yn yr hysbysiad rhybuddio—
 - (a) y seiliau dros ymyrryd;
 - (b) y rhesymau pam y maent wedi eu bodloni bod y seiliau yn bodoli;
 - (c) y camau y maent yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol eu cymryd er mwyn ymdrin â'r seiliau dros ymyrryd;
 - (d) y cyfnod y mae'r camau i'w cymryd ynddo gan yr awdurdod lleol ("y cyfnod cydymffurfio");
 - (e) y camau y maent â'u bryd ar eu cymryd os bydd yr awdurdod lleol yn methu â chymryd y camau gofynnol.

10

15

Pwerau ymyrryd

23 Pŵer Gweinidogion Cymru i ymyrryd

- (1) Mae gan Weinidogion Cymru bŵer i ymyrryd o dan y Bennod hon â'r modd y mae swyddogaethau addysg yn cael eu harfer gan awdurdod lleol os yw is-adran (2) neu (3) yn gymwys.
- (2) Mae'r is-adran hon yn gymwys—
 - (a) os yw Gweinidogion Cymru wedi rhoi hysbysiad rhybuddio, a
 - (b) os yw'r awdurdod lleol wedi methu â chydymffurfio, neu sicrhau cydymffurfedd, â'r hysbysiad er boddhad Gweinidogion Cymru o fewn y cyfnod cydymffurfio.
- (3) Mae'r is-adran hon yn gymwys os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod un neu fwy o seiliau 1 i 3 yn bodoli mewn perthynas â'r awdurdod lleol a bod ganddynt reswm dros gredu—
 - (a) bod risg cysylltiedig i iechyd neu ddiogelwch unrhyw berson a hwnnw'n risg sy'n galw am ymyriad brys o dan y Bennod hon, neu
 - (b) bod yr awdurdod lleol yn annhebyg o allu cydymffurfio, neu sicrhau cydymffurfedd, â hysbysiad rhybuddio.
- (4) Pan fo gan Weinidogion Cymru bŵer i ymyrryd, rhaid iddynt gadw golwg ar yr amgylchiadau a arweiniodd at y pŵer.
- (5) Os yw Gweinidogion Cymru yn dod i'r casgliad bod y seiliau dros ymyrryd wedi eu trin wrth eu bodd, neu na fyddai arfer eu pwerau o dan y Bennod hon yn briodol am unrhyw reswm arall, rhaid iddynt ysgrifennu at yr awdurdod lleol i'w hysbysu am eu casgliad.

20

25

30

35

- (6) Mae pŵer Gweinidogion Cymru i ymyrryd yn parhau i gael effaith hyd nes y byddant yn rhoi hysbysiad o dan is-adran (5).
- (7) Os oes gan Weinidogion Cymru bŵer i ymyrryd, nid ydynt wedi eu cyfyngu i gymryd y camau yr oeddent wedi dweud mewn hysbysiad rhybuddio eu bod â'u bryd ar eu cymryd.

24 Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gael gwasanaethau cyngori

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys os oes gan Weinidogion Cymru bŵer i ymyrryd â'r modd y mae swyddogaethau addysg yn cael eu harfer gan awdurdod lleol.
- (2) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r awdurdod lleol i ymrwymo i gontract neu drefniant arall gyda pherson penodedig, neu berson sy'n dod o fewn dosbarth penodedig, i ddarparu i'r awdurdod neu gorff llywodraethu ysgol a gynhelir ganddo (neu'r ddau ohonynt), wasanaethau penodedig sy'n gynghorol eu natur.
- (3) Caiff y cyfarwyddyd ei gwneud yn ofynnol i'r contract neu'r trefniant arall gynnwys telerau ac amodau penodedig.
- (4) Yn yr adran hon ystyr "penodedig" yw wedi ei bennu mewn cyfarwyddyd o dan yr adran hon.

25 Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i swyddogaethau gael eu cyflawni gan bersonau eraill ar ran awdurdod

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys os oes gan Weinidogion Cymru bŵer i ymyrryd â'r modd y mae swyddogaethau addysg yn cael eu harfer gan awdurdod lleol.
- (2) Caiff Gweinidogion Cymru roi unrhyw gyfarwyddiadau i'r awdurdod lleol neu i unrhyw un neu rai o swyddogion yr awdurdod y maent yn credu eu bod yn briodol i sicrhau bod y swyddogaethau y mae'r seiliau dros ymyrryd yn ymwneud â hwy yn cael eu cyflawni ar ran yr awdurdod gan berson a bennir yn y cyfarwyddyd.
- (3) Caiff cyfarwyddyd o dan is-adran (2) ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gontract neu drefniant arall a wneir gan yr awdurdod â'r person penodedig gynnwys telerau ac amodau a bennir yn y cyfarwyddyd.

26 Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i swyddogaethau gael eu cyflawni gan Weinidogion Cymru neu enwebai

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys os oes gan Weinidogion Cymru bŵer i ymyrryd â'r modd y mae swyddogaethau addysg yn cael eu cyflawni gan awdurdod lleol.
- (2) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo bod y swyddogaethau sy'n ymwneud â'r seiliau dros ymyrryd i'w harfer gan Weinidogion Cymru neu berson a enwebir ganddynt.
- (3) Os yw cyfarwyddyd wedi ei wneud o dan is-adran (2), rhaid i'r awdurdod lleol gydymffurfio ag arweiniad Gweinidogion Cymru neu eu henwebai mewn perthynas ag arfer y swyddogaethau.

27 Pŵer i gyfarwyddo'r modd y mae swyddogaethau addysg eraill yn cael eu harfer

- (1) Os yw Gweinidogion Cymru yn credu ei bod yn hwylus, caiff cyfarwyddyd o dan adran 25 neu 26 ymwneud â chyflawni swyddogaethau addysg yn ychwanegol at y swyddogaethau y mae'r seiliau dros ymyrryd yn ymwneud â hwy.

- (2) Caiff Gweinidogion Cymru roi sylw (ymhlith pethau eraill) i ystyriaethau ariannol wrth benderfynu a yw'n hwylus i gyfarwyddyd ymwneud â swyddogaethau addysg nad ydynt yn swyddogaethau sy'n ymwneud â'r seiliau dros ymyrryd.

28 Pŵer cyffredinol i roi cyfarwyddiadau a chymryd camau

- 5 (1) Mae'r adran hon yn gymwys os oes gan Weinidogion Cymru bŵer i ymyrryd â'r modd y mae swyddogaethau addysg yn cael eu harfer gan awdurdod lleol.
- (2) Os yw Gweinidogion Cymru yn credu ei bod yn briodol at ddibenion ymdrin â'r seiliau dros ymyrryd, cânt—
- (a) rhoi cyfarwyddiadau i'r corff llywodraethu neu'r pennaeth, neu
- 10 (b) cymryd unrhyw gamau eraill.

Darpariaethau atodol

29 Cyfarwyddiadau

- (1) Rhaid i awdurdod lleol, neu swyddog i awdurdod, sy'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd neu arweiniad o dan y Bennod hon gydymffurfio ag ef.
- 15 (2) Mae hyn yn cynnwys cyfarwyddyd neu arweiniad i arfer pŵer neu ddyletswydd sy'n ddibynnol ar farn yr awdurdod lleol neu swyddog i'r awdurdod.
- (3) O ran cyfarwyddyd o dan y Bennod hon—
- (a) rhaid iddo fod yn ysgrifenedig;
- (b) caniateir ei amrywio neu ei ddirymu drwy gyfarwyddyd diweddarach;
- 20 (c) gellir ei orfodi drwy orchymyn mandadol ar gais gan Weinidogion Cymru neu ar eu rhan.

30 Dyletswydd i gydweithredu

- (1) Rhaid i awdurdod lleol a chorff llywodraethu ysgol a gynhelir roi i Weinidogion Cymru, ac unrhyw berson a bennir yn is-adran (3) gymaint o gymorth mewn cysylltiad ag arfer
- 25 swyddogaethau o dan neu yn rhinwedd y Bennod hon ag y gallant yn rhesymol ei roi.
- (2) Rhaid i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir a'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol sicrhau hefyd, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, fod personau sy'n gweithio yn yr ysgol yn gwneud yr un fath.
- (3) Y personau penodedig yw—
- 30 (a) unrhyw berson a awdurdodir at ddibenion yr adran hon gan Weinidogion Cymru;
- (b) unrhyw berson sy'n gweithredu o dan gyfarwyddiadau o dan y Bennod hon;
- (c) unrhyw berson sy'n cynorthwyo—
- (i) Gweinidogion Cymru, neu
- 35 (ii) person a grybwyllwyd ym mharagraff (a)neu (b).

31 Pwerau mynd i mewn ac arolygu

- (1) Ar bob adeg resymol mae gan berson sy'n dod o fewn is-adran (2)–
- (a) hawl i fynd i mewn i fangre'r awdurdod lleol o dan sylw ac unrhyw ysgol a gynhelir ganddo;
- (b) hawl i arolygu unrhyw gofnodion neu ddogfennau eraill a gedwir gan yr awdurdod neu unrhyw ysgol a gynhelir ganddo, ac unrhyw ddogfennau eraill sy'n cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r awdurdod neu unrhyw ysgol o'r fath, y mae'r person yn barnu eu bod yn berthnasol i'r modd y mae swyddogaethau yn cael eu harfer gan y person o dan neu yn rhinwedd y Bennod hon ac i wneud copïau o unrhyw gofnodion neu ddogfennau o'r fath.
- (2) Y personau canlynol sy'n dod o fewn yr is-adran hon –
- (a) y person a bennir mewn cyfarwyddyd o dan adran 24 neu, pan fo'r cyfarwyddyd yn pennu dosbarth ar bersonau, y person y mae'r awdurdod lleol yn ymrwymo gydag ef i'r contract neu'r trefniant arall sy'n ofynnol gan y cyfarwyddyd;
- (b) y person a bennir mewn cyfarwyddyd o dan adran 25;
- (c) Gweinidogion Cymru yn unol â chyfarwyddyd o dan adran 26;
- (d) y person a enwebir drwy gyfarwyddyd o dan adran 26.
- (3) Wrth arfer yr hawl o dan is-adran (1)(b) i arolygu cofnodion neu ddogfennau eraill, mae person ("P") –
- (a) yn meddu ar yr hawl i gael mynediad i unrhyw gyfrifiadur ac unrhyw aparatws neu ddeunydd cysylltiedig sy'n cael neu sydd wedi bod yn cael eu defnyddio mewn cysylltiad â'r cofnodion neu'r dogfennau eraill sydd o dan sylw, ac arolygu a gwirio eu gweithrediad, a
- (b) yn cael ei gwneud yn ofynnol i'r personau canlynol roi unrhyw gymorth y mae ar P angen rhesymol amdano (gan gynnwys, ymhlith pethau eraill, trefnu bod gwybodaeth ar gael i'w harolygu neu ei chopïo ar ffurf ddarllenadwy) –
- (i) y person y defnyddir neu y defnyddiwyd y cyfrifiadur felly ganddo neu ar ei ran;
- (ii) unrhyw berson sydd â gofal dros y cyfrifiadur, yr aparatws neu'r deunydd, neu sydd fel arall yn ymwneud â'i weithredu.
- (4) Mae unrhyw gyfeiriad yn yr adran hon at berson sy'n dod o fewn is-adran (2) yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw berson sy'n cynorthwyo'r person hwnnw.
- (5) Yn yr adran hon mae'r termau "dogfen" a "cofnodion" ill dau yn cynnwys gwybodaeth a gofnodir ar unrhyw ffurf.

PENNOD 3**CANLLAWIAU GWELLA YSGOLION****32 Ystyr "awdurdod ysgol"**

Yn y Bennod hon ystyr "awdurdod ysgol" yw –

- (a) awdurdod lleol wrth iddo arfer ei swyddogaethau addysg;
- (b) corff llywodraethu ysgol a gynhelir;
- (c) pennaeth ysgol a gynhelir.

33 Pŵer i ddyroddi canllawiau gwella ysgolion

- 5 (1) Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i awdurdod ysgol ynglŷn â'r ffordd y dylai'r awdurdod arfer ei swyddogaethau gyda golwg ar wella safon yr addysg sy'n cael ei darparu gan unrhyw ysgol a gynhelir y mae'r awdurdod yn arfer swyddogaethau mewn cysylltiad â hi ("canllawiau gwella ysgolion").
- (2) Caiff Gweinidogion Cymru –
- 10 (a) dyroddi canllawiau gwella ysgolion i awdurdodau ysgolion yn gyffredinol neu i un neu fwy o awdurdodau penodol;
- (b) dyroddi canllawiau gwahanol ynghylch gwella ysgolion i wahanol awdurdodau ysgolion;
- (c) diwygio neu ddirymu canllawiau gwella ysgolion drwy ganllawiau pellach;
- 15 (d) dirymu canllawiau gwella ysgolion drwy ddyroddi hysbysiad i'r awdurdodau ysgolion y mae'r canllawiau wedi eu cyfeirio atynt.
- (3) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod canllawiau gwella ysgolion, neu hysbysiad yn dirymu'r canllawiau hynny, yn datgan –
- (a) eu bod yn cael eu dyroddi, neu ei fod yn cael ei ddyroddi, o dan yr adran hon, a
- 20 (b) y dyddiad y deuant neu y daw yn weithredol arno.
- (4) Rhaid i Weinidogion Cymru drefnu i gyhoeddi canllawiau gwella ysgolion, neu hysbysiad yn dirymu'r canllawiau hynny.

34 Ymgynghori a gweithdrefnau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

- 25 (1) Cyn dyroddi neu ddiwygio canllawiau gwella ysgolion, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r awdurdodau ysgolion y mae'r canllawiau yn debyg o effeithio arnynt ac unrhyw bersonau eraill y gwél Gweinidogion Cymru yn dda ynghylch drafft o'r canllawiau.
- (2) Os yw Gweinidogion Cymru yn dymuno bwrw ymlaen â'r drafft (gydag addasiadau neu hebddynt), rhaid iddynt osod copi o'r drafft gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- 30 (3) Os yw'r Cynulliad Cenedlaethol, cyn diwedd y cyfnod o 40 o ddiwrnodau, yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r drafft o'r canllawiau, rhaid i Weinidogion Cymru beidio â'u dyroddi ar ffurf y drafft hwnnw.
- (4) Os na chaiff unrhyw benderfyniad ei wneud cyn diwedd y cyfnod hwnnw, rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r canllawiau (neu'r canllawiau diwygiedig) ar ffurf y drafft.
- 35 (5) O ran y cyfnod o 40 niwrnod –
- (a) mae'n dechrau ar y diwrnod y mae'r drafft yn cael ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, a

(b) nid yw'n cynnwys unrhyw bryd y mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi ei ddiddymu neu wedi cymryd saib am fwy na phedwar diwrnod.

(6) Nid yw is-adran (3) yn atal drafft newydd o ganllawiau arfaethedig neu ganllawiau diwygiedig arfaethedig rhag cael eu gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

5 35 Dyletswydd i ddilyn canllawiau gwella ysgolion

(1) Rhaid i awdurdod ysgol ddilyn y llwybr a nodir mewn canllawiau gwella ysgolion a ddyroddir iddo yn unol â'r Bennod hon pan fydd yn arfer pŵer neu ddyletswydd (gan gynnwys pŵer neu ddyletswydd sy'n ddibynnol ar farn yr awdurdod ysgol); ond mae hyn yn ddarostyngedig i ddarpariaethau canlynol yr adran hon.

10 (2) Nid yw awdurdod ysgol sy'n awdurdod lleol yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd o dan is-adran (1) cyhyd—

(a) â bod yr awdurdod yn meddwl bod rheswm da iddo beidio â dilyn y canllawiau mewn categorïau achos penodol neu beidio â'u dilyn o gwbl,

15 (b) â'i fod yn penderfynu ar bolisi amgen ar gyfer arfer ei swyddogaethau mewn cysylltiad â phwnc y canllawiau, ac

(c) â bod effaith i ddatganiad polisi a ddyroddir gan yr awdurdod yn unol ag adran 36.

(3) Nid yw awdurdod ysgol sy'n gorff llywodraethu ysgol a gynhelir neu'n bennaeth arni yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd o dan is-adran (1) cyhyd â bod—

20 (a) y corff llywodraethu'n meddwl bod rheswm da iddo ef neu'r pennaeth beidio â dilyn y canllawiau mewn categorïau achos penodol neu beidio â'u dilyn o gwbl,

(b) y corff llywodraethu'n penderfynu ar bolisi amgen ar gyfer arfer ei swyddogaethau neu rai'r pennaeth mewn cysylltiad â phwnc y canllawiau, ac

25 (c) effaith i ddatganiad polisi a ddyroddir gan y corff llywodraethu yn unol ag adran 36.

(4) Pan fo is-adran (2) neu (3) yn gymwys yn achos awdurdod ysgol—

(a) rhaid i'r awdurdod ddilyn y llwybr a nodir yn y datganiad polisi, a

30 (b) dim ond i'r graddau nad yw pwnc y canllawiau gwella ysgolion wedi ei ddisodli gan y datganiad polisi y mae'r awdurdod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd o dan is-adran (1).

(5) Nid yw'r dyletswyddau yn is-adrannau (1) a (4) yn gymwys i awdurdod ysgol i'r graddau y byddai'n afresymol i'r awdurdod ddilyn y canllawiau gwella ysgolion neu'r datganiad polisi mewn achos penodol neu gategori penodol o achos.

36 Datganiadau polisi: gofynion a phwerau ategol

35 (1) Rhaid i ddatganiad polisi a ddyroddir o dan adran 35(2) neu (3) nodi—

(a) sut mae'r awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu (yn ôl y digwydd) yn cynnig y dylai swyddogaethau gael eu harfer yn wahanol i'r llwybr a nodir yn y canllawiau gwella ysgolion, a

(b) rhesymau'r awdurdod neu'r corff dros gynnig y llwybr gwahanol hwnnw.

40 (2) Caiff awdurdod neu gorff sydd wedi dyroddi datganiad polisi—

- (a) dyroddi datganiad polisi diwygiedig;
 - (b) rhoi hysbysiad sy'n dirymu datganiad polisi.
- (3) Rhaid i ddatganiad polisi (neu ddatganiad diwygiedig am bolisi) ddatgan—
- (a) ei fod wedi ei ddyroddi o dan adran 35(2) neu (3) (yn ôl y digwydd), a
 - (b) y dyddiad y mae i ddod yn weithredol arno.
- (4) Rhaid i'r awdurdod neu'r corff sy'n dyroddi datganiad polisi (neu ddatganiad diwygiedig am bolisi), neu sy'n rhoi hysbysiad o dan is-adran (2)(b)—
- (a) trefnu bod datganiad neu hysbysiad yn cael ei gyhoeddi;
 - (b) anfon copi o unrhyw ddatganiad neu hysbysiad at Weinidogion Cymru.

10 37 Cyfarwyddiadau

- (1) Mae is-adran (2) yn gymwys os yw Gweinidogion Cymru yn credu, mewn perthynas â datganiad polisi a ddyroddir gan awdurdod ysgol, nad yw polisi amgen yr awdurdod ar gyfer arfer swyddogaethau (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) yn debyg o wella safon yr addysg a ddarperir yn yr ysgol y mae'r datganiad polisi yn ymwneud â hi.
- (2) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r awdurdod ysgol i gymryd unrhyw gamau y mae Gweinidogion Cymru yn credu eu bod yn briodol er mwyn sicrhau bod yr awdurdod yn arfer ei swyddogaethau yn unol â'r canllawiau gwella ysgolion a ddyroddir i'r awdurdod yn unol â'r Bennod hon.
- (3) Rhaid i awdurdod ysgol sy'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd o dan yr adran hon gydymffurfio ag ef.
- (4) Mae hyn yn cynnwys cyfarwyddyd i arfer pŵer neu ddyletswydd sy'n ddibynnol ar farn yr awdurdod ysgol.
- (5) O ran cyfarwyddyd o dan yr adran hon —
- (a) rhaid iddo gael ei roi'n ysgrifenedig;
 - (b) caniateir ei amrywio neu ei ddirymu drwy gyfarwyddyd diweddarach;
 - (c) gellir ei orfodi drwy orchymyn mandadol ar gais Gweinidogion Cymru neu ar eu rhan.

RHAN 3

TREFNIADAETH YSGOLION

PENNOD 1

Y COD AM DREFNIADAETH YSGOLION

38 Cod Trefniadaeth Ysgolion

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi cod am drefniadaeth ysgolion ("y Cod"), a chaniateir iddynt ei ddiwygio o dro i dro.
- (2) Mae'r Cod i gynnwys darpariaeth ynghylch arfer swyddogaethau'r personau canlynol o dan y Rhan hon—

- (a) Gweinidogion Cymru;
- (b) awdurdodau lleol;
- (c) cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir;
- (d) panelau penderfynu lleol;
- 5 (e) personau eraill mewn cysylltiad â chynigion a wneir (neu sydd i'w gwneud) ganddynt o dan y Rhan hon.
- (3) Caiff y Cod osod gofynion, a chaiff gynnwys canllawiau sy'n nodi nodau, amcanion a materion eraill.
- (4) Rhaid i'r personau y cyfeiriwyd atynt yn is-adran (2), wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Rhan hon, —
- 10 (a) gweithredu'n unol ag unrhyw ofynion perthnasol a gynhwysir yn y Cod, a
- (b) rhoi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol a gynhwysir ynddo.
- (5) Mae'r ddyletswydd a osodir gan is-adran (4) yn gymwys hefyd i berson sy'n arfer swyddogaeth at ddibenion cyflawni swyddogaethau o dan y Rhan hon gan —
- 15 (a) Gweinidogion Cymru,
- (b) awdurdod lleol,
- (c) corff llywodraethu ysgol a gynhelir,
- (d) panel penderfynu lleol, neu
- 20 (e) personau eraill mewn cysylltiad â chynigion a wneir (neu sydd i'w gwneud) ganddynt o dan y Rhan hon.
- (6) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi ar eu gwefan y Cod sydd mewn grym am y tro.
- (7) Caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth ar wahân (drwy gyfrwng codau ar wahân) mewn perthynas â swyddogaethau gwahanol o dan y Rhan hon sy'n perthyn i'r personau a grybwyllwyd yn is-adran (2).
- 25 (8) Mae cyfeiriadau yn yr adran hon at "y Cod" neu at swyddogaethau o dan y Rhan hon yn cael effaith, mewn perthynas â chod ar wahân, fel cyfeiriadau at y cod hwnnw neu at swyddogaethau o dan y Rhan hon y mae'n ymwneud â hwy.

39 Llundio a chymeradwyo Cod Trefniadaeth Ysgolion

- (1) Cyn dyroddi neu ddiwygio cod o dan adran 38, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r personau y gwelant yn dda ynghylch drafft o'r cod (neu'r cod diwygiedig).
- 30 (2) Os yw Gweinidogion Cymru yn dymuno bwrw ymlaen â'r drafft (gydag addasiadau neu hebddynt), rhaid iddynt osod copi o'r drafft gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- (3) Os yw'r Cynulliad Cenedlaethol, cyn diwedd y cyfnod o 40 o ddiwrnodau, yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r drafft o'r cod, rhaid i Weinidogion Cymru beidio â dyroddi'r cod arfaethedig ar ffurf y drafft hwnnw.
- 35 (4) Os na chaiff unrhyw benderfyniad o'r fath ei wneud cyn diwedd y cyfnod hwnnw —
- (a) rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r cod (neu'r cod diwygiedig) ar ffurf y drafft, a

- (b) daw'r cod (neu'r cod diwygiedig) i rym ar y dyddiad a bennir drwy orchymyn gan Weinidogion Cymru.
- (5) O ran y cyfnod o 40 o ddiwrnodau –
- (a) mae'n dechrau ar y diwrnod y caiff y drafft ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a
- (b) nid yw'n cynnwys unrhyw amser pryd y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ei ddiddymu neu wedi cymryd saib am fwy na phedwar diwrnod.
- (6) Nid yw is-adran (3) yn atal drafft newydd o god arfaethedig rhag cael ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.
- (7) Mae cyfeiriadau yn yr adran hon at god arfaethedig yn cynnwys cod diwygiedig arfaethedig.
- (8) Caniateir i'r gofyniad i ymgynghori a osodir gan is-adran (1) gael ei fodloni drwy ymgynghoriad yr ymgwymerwyd ag ef cyn i'r Rhan hon ddod i rym er bod y cod a ddyroddir o dan adran 38(1) yn cymryd i ystyriaeth (i unrhyw raddau) unrhyw ddarpariaeth a wneir gan y Rhan hon.

PENNOD 2

CYNIGION TREFNIADAETH YSGOLION

Sefydlu, newid a therfynu ysgolion a gynhelir

- 40 Cyfyngu ar sefydlu, newid a therfynu ysgolion a gynhelir**
- (1) Dim ond yn unol â'r Rhan hon y caniateir i ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol, ysgol arbennig gymunedol neu ysgol arbennig sefydledig newydd gael ei sefydlu yng Nghymru.
- (2) Ni chaniateir i ysgol sefydledig newydd gael ei sefydlu yng Nghymru.
- (3) Dim ond yn unol â'r Rhan hon y caniateir i ysgol a gynhelir gael ei therfynu.
- (4) Dim ond yn unol â'r Rhan hon y caniateir i newid gael ei wneud i ysgol a gynhelir sy'n newid rheoleiddiedig mewn perthynas â'r math o ysgol o dan sylw.
- (5) Ni chaniateir i unrhyw newid gael ei wneud i ysgol a gynhelir sy'n newid cymeriad crefyddol yr ysgol neu'n peri i ysgol gaffael neu golli ei chymeriad crefyddol.
- (6) Mae is-adran(3) yn cael effaith yn ddarostyngedig i adran 16(5) (pŵer Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo bod ysgol yn cau).
- (7) Mae Atodlen 2 (sy'n disgrifio newidiadau rheoleiddiedig) yn cael effaith.
- 41 Cynigion i sefydlu ysgolion prif ffrwd**
- (1) Caiff awdurdod lleol wneud cynigion i sefydlu –
- (a) ysgol gymunedol newydd, neu
- (b) ysgol feithrin newydd a gynhelir.
- (2) Caiff unrhyw berson wneud cynigion i sefydlu ysgol wirfoddol newydd.

42 Cynigion i newid ysgolion prif ffrwd

- (1) Caiff awdurdod lleol wneud cynigion—
- (a) i wneud newid rheoleiddiedig i ysgol gymunedol;
 - (b) gyda chydysniad Gweinidogion Cymru, i wneud newid a ddisgrifir ym mharagraff 6 o Atodlen 2 (agor neu gau chweched dosbarth ysgol) i ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig;
 - (c) i wneud newid a ddisgrifir ym mharagraff 10, 11, 12 neu 13 o Atodlen 2 (cynyddu a lleihau capasiti) i ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig os nad oes gan yr ysgol honno gymeriad crefyddol;
 - (d) i wneud newid rheoleiddiedig i ysgol feithrin a gynhelir.
- (2) Caiff corff llywodraethu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol wneud cynigion i wneud newid rheoleiddiedig i'r ysgol.

43 Cynigion i derfynu ysgolion prif ffrwd

- (1) Caiff awdurdod lleol wneud cynigion i derfynu—
- (a) ysgol gymunedol, ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol, neu
 - (b) ysgol feithrin a gynhelir.
- (2) Caiff corff llywodraethu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol wneud cynigion i derfynu'r ysgol.

44 Cynigion i sefydlu, newid neu derfynu ysgolion arbennig

- (1) Caiff awdurdod lleol wneud cynigion—
- (a) i sefydlu ysgol arbennig gymunedol neu ysgol arbennig sefydledig newydd,
 - (b) i wneud newid rheoleiddiedig i ysgol o'r fath, neu
 - (c) i derfynu ysgol o'r fath.
- (2) Caiff corff llywodraethu ysgol arbennig sefydledig wneud cynigion—
- (a) i wneud newid rheoleiddiedig i'r ysgol, neu
 - (b) i derfynu'r ysgol.

*Newidiadau categori***45 Cynigion i newid categori ysgol**

- (1) Caiff corff llywodraethu ysgol gymunedol wneud cynigion i'r ysgol ddod yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu'n ysgol wirfoddol a reolir.
- (2) Caiff corff llywodraethu ysgol wirfoddol a gynorthwyir wneud cynigion i'r ysgol ddod yn ysgol gymunedol neu'n ysgol wirfoddol a reolir.
- (3) Caiff corff llywodraethu ysgol wirfoddol a reolir wneud cynigion i'r ysgol ddod yn ysgol gymunedol neu'n ysgol wirfoddol a gynorthwyir.
- (4) Caiff corff llywodraethu ysgol sefydledig wneud cynigion i'r ysgol ddod yn ysgol gymunedol, yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu'n ysgol wirfoddol a reolir.

- (5) Caiff awdurdod lleol wneud cynigion i ysgol arbennig gymunedol ddod yn ysgol arbennig sefydledig.
- (6) Caiff corff llywodraethu ysgol arbennig gymunedol neu ysgol arbennig sefydledig wneud cynigion i'r ysgol ddod yn ysgol arbennig sefydledig neu'n ysgol arbennig gymunedol.

46 Gofyniad am gynigion i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir newid categori

Os yw corff llywodraethu ysgol wirfoddol a gynorthwyir ar unrhyw bryd yn anabl neu'n anfodlon cyflawni ei rwymedigaethau o dan Atodlen 3 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (cyllido ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir), rhaid iddo wneud cynigion o dan adran 45 i'r ysgol ddod yn ysgol wirfoddol a reolir.

47 Cyfyngiadau ar newid categori ysgol

- (1) Dim ond yn unol â'r Rhan hon y caiff ysgol a gynhelir o fewn un o'r categorïau a nodir yn adran 20(1) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ddod yn ysgol o fewn un arall o'r categorïau hynny (ac eithrio ysgol sefydledig).
- (2) Ni chaiff ysgol newid categori i ddod yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir oni fydd corff llywodraethu'r ysgol yn bodloni Gweinidogion Cymru y byddai'n gallu cyflawni ei rwymedigaethau o dan Atodlen 3 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (cyllido ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir) am gyfnod o bum mlynedd o leiaf ar ôl y dyddiad y cynigir bod y newid categori yn digwydd.
- (3) Ni chaiff ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig ddod yn ysgol gymunedol ac ni chaiff ysgol arbennig sefydledig ddod yn ysgol arbennig gymunedol onid ydys wedi ymrwymo i unrhyw gytundeb trosglwyddo ac unrhyw gytundeb i drosglwyddo hawliau a rhwymedigaethau sy'n ofynnol o dan Ran 3 o Atodlen 5.

48 Effaith newid categori

- (1) Nid yw newid yng nghategori ysgol yn unol â chynigion a wneir o dan adran 45 i'w drin fel petai'n awdurdodi unrhyw newid yng nghymeriad yr ysgol nac fel petai'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw newid o'r fath gael ei wneud (gan gynnwys, yn benodol, unrhyw newid yng nghymeriad crefyddol yr ysgol).
- (2) Nid yw newid yng nghategori ysgol yn unol â chynigion a wneir o dan adran 45 i'w drin fel petai'n awdurdodi ysgol i sefydlu corff sefydledig, nac i ymuno neu ymadael â chorff o'r fath.

Cyhoeddi, ymgynghori a gwrthwynebu

49 Cyhoeddi ac ymgynghori

- (1) Rhaid i gynigydd gyhoeddi cynigion a wneir o dan y Bennod hon yn unol â'r Cod.
- (2) Cyn cyhoeddi cynigion a wneir o dan y Bennod hon, rhaid i gynigydd ymgynghori ynglŷn â'i gynigion yn unol â'r Cod.
- (3) Nid yw'r gofyniad i ymgynghori yn gymwys i gynigion i derfynu ysgol sy'n ysgol fach (gweler adran 57).

- (4) Cyn diwedd 7 niwrnod gan ddechrau ar ddiwrnod eu cyhoeddi, rhaid i'r cynigydd anfon copïau o'r cynigion cyhoeddedig –
- (a) at Weinidogion Cymru, a
 - (b) at yr awdurdod lleol (os nad hwnnw yw'r cynigydd) sy'n cynnal, neu y cynigir ei fod yn cynnal, yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi.
- (5) Rhaid i'r cynigydd gyhoeddi adroddiad ar yr ymgynghori y mae wedi ei wneud yn unol â'r Cod.

50 Gwrthwynebu

- (1) Caiff unrhyw berson wrthwynebu cynigion a gyhoeddir o dan adran 49.
- (2) Rhaid i wrthwynebiadau gael eu hanfon yn ysgrifenedig at y cynigydd cyn diwedd 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y diwrnod y cafodd y cynigion eu cyhoeddi ("y cyfnod gwrthwynebu").
- (3) Rhaid i'r cynigydd gyhoeddi crynodeb o'r holl wrthwynebiadau a wnaed yn unol ag is-adran (2) (ac nas tynnwyd yn eu hôl) a'i ymateb i'r gwrthwynebiadau hynny cyn diwedd 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y diwrnod mae'r cyfnod gwrthwynebu'n dod i ben.

51 Categoriâu gwrthwynebwy

- (1) Mae'r canlynol yn wrthwynebwy categori 1 at ddibenion y Bennod hon –
- (a) awdurdod lleol;
 - (b) os yw'r ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi yn ysgol â chymeriad crefyddol, neu os bwriedir iddi fod yn ysgol o'r fath, y corff crefyddol priodol;
 - (c) awdurdod lleol yn Lloegr y mae ei ardal yn gyfagos i ardal yr awdurdod lleol sy'n cynnal, neu y cynigir ei fod yn cynnal, yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi.
- (2) Mae'r canlynol yn wrthwynebwy categori 2 at ddibenion y Bennod hon –
- (a) corff llywodraethu'r ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi;
 - (b) corff llywodraethu ysgol a gynhelir y mae'r cynigydd yn credu y byddai'r cynigion yn debyg o effeithio arni;
 - (c) cyngor ysgol yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi;
 - (d) cyngor ysgol ar gyfer ysgol a gynhelir y mae'r cynigydd yn credu y byddai'r cynigion yn debyg o effeithio arni;
 - (e) aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n aelod ar gyfer yr etholaeth neu'n un o'r aelodau ar gyfer y rhanbarth etholiadol lle y mae, neu lle y bydd, yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi, neu sy'n cynrychioli etholaeth neu ranbarth etholiadol yn y Cynulliad Cenedlaethol y mae'r cynigydd yn credu y byddai'r cynigion yn debyg o effeithio ar ei thrigolion;
 - (f) aelod Seneddol sy'n aelod ar gyfer yr etholaeth lle y mae, neu lle y bydd, yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi, neu sy'n aelod y mae'r cynigydd yn credu y byddai'r cynigion yn debyg o effeithio ar ei etholwyr;

(g) yn achos cynigion sy'n ymwneud ag ysgol sy'n darparu addysg uwchradd, sefydliad o fewn y sector addysg bellach yng Nghymru y mae'r cynigydd yn credu y byddai'r cynigion yn debyg o effeithio arno;

(h) y corff crefyddol priodol ar gyfer unrhyw ysgol arall â chymeriad crefyddol y mae'r cynigydd yn credu y byddai'r cynigion yn debygol o effeithio arni.

(3) Mae'r canlynol yn wrthwynebwyr categori 3 at ddibenion y Bennod hon—

(a) aelod o'r awdurdod lleol ar gyfer yr ardal lle y mae, neu lle y bydd, yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi;

(b) aelod o staff yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi;

(c) aelod o staff ysgol a gynhelir y mae'r cynigydd yn credu y byddai'r cynigion yn debyg o effeithio arni;

(d) plentyn neu berson ifanc sy'n mynychu, neu a allai'n rhesymol ddymuno mynychu, yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi;

(e) rhiant plentyn neu berson ifanc sy'n mynychu'r ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi;

(f) rhiant plentyn neu berson ifanc a hwnnw'n rhiant a allai'n rhesymol ddymuno bod y plentyn neu'r person ifanc yn mynychu'r ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi;

(g) y cyngor cymuned dros yr ardal lle y mae, neu lle y bydd, yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi;

(h) corff sy'n cynrychioli buddiannau aelodau staff yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi;

(i) sefydliad y mae'r cynigydd yn credu ei fod yn cynrychioli buddiannau plant neu bersonau ifanc sy'n mynychu, neu a allai'n rhesymol ddymuno mynychu, yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi.

Cymeradwyo cynigion a phenderfynu arnynt

52 Eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru

(1) Mae'n ofynnol i gynigion a gyhoeddir o dan adran 49 gael eu cymeradwyo o dan yr adran hon—

(a) os oes gwrthwynebiad wedi ei wneud i'r cynigion yn unol ag adran 50(2) gan wrthwynebwyr categori 1 ac nad yw'r gwrthwynebiad hwnnw wedi ei dynnu'n ôl yn ysgrifenedig cyn diwedd 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu, neu

(b) os yw'r cynigion yn effeithio ar addysg chweched dosbarth.

(2) Mae cynigion yn effeithio ar addysg chweched dosbarth—

(a) os ydynt yn gynigion i sefydlu neu derfynu ysgol sy'n darparu addysg sy'n addas at anghenion personau sydd dros oedran ysgol gorfodol yn unig, neu

(b) os ydynt yn gynigion i wneud newid rheoleiddiedig i ysgol, y byddai ei effaith yn golygu bod darparu addysg sy'n addas i anghenion personau sydd dros oedran ysgol gorfodol yn yr ysgol yn cynyddu neu'n lleihau.

- (3) Pan fo'n ofynnol i gynigion gael eu cymeradwyo o dan yr adran hon, rhaid i'r cynigydd anfon copi o'r dogfennau a restrir yn is-adran (4) at Weinidogion Cymru cyn diwedd 35 o ddiwrnodau gan ddechrau ar ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.
- (4) Y dogfennau yw'r canlynol –
- 5 (a) yr adroddiad a gyhoeddir o dan adran 49(5),
- (b) y cynigion cyhoeddedig,
- (c) unrhyw gynigion a wneir yn unol ag adran 50(2) (ac nad ydynt wedi eu tynnu'n ôl), a
- 10 (d) pan fo gwrthwynebiadau wedi eu gwneud felly (a heb gael eu tynnu'n ôl), yr ymateb a gyhoeddir o dan adran 50(3).
- (5) Pan fo angen i gynigion gael cymeradwyaeth o dan yr adran hon, caiff Gweinidogion Cymru –
- (a) gwrthod y cynigion,
- (b) eu cymeradwyo heb eu haddasu, neu
- 15 (c) eu cymeradwyo gydag addasiadau –
- (i) ar ôl cael cydsyniad y cynigydd â'r addasiadau, a
- (ii) (ac eithrio os y cynigydd yw'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol, yn ôl y digwydd), ar ôl ymgynghori â chorff llywodraethu (os oes un) yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi a'r awdurdod lleol sy'n cynnal, neu y cynigir ei fod yn cynnal, yr ysgol.
- 20 (6) Caniateir i gymeradwyaeth ddatgan mai dim ond os bydd digwyddiad a bennir yn y gymeradwyaeth yn digwydd erbyn dyddiad a bennir felly, y byddai'n dod yn weithredol.
- (7) Caiff Gweinidogion Cymru, ar gais y cynigydd, bennu dyddiad diweddarach erbyn pryd y mae'r digwyddiad y cyfeiriwyd ato yn is-adran (6) i ddigwydd.
- 25 (8) Nid yw is-adran (1) yn atal cynigion rhag cael eu tynnu'n ôl drwy hysbysiad ysgrifenedig a roddir gan y cynigydd i Weinidogion Cymru ar unrhyw bryd cyn iddynt gael eu cymeradwyo o dan yr adran hon.
- (9) Nid yw'n ofynnol i gynigion a wneir o dan adran 43 neu 44 i derfynu ysgol sy'n ysgol fach (gweler adran 57) gael unrhyw gymeradwyaeth o dan yr adran hon.
- 30

53 Eu cymeradwyo gan banel penderfynu lleol

- (1) Mae'n ofynnol i gynigion a gyhoeddir o dan adran 49 gael eu cymeradwyo o dan yr adran hon os nad yw'n ofynnol iddynt gael eu cymeradwyo o dan adran 52 a bod naill ai –
- 35 (a) gwrthwynebiad i'r cynigion wedi ei wneud yn unol ag adran 50(2) gan wrthwynebydd categori 2 ac nad yw'r gwrthwynebiad hwnnw wedi ei dynnu'n ôl yn ysgrifenedig cyn diwedd 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu, neu

- (b) gwrthwynebiadau i'r cynigion wedi eu gwneud yn unol ag adran 50(2) gan 10 neu fwy o wrthwynebwyr categori 3.
- (2) Wrth gyfrifo a oes gwrthwynebiadau wedi eu gwneud gan 10 neu fwy o wrthwynebwyr categori 3 at ddibenion is-adran (1)(b)–
- 5 (a) nid oes unrhyw ystyriaeth i'w rhoi i unrhyw wrthwynebiad sydd wedi ei dynnu'n ôl yn ysgrifenedig cyn diwedd 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu, a
- (b) mae dogfen unigol sy'n cynnwys testun un gwrthwynebiad neu fwy ohonynt sy'n honni ei fod wedi ei wneud neu wedi eu gwneud gan fwy nag un
- 10 gwrthwynebydd categori 3 i'w chyfrif fel gwrthwynebiad gan un gwrthwynebydd categori 3.
- (3) Pan fo'n ofynnol i gynigion gael eu cymeradwyo o dan yr adran hon, rhaid i'r cynigydd (os nad yr awdurdod lleol yw ef) anfon copi o'r dogfennau a restrir yn is-adran (4) at yr awdurdod lleol perthnasol cyn diwedd 35 o ddiwrnodau gan ddechrau ar ddiwedd y
- 15 cyfnod gwrthwynebu.
- (4) Y dogfennau yw'r canlynol–
- (a) yr adroddiad a gyhoeddir o dan adran 49(5),
- (b) y cynigion cyhoeddedig,
- (c) unrhyw wrthwynebiadau a wneir yn unol ag adran 50(2) (ac nad ydynt wedi eu
- 20 tynnu'n ôl), a
- (d) pan fo gwrthwynebiadau wedi eu gwneud felly (a heb gael eu tynnu'n ôl), yr ymateb a gyhoeddir o dan adran 50(3).
- (5) Pan fo'n ofynnol i gynigion gael eu cymeradwyo o dan yr adran hon, rhaid i'r awdurdod lleol perthnasol benodi panel penderfynu lleol a rhaid iddo ddarparu i'r panel hwnnw gopi o'r dogfennau a restrir yn is-adran (4).
- 25 (6) Mae Atodlen 3 yn gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas â phanelau penderfynu lleol.
- (7) Pan fo'n ofynnol i gynigion gael eu cymeradwyo o dan yr adran hon, caiff y panel penderfynu lleol–
- 30 (a) gwrthod y cynigion,
- (b) eu cymeradwyo heb eu haddasu, neu
- (c) eu cymeradwyo gydag unrhyw un o'r addasiadau a bennir yn is-adran (8)–
- (i) ar ôl cael cydsyniad y cynigydd â'r addasiadau, a
- (ii) (ac eithrio os y cynigydd yw'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol, yn
- 35 ôl y digwydd), ar ôl ymgynghori â chorff llywodraethu (os oes un) yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi a'r awdurdod lleol perthnasol.
- (8) Caiff y panel addasu–
- (a) y dyddiad neu'r dyddiadau a bennir yn y cynigion cyhoeddedig fel y dyddiad neu'r dyddiadau y bwriedir gweithredu'r cynigion;
- 40 (b) nifer y disgyblion a bennir yn y cynigion cyhoeddedig fel y nifer sydd i'w derbyn i'r ysgol (mewn unrhyw grŵp oedran ac mewn unrhyw flwyddyn ysgol).

- (9) Caniateir i gymeradwyaeth ddatgan mai dim ond os bydd digwyddiad a bennir yn y gymeradwyaeth yn digwydd erbyn dyddiad a bennir felly, y byddai'n dod yn weithredol.
- (10) Caiff Gweinidogion Cymru, ar gais y cynigydd, bennu dyddiad diweddarach erbyn pryd y mae'r digwyddiad y cyfeiriwyd ato yn is-adran (9) i ddigwydd.
- (11) Nid yw is-adran (1) yn atal cynigion rhag cael eu tynnu'n ôl drwy hysbysiad ysgrifenedig a roddir gan y cynigydd i'r panel penderfynu lleol ar unrhyw bryd cyn iddynt gael eu cymeradwyo o dan yr adran hon.
- (12) Nid yw'n ofynnol i gynigion a wneir o dan adran 43 neu 44 i derfynu ysgol sy'n ysgol fach (gweler adran 57) gael unrhyw gymeradwyaeth o dan yr adran hon.
- (13) Yn yr adran hon ystyr "awdurdod lleol perthnasol" yw'r awdurdod lleol sy'n cynnal, neu y cynigir ei fod yn cynnal, yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi.

54 Cynigion cysylltiedig

- (1) Rhaid i gynigydd anfon at Weinidogion Cymru gynigion ("cynigion B") y mae wedi eu gwneud –
- (a) os yw o'r farn eu bod yn gysylltiedig â chynigion y mae'n ofynnol iddynt gael eu cymeradwyo o dan adran 52 ("cynigion A"), a
- (b) os nad yw'r cynigydd wedi penderfynu a fyddai'n gweithredu cynigion B o dan adran 55 cyn bod Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo neu'n gwrthod cynigion A.
- (2) Os yw Gweinidogion Cymru o'r farn bod cynigion B yn gysylltiedig â chynigion A, mae cynigion B i'w trin fel petai'n ofynnol iddynt gael eu cymeradwyo o dan adran 52.
- (3) Rhaid i gynigydd anfon at y panel penderfynu lleol gynigion ("cynigion D") y mae'n eu gwneud –
- (a) os yw o'r farn eu bod yn gysylltiedig â chynigion y mae'n ofynnol iddynt gael eu cymeradwyo o dan adran 53 ("cynigion C"), a
- (b) os nad yw'r cynigydd wedi penderfynu a ddylid gweithredu cynigion D o dan adran 55 cyn bod y panel yn cymeradwyo neu'n gwrthod cynigion C.
- (4) Os yw'r panel penderfynu lleol o'r farn bod cynigion D yn gysylltiedig â chynigion C, mae cynigion D i'w trin fel petai'n ofynnol iddynt gael eu cymeradwyo o dan adran 53.
- (5) Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gynigion eraill gael eu trin fel rhai y mae'n ofynnol iddynt gael eu cymeradwyo o dan adran 52 –
- (a) os ydynt o'r farn eu bod yn gysylltiedig â chynigion y mae'n ofynnol iddynt gael eu cymeradwyo ganddynt hwy o dan adran 52, a
- (b) os nad yw'r cynigydd wedi penderfynu a ddylid eu gweithredu o dan adran 55 cyn bod Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo neu'n gwrthod y cynigion y mae'n ofynnol iddynt gael eu cymeradwyo.
- (6) Caiff y panel penderfynu lleol ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gynigion eraill gael eu trin fel rhai y mae'n ofynnol iddynt gael eu cymeradwyo o dan adran 53 –
- (a) os yw o'r farn eu bod yn gysylltiedig â chynigion y mae'n ofynnol iddynt gael eu cymeradwyo ganddo o dan adran 53, a

(b) os nad yw'r cynigydd wedi penderfynu a ddylid eu gweithredu o dan adran 55 cyn bod y panel yn cymeradwyo neu'n gwrthod y cynigion y mae'n ofynnol iddynt gael eu cymeradwyo.

(7) Nid yw'r adran hon yn gymwys i gynigion a gyfeirir i ymchwiliad lleol o dan adran 62 (ymchwiliad lleol i gynigion i resymoli lleoedd ysgol).

55 Penderfynu

(1) Pan nad yw'n ofynnol i unrhyw gynigion a gyhoeddir o dan adran 49 gael eu cymeradwyo o dan adran 52 neu 53, rhaid i'r cynigydd benderfynu a ddylid gweithredu'r cynigion.

(2) Os na fydd penderfyniad o dan is-adran (1) wedi ei wneud cyn diwedd 16 o wythnosau gan ddechrau ar ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu, bernir bod y cynigydd wedi tynnu'r cynigion yn eu hôl.

(3) Cyn diwedd 7 niwrnod gan ddechrau ar ddiwrnod ei benderfyniad o dan is-adran (1), rhaid i'r cynigydd hysbysu'r canlynol am y penderfyniad –

(a) Gweinidogion Cymru;

(b) (ac eithrio os y cynigydd yw ef) yr awdurdod lleol sy'n cynnal, neu y cynigir ei fod yn cynnal, yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi;

(c) (ac eithrio os y cynigydd yw ef) corff llywodraethu (os oes un) yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi.

56 Gweithredu

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i'r canlynol –

(a) cynigion sydd wedi eu cymeradwyo o dan adran 52 neu 53, neu

(b) cynigion y mae'r cynigydd wedi penderfynu o dan adran 55 y byddai'n eu gweithredu.

(2) Rhaid i'r cynigion (yn ddarostyngedig i ddarpariaethau canlynol yr adran hon) gael eu gweithredu ar y ffurf y cawsant eu cymeradwyo neu eu penderfynu i gael eu gweithredu ynddi –

(a) yn achos cynigion a wneir o dan adran 41, 42, 43 neu 44 (sefydlu, newid neu derfynu ysgolion), yn unol ag Atodlen 4;

(b) yn achos cynigion a wneir o dan adran 45 (newid categori), yn unol ag Atodlen 5.

(3) Caiff y cynigydd (yn ddarostyngedig i is-adran (6)) benderfynu gohirio gweithredu am gyfnod o hyd at dair blynedd o'r dyddiad neu'r dyddiadau a bennwyd yn y cynigion (fel y cawsant eu cymeradwyo neu eu penderfynu) fel y dyddiad neu'r dyddiadau y maent i'w gweithredu arno neu arnynt, os yw wedi ei fodloni –

(a) y byddai gweithredu'r cynigion ar y dyddiad hwnnw neu'r dyddiadau hynny yn afresymol o anodd, neu

(b) bod yr amgylchiadau wedi newid i'r fath graddau ers i'r cynigion gael eu cymeradwyo o dan adran 52 neu 53 neu eu penderfynu o dan adran 55, y byddai gweithredu'r cynigion ar y dyddiad hwnnw neu'r dyddiadau hynny yn amhriodol.

- (4) Yn achos cynigion i derfynu ysgol a wneir o dan adran 43 neu 44, caiff y cynigydd (yn ddarostyngedig i is-adran (6)) benderfynu dod â'r gweithredu ymlaen gan gyfnod o hyd at 13 o wythnosau o'r dyddiad neu'r dyddiadau a bennir yn y cynigion (fel y'u cymeradwyir neu eu penderfynir) fel y dyddiad neu'r dyddiadau pan gânt eu gweithredu.
- (5) Caiff y cynigydd (yn ddarostyngedig i is-adran (6)) benderfynu na fydd is-adran (2) yn gymwys i gynigion os yw wedi ei fodloni—
- y byddai gweithredu'r cynigion yn afresymol o anodd, neu
 - bod yr amgylchiadau wedi newid cymaint ers i'r cynigion gael eu cymeradwyo o dan adran 52 neu 53 neu eu penderfynu o dan adran 55, y byddai'n amhriodol gweithredu'r cynigion.
- (6) Yn achos cynigion sydd wedi eu cymeradwyo o dan adran 52 neu 53, dim ond gyda chytundeb Gweinidogion Cymru y caiff y cynigydd wneud penderfyniad o dan is-adran (3), (4) neu (5).
- (7) Cyn diwedd 7 niwrnod gan ddechrau ar ddiwrnod y penderfyniad, rhaid i'r cynigydd hysbysu'r canlynol am unrhyw benderfyniad y mae'n ei wneud o dan is-adran (3), (4) neu (5)—
- Gweinidogion Cymru;
 - (ac eithrio os y cynigydd yw ef) yr awdurdod lleol sy'n cynnal, neu y cynigir ei fod yn cynnal, yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi;
 - (ac eithrio os y cynigydd yw ef) corff llywodraethu (os oes un) yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi.
- (8) Pan fo is-adran (2), yn rhinwedd is-adran (5), yn peidio â bod yn gymwys i unrhyw gynigion, mae'r cynigion hynny i'w trin fel petaent wedi eu gwrthod o dan adran 52(5)(a) neu 53(7)(a) neu fel petai'r cynigydd wedi penderfynu o dan adran 55 y byddai'n peidio â'u gweithredu.

57 Dehongli Pennod 2

- (1) Yn y Bennod hon—

ystyr "y Cod" (*"the Code"*) yw'r cod ar drefniadaeth ysgolion a ddyroddir o dan adran 38(1);

"corff crefyddol priodol" (*"appropriate religious body"*)—

- yn achos un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru neu un o ysgolion yr Eglwys Gatholig Rufeinig, neu ysgol arfaethedig o'r fath, yw'r awdurdod esgobaethol priodol, a
- yn achos ysgolion neu ysgolion arfaethedig eraill, yw'r corff sy'n cynrychioli'r crefydd neu'r enwad crefyddol a ddatganwyd, neu y bwriedir iddo gael ei ddatgan, mewn perthynas â'r ysgol mewn gorchymyn o dan adran 69(3) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

mae i "cyfnod gwrthwynebu" (*"objection period"*) yr ystyr a roddir gan adran 50(2);
"cynigydd" (*"proposer"*), mewn perthynas â chynigion a wneir o dan adran 41, 42,
43, 44 neu 45, yw'r awdurdod lleol, y corff llywodraethu neu'r person arall sydd
wedi gwneud y cynigion;

5 mae i "gwrthwynebydd categori 1" (*"category 1 objector"*) yr ystyr a roddir gan
adran 51(1);

mae i "gwrthwynebydd categori 2" (*"category 2 objector"*) yr ystyr a roddir gan
adran 51(2);

10 mae i "gwrthwynebydd categori 3" (*"category 3 objector"*) yr ystyr a roddir gan
adran 51(3);

ystyr "newid rheoleiddiedig" (*"regulated alteration"*) yw newid a ddisgrifir yn
Atodlen 2;

15 ystyr "ysgol fach" (*"small school"*) yw ysgol sydd â llai na 10 o ddisgyblion
cofrestrdedig ar y trydydd dydd Mawrth yn y mis Ionawr yn union cyn y dyddiad
y caiff y cynigion eu gwneud.

(2) Mae cyfeiriad yn y Rhan hon at banel penderfynu lleol mewn perthynas ag awdurdod
lleol, ysgol a gynhelir neu y cynigir ei bod yn cael ei chynnal gan awdurdod lleol neu
unrhyw gynigion sy'n ymwneud ag ysgol o'r fath, yn cyfeirio at y panel penderfynu lleol
sy'n cwmpasu ardal yr awdurdod.

20 (3) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio drwy orchymyn y diffiniad o "ysgol fach" yn is-
adran (1) yn y fath fodd ag i roi cyfeiriad at ddyddiad gwahanol yn lle'r cyfeiriad at y
dyddiad a bennir am y tro.

PENNOD 3**RHESYMOLI LLEOEDD YSGOL***Cyfarwyddiadau i wneud cynigion i resymoli lleoedd ysgol***58 Cyfarwyddiadau i wneud cynigion i gywiro darpariaeth ormodol neu annigonol**

- 5 (1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru o'r farn bod darpariaeth ormodol neu fod, neu ei bod yn debygol y bydd, darpariaeth annigonol ar gyfer addysg gynradd neu uwchradd mewn ysgolion a gynhelir –
- (a) yn ardal awdurdod lleol, neu
 - (b) mewn rhan o'r ardal honno.
- 10 (2) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn –
- (a) cyfarwyddo'r awdurdod lleol i arfer ei bwerau i wneud cynigion i sefydlu, newid neu derfynu ysgolion, a
 - (b) cyfarwyddo corff llywodraethu ysgol sefydledig, gwirfoddol neu arbennig sefydledig a gynhelir gan yr awdurdod i arfer ei bwerau i wneud cynigion i newid
- 15 (3) Rhaid i orchymyn o dan is-adran (2) –
- (a) ei gwneud yn ofynnol i'r cynigion gael eu cyhoeddi heb fod yn hwyrach na'r dyddiad a bennir yn y gorchymyn,
 - (b) ei gwneud yn ofynnol i'r cynigion, wrth iddynt roi effaith i'r cyfarwyddyd, gymhwyso unrhyw egwyddorion a bennir yn y gorchymyn, ac
 - (c) pan fo Gweinidogion Cymru o'r farn bod, neu ei bod yn debygol y bydd, darpariaeth annigonol, pennu'r nifer ychwanegol o ddisgyblion y mae lle i'w drefnu ar eu cyfer.
- 20 (4) Ni chaniateir i orchymyn o dan is-adran (2)(a) ei gwneud yn ofynnol i'r cynigion ymwneud ag ysgol a enwir.
- 25

59 Darpariaeth bellach am gynigion a wneir ar ôl gorchymyn o dan adran 58(2)

- (1) Ni chaniateir i gynigion a wneir yn unol â gorchymyn o dan adran 58(2) gael eu tynnu'n ôl heb gydsyniad Gweinidogion Cymru.
- 30 (2) Caiff Gweinidogion Cymru roi cydsyniad at ddibenion is-adran (1) yn ddarostyngedig i amodau.
- (3) Rhaid i'r awdurdod lleol ad-dalu gwariant yr aed iddo'n rhesymol gan gorff llywodraethu ysgol a gynhelir ganddo wrth wneud cynigion yn unol â gorchymyn o dan adran 58(2).
- 35 (4) Er gwaethaf unrhyw beth yn Rhan 1 o Atodlen 4 (cyfrifoldeb dros weithredu cynigion statudol), rhaid i'r awdurdod lleol gwrdd â'r gost o weithredu cynigion a wneir gan gorff llywodraethu ysgol a gynhelir gan yr awdurdod yn unol â gorchymyn o dan adran 58(2) a rheini'n gynigion sydd wedi eu cymeradwyo neu y penderfynwyd eu gweithredu.

*Cynigion gan Weinidogion Cymru i resymoli lleoedd ysgol***60 Gwneud a chyhoeddi cynigion gan Weinidogion Cymru**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo –

(a) Gweinidogion Cymru wedi gwneud gorchymyn o dan adran 58(2), a

(b) naill ai –

(i) cynigion wedi eu cyhoeddi'n unol â'r gorchymyn, neu

(ii) yr amser a ganiatawyd o dan y gorchymyn ar gyfer cyhoeddi'r cynigion wedi dirwyn i ben.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw gynigion y gellid fod wedi eu gwneud yn unol â'r gorchymyn.

(3) Rhaid i'r cynigion gael eu cyhoeddi'n unol â'r cod a ddyroddwyd o dan adran 38(1) ac sydd mewn grym am y tro.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru anfon copi o'r cynigion –

(a) at yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal, a

(b) at gorff llywodraethu pob ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hwy.

Y weithdrefn ar gyfer ymdrin â chynigion o dan adran 60

61 Gwrthwynebiadau

(1) Caiff unrhyw berson wrthwynebu cynigion a gyhoeddir o dan adran 60.

(2) Rhaid i wrthwynebiadau gael eu hanfon yn ysgrifenedig at Weinidogion Cymru cyn diwedd 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y diwrnod y cafodd y cynigion eu cyhoeddi.

62 Ymchwiliad lleol i gynigion

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru wedi gwneud cynigion o dan adran 60 (ac eithrio cynigion a wnaed yn rhinwedd adran 63(1)) nad ydynt wedi eu tynnu'n ôl.

(2) Os yw gwrthwynebiadau wedi eu gwneud yn unol ag adran 61(2), yna, oni fydd pob gwrthwynebiad sydd wedi ei wneud felly wedi ei dynnu'n ôl yn ysgrifenedig o fewn yr 28 o ddiwrnodau y cyfeiriwyd atynt yn yr adran honno, rhaid i Weinidogion Cymru beri bod ymchwiliad lleol yn cael ei gynnal.

(3) Diben yr ymchwiliad lleol yw ystyried cynigion Gweinidogion Cymru, unrhyw gynigion eraill y mae Gweinidogion Cymru yn eu cyfeirio at yr ymchwiliad a'r gwrthwynebiadau a grybwyllwyd yn is-adran (2).

(4) Mae cynigion a gyfeirir at ymchwiliad lleol o dan yr adran hon i'w penderfynu o dan adran 63 ac nid yw adrannau 52, 53, 55, 71 a 74 yn gymwys iddynt.

(5) Pan fo'n ofynnol i ymchwiliad lleol gael ei gynnal, rhaid i Weinidogion Cymru gyfeirio'r cynigion a restrir yn is-adran (6) i'r ymchwiliad os yw'r cynigion –

(a) heb gael eu penderfynu cyn i drafodion yr ymchwiliad ddechrau, a

(b) yn ymddangos i Weinidogion Cymru eu bod yn rhai sy'n gysylltiedig â'r cynigion a wnaed o dan adran 60 ac y mae'r ymchwiliad i'w gynnal mewn cysylltiad â hwy.

(6) Y cynigion sydd i'w cyfeirio yw –

(a) unrhyw gynigion eraill a gyhoeddir o dan adran 60 mewn perthynas ag ardal yr awdurdod lleol (ac sydd heb gael eu tynnu'n ôl);

(b) unrhyw gynigion a wneir gan yr awdurdod hwnnw wrth arfer eu pwerau i wneud cynigion i sefydlu, newid neu derfynu ysgolion (ac sydd heb gael eu tynnu'n ôl);

(c) unrhyw gynigion a wneir gan gorff llywodraethu ysgol sefydledig, gwirfoddol neu arbennig sefydledig yn yr ardal wrth arfer ei bwerau i wneud cynigion i newid ei ysgol (a'r rheini'n gynigion sydd heb gael eu tynnu'n ôl); a

(d) unrhyw gynigion a wneir o dan adran 69 neu 72 (ac sydd heb gael eu tynnu'n ôl).

(7) Os bydd Gweinidogion Cymru, cyn bod trafodion yr ymchwiliad yn dechrau, yn ffurfio barn y dylid gweithredu unrhyw gynigion, nid yw is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gyfeirio'r cynigion hynny i'r ymchwiliad oni fyddant yn ffurfio barn wahanol cyn bod –

(a) trafodion yr ymchwiliad wedi eu cwblhau, neu

(b) (os ydynt yn gynharach) y cynigion wedi eu penderfynu.

(8) Nid yw'n agored i'r ymchwiliad gwestiynu'r egwyddorion a bennir yn y gorchymyn o dan adran 58(2).

(9) Mae cyfeiriadau yn yr adran hon at benderfynu cynigion yn cyfeirio at –

(a) penderfyniad p'un ai i fabwysiadu neu i gymeradwyo'r cynigion o dan adran 52, 53, 63, 71 neu 74;

(b) penderfyniad p'un ai i weithredu'r cynigion o dan adran 55 ai peidio.

63 Mabwysiadu cynigion

(1) Pan fo ymchwiliad lleol wedi ei gynnal, caiff Gweinidogion Cymru, ar ôl ystyried adroddiad y person a benodwyd i gynnal yr ymchwiliad, wneud un neu fwy o'r canlynol –

(a) mabwysiadu, gydag addasiadau neu hebddynt, neu benderfynu peidio â mabwysiadu unrhyw un o'r cynigion a wnaed gan Weinidogion Cymru (gan gynnwys cynigion a wnaed ganddynt, a gyfeiriwyd o dan adran 62(5)) ac a ystyriwyd gan yr ymchwiliad;

(b) cymeradwyo, gydag addasiadau neu hebddynt, neu wrthod unrhyw gynigion eraill a gyfeiriwyd at yr ymchwiliad o dan adran 62(5);

(c) gwneud cynigion pellach o dan adran 60.

(2) Os bydd Gweinidogion Cymru'n gwneud cynigion pellach o dan adran 60 yn unol ag is-adran (1)(c), ni fydd y gofyniad yn adran 62(2) i beri i ymchwiliad lleol gael ei gynnal yn gymwys.

- (3) Pan fo Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi cynigion o dan adran 60 nad yw'n ofynnol iddynt gael eu hystyried gan ymchwiliad lleol, cânt, ar ôl ystyried unrhyw wrthwynebiadau a wnaed yn unol ag adran 61(2) (ac sydd heb gael eu tynnu'n ôl) –
- (a) mabwysiadu'r cynigion gydag addasiadau neu hebddynt, neu
- (b) penderfynu peidio â mabwysiadu'r cynigion.
- (4) Caniateir i fabwysiad neu gymeradwyaeth cynigion ddatgan mai dim ond os bydd digwyddiad a bennir yn y mabwysiad neu'r gymeradwyaeth yn digwydd erbyn dyddiad a bennir felly, y byddai'n dod yn weithredol.

64 Gweithredu cynigion

- (1) Mae cynigion sydd wedi eu mabwysiadu neu eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru o dan adran 63 yn cael effaith fel petaent wedi eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru o dan adran 52 ar ôl iddynt gael eu gwneud –
- (a) gan yr awdurdod lleol o dan ei bwerau i wneud cynigion i sefydlu, newid neu derfynu ysgolion, neu
- (b) yn achos cynigion i newid ysgol sefydledig, gwirfoddol neu arbennig sefydledig, gan y corff llywodraethu o dan ei bwerau i wneud cynigion i newid ei ysgol.
- (2) Er gwaethaf unrhyw beth yn Rhan 1 o Atodlen 4 (cyfrifoldeb dros weithredu cynigion statudol), rhaid i'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol dan sylw gwrdd â'r gost o weithredu cynigion sy'n cael eu mabwysiadu neu eu cymeradwyo o dan adran 63 ac sy'n cael effaith fel a grybwyllwyd yn is-adran (1)(b).

PENNOD 4

DARPARIAETH RANBARTHOL AR GYFER ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

65 Ystyr "darpariaeth ranbarthol" a "swyddogaethau addysg arbennig"

Yn y Bennod hon –

ystyr "darpariaeth ranbarthol" ("*regional provision*") yw –

- (a) darpariaeth addysg i blant sy'n perthyn i ardaloedd gwahanol awdurdodau lleol, mewn ysgol a gynhelir gan un o'r awdurdodau hynny, neu
- (b) darpariaeth a wneir gan ddau awdurdod lleol neu fwy i nwyddau neu wasanaethau gael eu cyflenwi gan un o'r awdurdodau –
- (i) i'r llall neu'r lleill, neu
- (ii) i un neu fwy o gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod arall neu'r awdurdodau eraill;

ystyr "swyddogaethau addysg arbennig" ("*special education functions*") yw swyddogaethau o dan Ran 4 o Ddeddf Addysg 1996 (anghenion addysgol arbennig).

66 Cyfarwyddyd i ystyried gwneud darpariaeth ranbarthol

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdodau lleol i ystyried a fyddent hwy (neu unrhyw rai ohonynt) yn gallu cyflawni eu swyddogaethau addysg arbennig, mewn cysylltiad â phlant sydd â'r anghenion addysgol arbennig a bennir yn y cyfarwyddyd, yn fwy effeithlon neu effeithiol pe câi darpariaeth ranbarthol ei gwneud.
- (2) Rhaid i'r awdurdodau y rhoddir cyfarwyddyd iddynt gyflwyno adroddiad ar eu casgliadau i Weinidogion Cymru heb fod yn hwyrach na'r amser a bennir yn y cyfarwyddyd.
- (3) Caniateir i gyfarwyddyd o dan yr adran hon gael ei roi i awdurdodau lleol yn gyffredinol neu i un neu fwy o awdurdodau a bennir yn y cyfarwyddyd.

67 Cyfarwyddiadau i wneud cynigion i sicrhau darpariaeth ranbarthol

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru o'r farn y byddai dau neu fwy o awdurdodau lleol yn gallu cyflawni eu swyddogaethau addysg arbennig, mewn cysylltiad â phlant sy'n syrthio o fewn disgrifiad penodol, yn fwy effeithiol neu effeithlon os câi darpariaeth ranbarthol ei gwneud mewn perthynas ag ardaloedd yr awdurdodau hynny.
- (2) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, roi un neu fwy o'r cyfarwyddiadau a bennir yn is-adran (3) er mwyn sicrhau bod darpariaeth ranbarthol yn cael ei gwneud mewn perthynas â'r disgrifiad o blant o'r ardaloedd a bennir yn y gorchymyn.
- (3) Y cyfarwyddiadau yw –
- (a) bod awdurdod lleol yn arfer ei bwerau i wneud cynigion i sefydlu, newid neu derfynu ysgolion;
- (b) bod corff llywodraethu ysgol sefydledig, gwirfoddol neu arbennig sefydledig yn arfer ei bwerau i wneud cynigion i newid ei ysgol;
- (c) bod dau neu fwy o awdurdodau lleol yn gwneud trefniadau –
- (i) y bydd darpariaeth ar gyfer addysg yn cael ei gwneud odanynt gan un o'r awdurdodau mewn cysylltiad â phersonau o ardal (neu ardaloedd) yr awdurdod arall (neu'r awdurdodau eraill), a
- (ii) y bydd darpariaeth yn cael ei gwneud odanynt i benderfynu'r taliadau sydd i'w gwneud o dan y trefniadau mewn cysylltiad â darparu'r addysg honno;
- (d) bod dau neu fwy o awdurdodau lleol yn gwneud trefniadau sy'n darparu bod un o'r awdurdodau hynny'n cyflenwi i'r llall (neu'r lleill) nwyddau neu wasanaethau sydd i'w pennu yn y trefniadau ar delerau (gan gynnwys telerau o ran talu) a fyddai'n cael eu pennu felly;
- (e) bod awdurdod lleol a chyrrff llywodraethu un neu fwy o ysgolion sefydledig, gwirfoddol neu arbennig sefydledig yn gwneud trefniadau sy'n darparu bod yr awdurdod yn cyflenwi i'r cyrrff llywodraethu nwyddau neu wasanaethau sydd i'w pennu yn y trefniadau, ar delerau (gan gynnwys telerau o ran talu) a fyddai'n cael eu pennu felly.

(4) Pan fo gorchymyn yn cynnwys cyfarwyddyd o dan is-adran (3)(c) a chyfarwyddyd o dan is-adran (3)(a) neu (3)(b), caniateir i'r taliadau y mae is-adran (3)(c) yn cyfeirio atynt gynnwys swm mewn cysylltiad â'r costau sy'n gysylltiedig â sefydlu, newid neu derfynu'r ysgol o dan sylw.

5 (5) Rhaid i orchymyn sy'n cynnwys cyfarwyddyd o dan is-adran (3)(a) neu (3)(b) –

(a) ei gwneud yn ofynnol i'r cynigion o dan sylw i gael eu cyhoeddi heb fod yn hwyrach na'r dyddiad a bennir yn y gorchymyn, a

10 (b) ei gwneud yn ofynnol i'r corff sy'n gwneud y cynigion anfon copi o'r cynigion cyhoeddedig, ynghyd â gwybodaeth arall (o fath a bennir yn y gorchymyn) mewn cysylltiad â'r cynigion hynny i Weinidogion Cymru.

68 Darpariaeth bellach am gynigion a wneir ar ôl gorchymyn o dan adran 67

(1) Ni chaniateir i gynigion a wneir yn unol â gorchymyn o dan adran 67 gael eu tynnu'n ôl heb gydsyniad Gweinidogion Cymru.

15 (2) Caiff Gweinidogion Cymru roi cydsyniad at ddibenion is-adran (1) yn ddarostyngedig i amodau.

(3) Rhaid i'r awdurdod lleol ad-dalu gwariant yr aed iddo'n rhesymol gan gorff llywodraethu ysgol a gynhelir ganddo wrth wneud cynigion yn unol â gorchymyn o dan adran 67.

20 (4) Er gwaethaf unrhyw beth yn Rhan 1 o Atodlen 4 (cyfrifoldeb dros weithredu cynigion statudol), rhaid i'r awdurdod lleol gwrdd â'r gost o weithredu cynigion a wneir gan gorff llywodraethu ysgol a gynhelir gan yr awdurdod yn unol â gorchymyn o dan adran 67 a'r rheini'n gynigion sydd wedi eu cymeradwyo neu y penderfynwyd eu gweithredu.

69 Cynigion gan Weinidogion Cymru

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo –

25 (a) Gweinidogion Cymru wedi gwneud gorchymyn o dan adran 67, a

(b) naill ai –

(i) cynigion wedi eu cyhoeddi'n unol â'r gorchymyn, neu

(ii) yr amser a ganiatawyd o dan y gorchymyn ar gyfer cyhoeddi'r cynigion wedi dirwyn i ben.

30 (2) Caiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw gynigion y gellid fod wedi eu gwneud yn unol â'r gorchymyn.

(3) Rhaid i'r cynigion gael eu cyhoeddi'n unol â'r cod a ddyroddwyd o dan adran 38(1) ac sydd mewn grym am y tro.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru anfon copi o'r cynigion –

35 (a) at yr awdurdodau lleol y mae'r cynigion yn effeithio ar eu hardaloedd, a

(b) at gorff llywodraethu pob ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hwy.

70 Gwrthwynebiadau

(1) Caiff unrhyw berson wrthwynebu cynigion a gyhoeddir o dan adran 69.

- (2) Rhaid i wrthwynebiadau gael eu hanfon yn ysgrifenedig at Weinidogion Cymru cyn diwedd 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y diwrnod y cafodd y cynigion eu cyhoeddi.

71 Mabwysiadu cynigion

- 5 (1) Caiff Gweinidogion Cymru, ar ôl ystyried unrhyw wrthwynebiadau a wnaed yn unol ag adran 70 (ac sydd heb gael eu tynnu'n ôl) –
- (a) mabwysiadu'r cynigion gydag addasiadau neu hebddynt, neu
- (b) penderfynu peidio â mabwysiadu'r cynigion.
- (2) Caniateir i fabwysiad cynigion ddatgan mai dim ond os bydd digwyddiad a bennir yn y mabwysiad yn digwydd erbyn dyddiad a bennir felly, y byddai'n dod yn weithredol.
- 10 (3) Mae cynigion sydd wedi eu mabwysiadu gan Weinidogion Cymru yn cael effaith fel petaent wedi eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru o dan adran 52 ar ôl cael eu gwneud –
- (a) gan yr awdurdod lleol o dan ei bwerau i wneud cynigion i sefydlu, newid neu derfynu ysgolion, neu
- 15 (b) yn achos cynigion i newid ysgol sefydledig, gwirfoddol neu arbennig sefydledig, gan y corff llywodraethu o dan ei bwerau i wneud cynigion i newid ei ysgol.
- (4) Er gwaethaf unrhyw beth yn Rhan 1 o Atodlen 4 (cyfrifoldeb dros weithredu cynigion statudol), rhaid i'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol dan sylw gwrdd â'r gost o weithredu cynigion sy'n cael eu mabwysiadu o dan is-adran (1) ac sy'n cael effaith fel a
- 20 grybwyllwyd yn is-adran (3)(b).

PENNOD 5

CYNIGION I AILSTRWYTHURO ADDYSG CHWECHED DOSBARTH

Gwneud cynigion a'u penderfynu

72 Pwerau Gweinidogion Cymru i ailstrwythuro addysg chweched dosbarth

- 25 (1) Caiff Gweinidogion Cymru wneud cynigion o dan yr adran hon –
- (a) i un neu fwy o ysgolion cymunedol, arbennig cymunedol neu arbennig sefydledig newydd gael eu sefydlu gan awdurdod lleol i ddarparu addysg uwchradd sy'n addas at anghenion disgyblion chweched dosbarth (ac nid unrhyw addysg uwchradd arall);
- 30 (b) ar gyfer newid a ddisgrifir ym mharagraff 6 o Atodlen 2 i un neu fwy o ysgolion a gynhelir;
- (c) i derfynu un neu fwy o ysgolion a gynhelir sy'n darparu addysg uwchradd sy'n addas at anghenion disgyblion chweched dosbarth (ac nid unrhyw addysg uwchradd arall).
- 35 (2) Mae "disgybl chweched dosbarth" yn berson sydd dros oedran ysgol gorfodol ond o dan 19 oed.

73 Ymgynghori, cyhoeddi a gwrthwynebiadau

- (1) Cyn cyhoeddi cynigion a wneir o dan adran 72, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ynglŷn â'r cynigion yn unol â'r cod a ddyroddwyd o dan adran 38(1) ac sydd mewn grym am y tro.
- (2) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi cynigion a wneir o dan adran 72 yn unol â'r cod a ddyroddwyd o dan adran 38(1) ac sydd mewn grym am y tro.
- (3) Caiff unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion.
- (4) Rhaid i wrthwynebiadau gael eu hanfon yn ysgrifenedig at Weinidogion Cymru cyn diwedd 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y diwrnod y cyhoeddwyd y cynigion.

74 Penderfyniad gan Weinidogion Cymru

- (1) Ar ôl diwedd yr 28 o ddiwrnodau y cyfeiriwyd atynt yn adran 73(4), rhaid i Weinidogion Cymru benderfynu a ddylid –
- mabwysiadu'r cynigion, gydag addasiadau neu hebddynt, neu
 - tynnu'r cynigion yn eu hôl.
- (2) Wrth wneud penderfyniad o dan is-adran (1), rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i unrhyw wrthwynebiadau a wnaed yn unol ag adran 73(4) ac sydd heb gael eu tynnu'n ôl.
- (3) Cyn mabwysiadu cynigion yn ddarostyngedig i amodau, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn credu eu bod yn briodol.
- (4) Caniateir i fabwysiad cynigion ddatgan mai dim ond os bydd digwyddiad a bennir yn y mabwysiad yn digwydd erbyn dyddiad a bennir felly, y byddai'n dod yn weithredol.
- (5) Os na fydd y digwyddiad yn digwydd erbyn y dyddiad penodedig rhaid i Weinidogion Cymru ailystyried eu penderfyniad o dan is-adran (1).
- (6) Caiff Gweinidogion Cymru dynnu eu cynigion yn ôl ar unrhyw bryd cyn iddynt wneud penderfyniad o dan is-adran (1).

Gweithredu cynigion ar gyfer ailstrwythuro addysg chweched dosbarth

75 Y ffurf weithredu

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys i gynigion sydd wedi eu mabwysiadu gan Weinidogion Cymru o dan adran 74.
- (2) Rhaid i'r cynigion (yn ddarostyngedig i ddarpariaethau canlynol yr adran hon) gael eu gweithredu ar y ffurf y cawsant eu mabwysiadu.
- (3) Ar gais corff penodedig, caiff Gweinidogion Cymru –
- addasu cynigion sydd wedi eu mabwysiadu o dan adran 74 ar ôl ymgynghori â'r cyrff penodedig, a
 - pan fo wedi ei datgan bod mabwysiad y cynigion yn dod yn weithredol yn ddarostyngedig i ddigwyddiad penodedig, bennu dyddiad diweddarach erbyn pryd y bydd yn rhaid i'r digwyddiad hwnnw ddigwydd.
- (4) Caiff Gweinidogion Cymru benderfynu nad yw is-adran (2) yn gymwys i'r cynigion os ydynt wedi eu bodloni, ar ôl ymgynghori â'r cyrff penodedig –

- (a) y byddai gweithredu'r cynigion yn afresymol o anodd, neu
- (b) bod yr amgylchiadau wedi newid cymaint ers i'r cynigion gael eu mabwysiadu y byddai'n amhriodol gweithredu'r cynigion.

(5) "Corff penodedig" yw pob un o'r canlynol at ddibenion is-adrannau (3) a (4) –

- 5 (a) corff llywodraethu'r ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi;
- (b) yn achos cynnig i sefydlu ysgol newydd, y corff llywodraethu dros dro a gyfansoddwyd yn unol â threfniadau a wnaed o dan adran 34 o Ddeddf Addysg 2002;
- 10 (c) yr awdurdod lleol sy'n cynnal, neu y cynigir y bydd yn cynnal, yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi;
- (d) pan fo'r ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi yn ysgol arbennig gymunedol neu'n ysgol arbennig sefydledig, pob awdurdod lleol sy'n cynnal datganiad o anghenion addysgol arbennig o dan Ran 4 o Ddeddf Addysg 1996 mewn cysylltiad â disgybl cofrestredig yn yr ysgol.

15 76 Y cyfrifoldeb dros weithredu

- (1) Rhaid i gynigion i sefydlu ysgol gael eu gweithredu gan yr awdurdod lleol y cynigir y bydd yn cynnal yr ysgol.
- (2) Rhaid i gynigion i wneud newid a ddisgrifir ym mharagraff 6 o Atodlen 2 gael eu gweithredu –
 - 20 (a) yn achos cynigion sy'n ymwneud ag ysgol gymunedol, gan yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol;
 - (b) yn achos cynigion sy'n ymwneud ag ysgol wirfoddol a gynorthwyr –
 - (i) i'r graddau y maent yn ymwneud â darparu unrhyw fangre berthnasol, gan yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol, a
 - 25 (ii) fel arall, gan gorff llywodraethu'r ysgol;
 - (c) yn achos cynigion sy'n ymwneud ag unrhyw ysgol arall, gan yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol a chorff llywodraethu'r ysgol i'r graddau (os o gwbl) y mae'r cynigion yn darparu bod pob un ohonynt yn gwneud hynny.
- (3) Yn is-adran (2) ystyr "mangre berthnasol" yw –
 - 30 (a) caeau chwarae, neu
 - (b) adeiladau sydd i ffurfio rhan o fangre'r ysgol ond nad ydynt i fod yn adeiladau'r ysgol.
- (4) Rhaid i gynigion i derfynu ysgol gael eu gweithredu –
 - 35 (a) yn achos cynigion sy'n ymwneud ag ysgol gymunedol neu ysgol arbennig gymunedol, gan yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol, a
 - (b) mewn unrhyw achos arall, gan yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol a chorff llywodraethu'r ysgol.

- (5) Os bydd ysgol yn newid categori o fod yn ysgol gymunedol neu'n ysgol arbennig gymunedol ar ôl i gynigion gael eu cyhoeddi o dan adran 73 ond cyn iddynt gael eu gweithredu, rhaid i'r cynigion (i'r graddau nad ydynt wedi eu gweithredu) gael eu gweithredu gan yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol (er gwaethaf is-adrannau (2) a (4)).

77 Darpariaeth bellach o ran gweithredu

- (1) Pan fo'n ofynnol i awdurdod lleol yn rhinwedd adran 76 ddarparu safle ar gyfer ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol a reolir neu ysgol arbennig sefydledig (neu ysgol arbennig sefydledig sy'n arfaethedig), mae paragraff 7 o Atodlen 4 (darparu safle ac adeiladau i ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol a reolir neu ysgol arbennig sefydledig) yn gymwys fel y bo'n gymwys yn yr amgylchiadau a grybwyllir yn is-baragraff (1) o'r paragraff hwnnw.
- (2) Mae paragraff 8 o Atodlen 4 (grantiau mewn cysylltiad â gwariant penodol ynghylch ysgol wirfoddol a gynorthwyir) yn gymwys mewn perthynas â'r rhwymedigaeth o dan adran 76(2)(b)(ii) fel y bo'n gymwys mewn perthynas â'r rhwymedigaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff 8(1)(a) o'r Atodlen honno.
- (3) Mae paragraff 9 o Atodlen 4 (cymorth gan awdurdod lleol mewn cysylltiad ag ysgol wirfoddol a gynorthwyir) yn gymwys mewn perthynas â rhwymedigaethau a osodir ar gorff llywodraethu ysgol wirfoddol a gynorthwyir o dan adran 76(2)(b)(ii) fel y bo'n gymwys mewn perthynas â'r rhwymedigaethau y cyfeirir atynt yn y paragraff 9 hwnnw, ac mae paragraff 11 o'r Atodlen honno (dyletswydd ar awdurdod lleol i drosglwyddo buddiant mewn mangre a ddarperir o dan baragraff 9 neu 10) yn gymwys yn unol â hynny.

Darpariaethau atodol

78 Diwygiadau canlyniadol i adroddiadau arolygu ar addysg chweched dosbarth

Ar ôl adran 44 o Ddeddf Addysg 2005 mewnosoder –

“Sixth forms requiring significant improvement in Wales

44A Schools with sixth forms

- (1) Sections 44B to 44D apply to a maintained school in Wales which –
- provides full-time education suitable to the requirements of pupils over compulsory school age, and
 - provides full-time education suitable to the requirements of pupils of compulsory school age.
- (2) For the purposes of those sections a school requires significant improvement in relation to its sixth form if –
- the school is failing to give its pupils over compulsory school age an acceptable standard of education, or

- (b) in relation to its provision for pupils over compulsory school age, the school is performing significantly less well than it might in all the circumstances reasonably be expected to perform.

5 **44B Inspection reports on schools with sixth forms requiring significant improvement**

- 10 (1) Where a person inspecting a school under Chapter 3 is of the opinion that the school requires significant improvement in relation to its sixth form, the provisions specified in subsection (2) apply (with the necessary modifications) as they apply where the person is of the opinion that special measures are required to be taken in relation to the school.
- 15 (2) Those provisions are section 34(1) to (6) (registered inspectors) or, as the case requires, section 35(1) of that Act (members of the Inspectorate).

44C Report after area inspection on schools with sixth forms requiring significant improvement

- 20 (1) This section applies if in the course of an area inspection under section 83 of the Learning and Skills Act 2000 the Chief Inspector forms the opinion that a school requires significant improvement in relation to its sixth form.
- (2) The Chief Inspector must make a report about the school stating that opinion.
- 25 (3) The report is to be treated for the purposes of this Part as if it were a report of an inspection of the school under section 28.

44D Copies of report and action plan

- 30 (1) This section applies to a report of an inspection under Chapter 3 which—
- (a) states an opinion that a school requires significant improvement in relation to its sixth form, and
- (b) is made by a member of the Inspectorate or states that the Chief Inspector agrees with the opinion.
- 35 (2) The person making the report must send a copy (together with a copy of the summary, if there is one)—
- (a) to the Welsh Ministers, and
- (b) if the person making the report is a member of the Inspectorate, to the appropriate authority for the school.
- 40 (3) The following provisions apply (with the necessary modifications) in relation to a report to which this paragraph applies—
- (a) section 38(2) (additional copies),

- (b) section 38(4) (publication by appropriate authority),
- (c) section 39 (action plan by appropriate authority), and
- (d) where the local authority receives a copy of a report about a school the governing body of which have a delegated budget, section 40(2) and (3) (measures by local authority).

(4) In the application of those provisions –

- (a) a reference to a report and summary is to be taken as a reference to a report and, if there is one, its summary, and
- (b) a reference to a summary alone is to be taken, in a case where there is no summary, as a reference to the report.

44E Report on sixth form schools causing concern after area inspection

(1) This section applies if in the course of an area inspection under section 83 of the Learning and Skills Act 2000 the Chief Inspector forms the opinion that –

- (a) special measures are required to be taken in relation to a sixth form school, or
- (b) that a sixth form school requires significant improvement.

(2) The Chief Inspector must make a report about the school stating that opinion.

(3) The report is to be treated for the purpose of this Part as if it were a report of an inspection of the school under section 28.

(4) A “sixth form school” is a maintained school which –

- (a) provides full-time education suitable to the requirements of pupils over compulsory school age, and
- (b) does not provide full-time education suitable to the requirements of pupils of compulsory school age.

44F Interpretation of sections 44A to 44E

In sections 44A to 44E –

“the appropriate authority”, in relation to a maintained school, means the school’s governing body or, if the school does not have a delegated budget, the local authority;

“the Chief Inspector” means Her Majesty’s Chief Inspector of Education and Training in Wales;

“maintained school” means a community, foundation or voluntary school or a community or foundation special school;

“member of the Inspectorate” means the Chief Inspector, any of Her Majesty’s Inspectors of Education and Training in Wales and any additional inspector appointed under paragraph 2 of Schedule 2.”

PENNOD 6

DARPARIAETHAU AMRYWIOL AC ATODOL

79 Ysgolion ffederal

Caiff cynigion a wneir o dan y Rhan hon i sefydlu ysgol newydd fod yn gysylltiedig â sefydlu'r ysgol fel ysgol ffederal (o fewn yr ystyr a roddir gan adran 21(1) o the Fesur Addysg (Cymru) 2011).

80 Gwaharddiad ar awdurdodau lleol rhag sefydlu ysgolion yn Lloegr

Ni chaniateir i unrhyw gynigion gael eu gwneud ar gyfer sefydlu ysgol yn Lloegr y cynigir ei bod yn cael ei chynnal gan awdurdod lleol yng Nghymru.

81 Hysbysiad gan gorff llywodraethu am derfynu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol

(1) Caiff corff llywodraethu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol derfynu'r ysgol drwy gyflwyno i Weinidogion Cymru a'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol hysbysiad sy'n rhoi o leiaf ddwy flynedd o rybudd o'i fwriad i wneud hynny.

(2) Mae'n ofynnol cael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn cyflwyno hysbysiad o dan yr adran hon os aed i wariant ar fangre'r ysgol (ac eithrio mewn cysylltiad ag atgyweiriadau) –

(a) gan Weinidogion Cymru, neu

(b) gan unrhyw awdurdod lleol.

(3) Rhaid i'r corff llywodraethu ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn cyflwyno hysbysiad o dan yr adran hon os byddai terfynu'r ysgol yn effeithio ar y cyfleusterau ar gyfer addysg lawnamser sy'n addas at anghenion personau dros oedran ysgol gorfodol nad ydynt wedi cyrraedd 19 oed.

(4) Os yw'r corff llywodraethu, tra bo hysbysiad o dan yr adran hon mewn grym, yn hysbysu'r awdurdod lleol ei fod yn anabl neu'n anfodlon rhedeg yr ysgol hyd nes y bydd yr hysbysiad yn dirwyn i ben, mae'r awdurdod –

(a) yn cael rhedeg yr ysgol am y cyfan neu ran o gyfnod yr hysbysiad nad yw wedi dirwyn i ben fel petai'n ysgol gymunedol, a

(b) yn meddu ar hawl i ddefnyddio mangre'r ysgol yn ddi-dâl at y diben hwnnw.

(5) Tra bo'r ysgol yn cael ei rhedeg felly –

(a) rhaid i'r awdurdod gadw mangre'r ysgol mewn cyflwr da, a

(b) mae unrhyw fuddiant yn y fangre a ddelir at ddibenion yr ysgol i'w drin, at bob diben sy'n ymwneud â chyflwr y fangre, ei meddiannu neu ei defnyddio, neu wneud newidiadau iddi, fel buddiant sydd wedi ei freinio yn yr awdurdod.

(6) Er gwaethaf is-adran (5) caiff y corff llywodraethu ddefnyddio'r fangre, neu unrhyw ran ohoni, pan nad oes ei hangen at ddibenion yr ysgol i'r un graddau â phetai wedi parhau i redeg yr ysgol yn ystod cyfnod yr hysbysiad nad oedd wedi dirwyn i ben.

(7) Ni chaniateir i hysbysiad o dan is-adran (1) gael ei dynnu'n ôl heb gydsyniad yr awdurdod lleol.

- (8) Os yw ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol wedi ei therfynu o dan yr adran hon, mae dyletswydd yr awdurdod lleol i gynnal yr ysgol fel ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol yn peidio.
- (9) Nid oes dim yn adran 43 yn gymwys mewn perthynas â therfynu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol o dan yr adran hon.
- (10) Mae is-adran (11) yn gymwys –
- (a) pan fo awdurdod lleol yn rhedeg ysgol sefydledig neu wirfoddol yn unol ag is-adran (4)(a),
 - (b) pan fo tir sydd wedi ei feddiannu gan yr ysgol yn cael ei ddal gan unrhyw ymddiriedolwr at ddibenion yr ysgol, a
 - (c) pan fyddai terfynu meddiannaeth yr ysgol ar y tir hwnnw yn arwain at y canlyniad nad oedd yn rhesymol ymarferol i'r ysgol barhau i gael ei rhedeg ar ei safle presennol.
- (11) Os yw'r ymddiriedolwyr (a hwythau â'r hawl i wneud hynny) yn rhoi hysbysiad i'r corff llywodraethu sy'n honni terfynu meddiannaeth yr ysgol ar y tir, nid yw'r hysbysiad hwnnw yn cael yr effaith o derfynu meddiannaeth yr ysgol ar y tir hyd nes bod yr awdurdod lleol wedi peidio â rhedeg yr ysgol yn unol ag is-adran (4)(a).
- (12) Rhaid i gopi o'r hysbysiad hefyd gael ei roi i Weinidogion Cymru a'r awdurdod lleol adeg rhoi'r hysbysiad i'r corff llywodraethu.
- (13) Pan fo ymddiriedolwyr yn rhoi, yr un (neu i raddau helaeth yr un) pryd, hysbysiadau sy'n honni terfynu meddiannaeth ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol ar ddau neu fwy o ddarnau o dir sy'n cael eu dal gan yr ymddiriedolwyr at ddibenion yr ysgol, yna er mwyn penderfynu a yw is-adran (10)(c) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw un neu rai o'r darnau hynny o dir, caniateir i ystyriaeth gael ei rhoi i effaith gyfun terfynu meddiannaeth yr ysgol ar y ddau neu'r cyfan ohonynt.
- (14) Os bydd cwestiwn yn codi ynghylch a fyddai terfynu meddiannaeth ysgol ar unrhyw dir yn arwain at y canlyniad a grybwyllwyd yn is-adran (10)(c) (gan gynnwys cwestiwn ynghylch a yw is-adran (13) yn gymwys mewn unrhyw amgylchiadau penodol), mae i'w benderfynu gan Weinidogion Cymru.

82 Cyfarwyddyd sy'n ei gwneud yn ofynnol bod ysgol arbennig gymunedol neu ysgol arbennig sefydledig yn cael ei therfynu

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod lleol i derfynu ysgol arbennig gymunedol neu ysgol arbennig sefydledig a gynhelir ganddo ar ddiwrnod penodedig, os ydynt yn credu ei bod yn hwylus gwneud hynny er iechyd, diogelwch neu les disgyblion yn yr ysgol
- (2) Caiff cyfarwyddyd o dan is-adran (1) ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol hysbysu personau penodedig neu ddsbarth penodedig ar bersonau.
- (3) Cyn rhoi cyfarwyddyd o dan is-adran (1), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol –
- (a) yr awdurdod lleol,
 - (b) unrhyw awdurdod lleol arall y byddai terfynu'r ysgol yn effeithio arno yn eu barn hwy,

(c) yn achos ysgol arbennig sefydledig sydd â sefydliad, y person sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig, a

(d) unrhyw bersonau eraill sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru.

(4) Wrth roi cyfarwyddyd o dan is-adran (1), rhaid i Weinidogion Cymru roi hysbysiad ysgrifenedig am y cyfarwyddyd i gorff llywodraethu'r ysgol a'i phennaeth.

(5) Rhaid i gorff llywodraethu y rhoddir cyfarwyddyd iddo o dan is-adran (1) derfynu'r ysgol o dan sylw ar y dyddiad a bennir yn y cyfarwyddyd.

(6) Nid oes dim yn adran 44 sy'n gymwys i derfynu ysgol o dan yr adran hon

83 Gorchmynion esemptio trosiannol at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i gynigion bod ysgol yn peidio â bod yn ysgol un rhyw.

(2) Mae gwneud cynigion o'r fath o dan adran 60, 69 neu 72 i'w drin fel cais gan y corff sy'n gyfrifol i Weinidogion Cymru am orchymyn esemptio trosiannol o dan Ddeddf 2010, a chaiff Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn o'r fath yn unol â hynny.

(3) Yn yr adran hon –

mae i "y corff sy'n gyfrifol" yr un ystyr â "*the responsible body*" yn adran 85 o Ddeddf 2010;

ystyr "Deddf 2010" ("*the 2010 Act*") yw Deddf Cydraddoldeb 2010;

mae i "gorchymyn esemptio trosiannol" yr un ystyr â "*transitional exemption order*" ym mharagraff 3 o Atodlen 11 i Ddeddf 2010;

mae "gwneud" ("*make*"), mewn perthynas â gorchymyn esemptio trosiannol, yn cynnwys amrywio neu ddirymu;

mae i "ysgol un rhyw" yr un ystyr â "*single-sex school*" ym mharagraff 1 o Atodlen 11 i Ddeddf 2010.

84 Dehongli Rhan 3

(1) Yn y Rhan hon –

ystyr "pwerau i wneud cynigion i sefydlu, newid neu derfynu ysgolion" ("*powers to make proposals to establish, alter or discontinue schools*") yw'r cyfan neu unrhyw rai o bwerau awdurdod lleol i wneud cynigion o dan adran 41, 42, 43 neu 44;

ystyr "pwerau i wneud cynigion i newid ei ysgol" ("*powers to make proposals to alter its school*"), mewn perthynas â chorff llywodraethu ysgol sefydledig, gwirfoddol neu arbennig sefydledig, yw ei bwerau i wneud cynigion o dan adran 42(2) neu 44(2)(a).

(2) Mae cyfeiriad yn y Rhan hon atategori ysgol yn golygu un o'r categorïau a nodir yn adran 20(1) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (ac mae cyfeiriadau at newid categori i'w darllen yn unol â hynny).

(3) Mae cyfeiriad yn y Rhan hon at derfynu ysgol a gynhelir yn gyfeiriad at yr awdurdod lleol yn peidio â'i chynnal.

RHAN 4**CYNLLUNIAU STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG****85 Llunio cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg**

(1) Cynllun yw cynllun strategol Cymraeg mewn addysg sy'n cynnwys –

(a) cynigion awdurdod lleol ynghylch sut y bydd yn cyflawni ei swyddogaethau addysg er mwyn –

(i) gwella'r broses o gynllunio'r modd y mae addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ("addysg cyfrwng Cymraeg") yn cael ei darparu yn ei ardal;

(ii) gwella safonau addysg cyfrwng Cymraeg a safonau addysgu Cymraeg yn ei ardal;

(b) targedau'r awdurdod lleol ar gyfer gwella'r broses o gynllunio'r modd y mae addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei darparu yn ei ardal ac ar gyfer gwella safonau'r addysg honno ac addysgu Cymraeg yn ei ardal;

(c) adroddiad ar y cynnydd a wnaed i fodloni'r targedau a gynhwyswyd yn y cynllun blaenorol neu'r cynllun diwygiedig blaenorol.

(2) Rhaid i awdurdod lleol lunio cynllun strategol Cymraeg mewn addysg ar gyfer ei ardal.

(3) Rhaid i awdurdod lleol gadw golwg ar ei gynllun, ac os yw'n angenrheidiol, ei ddiwygio.

(4) Wrth lunio cynllun strategol Cymraeg mewn addysg neu gynllun diwygiedig, rhaid i awdurdod lleol ymgynghori â'r canlynol –

(a) ei awdurdodau lleol cyfagos;

(b) pennaeth pob ysgol a gynhelir ganddo;

(c) corff llywodraethu pob ysgol a gynhelir ganddo;

(d) pob sefydliad o fewn y sector addysg bellach yn ei ardal;

(e) yr awdurdod esgobaethol priodol ar gyfer unrhyw ysgol sydd gan yr Eglwys yng Nghymru neu'r Eglwys Gatholig Rufeinig yn ei ardal;

(f) personau rhagnodedig eraill.

86 Cymeradwyo, cyhoeddi a gweithredu cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg

(1) Rhaid i awdurdod lleol sydd wedi llunio cynllun strategol Cymraeg mewn addysg ei gyflwyno i Weinidogion Cymru ei gymeradwyo.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru –

(a) cymeradwyo'r cynllun fel y'i cyflwynwyd,

(b) cymeradwyo'r cynllun gydag addasiadau, neu

(c) gwrthod y cynllun a llunio cynllun arall sydd i'w drin fel cynllun cymeradwy'r awdurdod.

(3) Os yw awdurdod lleol yn dymuno diwygio ei gynllun, rhaid iddo gyflwyno cynllun diwygiedig i Weinidogion Cymru.

- (4) Caiff Gweinidogion Cymru gymeradwyo'r cynllun diwygiedig, gydag addasiadau neu hebddynt.
- (5) Rhaid i awdurdod lleol gyhoeddi ei gynllun strategol Cymraeg mewn addysg (neu ei gynllun diwygiedig) a gymeradwywyd.
- 5 (6) Rhaid i awdurdod lleol gymryd pob cam rhesymol i weithredu ei gynllun strategol Cymraeg mewn addysg (neu ei gynllun diwygiedig) a gymeradwywyd.

87 Asesu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg

- 10 (1) Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol, yn unol â rheoliadau, wneud asesiad o'r galw ymhlith rhieni yn ei ardal am addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu plant.
- (2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) wneud darpariaeth (ymhlith pethau eraill) ynghylch pryd a sut i wneud asesiad.

88 Rheoliadau a chanllawiau

- 15 (1) Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg.
- (2) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth bellach am y materion canlynol (ymhlith pethau eraill) –
- 20 (a) ffurf a chynnwys cynllun;
- (b) amseriad a hyd cynllun;
- (c) cadw golwg ar gynllun a'i ddiwygio;
- (d) ymgynghori yn ystod y broses o lunio cynllun a'i ddiwygio;
- (e) cyflwyno cynllun i gael ei gymeradwyo;
- (f) pryd a sut i gyhoeddi cynllun.
- 25 (3) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth i alluogi dau neu fwy o awdurdodau lleol i lunio cydgynllun, a chaiff unrhyw reoliadau o'r fath addasu unrhyw ddarpariaeth yn y Rhan hon o ran y modd y mae'n gymwys i gydgynlluniau.
- (4) Rhaid i awdurdod lleol, wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon, roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

RHAN 5

SWYDDOGAETHAU AMRYWIOL YSGOLION

*Brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd***89 Dyletswydd i ddarparu brecwast am ddim i ddisgyblion mewn ysgolion cynradd**

- 5 (1) Rhaid i awdurdod lleol ddarparu brecwast ar bob diwrnod ysgol i ddisgyblion mewn ysgol gynradd a gynhelir gan yr awdurdod—
- (a) os yw corff llywodraethu'r ysgol wedi ysgrifennu at yr awdurdod i ofyn bod brecwast yn cael ei ddarparu, a
- 10 (b) os yw 90 o ddiwrnodau wedi mynd heibio, gan ddechrau ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y cafwyd y cais.
- (2) Nid yw'r ddyletswydd yn is-adran (1) yn gymwys (neu y mae'n peidio â bod yn gymwys) mewn perthynas â chais gan gorff llywodraethu os yw'r naill neu'r llall o'r paragraffau canlynol yn gymwys—
- (a) bod y corff llywodraethu wedi ysgrifennu at yr awdurdod i ofyn iddo roi'r gorau i ddarparu brecwast;
- 15 (b) y byddai'n afresymol darparu'r brecwast ac o ganlyniad bod yr awdurdod lleol wedi hysbysu'r corff llywodraethu'n ysgrifenedig—
- (i) nad yw'n mynd i ddarparu brecwast, neu
- (ii) ei fod yn mynd i roi'r gorau i ddarparu brecwast.
- 20 (3) Os yw'r ddyletswydd o dan is-adran (1) yn gymwys, rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu brecwast i bob disgybl sy'n gofyn i'r awdurdod amdano; at y diben hwn, caniateir i'r cais gael ei wneud gan neu ar ran y disgybl.
- (4) O ran brecwast a ddarperir gan awdurdod lleol o dan yr adran hon—
- (a) caiff fod ar unrhyw ffurf y gwêl yr awdurdod yn dda, yn ddarostyngedig i unrhyw reoliadau a wneir o dan adran 4 o Fesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 (gofynion ynglŷn â bwyd a diod a ddarperir ar fangre ysgol);
- 25 (b) rhaid ei ddarparu am ddim;
- (c) rhaid iddo fod ar gael ar fangre'r ysgol;
- (d) rhaid iddo fod ar gael cyn dechrau pob diwrnod ysgol, ac eithrio yn achos ysgol arbennig gymunedol lle y caniateir i frecwast fod ar gael cyn neu ar ddechrau pob diwrnod ysgol.
- 30 (5) Wrth arfer ei swyddogaethau, rhaid i awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol gynradd a gynhelir gan awdurdod lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru am ddarparu brecwast i ddisgyblion.

90 Darpariaeth drosiannol

- (1) Pan fo awdurdod lleol sy'n cynnal ysgol gynradd, neu ei gorff llywodraethu, eisoes yn darparu brecwast i ddisgyblion yr ysgol ar yr adeg y daw adran 89 i rym, mae'r adran honno'n gymwys mewn perthynas â'r ysgol fel petai—
- 5 (a) cais wedi ei wneud o dan yr adran honno i frecwast gael ei ddarparu gan y corff llywodraethu,
- (b) 90 o ddiwrnodau wedi mynd heibio, gan ddechrau ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y cafwyd y cais, ac
- 10 (c) pob disgybl y mae brecwast eisoes yn cael ei ddarparu ar ei gyfer wedi gwneud cais i'r awdurdod.
- (2) Mae is-adran (3) yn gymwys pan fo cais ysgrifenedig am ddarparu brecwast i ddisgyblion wedi ei wneud, cyn i adran 89 ddod i rym, gan gorff llywodraethu'r ysgol gynradd i'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol, ond nad yw'r awdurdod lleol na'r corff llywodraethu wedi bod yn darparu brecwast i ddisgyblion yr ysgol.
- 15 (3) Mae cais a wneir cyn i adran 89 ddod i rym yn cael effaith fel cais o dan yr adran honno a wnaed ar y diwrnod y daeth yr adran i rym.

91 Dehongli adrannau 89 a 90

Yn adrannau 89 a 90—

mae "darparu" ("*provide*") yn cynnwys trefnu darpariaeth;

20 ystyr "disgybl" ("*pupil*") yw plentyn sy'n cael addysg gynradd yn yr ysgol (p'un a yw'r plentyn yn ddisgybl cofrestredig ai peidio);

ystyr "ysgol gynradd" ("*primary school*") yw ysgol sy'n darparu addysg gynradd (p'un a yw hefyd yn darparu mathau eraill o addysg ai peidio).

Pŵer i godi tâl am brydau bwyd

92 Diwygio'r pŵer i godi tâl am brydau bwyd ysgol etc

- (1) Mae Rhan 9 o Ddeddf Addysg 1996 (swyddogaethau atodol) wedi ei diwygio fel a nodir yn is-adrannau (2) a (3).
- (2) Yn adran 512ZA (pŵer i godi tâl am brydau bwyd etc)—
- 25 (a) yn is-adran (1A), hepgorer "in England";
- 30 (b) hepgorer is-adran (2).
- (3) Yn adran 533 (swyddogaethau cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir mewn cysylltiad â darparu prydau bwyd ysgol etc)—
- (a) yn is-adran (3A), hepgorer "in England";
- (b) hepgorer is-adran (4).

*Cwmsela mewn ysgolion***93 Gwasanaethau cwmsela annibynnol ar gyfer disgyblion ysgol a phlant eraill**

- 5 (1) Rhaid i awdurdod lleol sicrhau darpariaeth resymol ar gyfer gwasanaeth sy'n cwmsela mewn cysylltiad ag anghenion iechyd, anghenion emosiynol ac anghenion cymdeithasol ("gwasanaeth cwmsela annibynnol") i'r canlynol –
- (a) disgyblion cofrestredig sy'n cael addysg uwchradd –
- (i) mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod, a
- (ii) mewn ysgolion eraill yn ei ardal;
- 10 (b) personau eraill sy'n perthyn i ardal yr awdurdod ac sydd wedi cyrraedd 11 oed ond nid 19 oed;
- (c) disgyblion cofrestredig sy'n ymgymryd â blwyddyn academiaidd olaf eu haddysg gynradd –
- (i) mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod, a
- (ii) mewn ysgolion eraill yn ei ardal;
- 15 (d) y personau eraill sy'n cael addysg gynradd a bennir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau.
- (2) Wrth sicrhau bod gwasanaeth cwmsela annibynnol yn cael ei ddarparu o dan yr adran hon, rhaid i awdurdod lleol roi sylw –
- (a) i'r egwyddor bod y gwasanaeth i fod yn annibynnol ar –
- 20 (i) corff llywodraethu neu berchennog arall ysgol lle y mae person y darperir y gwasanaeth iddo yn cael addysg, a
- (ii) rheolwyr ysgol lle y mae person y darperir y gwasanaeth iddo yn cael addysg;
- (b) i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.
- 25 (3) Rhaid i awdurdod lleol sicrhau bod gwasanaeth cwmsela annibynnol yn cael ei ddarparu ar safle pob ysgol a gynhelir gan yr awdurdod sy'n darparu addysg uwchradd (p'un a yw'n darparu mathau eraill o addysg hefyd ai peidio).
- (4) Caiff awdurdod lleol sicrhau bod gwasanaeth cwmsela annibynnol yn cael ei ddarparu mewn mannau eraill.
- 30 (5) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ei gwneud yn ofynnol i wasanaeth cwmsela annibynnol gael ei ddarparu mewn mannau eraill.

94 Gwybodaeth am wasanaethau cwmsela annibynnol eraill

- (1) Rhaid i awdurdod lleol gydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru i'r awdurdod i wneud y canlynol –
- 35 (a) crynhoi gwybodaeth am y gwasanaeth cwmsela annibynnol y mae'n ei sicrhau o dan adran 93;
- (b) darparu gwybodaeth am y gwasanaeth hwnnw i Weinidogion Cymru.

- (2) Caiff cyfarwyddyd o dan is-adran (1) gynnwys arweiniad i grynhoi neu ddarparu gwybodaeth mewn modd, ac ar adeg, a bennir yn y cyfarwyddyd.
- (3) Ni chaniateir i gyfarwyddyd o dan is-adran (1) ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol—
- (a) darparu gwybodaeth am unigolyn dynodedig;
- (b) darparu gwybodaeth mewn modd sydd, naill ai ar ei phen ei hun, neu mewn cyfuniad ag unrhyw wybodaeth arall, yn dynodi unrhyw unigolyn y mae'n ymwneud ag ef neu sy'n galluogi'r unigolyn hwnnw i gael ei ddynodi.
- (4) Os nad yr awdurdod lleol yw'r person sy'n darparu gwasanaeth cwnsela annibynnol—
- (a) rhaid i'r awdurdod lleol roi i'r person sy'n darparu'r gwasanaeth gopi o unrhyw gyfarwyddyd a roddir o dan is-adran (1), a
- (b) rhaid i'r person sy'n darparu'r gwasanaeth grynhoi'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i gydymffurfio â'r cyfarwyddyd, a'i darparu i'r awdurdod lleol mewn modd nad yw'n dynodi'r unigolion y mae'n ymwneud â hwy, nac yn ei gwneud yn bosibl iddynt gael eu dynodi (naill ai ar ei phen ei hun neu mewn cyfuniad â gwybodaeth arall).
- (5) O ran cyfarwyddyd o dan yr adran hon—
- (a) rhaid iddo fod yn ysgrifenedig;
- (b) caniateir iddo gael ei amrywio neu ei ddirymu gan gyfarwyddyd diweddarach;
- (c) gellir ei orfodi drwy orchymyn mandadol ar gais Gweinidogion Cymru neu ar eu rhan.

Cyfarfodydd rhieni

95 Dyletswydd corff llywodraethu ysgol a gynhelir i gynnal cyfarfodydd yn dilyn deiseb gan rieni

- (1) Rhaid i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir gynnal cyfarfod ("y cyfarfod") os yw'n cael deiseb gan rieni disgyblion cofrestredig yn yr ysgol yn gofyn am gyfarfod a'i fod wedi cael ei fodloni bod pob un o'r pedwar amod canlynol wedi ei fodloni.
- (2) Yr amod cyntaf yw bod y ddeiseb yn cynnwys llofnodion y nifer gofynnol o rieni disgyblion cofrestredig yn yr ysgol.
- (3) Y nifer gofynnol o rieni yw'r isaf o'r canlynol—
- (a) rhieni 10% o ddisgyblion cofrestredig, neu
- (b) rhieni—
- (i) (yn achos ysgol gynradd) 10 disgybl cofrestredig, neu
- (ii) (yn achos ysgol uwchradd) 30 disgybl cofrestredig.
- (4) At ddibenion is-adran (3), mae nifer y disgyblion cofrestredig i'w gyfrifo drwy gyfeirio at nifer y disgyblion cofrestredig ar y diwrnod y ceir y ddeiseb.
- (5) Yr ail amod yw bod y cyfarfod y gofynnir amdano yn un at ddibenion trafod mater sy'n ymwneud â'r ysgol.
- (6) Y trydydd amod, pe bai cyfarfod yn cael ei gynnal, yw na ddylid cynnal mwy na thri chyfarfod o dan yr adran hon yn ystod y flwyddyn ysgol y ceir y ddeiseb.

(7) Y pedwerydd amod yw bod digon o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol i gydymffurfio â'r gofyniad yn is-adran (8).

(8) Rhaid i'r gyfarfod gael ei gynnal cyn diwedd cyfnod o 20 o ddiwrnodau.

(9) At ddibenion is-adran (8)–

(a) mae'r cyfnod o 20 o ddiwrnodau yn dechrau ar y diwrnod cyntaf ar ôl y diwrnod y ceir y ddeiseb (yn ddarostyngedig i is-adran (10)), a

(b) nid yw'r cyfnod o 20 o ddiwrnodau yn cynnwys unrhyw ddiwrnod nad yw'n ddiwrnod ysgol.

(10) Os cynhelir cyfarfod arall y mae'n ofynnol ei gynnal o dan yr adran hon o ganlyniad i ddeiseb wahanol ("y cyfarfod arall") ar ddiwrnod yn ystod y cyfnod o 20 o ddiwrnodau yn is-adran (9), ond cyn y diwrnod y cynhelir y cyfarfod, bydd y cyfnod o 20 o ddiwrnodau yn dechrau ar y diwrnod cyntaf ar ôl y diwrnod y cynhelir y cyfarfod arall.

(11) Mae'r cyfarfod i fod yn agored i'r canlynol–

(a) rhieni pob disgybl cofrestredig yn yr ysgol,

(b) y pennaeth, ac

(c) personau eraill a wahoddir gan y corff llywodraethu.

(12) Rhaid i'r corff llywodraethu, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cael deiseb sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynnal cyfarfod, ysgrifennu at rieni pob disgybl cofrestredig yn yr ysgol i'w hysbysu am ddyddiad y cyfarfod a'r mater sydd i'w drafod.

(13) Wrth arfer ei swyddogaethau o dan yr adran hon, rhaid i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.

96 Diddymu dyletswydd i gynnal cyfarfod blynyddol rhieni

Mae adran 33 o Ddeddf Addysg 2002 wedi ei diddymu.

Cod ymarfer ar y berthynas rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion

97 Diddymu'r ddarpariaeth am god ymarfer ar gyfer y berthynas rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion

Mae adran 127 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (cod ymarfer i sicrhau perthynas effeithiol rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion a gynhelir yng Nghymru) wedi ei diddymu.

RHAN 6

CYFFREDINOL

98 Gorchmynion a rheoliadau

(1) Rhaid i bŵer Gweinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Ddeddf hon gael ei arfer drwy offeryn statudol.

(2) Nid yw is-adran (1) yn gymwys i orchymyn o dan adran 58(2) neu 67 nac o dan baragraff 34(1)(b) o Atodlen 5.

- (3) Mae pŵer Gweinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Ddeddf hon yn cynnwys pŵer –
- (a) i wneud darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol neu ddosbarthau gwahanol ar achos, gwahanol ardaloedd neu ddibenion gwahanol;
 - (b) i wneud darpariaeth wahanol yn gyffredinol neu'n ddarostyngedig i esemptiadau neu eithriadau penodedig neu mewn perthynas ag achosion penodol neu ddosbarthau penodol ar achos yn unig;
 - (c) i wneud unrhyw ddarpariaethau cysylltiedig, atodol, canlyniadol, dros dro, trosiannol neu ddarpariaethau arbed ag y gwêl Gweinidogion Cymru yn dda.
- (4) Mae offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan y Ddeddf hon neu orchymyn o dan adran 57(3) yn ddarostyngedig i'w ddiddymu'n unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
- (5) Ni chaniateir i offeryn statudol sy'n cynnwys gorchymyn o dan baragraff 26(1) o Atodlen 2 gael ei wneud oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo.

99 Dehongli'n gyffredinol a mynegai o ymadroddion sydd wedi eu diffinio

- (1) Mae darpariaethau'r Ddeddf hon a darpariaethau'r Ddeddf Addysg 1996 i'w darllen fel petai nhw i gyd wedi eu cynnwys yn Neddf Addysg 1996.
- (2) Ond pan roddir i ymadrodd at ddibenion unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon ystyr sy'n wahanol i'r un a roddwyd iddo at ddibenion Deddf Addysg 1996, mae'r ystyr a roddir at ddibenion y ddarpariaeth honno i fod yn gymwys yn lle'r un a roddwyd at ddibenion Deddf Addysg 1996.
- (3) Yn y Ddeddf hon –
- mae i "awdurdod esgobaethol priodol" yr un ystyr ag "*appropriate diocesan authority*" yn adran 142(1) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;
 - ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") (ac eithrio yn adran 51(1)(c) yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;
 - mae "awdurdod ysgol" ("*school authority*") wedi ei ddiffinio yn adran 32 at ddibenion Pennod 3 o Ran 2;
 - ystyr "y Cod" ("*the Code*") ym Mhennod 2 o Ran 3 yw'r Cod ar drefniadaeth ysgolion a ddyroddir o dan adran 38(1);
 - mae "corff crefyddol priodol" ("*appropriate religious body*") wedi ei ddiffinio yn adran 57 at ddibenion Pennod 2 o Ran 3;
 - mae i "corff sefydledig" yr un ystyr â "*foundation body*" yn adran 21(4)(a) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;
 - mae "cyfnod gwrthwynebu" ("*objection period*") wedi ei ddiffinio yn adran 50(2) at ddibenion Pennod 2 o Ran 3;
 - mae "cynigydd" ("*proposer*") wedi ei ddiffinio yn adran 57 at ddibenion Pennod 2 o Ran 3;
 - mae "darpariaeth ranbarthol" ("*regional provision*") wedi ei diffinio yn adran 65 at ddibenion Pennod 4 o Ran 3;

mae "darparu" (*"provide"*) wedi ei ddiffinio yn adran 91 at ddibenion adrannau 89 a 90;

mae "disgybl" (*"pupil"*) wedi ei ddiffinio yn adran 91 at ddibenion adrannau 89 a 90;

5 mae "gwrthwynebydd categori 1" (*"category 1 objector"*) wedi ei ddiffinio yn adran 51(1) at ddibenion Pennod 2 o Ran 3;

mae "gwrthwynebydd categori 2" (*"category 2 objector"*) wedi ei ddiffinio yn adran 51(2) at ddibenion Pennod 2 o Ran 3;

10 mae "gwrthwynebydd categori 3" (*"category 3 objector"*) wedi ei ddiffinio yn adran 51(3) at ddibenion Pennod 2 o Ran 3;

ystyr "llywodraethwr sefydledig" (*"foundation governor"*), mewn perthynas ag ysgol sefydledig, ysgol arbennig sefydledig neu ysgol wirfoddol, yw person a benodwyd yn llywodraethwr sefydledig yn unol â rheoliadau o dan adran 19 o Ddeddf Addysg 2002;

15 ystyr "newid rheoleiddiedig" (*"regulated alteration"*) ym Mhennod 2 o Ran 3 yw newid a ddisgrifir yn Atodlen 2;

mae "pwerau i wneud cynigion i newid ei ysgol" (*"powers to make proposals to alter its school"*) wedi eu diffinio yn adran 84 at ddibenion Rhan 3;

20 mae "pwerau i wneud cynigion i sefydlu, newid neu derfynu ysgolion" (*"powers to make proposals to establish, alter or discontinue schools"*) wedi eu diffinio yn adran 84 at ddibenion Rhan 3;

ystyr "rhagnodedig" (*"prescribed"*) yw wedi ei ragnodi drwy reoliadau;

ystyr "rheoliadau" (*"regulations"*) yw rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru;

25 mae "swyddogaethau addysg arbennig" (*"special education functions"*) wedi eu diffinio yn adran 65 at ddibenion Pennod 4 o Ran 3;

mae i "un o ysgolion yr Eglwys Gatholig Rufeinig" yr un ystyr â "*Roman Catholic Church school*" yn adran 142(1) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

30 mae i "un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru" yr un ystyr â "*Church in Wales school*" yn adran 142(1) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

ystyr "ysgol a gynhelir" (*"maintained school"*) yw ysgol yng Nghymru sy'n ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol, yn ysgol arbennig gymunedol neu sefydledig neu'n ysgol feithrin a gynhelir;

35 mae "ysgol fach" (*"small school"*) wedi ei diffinio yn adran 57 at ddibenion Pennod 2 o Ran 3;

mae "ysgol gynradd" (*"primary school"*) wedi ei diffinio yn adran 91 at ddibenion adrannau 89 a 90.

(4) Ar gyfer cyfeiriadau yn Rhan 3 at—

(a) terfynu ysgol a gynhelir, gweler adran 84;

40 (b) panel penderfynu lleol, gweler adran 57(2);

(c) categori ysgol, gweler adran 84.

- (5) Mae cyfeiriad yn y Ddeddf hon at ysgol â chymeriad crefyddol yn cyfeirio at ysgol sydd wedi ei dynodi'n un sydd â chymeriad o'r fath drwy orchymyn o dan adran 69(3) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

5 **100 Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol**

Mae Atodlen 6 yn cynnwys mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol.

101 Cychwyn

- (1) Daw'r darpariaethau canlynol i rym y diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff y Ddeddf hon Gydsyniad Brenhinol—

10 adran 1;
yr adran hon;
adran 102.

- (2) Daw'r darpariaethau canlynol i rym ar ddiwedd y cyfnod o ddeufis gan ddechrau ar y diwrnod y caiff y Ddeddf hon Gydsyniad Brenhinol—

15 Pennod 3 o Ran 2;
adran 92;
paragraffau 25, 28(1) a (3), 29 a 30 o Ran 3 o Atodlen 6 (ac adran 100 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r paragraffau hynny).

- (3) Daw gweddill y darpariaethau yn y Ddeddf hon i rym ar ddyddiad a bennir gan

20 Weinidogion Cymru drwy orchymyn.

102 Enw byr y Ddeddf hon a'i chynnwys yn un o'r Deddfau Addysg

- (1) Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.
(2) Mae'r Ddeddf hon i'w chynnwys yn y rhestr o Ddeddfau Addysg a nodir yn adran 578 o Ddeddf Addysg 1996.

ATODLEN 1

*(a gyflwynwyd gan adran 18)*CYRFF LLYWODRAETHU SYDD WEDI EU FFURFIO O AELODAU
GWEITHREDIAETH INTERIM5 *Dehongli'r Atodlen*

1 (1) Yn yr Atodlen hon—

ystyr “yr awdurdod priodol” (“*the appropriate authority*”)—

(a) pan fo'r Atodlen hon yn gymwys drwy rinwedd hysbysiad o dan adran 7, yw'r awdurdod lleol a roes yr hysbysiad, a

10 (b) pan fo'r Atodlen hon yn gymwys drwy rinwedd hysbysiad o dan adran 14, yw Gweinidogion Cymru;

ystyr “corff llywodraethu a gyfansoddwyd yn normal” (“*a normally constituted governing body*”) yw corff llywodraethu a gyfansoddwyd yn unol â rheoliadau a wnaed yn rhinwedd adran 19 o Ddeddf Addysg 2002 (cyrff llywodraethu);15 ystyr “y cyfnod interim” (“*the interim period*”), o ran ysgol y mae hysbysiad o dan adran 7 neu 14 wedi ei roi mewn cysylltiad â hi, yw'r cyfnod y mae'r corff llywodraethu wedi ei gyfansoddi ynddo yn unol â'r Atodlen hon;20 ystyr “llywodraethwyr presennol” (“*existing governors*”), o ran ysgol y mae hysbysiad o dan adran 7 neu 14 wedi ei roi mewn cysylltiad â hi, yw'r llywodraethwyr sy'n dal swydd yn union cyn y daw'r corff llywodraethu'n gyfansoddedig yn unol â'r Atodlen hon.

(2) Yn yr Atodlen hon mae unrhyw gyfeiriad at derfynu ysgol a gynhelir yn gyfeiriad at yr awdurdod lleol yn peidio â'i chynnal.

Y corff llywodraethu i gael ei ffurfio o aelodau a benodir gan awdurdod priodol

25 2 (1) Mae corff llywodraethu'r ysgol i gael ei ffurfio o aelodau a benodir gan yr awdurdod priodol, yn lle cael ei gyfansoddi'n unol â rheoliadau a wneir yn rhinwedd adran 19 o Ddeddf Addysg 2002.

(2) Yn narpariaethau canlynol yr Atodlen hon—

30 (a) cyfeirir at y corff llywodraethu fel y'i gyfansoddir yn unol â'r Atodlen hon fel “y bwrdd gweithrediaeth interim”, a

(b) cyfeirir at aelodau'r corff llywodraethu fel y'u cyfansoddir felly fel “aelodau gweithrediaeth interim”.

Effaith hysbysiad o dan adran 7 neu 14

35 3 (1) Ar y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad o dan adran 7 neu 14, mae'r llywodraethwyr presennol yn gadael eu swydd.

(2) Nid yw is-paragraff (1) yn atal llywodraethwr presennol rhag cael ei benodi'n aelod gweithrediaeth interim.

(3) Yn ystod y cyfnod interim, mae unrhyw gyfeiriad mewn unrhyw ddarpariaeth sydd yn y Deddfau Addysg, neu sydd wedi ei gwneud oddi tanynt, at lywodraethwr neu lywodraethwr sefydledig ysgol yn cael effaith, o ran yr ysgol, fel cyfeiriad at aelod gweithrediaeth interim.

5 (4) Yn ystod y cyfnod interim, mae adran 83 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (addasu'r darpariaethau sy'n gwneud llywodraethwyr ysgol sefydledig neu wirfoddol yn ymddiriedolwyr ex officio) yn cael effaith o ran yr ysgol drwy roi yn lle paragraffau (a) to (c) gyfeiriad at yr aelodau gweithrediaeth interim.

Nifer yr aelodau gweithrediaeth interim

- 10 4 (1) Rhaid i nifer yr aelodau gweithrediaeth interim beidio â bod yn llai na dau.
- (2) Rhaid i benodiad cychwynnol aelodau gweithrediaeth gael ei wneud yn y fath fodd ag i ddod yn weithredol ar y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad o dan adran 7 neu 14.
- (3) Caiff yr awdurdod priodol benodi aelodau gweithrediaeth pellach ar unrhyw bryd yn ystod y cyfnod interim.

15 *Telerau penodi aelodau gweithrediaeth interim*

- 5 (1) Rhaid i bob penodiad aelod gweithrediaeth interim gael ei wneud drwy offeryn ysgrifenedig yn gosod telerau'r penodiad.
- (2) O ran aelod gweithrediaeth interim –
- 20 (a) mae'n dal swydd yn unol â thelerau'r penodiad ac yn ddarostyngedig i baragraff 16, a
- (b) caniateir iddo gael ei symud o'i swydd gan yr awdurdod priodol am anghymhwyster neu gamymddygiad.
- (3) Caiff telerau penodi aelod gweithrediaeth interim ddarparu i'r penodiad fod yn derfynadwy gan yr awdurdod priodol drwy hysbysiad.

25 *Dyletswydd yr awdurdod priodol i hysbysu personau eraill*

- 6 (1) Rhaid i'r awdurdod priodol roi copi o'r hysbysiad o dan adran 7 neu 14 ac o bob offeryn penodi aelod gweithrediaeth interim –
- (a) i bob aelod gweithrediaeth interim,
- (b) i bob llywodraethwr presennol yr ysgol,
- 30 (c) os yr awdurdod lleol yw'r awdurdod priodol, i Weinidogion Cymru,
- (d) os Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod priodol, i'r awdurdod lleol,
- (e) yn achos ysgol sefydledig neu wirfoddol sy'n un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru neu'n un o ysgolion yr Eglwys Gatholig Rufeinig, i'r awdurdod esgobaethol priodol, ac
- 35 (f) yn achos unrhyw ysgol sefydledig neu wirfoddol arall, i'r person sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig.
- (2) Nid yw methiant â chydymffurfio ag is-baragraff (1) yn annilysu'r hysbysiad na'r penodiad.

Pŵer i bennu hyd cyfnod interim

7 Caiff yr awdurdod priodol bennu hyd y cyfnod interim yn yr hysbysiad o dan adran 7 neu 14.

Cadeirydd

5 8 Caiff yr awdurdod priodol enwebu un o'r aelodau gweithrediaeth interim i fod yn gadeirydd y bwrdd gweithrediaeth interim.

Cydnabyddiaeth a lwfansau

9 Caiff yr awdurdod priodol dalu i unrhyw aelod gweithrediaeth interim unrhyw gydnabyddiaeth a lwfansau y bydd yr awdurdod priodol yn eu penderfynu, yn 10 ddarostyngedig i unrhyw reoliadau a wneir o dan baragraff 13(2).

Dyletswydd y bwrdd gweithrediaeth interim

- 10 (1) Yn ystod y cyfnod interim, rhaid i'r bwrdd gweithrediaeth interim redeg yr ysgol yn y fath fodd ag i sicrhau, cyhyd â'i bod yn ymarferol gwneud hynny, bod sail gadarn yn cael ei darparu ar gyfer gwella yn y dyfodol y modd y mae'r ysgol yn cael ei rhedeg.
- 15 (2) Nid yw is-baragraff (1) yn effeithio ar ddyletswyddau eraill y bwrdd gweithrediaeth interim fel corff llywodraethu.

Trafodion y bwrdd gweithrediaeth interim

- 11 (1) Caiff y bwrdd gweithrediaeth interim benderfynu ei weithdrefn ei hun.
- 20 (2) Caiff y bwrdd gweithrediaeth interim wneud unrhyw drefniadau y gwêl yn dda i unrhyw berson arall gyflawni ei swyddogaethau.
- (3) Mae'r paragraff hwn yn ddarostyngedig i unrhyw reoliadau a wneir o dan baragraff 13(2).

Effaith ar atal dros dro gyllideb ddirprwyedig

- 25 12 (1) Os nad oes gan yr ysgol, yn union cyn y dyddiad a bennir mewn hysbysiad o dan adran 7 neu 14, gyllideb ddirprwyedig, mae ataliad dros dro ar hawl y corff llywodraethu i gael cyllideb ddirprwyedig wedi ei ddirymu yn rhinwedd yr is-baragraff hwn o'r dyddiad hwnnw.
- 30 (2) Os yw hysbysiad o dan baragraff 1 o Atodlen 15 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (atal cyllideb ddirprwyedig dros dro am gamreoli etc) wedi ei roi i'r corff llywodraethu cyn y dyddiad a bennwyd mewn hysbysiad o dan adran 7 neu 14 ond nad yw wedi dod yn weithredol eto, mae effaith yr hysbysiad yn peidio ar y dyddiad hwnnw.
- (3) Yn ystod y cyfnod interim, ni chaiff yr awdurdod lleol arfer y pŵer a roddir gan adran 8 (pŵer i atal dros dro hawl i gael cyllideb ddirprwyedig).
- 35 (4) Mae is-baragraff (1) i'w ddehongli'n unol ag adran 49(7) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Eithrio darpariaethau statudol penodol

- 13 (1) Nid yw rheoliadau a wneir o dan adran 19(2) neu (3) o Ddeddf Addysg 2002 (cyrff llywodraethu) yn gymwys mewn perthynas â'r bwrdd gweithrediaeth interim.
- 5 (2) Ond caniateir i reoliadau a wneir o dan adran 19(3)(f), (g), (i), (j), (k) neu (l) o Ddeddf Addysg 2002 (ac eithrio rheoliadau o dan adran 19(3)(l) sy'n ymwneud â chyfansoddiad cyrff llywodraethu) gael eu cymhwyso mewn perthynas â'r bwrdd (gydag addasiadau neu hebddynt) drwy reoliadau.
- 10 (3) Nid yw offeryn llywodraethu'r ysgol yn cael effaith mewn perthynas â'r bwrdd gweithrediaeth interim i'r graddau y mae'n ymwneud â chyfansoddiad y corff llywodraethu.
- (4) Yn ystod y cyfnod interim—
- (a) ni chaiff yr awdurdod lleol arfer unrhyw bŵer a roddir gan adran 6 (pŵer i benodi llywodraethwyr ychwanegol), a
- 15 (b) ni chaiff Gweinidogion Cymru arfer unrhyw bŵer a roddir gan adran 13 (pŵer i benodi llywodraethwyr ychwanegol).

Cau'r ysgol

- 14 (1) Ar unrhyw bryd yn ystod y cyfnod interim, caiff y bwrdd gweithrediaeth interim, os gwêl yn dda, wneud adroddiad i'r awdurdod lleol a Gweinidogion Cymru yn argymhell y dylai'r ysgol gael ei therfynu, a chan ddatgan y rhesymau dros yr argymhelliad hwnnw.
- 20 (2) Ni chaiff y bwrdd gweithrediaeth interim—
- (a) cyhoeddi o dan adran 43 neu 44 gynigion i derfynu'r ysgol, na
- (b) cyflwyno hysbysiad o dan adran 81.
- (3) Bydd is-baragraff (4) yn gymwys os, yn ystod y cyfnod interim—
- 25 (a) bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddyd o dan adran 16 neu 82 mewn perthynas â'r ysgol, neu
- (b) bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu terfynu'r ysgol.
- (4) Mae'r cyfnod interim i barhau tan y dyddiad terfynu, hyd yn oed pan fyddai'n dod i ben fel arall cyn y dyddiad hwnnw.
- 30 (5) Yn y paragraff hwn ystyr "y dyddiad terfynu" yw un o'r canlynol (yn ôl fel y digwydd)—
- (a) y dyddiad y bydd cynigion i derfynu'r ysgol yn cael eu gweithredu arno o dan Ran 1 o Atodlen 4;
- (b) y dyddiad y caiff yr ysgol ei therfynu arno o dan adran 81;
- (c) y dyddiad a bennir yn y cyfarwyddyd o dan adran 16 neu 82(1).

Hysbysu bod y corff llywodraethu a gyfansoddwyd yn normal wedi ailddechrau llywodraethu

- 35 15 (1) Bydd yr is-baragraff canlynol yn gymwys—
- (a) os nad yw'r hysbysiad o dan adran 7 neu 14 yn pennu hyd y cyfnod interim, a

(b) os nad yw paragraff 14(4) yn gymwys.

(2) Caiff yr awdurdod priodol roi hysbysiad i'r personau a grybwyllir yn is-baragraff (3) yn pennu dyddiad pan fydd y corff llywodraethu'n dod yn gorff llywodraethu a gyfansoddwyd yn normal.

5 (3) Y personau hynny yw'r canlynol—

(a) pob aelod gweithrediaeth interim,

(b) os yr awdurdod lleol yw'r awdurdod priodol, Gweinidogion Cymru,

(c) os Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod priodol, yr awdurdod lleol,

10 (d) yn achos ysgol sefydledig neu wirfoddol sy'n un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru neu'n un o ysgolion yr Eglwys Gatholig Rufeinig, yr awdurdod esgobaethol priodol, a

(e) yn achos unrhyw ysgol sefydledig neu wirfoddol arall, y person sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig.

Yr amser pan fydd aelodau gweithrediaeth interim yn peidio â dal eu swydd

15 16 (1) Mae aelodau gweithrediaeth interim i adael eu swydd—

(a) mewn achos lle y mae is-baragraff (4) o baragraff 14 yn gymwys, ar y dyddiad terfynu o fewn ystyr y paragraff hwnnw,

20 (b) mewn achos lle nad yw'r is-baragraff hwnnw yn gymwys a bod yr hysbysiad o dan adran 7neu 14 yn pennu hyd y cyfnod interim, ar ddiwedd y cyfnod penodedig, ac

(c) mewn unrhyw achos arall, ar y dyddiad a bennir o dan baragraff 15 (2).

(2) Nid yw is-baragraff (1) yn atal terfynu penodiad aelod gweithrediaeth interim ynghynt o dan baragraff 5(2)(b) neu'n unol â thelerau ei benodiad.

Sefydlu corff llywodraethu a gyfansoddwyd yn normal

25 17 (1) Pan fo aelodau gweithrediaeth interim i adael eu swydd ar y dyddiad y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 16(1)(b) neu (c), rhaid i'r awdurdod lleol wneud trefniadau sy'n darparu ar gyfer cyfansoddi'r corff llywodraethu ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw.

30 (2) Caiff Gweinidogion Cymru wneud, drwy reoliadau, ddarpariaeth ynglŷn â'r trosi o fwrdd gweithrediaeth interim i gorff llywodraethu a gyfansoddwyd yn normal, a chânt, mewn cysylltiad â'r trosi hwnnw—

(a) addasu unrhyw ddarpariaeth a wnaed o dan unrhyw un neu rai o adrannau 19, 20 a 23 o Ddeddf Addysg 2002 neu gan Atodlen 1 i'r Ddeddf honno,

(b) cymhwyso unrhyw ddarpariaeth o'r fath gydag addasiadau neu hebddynt, ac

35 (c) gwneud darpariaeth sy'n cyfateb i unrhyw ddarpariaeth o'r fath neu'n gyffelyb iddi.

(3) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud yn rhinwedd is-baragraff (2) yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, ddarpariaeth sy'n galluogi llywodraethwyr i gael eu hethol neu eu penodi, ac i arfer swyddogaethau, cyn diwedd y cyfnod interim.

ATODLEN 2
(Cyflwynwyd gan adran 40)

NEWIDIADAU RHEOLEIDDIEDIG

RHAN 1

POB YSGOL A GYNHELIR

5

- 1 Mae paragraffau 2 a 3 yn disgrifio newidiadau rheoleiddiedig mewn perthynas ag ysgolion cymunedol, ysgolion sefydledig, ysgolion gwirfoddol, ysgolion arbennig cymunedol ac ysgolion arbennig sefydledig, ac ysgolion meithrin a gynhelir.

Trosglwyddo safle

10

- 2 Trosglwyddo ysgol i safle neu safleoedd newydd oni fyddai prif fynedfa'r ysgol ar ei safle neu safleoedd newydd o fewn 1.609344 cilomedr (un filltir) o brif fynedfa'r ysgol ar ei safle neu safleoedd presennol.

Ysgolion rhyw gymysg ac ysgolion un rhyw

15

- 3 (1) Newid a wneir i ysgol fel a ganlyn—
- (a) bod ysgol a oedd yn derbyn disgyblion o un rhyw yn unig yn derbyn disgyblion o'r ddau ryw, neu
- (b) bod ysgol a oedd yn derbyn disgyblion o'r ddau ryw yn derbyn disgyblion o un rhyw yn unig.
- (2) At ddibenion y paragraff hwn mae ysgol i'w thrin fel un sy'n derbyn disgyblion o un rhyw yn unig os yw trefn derbyn disgyblion o'r rhyw arall—
- (a) yn gyfyngedig i ddisgyblion dros oedran ysgol gorfodol; a
- (b) heb fod yn fwy na 25% o nifer y disgyblion yn y grŵp oedran a dan sylw sydd fel arfer yn yr ysgol.

20

RHAN 2

POB YSGOL A GYNHELIR AR WAHÂN I YSGOLION MEITHRIN A GYNHELIR

25

- 4 Mae paragraffau 5 i 8 yn disgrifio newidiadau rheoleiddiedig mewn perthynas ag ysgolion cymunedol, ysgolion sefydledig, ysgolion gwirfoddol, ysgolion arbennig cymunedol ac ysgolion arbennig sefydledig.

Ystod oedran

30

- 5 (1) Newid oedran isaf y disgyblion y darperir addysg iddynt yn arferol yn yr ysgol gan flwyddyn neu fwy.
- (2) Newid oedran uchaf y disgyblion y darperir addysg iddynt yn arferol yn yr ysgol gan flwyddyn neu fwy os yw'r ysgol, cyn ac ar ôl y newid, yn darparu addysg sy'n addas i ofynion disgyblion mewn oedran ysgol gorfodol ond heb fod yn darparu addysg sy'n addas i ofynion disgyblion dros oedran ysgol gorfodol.

35

Darpariaeth chweched dosbarth

- 6 (1) Cyflwyno'r ddarpariaeth o addysg lawnamser sy'n addas i ofynion disgyblion dros oedran ysgol gorfodol mewn ysgol sy'n darparu addysg lawnamser sy'n addas i ofynion disgyblion mewn oedran ysgol gorfodol.
- 5 (2) Terfynu'r ddarpariaeth o addysg lawnamser sy'n addas i ofynion disgyblion dros oedran ysgol gorfodol mewn ysgol sydd i barhau i ddarparu addysg lawnamser sy'n addas i ofynion disgyblion mewn oedran ysgol gorfodol.

Cyfrwng iaith – addysg gynradd

- 7 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys ar gyfer –
- 10 (a) ysgolion cynradd,
- (b) ysgolion arbennig ond dim ond mewn perthynas â darparu addysg gynradd i ddisgyblion yn yr ysgolion, a
- (c) ysgolion canol ond dim ond mewn perthynas â darparu addysg gynradd i ddisgyblion yn yr ysgolion.
- 15 (2) Daw newid o fewn y paragraff hwn os yw addysgu dosbarth o ddisgyblion mewn grŵp oedran (neu grwpiau oedran) mewn ysgol yn dod o fewn disgrifiad mewn cofnod yng ngholofn 1 o dabl 1 isod, ac os cynigir newid addysgu'r dosbarth cyfatebol o ddisgyblion yn y grŵp oedran hwnnw (neu'r grwpiau oedran hynny) fel ei fod yn dod o fewn y disgrifiad yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 2.
- 20 (3) Yn y paragraff hwn –
- (a) ystyr "grŵp oedran" yw –
- (i) grŵp blwyddyn o'r cyfnod sylfaen (o fewn yr ystyr a roddir i "*foundation phase*" gan adran 102 o Ddeddf Addysg 2002), neu
- 25 (ii) grŵp blwyddyn o'r ail gyfnod allweddol (o fewn yr ystyr a roddir i "*second key stage*" gan adran 103 o Ddeddf Addysg 2002);
- (b) nid yw cyfeiriad at addysgu dosbarth o ddisgyblion yn cynnwys gwasanaeth ysgol na gweithgareddau eraill mewn ysgol a gynhelir fel arfer gyda grwpiau mawr o ddisgyblion.

TABL 1

	1	2
5	Mae o leiaf 20% ond dim mwy nag 80% o'r addysgu yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Saesneg	Cynnydd neu leihad o ddim mwy na 20% yn yr addysgu sy'n cael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg
	Mae o leiaf 20% ond dim mwy nag 80% o'r addysgu yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg	Cynnydd neu leihad o ddim mwy na 20% yn yr addysgu sy'n cael ei gynnal drwy gyfrwng y Saesneg
10	Mae mwy nag 80% o'r addysgu yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Saesneg, ac mae rhywfaint o addysgu yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg	Cynnydd o fwy na 10% yn yr addysgu sy'n cael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg
15	Mae mwy nag 80% o'r addysgu yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae rhywfaint o addysgu yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Saesneg	Cynnydd o fwy na 10% yn yr addysgu sy'n cael ei gynnal drwy gyfrwng y Saesneg
	Ni chynhelir dim addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	Cynhelir mwy na 10% o'r addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
20	Ni chynhelir dim addysgu drwy gyfrwng y Saesneg	Cynhelir mwy na 10% o'r addysgu drwy gyfrwng y Saesneg
	Cynhelir rhywfaint o addysgu drwy gyfrwng y Saesneg	Ni chynhelir dim addysgu drwy gyfrwng y Saesneg
	Cynhelir rhywfaint o addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	Ni chynhelir dim addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

25 *Cyfrwng iaith – addysg uwchradd*

8 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys ar gyfer –

(a) ysgolion uwchradd,

(b) ysgolion arbennig ond dim ond mewn perthynas â darparu addysg uwchradd i ddisgyblion yn yr ysgolion, ac

30 (c) ysgolion canol ond dim ond mewn perthynas â darparu addysg uwchradd i ddisgyblion yn yr ysgolion.

(2) Daw newid o fewn y paragraff hwn os yw addysgu disgyblion mewn grŵp blwyddyn mewn ysgol yn dod o fewn disgrifiad mewn cofnod yng ngholofn 1 o dabl 2 isod, ac os cynigir newid addysgu'r disgyblion yn y grŵp blwyddyn hwnnw fel ei fod yn dod o fewn y disgrifiad yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 2.

35 (3) Yn y paragraff hwn "pwnc perthnasol" yw unrhyw bwnc ar wahân i Gymraeg a Saesneg a addysgir yn yr ysgol i ddisgyblion yn y grŵp blwyddyn o dan sylw.

TABL 2

	1	2
5	Addysgir pump neu ragor o bynciau perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i unrhyw ddisgybl	Lleihad o bedwar neu ragor o'r pynciau perthnasol a addysgir (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i unrhyw ddisgybl
10	Addysgir pump neu ragor o bynciau perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg i unrhyw ddisgybl	Lleihad o bedwar neu ragor o'r pynciau perthnasol a addysgir (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg i unrhyw ddisgybl
	Addysgir pob pwnc perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i bob disgybl	Addysgir tri neu ragor o bynciau perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg i unrhyw ddisgybl
15	Addysgir pob pwnc perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg i bob disgybl	Addysgir tri neu ragor o bynciau perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i unrhyw ddisgybl
	Addysgir un neu ragor o bynciau perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i unrhyw ddisgybl	Nid addysgir unrhyw bwnc perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i unrhyw ddisgybl
20	Addysgir un neu ragor o bynciau perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg i unrhyw ddisgybl	Nid addysgir unrhyw bwnc perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg i unrhyw ddisgybl

RHAN 3

YSGOLION CYMUNEDOL, YSGOLION SEFYDLEDIG AC YSGOLION GWIRFODDOL

- 25 9 Mae paragraffau 10 i 17 yn disgrifio newidiadau rheoleiddiedig mewn perthynas ag ysgolion cymunedol, ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol.

Newidiadau i fangreoedd

- 10 (1) Ehangu mangre'r ysgol a fyddai'n cynyddu capasiti'r ysgol gan o leiaf 25% neu 200 o ddisgyblion o'i gymharu â chapasiti'r ysgol ar y dyddiad priodol.
- 30 (2) Wrth benderfynu cynnydd mewn capasiti at ddibenion is-baragraff (1), mae pob ehangiad a wnaed ar ôl y dyddiad priodol i'w cymryd i ystyriaeth ynghyd â'r ehangiad arfaethedig.
- (3) Y "dyddiad priodol" yw'r diweddaraf o'r canlynol—
- 35 (a) y dyddiad sy'n dod bum mlynedd cyn y dyddiad y cynllunnir gweithredu'r cynigion i wneud yr ehangiad;
- (b) y dyddiad pan dderbyniodd yr ysgol ddisgyblion gyntaf;

(c) dyddiad (neu ddyddiad diweddaraf) gweithredu cynigion i wneud unrhyw newid i'r ysgol a oedd yn golygu ehangu ei mangre ac y cyhoeddwyd y cynigon hynny o dan—

(i) adran 49, 60, 69 neu 72, neu

(ii) adran 28 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 neu baragraff 5 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno.

(4) Nid yw cyfeiriadau yn y paragraff hwn at ehangu yn cynnwys ehangu dros dro.

(1) Ehangu mangre'r ysgol a fyddai'n cynyddu capasiti'r ysgol os yw'r dyddiad y cynllunnir gweithredu'r cynigion i wneud yr ehangiad yn dod o fewn y cyfnod a ddisgrifir yn is-baragraff (2).

(2) Pum mlynedd yw'r cyfnod ac mae'n dechrau ar ddyddiad gweithredu'r cynigion (neu'r dyddiad diweddaraf) sy'n dod o fewn paragraff 13 (lleihau capasiti ysgol).

(3) Nid yw "ehangu" yn y paragraff hwn yn cynnwys ehangu dros dro.

Gwneud ehangu dros dro, a fyddai ar yr adeg y'i gwnaed wedi dod o fewn paragraff 10 (heblaw am y ffaith ei fod dros dro), yn ehangu parhaol.

Newid a wneir i fangre'r ysgol a fyddai'n lleihau capasiti'r ysgol, lle y byddai'r capasiti arfaethedig yn is na'r nifer uchaf o ddisgyblion cofrestredig yn yr ysgol ar unrhyw adeg yn ystod y ddwy flynedd cyn y dyddiad y lluniodd y cynigydd ei gynnig i wneud y newid arfaethedig.

At ddibenion paragraffau 10 i 13—

(a) mae cyfeiriadau at gapasiti ysgol yn gyfeiriadau at nifer y disgyblion y gall yr ysgol drefnu lle ar eu cyfer fel a ddyfernir yn unol â chanllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru, a

(b) "ehangu dros dro" yw ehangu mangre ysgol y rhagwelir y bydd yr ehangiad, ar yr adeg y'i gwneir, yn ei le am lai na thair blynedd.

Anghenion addysgol arbennig

Sefydlu darpariaeth neu ddirwyn darpariaeth i ben a gydnabyddir gan yr awdurdod lleol yn ddarpariaeth a gadwyd yn ôl ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig.

Trefniadau derbyn

Cyflwyno trefniadau derbyn y mae adran 101(1) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (bandio disgyblion) yn gymwys iddynt.

Darpariaeth fyrddio

(1) Cyflwyno darpariaeth ar gyfer llety byrddio neu ei dirwyn i ben.

(2) Newid y ddarpariaeth ar gyfer llety byrddio fel bod y nifer o ddisgyblion y gwneir darpariaeth o'r fath ar eu cyfer yn cael ei gynyddu neu ei leihau gan 50 o ddisgyblion neu ragor neu gan 50% neu ragor.

RHAN 4

YSGOLION ARBENNIG

18 Mae paragraffau 19 i 21 yn disgrifio newidiadau rheoleiddiedig mewn perthynas ag ysgolion arbennig cymunedol ac ysgolion arbennig sefydledig.

5 *Cynnydd yn nifer disgyblion*

19 (1) Ac eithrio pan fo ysgol wedi ei sefydlu mewn ysbyty, cynnydd yn nifer y disgyblion y mae'r ysgol yn gwneud darpariaeth ar eu cyfer, a fyddai o'i gymryd ynghyd â phob cynnydd blaenorol ar ôl y dyddiad priodol, yn cynyddu nifer y disgyblion gan o leiaf 10% neu gan y nifer perthnasol o'i gymharu â nifer y disgyblion ar y dyddiad priodol.

10 (2) Yn y paragraff hwn –

y "dyddiad priodol" ("*appropriate date*") yw'r diweddaraf o'r canlynol –

(a) 19 Ionawr 2012;

(b) y dyddiad pan dderbyniodd yr ysgol ddisgyblion gyntaf;

15 (c) dyddiad (neu ddyddiad diweddaraf) gweithredu cynigion i wneud newid i'r ysgol i gynyddu nifer y disgyblion y mae'r ysgol yn darparu ar eu cyfer ac y cyhoeddwyd y cynigion hynny o dan y canlynol –

(i) adran 49, 60, 69 neu 72, neu

(ii) adran 31 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 neu baragraff 5 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno; ac

20 "y nifer perthnasol" ("*relevant number*") mewn perthynas â nifer y disgyblion mewn ysgol yw –

(a) pan fo'r ysgol yn darparu llety byrddio yn unig, 5 a

(b) ym mhob achos arall, 20.

Darpariaeth fyrddio

25 20 Newid y ddarpariaeth ar gyfer llety byrddio fel bod y nifer o ddisgyblion y gwneir darpariaeth o'r fath ar eu cyfer yn cael ei gynyddu neu ei leihau gan 5 disgybl neu ragor.

Darpariaeth anghenion addysgol arbennig

21 Newid yn y math o anghenion addysgol arbennig y trefnwyd yr ysgol i wneud darpariaeth ar ei gyfer.

30

RHAN 5

YSGOLION MEITHRIN A GYNHELIR

22 Mae paragraffau 23 i 25 yn disgrifio newidiadau rheoleiddiedig mewn perthynas ag ysgolion meithrin a gynhelir.

Y man addysgu

23 (1) Ehangu'r man addysgu, ac eithrio ehangu dros dro, gan 50% neu fwy.

(2) Gwneud ehangu dros dro y man addysgu gan 50% neu fwy yn ehangu parhaol.

(3) Yn y paragraff hwn –

5 ystyr “man addysgu” (“*teaching space*”) yw unrhyw fan a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer darparu addysg feithrin ac eithrio'r canlynol –

(a) unrhyw fan a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer addysg disgyblion y mae eu hanghenion addysgol yn cael eu hasesu o dan adran 323 o Ddeddf Addysg 1996 a disgyblion sydd â chanddynt ddatganiadau anghenion addysgol arbennig a gedwir o dan adran 324 o'r Ddeddf honno;

10 (b) unrhyw fan a gafodd ei adeiladu, ei addasu neu ei drefnu yn y fath fodd nad yw'n addas at ddibenion addysgu cyffredinol;

(c) unrhyw fan a gafodd ei adeiladu, ei addasu neu ei drefnu yn bennaf ar gyfer storio cyfarpar, offer neu ddeunyddiau a ddefnyddir wrth addysgu;

15 (d) unrhyw ran o ardal y mae ei hangen ar gyfer symudiad disgyblion drwy'r ardal honno ac a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf at y diben hwnnw; a

“ehangu dros dro” (“*temporary enlargement*”) yw ehangu man addysgu y rhagwelir y bydd yr ehangiad, ar yr adeg y'i gwneir, yn ei le am lai na thair blynedd.

Anghenion addysgol arbennig

20 24 Sefydlu darpariaeth neu ddirwyn darpariaeth i ben a gydnabyddir gan yr awdurdod lleol yn ddarpariaeth a gadwyd yn ôl ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig.

Cyfrwng iaith

25 (1) Yn achos ysgol y caiff grŵp o ddisgyblion ynddi ei addysgu yn gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg, unrhyw newid i'r ysgol fel y byddai pob disgybl yn cael ei addysgu yn gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg.

25 (2) Yn achos ysgol y caiff grŵp o ddisgyblion ynddi ei addysgu yn gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg, unrhyw newid i'r ysgol fel y byddai pob disgybl yn cael ei addysgu yn gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg.

RHAN 6

30 ATODOL

Y prŵer i ddiwygio

26 (1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy orchymyn ddiwygio unrhyw ddarpariaeth yn yr Atodlen hon.

35 (2) Caiff gorchymyn o dan is-baragraff (1) wneud diwygiadau canlyniadol i unrhyw ddarpariaeth yn Rhan 3 o'r Ddeddf hon.

ATODLEN 3
(Cyflwynwyd gan adran 53)

PANELAU PENDERFYNU LLEOL

Dehongli

- 5 1 Yn yr Atodlen hon –
- ystyr “yr awdurdod penodi” (“*the appointing authority*”), mewn perthynas â phanel, yw’r awdurdod lleol a benododd y panel;
- ystyr “panel” (“*panel*”) yw panel penderfynu lleol.

Aelodau

- 10 2 (1) Mae panel penderfynu lleol i’w ffurfio gan bum aelod.
- (2) Os bydd panel yn trin cynigion sy’n ymwneud ag ysgol a chanddi gymeriad crefyddol, neu, mewn achos o gynigion i sefydlu ysgol, y bwriedir iddi gael cymeriad o’r fath, rhaid i’r awdurdod penodi wahodd y corff crefyddol priodol i enwebu cynrychiolydd i eistedd fel aelod o’r panel.
- 15 (3) Os yw’r corff crefyddol priodol yn enwebu cynrychiolydd, rhaid i’r cynrychiolydd hwnnw fod yn aelod o’r panel.

Anghymhwysu

- 3 Ni chaiff aelod o weithrediaeth awdurdod lleol fod yn aelod o banel.
- 4 (1) Ni chaiff person fod yn aelod o banel sy’n ymdrin â chynigion os oes gan y person
20 hwnnw neu os bu ganddo, ar unrhyw adeg, gysylltiad perthnasol â’r canlynol –
- (a) yr awdurdod penodi,
- (b) y cynigydd (os yw’n wahanol), neu
- (c) yr ysgol y mae’r cynigion yn ymwneud â hi.
- (2) Cysylltiad perthnasol yw un a ellid yn rhesymol ei ddeall fel un sy’n codi amheuon
25 ynghylch gallu person i weithredu’n ddiduedd mewn perthynas â’r cynigion.

Clerc i’r panel

- 5 Rhaid i’r awdurdod penodi ddarparu person i’r panel i weithredu fel clerc i’r panel (nad yw’n aelod o’r panel).

Y weithdrefn

- 30 6 Rhaid i’r panel ethol cadeirydd.
- 7 (1) Mae cwestiynau sydd i’w penderfynu mewn cyfarfod o’r panel i’w penderfynu drwy fwyafrif pleidleisiau’r aelodau sy’n bresennol ac sy’n pleidleisio ar y cwestiwn, ac mewn achos o bleidleisiau cyfartal mae gan y cadeirydd ail bleidlais neu bleidlais fwrw.

(2) Rhaid i banel wneud penderfyniad ar gynigion a atgyfeirir iddo cyn diwedd 16 o wythnosau sy'n dechrau ar ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu (ond nid yw methiant i gydymffurfio â'r terfyn amser hwnnw yn effeithio ar ddilysrwydd ei benderfyniad).

(3) Cyn diwedd 7 niwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod y mae'n gwneud y penderfyniad, rhaid i'r panel anfon y penderfyniad a'r rhesymau dros ei wneud, yn ysgrifenedig, at y canlynol—

- (a) y cynigydd,
- (b) yr awdurdod penodi (os yw'n wahanol), ac
- (c) Gweinidogion Cymru.

(4) Rhaid i'r awdurdod penodi gyhoeddi penderfyniad y panel ar ei wefan.

(1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys, ar unrhyw adeg ar ôl i banel ddechrau ystyried cynigion —

- (a) pan fo aelod yn marw,
- (b) pan nad yw aelod yn gallu parhau yn aelod oherwydd salwch, neu
- (c) pan nad yw aelod yn gallu parhau yn aelod oherwydd y gellid yn rhesymol godi amheuan ynghylch gallu'r aelod i weithredu'n ddiuedd.

(2) Caniateir i banel barhau i ystyried y cynigion—

- (a) cyhyd â bod nifer yr aelodau sydd ar ôl yn ddim llai na thri, a
- (b) os oedd y panel yn cynnwys cynrychiolydd wedi ei enwebu o dan baragraff 2(2) pan ddechreuodd ystyried y cynigion, cyhyd â bod y cynrychiolydd hwnnw yn un o'r aelodau sydd ar ôl.

Yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth a wneir gan yr Atodlen hon neu'r cod a ddyroddwyd o dan adran 38(1) sydd mewn grym am y tro, caiff panel reoleiddio ei weithdrefn ei hun.

Cymorth ariannol

(1) Rhaid i'r awdurdod penodi ddarparu i'r panel yr adnoddau sy'n rhesymol ofynnol ganddo i'w alluogi i gyflawni ei swyddogaethau yn ddigonol.

(2) Mae "adnoddau" yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i hynny) darparu llety, staff, cyngor a chymorth ariannol.

Lwfansau i aelodau

Mae aelod o'r panel nad yw'n aelod o'r awdurdod penodi i'w drin fel aelod o'r awdurdod penodi at ddibenion Rhan 8 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (taliadau i aelodau awdurdod).

Indemnio

Rhaid i'r awdurdod penodi indemnio aelodau'r panel yn erbyn unrhyw gostau a threuliau cyfreithiol rhesymol yr aethant iddynt yn rhesymol mewn cysylltiad ag unrhyw benderfyniad neu unrhyw gam a gymerwyd ganddynt yn ddiwyll wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau fel aelodau o'r panel.

Pwerau ymyrryd

13 Mae Pennod 2 o Ran 2 o'r Ddeddf hon (pwerau ymyrryd Gweinidogion Cymru mewn awdurdodau lleol) yn cael effaith mewn perthynas â phanel fel pe bai –

(a) y cyfeiriadau at awdurdod lleol yn cynnwys cyfeiriadau at banel, ac

5 (b) y cyfeiriadau at swyddogaethau addysg yn cynnwys dyletswyddau a osodir ar banel a phwerau a roddir i banel yn rhinwedd y Ddeddf hon.

Ombwdsmon

14 Yn Atodlen 3 i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 (awdurdodau rhestredig), ar ôl y pennawd "Education and Training" ar ôl y cofnod sy'n ymwneud â phanel eithrio, mewnosoder –

10

"a local determination panel appointed under section 53 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013."

ATODLEN 4
(Cyflwynwyd gan adran 56)

GWEITHREDU CYNIGION STATUDOL

RHAN 1

5

CYFRIFOLDEB DROS WEITHREDU

Dehongli

1 Yn y Rhan hon o'r Atodlen hon—

- (a) ystyr "cynigion" yw cynigion sydd i'w gweithredu o dan adran 56;
- (b) mae cyfeiriad at awdurdod lleol mewn perthynas ag ysgol neu ysgol arfaethedig yn gyfeiriad at yr awdurdod lleol sy'n cynnal neu a fydd yn cynnal yr ysgol honno.

10

Cynigion ynghylch ysgolion cymunedol neu ysgolion meithrin a gynhelir

- 2 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gynigion ynghylch ysgol gymunedol neu ysgol feithrin a gynhelir neu ysgol gymunedol arfaethedig neu ysgol feithrin a gynhelir sy'n arfaethedig.
- 15 (2) Rhaid i gynigion a wneir gan awdurdod lleol o dan adran 41, 42 neu 43 gael eu gweithredu gan yr awdurdod lleol.

Cynigion ynghylch ysgolion sefydledig neu ysgolion gwirfoddol a reolir

- 3 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gynigion ynghylch ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol a reolir neu ysgol wirfoddol a reolir sy'n arfaethedig.
- 20 (2) Rhaid i gynigion a wneir gan awdurdod lleol o dan adran 41(2) neu 43(1)(a) gael eu gweithredu gan yr awdurdod.
- (3) Rhaid i gynigion a wneir gan awdurdod lleol o dan adran 42(1)(b) neu (c) gael eu gweithredu gan yr awdurdod a chan y corff llywodraethu.
- 25 (4) Rhaid i gynigion a wneir o dan adran 41(2) (nas gwneir gan awdurdod lleol) gael eu gweithredu gan yr awdurdod lleol a chan y person a wnaeth y cynigion i'r graddau y mae'r cynigion yn darparu (os ydynt) i bob un ohonynt wneud hynny.
- 30 (5) Rhaid i gynigion a wneir gan gorff llywodraethu o dan adran 42(2) gael eu gweithredu gan yr awdurdod lleol a'r corff llywodraethu i'r graddau y mae'r cynigion yn darparu (os ydynt) i bob un ohonynt wneud hynny.
- (6) Rhaid i gynigion a wneir gan gorff llywodraethu o dan adran 43(2) gael eu gweithredu gan y corff llywodraethu a chan yr awdurdod lleol.

Cynigion ynghylch ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir

- 4 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gynigion ynghylch ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol wirfoddol a gynorthwyir sy'n arfaethedig.

35

- (2) Rhaid i gynigion a wneir gan awdurdod lleol o dan adran 42(1)(b) neu (c) gael eu gweithredu gan yr awdurdod a chan y corff llywodraethu.
- (3) Rhaid i gynigion a wneir o dan adran 41(2) gael eu gweithredu –
- (a) os yr awdurdod lleol yw'r cynigydd, gan yr awdurdod lleol, a
- (b) os nad yr awdurdod lleol yw'r cynigydd –
- (i) i'r graddau y maent yn ymwneud â darparu mangre berthnasol i'r ysgol, gan yr awdurdod lleol, a
- (ii) fel arall gan y person a wnaeth y cynigion.
- (4) Nid oes dim sydd yn is-baragraff (3)(b) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ddarparu mangre berthnasol –
- (a) pan fo'r ysgol newydd wirfoddol a gynorthwyir i'w sefydlu yn lle un neu ragor o ysgolion annibynnol, sefydledig neu wirfoddol sy'n rhai presennol ac sydd i'w terfynu ar neu cyn dyddiad gweithredu'r cynigion, a
- (b) pan oedd y fangre honno yn rhan o fangre unrhyw un neu rai o'r ysgolion presennol ond na chafodd ei darparu gan yr awdurdod.
- (5) Rhaid i gynigion a wneir gan gorff llywodraethu o dan adran 42(2) gael eu gweithredu –
- (a) i'r graddau y maent yn ymwneud â darparu mangre berthnasol i'r ysgol, gan yr awdurdod lleol, a
- (b) fel arall gan y corff llywodraethu.
- (6) Ystyr "mangre berthnasol" yw –
- (a) caeau chwarae, neu
- (b) adeiladau sydd i ffurfio rhan o fangre'r ysgol ond nad ydynt i fod yn adeiladau ysgol.
- (7) Rhaid i gynigion a wneir gan awdurdod lleol o dan adran 43(1) gael eu gweithredu gan yr awdurdod.
- (8) Rhaid i gynigion a wneir gan gorff llywodraethu o dan adran 43(2) gael eu gweithredu gan y corff llywodraethu a chan yr awdurdod lleol.

Cynigion ynghylch ysgolion arbennig gymunedol ac ysgolion arbennig sefydledig

- (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gynigion ynghylch –
- (a) ysgol arbennig gymunedol neu ysgol arbennig sefydledig, neu
- (b) ysgol arbennig gymunedol arfaethedig neu ysgol arbennig sefydledig arfaethedig.
- (2) Rhaid i gynigion a wneir gan awdurdod lleol o dan adran 44(1) gael eu gweithredu gan yr awdurdod.
- (3) Rhaid i gynigion a wneir gan gorff llywodraethu o dan adran 44(2)(a) gael eu gweithredu gan yr awdurdod lleol a'r corff llywodraethu i'r graddau y mae'r cynigion yn darparu (os ydynt) i bob un ohonynt wneud hynny.
- (4) Rhaid i gynigion a wneir gan gorff llywodraethu o dan adran 44(2)(b) gael eu gweithredu gan y corff llywodraethu a chan yr awdurdod lleol.

Newid categori

6 Os bydd ysgol yn newid categori o ysgol gymunedol neu ysgol arbennig gymunedol ar
 ôl i gynigion cael eu cyhoeddi o dan adran 49 ond cyn iddynt gael eu gweithredu, rhaid
 5 i'r cynigion (i'r graddau na chawsant eu gweithredu) gael eu gweithredu gan yr
 awdurdod lleol (er gwaethaf paragraffau 3 i 5).

RHAN 2

DARPARU MANGREOEDD A CHYMORTH ARALL

Darparu safle ac adeiladau i ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol a reolir neu ysgol arbennig sefydledig

7 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo'n ofynnol i awdurdod lleol –

- 10 (a) yn rhinwedd paragraff 3(2), (3), (4) neu (5) ddarparu safle i ysgol sefydledig neu
 ysgol wirfoddol a reolir, neu ysgol wirfoddol a reolir sy'n arfaethedig, neu
 (b) yn rhinwedd paragraff 5(2) neu (3) ddarparu safle i ysgol arbennig sefydledig neu
 ysgol arbennig sefydledig sy'n arfaethedig.

15 (2) Rhaid i'r awdurdod drosglwyddo ei fuddiant yn y safle ac yn unrhyw adeiladau sydd ar
 y safle sydd i ffurfio rhan o fangre'r ysgol –

- (a) i ymddiriedolwyr yr ysgol, i'w ddal ganddynt ar ymddiried at ddibenion yr ysgol,
 neu
 (b) os nad oes ymddiriedolwyr gan yr ysgol, i gorff sefydledig yr ysgol neu (yn
 absenoldeb corff o'r fath) i'r corff llywodraethu, i'w ddal gan y corff hwnnw at y
 20 dibenion perthnasol.

(3) Os bydd unrhyw amheuaeth neu anghydfod yn codi o ran y personau y mae'n ofynnol
 i'r awdurdod wneud y trosglwyddiad iddynt, rhaid iddo gael ei wneud i'r personau
 hynny y mae Gweinidogion Cymru'n barnu eu bod yn briodol.

25 (4) Rhaid i'r awdurdod dalu i'r personau y gwneir y trosglwyddiad iddynt eu costau
 rhesymol mewn cysylltiad â'r trosglwyddiad.

(5) Mae is-baragraff (6) yn gymwys –

- (a) pan fo trosglwyddiad yn cael ei wneud o dan y paragraff hwn, a
 (b) pan fo'r trosglwyddiad yn cael ei wneud i bersonau ("y trosglwyddeion") y mae
 30 ganddynt unrhyw swm, neu sydd â hawl ganddynt iddo neu y gellid bod
 ganddynt yr hawl iddo, sef swm sy'n cynrychioli'r enillion ar werthiant mangre
 arall a gafodd ei defnyddio at ddibenion yr ysgol.

35 (6) Rhaid i'r trosglwyddeion hysbysu'r awdurdod lleol bod is-baragraff (5)(b) yn gymwys
 iddynt a rhaid iddynt hwy neu eu holynwyr dalu i'r awdurdod lleol gymaint o'r swm
 hwnnw, gan roi sylw i werth y buddiant a drosglwyddwyd, ag y benderfynir ei fod yn
 gyfiawn, naill ai drwy gytundeb rhyngddynt hwy a'r awdurdod neu, yn niffyg cytundeb,
 gan Weinidogion Cymru.

(7) Yn is-baragraff (5)(b) mae'r cyfeiriad at enillion ar werthiant mangre arall yn cynnwys
 cyfeiriad at y canlynol –

- 40 (a) cydnabyddiaeth am greu neu am waredu unrhyw fath o fuddiant mewn mangre
 arall, gan gynnwys rhent, a

(b) unrhyw log sydd wedi cronni mewn perthynas â chydabyddiaeth o'r fath.

(8) Mae unrhyw swm a delir o dan is-baragraff (6) i'w drin at ddibenion adran 14 o Ddeddf Safleoedd Ysgolion 1841 (sy'n ymwneud â gwerthu neu gyfnewid tir sy'n cael ei ddal ar ymddiried at ddibenion ysgol) fel swm a ddefnyddir at brynu safle i'r ysgol.

(9) Caniateir i benderfyniad gael ei wneud o dan is-baragraff (6) mewn cysylltiad ag unrhyw eiddo sy'n ddarostyngedig i ymddiriedolaeth sydd wedi codi o dan adran 1 o Ddeddf Dychweliad Safleoedd 1987 (hawli dychweliad yn cael ei disodli gan ymddiried i werthu) –

(a) os gwneir y penderfyniad gan Weinidogion Cymru (a dim ond bryd hynny), a

(b) maent wedi eu bodloni (a dim ond bryd hynny) bod camau wedi eu cymryd i amddiffyn buddiannau'r buddiolwyr o dan yr ymddiriedolaeth.

(10) Mae is-baragraff (6) yn gymwys at ddibenion digolledu'r awdurdod a hysbysir o dan yr is-baragraff hwnnw mewn perthynas yn unig â'r rhan honno o'r swm a grybwyllir yn is-baragraff (5)(b) (os oes un) sy'n weddill ar ôl cymhwyso paragraffau 1 i 3 o Atodlen 22 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (gwaredu tir - ysgolion sefydledig, ysgolion gwirfoddol ac ysgolion arbennig sefydledig) i'r swm hwnnw.

(11) Yn y paragraff hwn –

ystyr "y dibenion perthnasol" ("*the relevant purposes*") yw –

(a) mewn perthynas â throsglwyddiad i gorff sefydledig ysgol, dibenion yr ysgolion sy'n ffurfio'r grŵp y mae'r corff hwnnw'n gweithredu drosto, neu

(b) mewn perthynas â throsglwyddiad i gorff llywodraethu ysgol, dibenion yr ysgol;

nid yw "safle" ("*site*") yn cynnwys caeau chwarae ond fel arall mae'n cynnwys unrhyw safle sydd i ffurfio rhan o fangre'r ysgol o dan sylw.

Grantiau mewn cysylltiad â gwariant penodol ynghylch ysgol wirfoddol a gynorthwyir boed hi'n un bresennol neu'n un arfaethedig

(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys –

(a) pan fo'n ofynnol i gorff llywodraethu ysgol wirfoddol a gynorthwyir yn rhinwedd paragraff 4(5) i weithredu cynigion i wneud newid rheoleiddiedig i'r ysgol, neu

(b) pan fo'n ofynnol i berson yn rhinwedd paragraff 4(3)(b) i weithredu cynigion i sefydlu ysgol newydd wirfoddol a gynorthwyir.

(2) Mae paragraff 5 o Atodlen 3 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (grantiau i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir mewn cysylltiad â gwariant ar fangre neu gyfarpar) –

(a) yn gymwys mewn perthynas â'r ysgol a grybwyllir yn is-baragraff (1)(a), a

(b) yn gymwys mewn perthynas â'r ysgol newydd a grybwyllir yn is-baragraff (1)(b) fel y mae'n gymwys mewn perthynas ag ysgol bresennol sy'n ysgol wirfoddol a gynorthwyir.

(3) Wrth gymhwyso'r paragraff hwnnw mewn perthynas ag ysgol newydd wirfoddol a gynorthwyir –

- (a) mae cyfeiriadau at y corff llywodraethu, mewn perthynas ag unrhyw adeg cyn i'r corff llywodraethu gael ei gyfansoddi, yn gyfeiriadau at y person a wnaeth y cynigion o dan adran 41(2), a
- (b) pan osodir gofynion mewn perthynas â grant â delir yn rhinwedd y paragraff hwn i'r person a wnaeth y cynigion, rhaid i corff llywodraethu, pan gyfansoddir ef, yn ogystal â'r person hwnnw, gydymffurfio â'r gofynion.

Cymorth mewn cysylltiad â chynnal a chadw a rhwymedigaethau eraill mewn perthynas ag ysgol wirfoddol a gynorthwyir

9 Caiff awdurdod lleol roi i gorff llywodraethu ysgol wirfoddol a gynorthwyir y cymorth y gwêl yr awdurdod yn dda i'w roi pan fo'r corff llywodraethu'n cyflawni unrhyw rwymedigaeth sy'n codi yn rhinwedd paragraff 4(5) mewn perthynas â chynigion a wnaed ganddo o dan adran 42(2).

Cymorth mewn cysylltiad ag ysgol newydd wirfoddol a gynorthwyir

10 Caiff awdurdod lleol roi i'r personau y mae'n ofynnol iddynt yn rhinwedd paragraff 4(3) (b) i weithredu cynigion i sefydlu ysgol wirfoddol a gynorthwyir y cymorth y gwêl yn dda i'w roi pan fo'r personau hynny'n cyflawni unrhyw rwymedigaeth sy'n codi yn rhinwedd y paragraff hwnnw.

Dyletswydd i drosglwyddo buddiant mewn mangre a ddarperir o dan baragraff 9 neu 10

11 (1) Pan fo cymorth o dan baragraff 9 neu 10 yn golygu darparu unrhyw fangre i'w defnyddio at ddibenion ysgol, rhaid i'r awdurdod leol drosglwyddo ei fuddiant yn y fangre –

- (a) i ymddiriedolwyr yr ysgol i'w ddal ar ymddiried at ddibenion yr ysgol, neu
- (b) os nad oes ymddiriedolwyr gan yr ysgol, i gorff sefydledig yr ysgol, i'w ddal gan y corff hwnnw at ddibenion yr ysgolion sy'n ffurfio'r grŵp y mae'r corff hwnnw'n gweithredu drosto.

(2) Os bydd unrhyw amheuaeth neu anghydfod yn codi o ran y personau y mae'n ofynnol i'r awdurdod wneud y trosglwyddiad iddynt, rhaid iddo gael ei wneud i'r personau hynny y mae Gweinidogion Cymru'n barnu eu bod yn briodol.

(3) Rhaid i'r awdurdod dalu i'r personau y gwneir y trosglwyddiad iddynt eu costau rhesymol mewn cysylltiad â'r trosglwyddiad.

RHAN 3

GORCHMYNION ESEMPTIO TROSIANNOL AT DDIBENION DEDDF CYDRADDOLDEB 2010

Ysgolion un rhyw

12 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gynigion i wneud newid rheoleiddiedig a ddisgrifir ym mharagraff 3(1)(a) o Atodlen 2 (ysgol i beidio â bod yn un sy'n derbyn disgyblion o un rhyw yn unig).

(2) Mae is-baragraff (3) yn gymwys pan wneir cynigion o'r fath o dan adran 42 neu 44 ac, yn unol ag adran 49(4), pan fo'r cynigydd yn anfon copi o'r cynigion wedi eu cyhoeddi at Weinidogion Cymru.

5 (3) Mae anfon y cynigion wedi eu cyhoeddi i Weinidogion Cymru i'w drin fel cais gan y cynigydd am orchymyn esemptio trosiannol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a chaniateir i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn o'r fath yn unol â hynny.

(4) Yn y paragraff hwn –

mae i "gorchymyn esemptio trosiannol" yr ystyr a roddir i "*transitional exemption order*" ym mharagraff 3 o Atodlen 11 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010;

10 mae "gwneud" ("*make*"), mewn perthynas â gorchymyn esemptio trosiannol yn cynnwys amrywio neu ddirymu.

ATODLEN 5
(Cyflwynwyd gan adran 50)

GWEITHREDU CYNIGION I NEWID CATEGORI YSGOL

RHAN 1

CYFLWYNIAD

5

Dehongli

1 Yn yr Atodlen hon –

ystyr “cytundeb trosglwyddo” (“*transfer agreement*”) mewn perthynas ag ysgol yw cytundeb –

10

- (a) a wnaed rhwng yr awdurdod lleol ac ymddiriedolwyr neu gorff sefydledig neu gorff llywodraethu’r ysgol, a
- (b) sy’n darparu bod tir yn cael ei drosglwyddo i’r awdurdod lleol, ac yn cael ei freinio ynddo ar y dyddiad gweithredu (p’un a fu cydnabyddiaeth drwy daliad ai peidio gan yr awdurdod;

15

“y dyddiad gweithredu” (“*the implementation date*”) yw’r dyddiad y cynigir y bydd y newid categori yn digwydd;

mae i “grŵp” yr ystyr a roddir i “*group*” gan adran 21(4)(b) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

20

ystyr “tir wedi ei gyllido’n gyhoeddus” (“*publicly funded land*”) yw tir a gafodd ei gaffael –

25

- (a) oddi wrth awdurdod lleol o dan drosglwyddiad o dan adran 201(1)(a) o Ddeddf Addysg 1996,
- (b) yn gyfan gwbl drwy gyfrwng grant cynnal, grant diben arbennig neu grant cyfalaf (o fewn ystyr Pennod 6 o Ran 3 o Ddeddf Addysg 1996),
- (c) yn gyfan gwbl drwy gyfrwng grant a wnaed o dan reoliadau a wnaed o dan baragraff 4 o Atodlen 32 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998,
- (d) yn gyfan gwbl drwy gyfrwng gwariant a wnaed at ddibenion yr ysgol ac a gafodd ei drin gan yr awdurdod lleol fel gwariant o natur cyfalaf,
- (e) o dan drosglwyddiad o dan reoliadau a wnaed o dan baragraff 5 o Atodlen 8 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998,
- (f) yn gyfan gwbl drwy gyfrwng cymorth ariannol a roddwyd o dan adran 14 o Ddeddf Addysg 2002,
- (g) o dan drosglwyddiad o dan yr Atodlen hon, neu
- (h) yn gyfan gwbl drwy enillion wrth waredu unrhyw dir a gafodd ei gaffael fel a grybwyllir yn unrhyw un neu ragor o baragraffau (a) i (g).

35

Gweithredu

2 Ar y dyddiad gweithredu mae'r ysgol i newid categori yn unol â'r cynigion.

RHAN 2

TROSGLWYDDO STAFF

5 *Newid i ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol arbennig sefydledig*

3 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys –

(a) pan fo ysgol gymunedol neu ysgol wirfoddol a reolir yn newid categori i ddod yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir, neu

10 (b) pan fo ysgol arbennig gymunedol yn newid categori i ddod yn ysgol arbennig sefydledig.

(2) Mae'r contract cyflogaeth rhwng P a'r awdurdod lleol yn cael effaith o'r dyddiad gweithredu fel pe bai wedi ei wneud yn wreiddiol rhwng P a'r corff llywodraethu.

15 (3) Caiff holl hawliau, pwerau, dyletswyddau a rhwymedigaethau'r awdurdod lleol o dan y contract cyflogaeth neu mewn cysylltiad ag ef eu trosglwyddo i'r corff llywodraethu ar y dyddiad gweithredu.

(4) Mae unrhyw beth a gafodd ei wneud cyn y dyddiad hwnnw gan yr awdurdod lleol neu mewn perthynas ag ef mewn cysylltiad â'r contract hwnnw neu â P i'w drin o'r dyddiad hwnnw ymlaen fel pe bai wedi ei wneud gan y corff llywodraethu neu mewn perthynas ag ef.

20 (5) Yn y paragraff hwn, "P" yw person sydd –

(a) yn union cyn y dyddiad gweithredu yn gyflogedig gan yr awdurdod lleol i weithio dim ond yn yr ysgol o dan sylw, neu

(b) cyn y dyddiad gweithredu, wedi ei benodi gan yr awdurdod lleol i weithio yn yr ysgol o'r dyddiad gweithredu ymlaen neu ar ddyddiad diweddarach.

25 (6) Ond nid yw cyfeiriad at "P" yn cynnwys –

(a) person y mae ei gontract cyflogaeth yn terfynu ar y diwrnod yn union cyn y dyddiad gweithredu, neu

(b) person a gyflogir gan yr awdurdod lleol i weithio yn yr ysgol dim ond mewn cysylltiad â darparu prydau bwyd.

30 (7) Nid yw'r paragraff hwn yn effeithio ar unrhyw hawl gan gyflogai i derfynu'r contract os gwneir (ar wahân i newid cyflogwr) newid sylweddol sy'n niweidiol i amodau gwaith y cyflogai.

Newid i ysgol gymunedol neu ysgol wirfoddol a reolir neu ysgol arbennig gymunedol

4 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys –

35 (a) pan fo ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol a gynorthwyir yn newid categori i ddod yn ysgol gymunedol neu'n ysgol wirfoddol a reolir, neu

(b) pan fo ysgol arbennig sefydledig yn newid categori i ddod yn ysgol arbennig gymunedol.

- (2) Mae'r contract cyflogaeth rhwng P a'r corff llywodraethu yn cael effaith o'r dyddiad gweithredu fel pe bai wedi ei wneud yn wreiddiol rhwng P a'r awdurdod lleol.
- (3) Caiff holl hawliau, pwerau, dyletswyddau a rhwymedigaethau'r corff llywodraethu o dan y contract cyflogaeth neu mewn cysylltiad ag ef eu trosglwyddo i'r awdurdod lleol ar y dyddiad gweithredu.
- (4) Mae unrhyw beth a gafodd ei wneud cyn y dyddiad hwnnw gan y corff llywodraethu neu mewn perthynas ag ef mewn cysylltiad â'r contract hwnnw neu â P i'w drin o'r dyddiad hwnnw ymlaen fel pe bai wedi ei wneud gan yr awdurdod lleol neu mewn perthynas ag ef.
- (5) Yn y paragraff hwn, "P" yw person sydd—
- (a) yn union cyn y dyddiad gweithredu yn gyflogedig gan y corff llywodraethu i weithio yn yr ysgol o dan sylw, neu
- (b) cyn y dyddiad gweithredu, wedi ei benodi gan y corff llywodraethu i weithio yn yr ysgol o'r dyddiad gweithredu ymlaen neu ar ddyddiad diweddarach.
- (6) Ond nid yw "P" yn cynnwys person y mae ei contract cyflogaeth yn terfynu ar y diwrnod yn union cyn y dyddiad gweithredu.
- (7) Nid yw'r paragraff hwn yn effeithio ar unrhyw hawl gan gyflogai i derfynu'r contract os gwneir (ar wahân i newid cyflogwr) newid sylweddol sy'n niweidiol i amodau gwaith y cyflogai.

Newid i ysgol wirfoddol a gynorthwyir sydd â chymeriad crefyddol

- (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo ysgol wirfoddol a reolir neu ysgol sefydledig sydd â chymeriad crefyddol yn newid categori i ddod yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir sydd â chymeriad crefyddol.
- (2) Mae is-baragraff (3) yn gymwys os bydd, yn union cyn y dyddiad gweithredu, athro neu athrawes yn yr ysgol wirfoddol a reolir neu'r ysgol sefydledig yn mwynhau hawliau a roddwyd gan adran 59(2) i (4) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn rhinwedd adran 60(2) o'r Ddeddf honno.
- (3) Mae'r athro hwnnw neu'r athrawes honno i barhau i fwynhau'r hawliau hynny tra bydd yn gyflogedig fel athro neu athrawes yn yr ysgol wirfoddol a gynorthwyir.

RHAN 3

TROSGLWYDDO TIR

Effaith trosglwyddo

- (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys—
- (a) pan fo tir yn cael ei drosglwyddo a'i freinio mewn corff yn unol â'r Atodlen hon, a
- (b) pan fo'r trosglwyddwr yn mwynhau neu'n ysgwyddo unrhyw hawliau neu rwymedigaethau yn union cyn y dyddiad gweithredu mewn cysylltiad â'r tir hwnnw.
- (2) Caiff yr hawliau neu'r rhwymedigaethau hynny hefyd eu trosglwyddo i'r corff hwnnw, ac yn rhinwedd yr Atodlen hon, eu breinio ynddo.

- 7 Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rhan hon o'r Atodlen hon, mewn perthynas ag ysgol, at dir yn cael ei drosglwyddo i gorff sefydledig a'i freinio ynddo yn gyfeiriad ato'n cael ei drosglwyddo i'r corff hwnnw a'i freinio ynddo at ddibenion yr ysgolion sy'n ffurfio'r grŵp y mae'r corff hwnnw'n gweithredu drosto.
- 5 8 Nid yw trosglwyddo tir o dan yr Atodlen hon yn effeithio ar hawliau'r corff llywodraethu mewn perthynas â'r tir o dan Atodlen 13 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.
- 9 Yn ei gymhwysiad at drosglwyddo o dan yr Atodlen hon, mae Atodlen 10 i Ddeddf Diwygio Addysg 1988 yn cael effaith fel pe bai'r cyfeiriadau sydd ynddi at y dyddiad trosglwyddo yn gyfeiriadau at y dyddiad gweithredu.
- 10

Newid o ysgol gymunedol i ysgol wirfoddol a gynorthwyr

- 10 (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys—
- (a) pan fo'n ofynnol o dan adran 56(2) i weithredu cynigion bod ysgol gymunedol yn dod yn ysgol wirfoddol a gynorthwyr, a
- 15 (b) o'r dyddiad gweithredu ymlaen pan na fydd yr ysgol yn aelod o'r grŵp y mae corff sefydledig yn gweithredu drosto.
- (2) Mae unrhyw dir ar wahân i gaeau chwarae a oedd yn cael ei ddal neu ei ddefnyddio, yn union cyn y dyddiad gweithredu, gan awdurdod lleol at ddibenion yr ysgol gymunedol, ar y dyddiad hwnnw, i'w drosglwyddo i ymddiriedolwyr yr ysgol, ac i'w freinio ynddynt, i'w ddal ganddynt ar ymddiried at ddibenion yr ysgol.
- 20
- 11 (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys—
- (a) pan fo'n ofynnol o dan adran 56(2) i weithredu cynigion bod ysgol gymunedol yn dod yn ysgol wirfoddol a gynorthwyr, a
- 25 (b) o'r dyddiad gweithredu ymlaen pan na fydd yr ysgol yn aelod o'r grŵp y mae corff sefydledig yn gweithredu drosto.
- (2) Mae unrhyw dir ar wahân i gaeau chwarae neu dir sy'n cael ei ddal ar ymddiried, a oedd yn cael ei ddal neu ei ddefnyddio, yn union cyn y dyddiad gweithredu, gan awdurdod lleol at ddibenion yr ysgol gymunedol, ar y dyddiad hwnnw, i'w drosglwyddo i'r corff sefydledig ac i'w freinio ynddo.

30 *Newid o ysgol gymunedol i ysgol wirfoddol a reolir*

- 12 (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys—
- (a) pan fo'n ofynnol o dan adran 56(2) i weithredu cynigion bod ysgol gymunedol yn dod yn ysgol wirfoddol a reolir, a
- 35 (b) o'r dyddiad gweithredu ymlaen pan na fydd yr ysgol yn aelod o'r grŵp y mae corff sefydledig yn gweithredu drosto.
- (2) Mae unrhyw dir ar wahân i gaeau chwarae a oedd yn cael ei ddal neu ei ddefnyddio, yn union cyn y dyddiad gweithredu, gan awdurdod lleol at ddibenion yr ysgol gymunedol, ar y dyddiad hwnnw, i'w drosglwyddo i ymddiriedolwyr yr ysgol, ac i'w freinio ynddynt, i'w ddal ganddynt ar ymddiried at ddibenion yr ysgol.
- 40 13 (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys—

- (a) pan fo'n ofynnol o dan adran 56(2) i weithredu cynigion bod ysgol gymunedol yn dod yn ysgol wirfoddol a reolir, a
- (b) o'r dyddiad gweithredu ymlaen pan fydd yr ysgol yn aelod o'r grŵp y mae corff sefydledig yn gweithredu drosto.

5 (2) Mae unrhyw dir ar wahân i gaeau chwarae neu dir sy'n cael ei ddal ar ymddiried, a oedd yn cael ei ddal neu ei ddefnyddio, yn union cyn y dyddiad gweithredu, gan awdurdod lleol at ddibenion yr ysgol gymunedol, ar y dyddiad hwnnw, i'w drosglwyddo i'r corff sefydledig ac i'w freinio ynddo.

Newid o ysgol sefydledig i ysgol gymunedol

10 14 (1) Mae is-baragraffau (2) a (3) yn gymwys pan fo'n ofynnol o dan adran 56(2) i weithredu cynigion bod ysgol sefydledig nad yw'n aelod o'r grŵp y mae corff sefydledig yn gweithredu drosto yn dod yn ysgol gymunedol.

15 (2) Mae unrhyw dir wedi ei gyllido'n gyhoeddus, a oedd yn union cyn y dyddiad gweithredu, yn cael ei ddal gan ymddiriedolwyr yr ysgol neu'r corff llywodraethu at ddibenion yr ysgol, ar y dyddiad hwnnw, i'w drosglwyddo i'r awdurdod lleol ac i'w freinio ynddo.

(3) Mae unrhyw dir arall, a oedd yn union cyn y dyddiad hwnnw, yn cael ei ddal gan ymddiriedolwyr yr ysgol neu'r corff llywodraethu at ddibenion yr ysgol, i'w drosglwyddo i'r awdurdod lleol, ac i'w freinio ynddo, yn unol â chytundeb trosglwyddo.

20 15 (1) Mae is-baragraffau (2) a (3) yn gymwys pan fo'n ofynnol o dan adran 56(2) i weithredu cynigion bod ysgol sefydledig sy'n aelod o'r grŵp y mae corff sefydledig yn gweithredu drosto yn dod yn ysgol gymunedol.

25 (2) Mae unrhyw dir wedi ei gyllido'n gyhoeddus, a oedd yn union cyn y dyddiad gweithredu, yn cael ei ddal gan y corff sefydledig at ddibenion yr ysgolion yn y grŵp ac yn cael ei ddefnyddio at ddibenion yr ysgol sefydledig, ar y dyddiad hwnnw, i'w drosglwyddo i'r awdurdod lleol ac i'w freinio ynddo.

30 (3) Mae unrhyw dir arall, a oedd yn union cyn y dyddiad hwnnw, yn cael ei ddal gan y corff sefydledig at ddibenion yr ysgolion yn y grŵp ac yn cael ei ddefnyddio at ddibenion yr ysgol sefydledig i'w drosglwyddo i'r awdurdod lleol, ac i'w freinio ynddo, yn unol â chytundeb trosglwyddo.

Newid o ysgol sefydledig i ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol wirfoddol a reolir

16 (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys –

35 (a) pan fo'n ofynnol o dan adran 56(2) i weithredu cynigion bod ysgol sefydledig nad yw'n aelod o'r grŵp y mae corff sefydledig yn gweithredu drosto yn dod yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu'n ysgol wirfoddol a reolir, a

(b) o'r dyddiad gweithredu ymlaen pan na fydd yr ysgol yn aelod o'r grŵp.

40 (2) Mae unrhyw dir, ar wahân i dir sy'n cael ei ddal ar ymddiried, a oedd, yn union cyn y dyddiad gweithredu, yn cael ei ddal gan y corff llywodraethu at ddibenion yr ysgol sefydledig, ar y dyddiad hwnnw i'w drosglwyddo i ymddiriedolwyr yr ysgol, ac i'w freinio ynddynt, i'w ddal ganddynt ar ymddiried at ddibenion yr ysgol.

17 (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys –

- (a) pan fo'n ofynnol o dan adran 56(2) i weithredu cynigion bod ysgol sefydledig nad yw'n aelod o'r grŵp y mae corff sefydledig yn gweithredu drosto yn dod yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu'n ysgol wirfoddol a reolir, a
- (b) o'r dyddiad gweithredu ymlaen pan fydd yr ysgol yn aelod o'r grŵp.
- 5 (2) Mae unrhyw dir, ar wahân i dir sy'n cael ei ddal ar ymddiried, a oedd, yn union cyn y dyddiad gweithredu, yn cael ei ddal gan y corff llywodraethu at ddibenion yr ysgol sefydledig, ar y dyddiad hwnnw i'w drosglwyddo i'r corff sefydledig, ac i'w freinio ynddo.
- 18 (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys –
- 10 (a) pan fo'n ofynnol o dan adran 56(2) i weithredu cynigion bod ysgol sefydledig sy'n aelod o'r grŵp y mae corff sefydledig yn gweithredu drosto yn dod yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu'n ysgol wirfoddol a reolir, a
- (b) o'r dyddiad gweithredu ymlaen pan na fydd yr ysgol yn aelod o'r grŵp.
- (2) Mae unrhyw dir, a oedd yn union cyn y dyddiad gweithredu, yn cael ei ddal gan y corff sefydledig at ddibenion yr ysgolion yn y grŵp ac yn cael ei ddefnyddio at ddibenion yr ysgol sefydledig, ar y dyddiad hwnnw, i'w drosglwyddo i ymddiriedolwyr yr ysgol ac i'w freinio ynddynt, i'w ddal ganddynt ar ymddiried at ddibenion yr ysgol.
- 15

Newid o ysgol wirfoddol a gynorthwyir i ysgol gymunedol

- 19 (1) Mae is-baragraffau (2) a (3) yn gymwys pan fo'n ofynnol o dan adran 56(2) i weithredu cynigion bod ysgol wirfoddol a gynorthwyir nad yw'n aelod o'r grŵp y mae corff sefydledig yn gweithredu drosto yn dod yn ysgol gymunedol.
- 20
- (2) Mae unrhyw dir wedi ei gyllido'n gyhoeddus, a oedd yn union cyn y dyddiad gweithredu, yn cael ei ddal gan ymddiriedolwyr yr ysgol neu'r corff llywodraethu at ddibenion yr ysgol, ar y dyddiad hwnnw, i'w drosglwyddo i'r awdurdod lleol ac i'w freinio ynddo.
- 25
- (3) Mae unrhyw dir arall, a oedd yn union cyn y dyddiad hwnnw, yn cael ei ddal gan ymddiriedolwyr yr ysgol neu'r corff llywodraethu at ddibenion yr ysgol, i'w drosglwyddo i'r awdurdod lleol, ac i'w freinio ynddo, yn unol â chytundeb trosglwyddo.
- 20 (1) Mae is-baragraffau (2) a (3) yn gymwys pan fo'n ofynnol o dan adran 56(2) i weithredu cynigion bod ysgol wirfoddol a gynorthwyir sy'n aelod o'r grŵp y mae corff sefydledig yn gweithredu drosto yn dod yn ysgol gymunedol.
- 30
- (2) Mae unrhyw dir wedi ei gyllido'n gyhoeddus, a oedd yn union cyn y dyddiad gweithredu, yn cael ei ddal gan y corff sefydledig at ddibenion yr ysgolion yn y grŵp ac yn cael ei ddefnyddio at ddibenion yr ysgol wirfoddol a gynorthwyir, ar y dyddiad hwnnw, i'w drosglwyddo i'r awdurdod lleol ac i'w freinio ynddo.
- 35
- (3) Mae unrhyw dir arall, a oedd yn union cyn y dyddiad hwnnw, yn cael ei ddal gan y corff sefydledig at ddibenion yr ysgolion yn y grŵp ac yn cael ei ddefnyddio at ddibenion yr ysgol wirfoddol a gynorthwyir i'w drosglwyddo i'r awdurdod lleol, ac i'w freinio ynddo, yn unol â chytundeb trosglwyddo.

Newid o ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol wirfoddol a reolir i ysgol wirfoddol a reolir neu ysgol wirfoddol a gynorthwyir

21 (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys –

5 (a) pan fo'n ofynnol o dan adran 56(2) i weithredu cynigion bod ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol wirfoddol a reolir nad yw'n aelod o'r grŵp y mae corff sefydledig yn gweithredu drosto yn dod yn ysgol wirfoddol a reolir neu'n ysgol wirfoddol a gynorthwyir, a

(b) o'r dyddiad gweithredu ymlaen pan fydd yr ysgol yn aelod o'r grŵp.

10 (2) Mae unrhyw dir, ar wahân i dir sy'n cael ei ddal ar ymddiried, a oedd, yn union cyn y dyddiad gweithredu, yn cael ei ddal gan y corff llywodraethu at ddibenion yr ysgol, ar y dyddiad hwnnw i'w drosglwyddo i'r corff sefydledig, ac i'w freinio ynddo.

22 (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys –

15 (a) pan fo'n ofynnol o dan adran 56(2) i weithredu cynigion bod ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol wirfoddol a reolir sy'n aelod o'r grŵp y mae corff sefydledig yn gweithredu drosto yn dod yn ysgol wirfoddol a reolir neu'n ysgol wirfoddol a gynorthwyir, a

(b) o'r dyddiad gweithredu ymlaen pan na fydd yr ysgol yn aelod o'r grŵp.

20 (2) Mae unrhyw dir, a oedd yn union cyn y dyddiad gweithredu, yn cael ei ddal gan y corff sefydledig at ddibenion yr ysgolion yn y grŵp ac yn cael ei ddefnyddio at ddibenion yr ysgol, ar y dyddiad hwnnw, i'w drosglwyddo i ymddiriedolwyr yr ysgol ac i'w freinio ynddynt, i'w ddal ganddynt ar ymddiried at ddibenion yr ysgol.

Newid o ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol wirfoddol a reolir i ysgol wirfoddol a reolir neu ysgol wirfoddol a gynorthwyir

23 (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys –

25 (a) pan fo'n ofynnol o dan adran 56(2) i weithredu cynigion bod ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol wirfoddol a reolir sy'n aelod o'r grŵp y mae corff sefydledig yn gweithredu drosto yn dod yn ysgol wirfoddol a reolir neu'n ysgol wirfoddol a gynorthwyir, a

30 (b) o'r dyddiad gweithredu ymlaen pan fydd yr ysgol yn aelod o'r grŵp y mae corff sefydledig arall yn gweithredu drosto.

(2) Mae unrhyw dir, a oedd yn union cyn y dyddiad gweithredu, yn cael ei ddal gan y corff sefydledig a grybwyllir yn is-baragraff (1)(a) at ddibenion yr ysgolion yn y grŵp ac yn cael ei ddefnyddio at ddibenion yr ysgol, ar y dyddiad hwnnw, i'w drosglwyddo i'r corff sefydledig a grybwyllir yn is-baragraff (1)(b), ac i'w freinio ynddo.

35 *Newid o ysgol wirfoddol a reolir i ysgol gymunedol*

24 (1) Mae is-baragraffau (2) a (3) yn gymwys pan fo'n ofynnol o dan adran 56(2) i weithredu cynigion bod ysgol wirfoddol a reolir nad yw'n aelod o'r grŵp y mae corff sefydledig yn gweithredu drosto yn dod yn ysgol gymunedol.

- (2) Mae unrhyw dir wedi ei gyllido'n gyhoeddus, a oedd yn union cyn y dyddiad gweithredu, yn cael ei ddal gan ymddiriedolwyr yr ysgol neu'r corff llywodraethu at ddibenion yr ysgol, ar y dyddiad hwnnw, i'w drosglwyddo i'r awdurdod lleol ac i'w freinio ynddo.
- 5 (3) Mae unrhyw dir arall, a oedd yn union cyn y dyddiad hwnnw, yn cael ei ddal gan ymddiriedolwyr yr ysgol neu'r corff llywodraethu at ddibenion yr ysgol, i'w drosglwyddo i'r awdurdod lleol ac i'w freinio ynddo yn unol â chytundeb trosglwyddo.
- 25 (1) Mae is-baragraffau (2) a (3) yn gymwys pan fo'n ofynnol o dan adran 56(2) i weithredu cynigion bod ysgol wirfoddol a reolir sy'n aelod o'r grŵp y mae corff sefydledig yn gweithredu drosto yn dod yn ysgol gymunedol.
- 10 (2) Mae unrhyw dir wedi ei gyllido'n gyhoeddus, a oedd yn union cyn y dyddiad gweithredu, yn cael ei ddal gan y corff sefydledig at ddibenion yr ysgol yn y grŵp ac yn cael ei ddefnyddio at ddibenion ysgol wirfoddol a reolir, ar y dyddiad hwnnw, i'w drosglwyddo i'r awdurdod lleol ac i'w freinio ynddo.
- 15 (3) Mae unrhyw dir arall, a oedd yn union cyn y dyddiad hwnnw, yn cael ei ddal gan y corff sefydledig at ddibenion yr ysgolion yn y grŵp ac yn cael ei ddefnyddio at ddibenion yr ysgol wirfoddol a reolir i'w drosglwyddo i'r awdurdod lleol, ac i'w freinio ynddo, yn unol â chytundeb trosglwyddo.

Newid o ysgol arbennig gymunedol i ysgol arbennig sefydledig

- 20 26 (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys pan fo'n ofynnol o dan adran 56(2) i weithredu cynigion bod ysgol arbennig gymunedol yn dod yn ysgol arbennig sefydledig.
- (2) Mae unrhyw dir, a oedd yn union cyn y dyddiad gweithredu, yn cael ei ddal neu ei ddefnyddio gan awdurdod lleol at ddibenion yr ysgol arbennig gymunedol, ar y dyddiad hwnnw, i'w drosglwyddo i'r canlynol ac i'w freinio ynddynt fel a ganlyn—
- 25 (a) ymddiriedolwyr yr ysgol, i'w ddal ganddynt ar ymddiried at ddibenion yr ysgol, neu
- (b) os nad oes ymddiriedolwyr gan yr ysgol, y corff llywodraethu.

Newid o ysgol arbennig sefydledig i ysgol arbennig gymunedol

- 27 (1) Mae is-baragraffau (2) a (3) yn gymwys pan fo'n ofynnol o dan adran 56(2) i weithredu cynigion bod ysgol arbennig sefydledig yn dod yn ysgol arbennig gymunedol.
- 30 (2) Mae unrhyw dir wedi ei gyllido'n gyhoeddus a oedd, yn union cyn y dyddiad gweithredu, yn cael ei ddal gan ymddiriedolwyr yr ysgol neu'r corff llywodraethu at ddibenion yr ysgol arbennig sefydledig, i'w drosglwyddo i'r awdurdod lleol ac i'w freinio ynddo.
- 35 (3) Mae unrhyw dir arall, a oedd yn union cyn y dyddiad hwnnw, yn cael ei ddal gan ymddiriedolwyr yr ysgol neu'r corff llywodraethu at ddibenion yr ysgol arbennig sefydledig i'w drosglwyddo i'r awdurdod lleol, ac i'w freinio ynddo, yn unol â chytundeb trosglwyddo.

Trosglwyddiadau heb eu cwblhau

- 28 (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys, yn union cyn y dyddiad gweithredu, mewn perthynas ag unrhyw newid categori sy'n digwydd mewn cysylltiad ag ysgol –
- 5 (a) pan fo'n ofynnol yn rhinwedd unrhyw ddarpariaeth statudol i drosglwyddo unrhyw dir a freiniwyd mewn awdurdod lleol i gorff llywodraethu neu i unrhyw ymddiriedolwyr yr ysgol, ond
- (b) pan nad yw'r tir hyd yn hyn wedi ei drosglwyddo felly.
- (2) Mae paragraffau 10 i 27 o'r Atodlen hon yn gymwys i'r ysgol fel pe bai'r tir wedi cael ei drosglwyddo felly erbyn yr adeg honno.

10 *Trosglwyddo hawl i ddefnyddio tir*

- 29 (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys –
- 15 (a) os yw paragraff 10, 11, 12, 13 neu 26 yn gymwys i ysgol,
- (b) os oedd unrhyw dir a oedd yn cael ei ddal gan berson neu gorff ar wahân i awdurdod lleol, yn union cyn y dyddiad gweithredu, yn cael ei ddefnyddio at ddibenion yr ysgol, a
- (c) os oedd yr awdurdod lleol yn mwynhau neu'n ysgwyddo unrhyw hawliau neu rwymedigaethau yn union cyn y dyddiad gweithredu mewn cysylltiad â defnydd o'r tir.
- (2) Mae'r hawliau a'r rhwymedigaethau hynny, ar y dyddiad gweithredu, i'w trosglwyddo i ymddiriedolwyr yr ysgol, ac i'w freinio ynddynt, ac os nad oes ymddiriedolwyr, y corff llywodraethu.

- 30 (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys –
- 25 (a) os yw paragraff 14, 15, 19, 20, 24, 25 neu 27 yn gymwys i ysgol,
- (b) os oedd unrhyw dir a oedd yn cael ei ddal gan berson neu gorff ar wahân i gorff llywodraethu'r ysgol, yn union cyn y dyddiad gweithredu, yn cael ei ddefnyddio at ddibenion yr ysgol, a
- (c) os oedd y corff llywodraethu yn mwynhau neu'n ysgwyddo unrhyw hawliau neu rwymedigaethau yn union cyn y dyddiad gweithredu mewn cysylltiad â'r defnydd o'r tir.
- (2) Mae'r hawliau a'r rhwymedigaethau hynny, ar y dyddiad gweithredu, i'w trosglwyddo i'r awdurdod lleol ac i'w breinio ynddo.

- 31 (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys –
- 35 (a) os yw paragraff 14, 15, 19, 20, 24, 25 neu 27 yn gymwys i ysgol,
- (b) os oedd unrhyw dir a oedd yn cael ei ddal gan berson neu gorff ar wahân i unrhyw ymddiriedolwyr neu gorff sefydledig, yn union cyn y dyddiad gweithredu, yn cael ei ddefnyddio at ddibenion yr ysgol, a
- (c) os oedd yr ymddiriedolwyr neu'r corff sefydledig yn mwynhau neu'n ysgwyddo unrhyw hawliau neu rwymedigaethau yn union cyn y dyddiad gweithredu mewn cysylltiad â defnydd o'r tir.

(2) Mae'r hawliau a'r rhwymedigaethau hynny, ar y dyddiad gweithredu, i'w trosglwyddo i'r awdurdod lleol ac i'w breinio ynddo yn unol â chytundeb trosglwyddo hawliau a rhwymedigaethau.

(3) Ystyr "cytundeb trosglwyddo hawliau a rhwymedigaethau" yw cytundeb—

(a) a wnaed at ddibenion is-baragraff (2) rhwng yr awdurdod lleol a'r ymddiriedolwyr neu'r corff sefydledig, a

(b) sy'n darparu i'r hawliau neu'r rhwymedigaethau o dan sylw gael eu trosglwyddo i'r awdurdod a chael eu breinio ynddo ar y dyddiad gweithredu, p'un a ydyw mewn cydnabyddiaeth o daliad ai peidio gan yr awdurdod o swm y cytunir arno rhwng y partion.

Eithrio rhag trosglwyddo

32 Nid oes dim ym mharagraffau 10 i 27 yn cael yr effaith o drosglwyddo i unrhyw gorff neu freinio ynddo—

(a) unrhyw dir, hawliau neu rwymedigaethau a eithrir o dan baragraff 33 neu 34,

(b) unrhyw hawliau neu rwymedigaethau o dan gontract cyflogaeth,

(c) unrhyw rwymedigaeth gan awdurdod lleol, corff llywodraethu neu ymddiriedolwyr mewn cysylltiad â phrifswm unrhyw fenthyciad neu logau arno, neu

(d) unrhyw rwymedigaeth mewn cyfraith camwedd.

33 (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys os ceir y canlynol cyn y dyddiad gweithredu mewn perthynas ag unrhyw newid categori—

(a) bod y trosglwyddai a'r trosglwyddwr arfaethedig wedi cytuno'n ysgrifenedig y dylid eithrio unrhyw dir rhag gweithrediad paragraffau 10 i 27, a

(b) bod Gweinidogion Cymru wedi rhoi eu cymeradwyaeth ysgrifenedig i'r cytundeb.

(2) Mae'r tir (ac unrhyw hawliau neu rwymedigaethau sy'n ymwneud ag ef) i'w eithrio felly.

34 (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys yn absenoldeb cytundeb o dan baragraff 33—

(a) os yw'r trosglwyddai a'r trosglwyddwr arfaethedig wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru i eithrio unrhyw dir rhag gweithrediad paragraffau 10 i 27, a

(b) os yw Gweinidogion Cymru drwy orchymyn wedi rhoi cyfarwyddyd i'w eithrio.

(2) Mae'r tir (ac unrhyw hawliau neu rwymedigaethau sy'n ymwneud ag ef) i'w eithrio felly.

35 (1) Caiff cytundeb o dan baragraff 33 ddarparu bod y tir yn cael ei ddefnyddio neu ei ddal at ddibenion yr ysgol ar y cyfryw delerau ag a bennir neu a ddyfernir yn unol â'r cytundeb.

(2) O ran cyfarwyddiadau o dan baragraff 34—

(a) cânt roi unrhyw hawliau neu osod unrhyw rwymedigaethau y gellid bod wedi eu rhoi neu eu gosod drwy gytundeb o dan baragraff 33, a

(b) maent yn cael effaith fel pe baent wedi eu cynnwys mewn cytundeb o'r fath.

36 Ym mharagraffau 33 a 34—

ystyr “y trosglwyddai arfaethedig” (“*the prospective transferee*”), mewn perthynas ag unrhyw dir, yw’r corff (ar wahân i baragraffau 33 a 34) y byddai’r tir yn cael ei drosglwyddo iddo o dan baragraffau 10 i 27; a

mae “y trosglwyddwr arfaethedig” (“*the prospective transferor*”) i’w ddehongli yn unol â hynny.

Cyfyngiadau ar waredu neu ddefnyddio tir

- 37 (1) At ddibenion paragraffau 38 a 39 mae’r weithdrefn i ddod yn ysgol mewn categori arall heb ei chwblhau mewn perthynas ag ysgol pan fo’r weithdrefn wedi ei dechrau gan y corff llywodraethu mewn perthynas ag ysgol a heb gael ei therfynu.
- 10 (2) Bernir bod y weithdrefn wedi ei dechrau mewn perthynas ag ysgol pan fo’r awdurdod lleol yn cael hysbysiad o gyfarfod y corff llywodraethu y mae cynnig ynddo i ystyried cael penderfyniad i ymgynghori ynghylch cynigion i newid categori.
- (3) Bernir bod y weithdrefn wedi ei therfynu –
- (a) os na chynhelir y cyfarfod,
- 15 (b) os cynhelir y cyfarfod ond na roddir y cynnig gerbron neu, er bod y cynnig wedi ei roi gerbron, nid yw’r penderfyniad yn cael ei basio,
- (c) os na wneir yr ymgynghoriad yn unol ag adran 49,
- (d) os na chaiff y cynigion y gwnaed yr ymgynghoriad mewn cysylltiad â hwy eu cyhoeddi yn unol ag adran 49,
- 20 (e) os caiff y cynigion eu gwrthod gan Weinidogion Cymru o dan adran 52 neu gan y panel penderfynu lleol o dan adran 53 neu os cânt eu tynnu’n ôl neu os yw’r corff llywodraethu wedi penderfynu peidio â’u gweithredu o dan adran 55, neu
- (f) ar ddyddiad gweithredu’r cynigion.
- 38 (1) Tra bod y weithdrefn o ddod yn ysgol o gategori arall heb ei chwblhau mewn perthynas ag ysgol, ni chaiff awdurdod lleol, heb gydsyniad Gweinidogion Cymru –
- 25 (a) gwaredu unrhyw dir a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu’n rhannol at ddibenion yr ysgol, neu
- (b) ymrwymo i gontract i waredu tir o’r fath.
- (2) Nid yw is-baragraff (1) yn gymwys mewn perthynas â gwarediad a wneir yn unol â chontract yr ymrwymwyd iddo, neu opsiwn a roddwyd, cyn bod y weithdrefn i ddod yn ysgol o gategori arall wedi ei dechrau mewn perthynas â’r ysgol.
- 30 (3) Mae is-baragraff (4) yn gymwys –
- (a) os caiff cynigion i ddod yn ysgol o gategori arall eu cymeradwyo neu os yw’r corff llywodraethu wedi penderfynu eu gweithredu, a
- 35 (b) os yw’n ofynnol dod i gytundeb o dan baragraff 2(1) o Atodlen 10 i Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (dynodi eiddo, etc.) ar unrhyw fater sy’n ymwneud ag unrhyw dir sydd i’w drosglwyddo.
- (4) Nid yw’r weithdrefn i ddod yn ysgol o gategori arall i’w thrin fel un a derfynwyd at ddibenion y paragraff hwn mewn perthynas â’r tir hwnnw tan y dyddiad y caiff y mater ei benderfynu’n derfynol.
- 40

- 5 (5) Nid yw gwarediad neu gontract yn annilys neu'n ddi-rym am yr unig reswm iddo gael ei wneud neu yr ymrwymwyd iddo yn groes i'r paragraff hwn ac nid yw person sy'n caffael tir, neu'n ymrwymo i gontract i gaffael tir, oddi wrth awdurdod lleol i ymboeni a ddylid gwneud ymholiadau a gafodd unrhyw gydsyniad sy'n ofynnol gan y paragraff hwn ei roi.
- 10 (6) Mae'r paragraff hwn yn cael effaith er gwaethaf unrhyw beth yn adran 123 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (pŵer cyffredinol i waredu tir) neu mewn unrhyw ddeddfiad arall; ac mae'r cydsyniad sy'n ofynnol gan y paragraff hwn yn ychwanegol at unrhyw gydsyniad sy'n ofynnol gan is-adran (2) o'r adran honno neu gan unrhyw ddeddfiad arall.
- 15 (7) Yn y paragraff hwn—
- (a) mae cyfeiriadau at waredu tir yn cynnwys rhoi neu waredu unrhyw fuddiant yn y tir, a
- (b) mae cyfeiriadau at ymrwymo i gontract i waredu tir yn cynnwys rhoi opsiwn i gaffael tir neu fuddiant o'r fath.
- 39 (1) Tra bod y weithdrefn ar gyfer dod yn ysgol o gategori arall heb ei chwblhau mewn perthynas ag ysgol, ni chaiff awdurdod lleol, heb gydsyniad Gweinidogion Cymru, gymryd unrhyw gamau mewn perthynas ag unrhyw dir yr awdurdod sy'n cael ei ddefnyddio neu ei ddal at ddibenion yr ysgol sy'n peri bod y tir i unrhyw raddau yn peidio â chael ei ddefnyddio neu ei ddal felly.
- 20 (2) Mae is-baragraff (3) yn gymwys yn achos unrhyw ysgol—
- (a) os yw cynigion bod ysgol yn dod yn ysgol o gategori arall yn cael eu cymeradwyo neu os yw'r corff llywodraethu yn penderfynu eu gweithredu, a
- 25 (b) os yw awdurdod lleol, mewn perthynas ag unrhyw dir, wedi cymryd camau yn groes i is-baragraff (1).
- (3) Mae'r darpariaethau ynghylch trosglwyddo eiddo yn cael effaith fel pe bai'r eiddo, yn union cyn y dyddiad gweithredu, wedi cael ei ddefnyddio neu ei ddal gan yr awdurdod at y dibenion y cafodd ei ddefnyddio neu ei ddal pan ddechreuwyd y weithdrefn o ddod yn ysgol o gategori arall.
- 30 (4) Yn y paragraff hwn—
- (a) ystyr "y darpariaethau ynghylch trosglwyddo eiddo" yw darpariaethau'r Atodlen hon ac adran 198 of Ddeddf Diwygio Addysg 1988 ac Atodlen 10 iddi, a
- (b) mae'r cyfeiriadau at gymryd camau yn cynnwys perchnogi eiddo at unrhyw ddiben.

35

RHAN 4

ATODOL

Llywodraethu ysgol

- 40 (1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth mewn cysylltiad â gweithredu cynigion i newid categori ysgol o ran llywodraethu'r ysgol.
- 40 (2) Caiff y rheoliadau hynny (ymysg pethau eraill) wneud darpariaeth—

- 5
- (a) ynghylch adolygu a disodli offeryn llywodraethu'r ysgol,
 - (b) ynghylch ailgyfansoddi ei chorff llywodraethu,
 - (c) sy'n cymhwyso, gydag addasiadau neu hebddynt, darpariaeth a wnaed gan neu o dan Bennod 1 o Ran 3 o Ddeddf Addysg 2002 (llywodraethu ysgolion a gynhelir),
a
 - (d) ynghylch materion trosiannol.

Darpariaethau trosiannol - derbyniadau

- 10
- 41 (1) Pan fo ysgol gymunedol neu ysgol wirfoddol a reolir yn dod yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir mae unrhyw beth a wnaed cyn y dyddiad gweithredu gan yr awdurdod lleol fel awdurdod derbyn o dan unrhyw ddarpariaeth ym Mhennod 1 o Ran 3 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (trefniadau derbyn) yn cael effaith, o'r dyddiad gweithredu ymlaen, fel pe bai wedi ei wneud gan y corff llywodraethu.
- 15 (2) Pan fo ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol a gynorthwyir yn dod yn ysgol gymunedol neu'n ysgol wirfoddol a reolir mae unrhyw beth a wnaed cyn y dyddiad gweithredu gan y corff llywodraethu fel awdurdod derbyn o dan unrhyw ddarpariaeth ym Mhennod 1 o Ran 3 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn cael effaith, o'r dyddiad gweithredu ymlaen, fel pe bai wedi ei wneud gan yr awdurdod lleol.

ATODLEN 6
(Cyflwynwyd gan adran 100)

MÂN DDIWYGIADAU A DIWYGIADAU CANLYNIADOL

RHAN 1

5 DIWYGIADAU SY'N YMWNEUD Â RHAN 2 (SAFONAU)

Deddf Diwygio Addysg 1988

- 1 (1) Mae adran 219 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (pwerau Gweinidogion Cymru a'r
Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â sefydliadau addysgol penodol) wedi ei
diwygio fel a ganlyn.
- 10 (2) Yn is-adran (3) ar ôl "institution" mewnosoder "in England".
- (3) Ar ôl is-adran (3) mewnosoder –
- “(3A) Chapter 1 of Part 2 of the School Standards and Organisation (Wales)
Act 2013 (“the 2013 Act”) (intervention in conduct of maintained
schools) has effect in relation to an institution in Wales to which this
15 section applies as if –
- (a) a reference to the governing body of a maintained school
included a reference to the governing body of an institution to
which this section applies;
- (b) the only relevant grounds for intervention were grounds 5 and
20 6 in section 2 of the 2013 Act; and
- (c) sections 3 to 9 and 12 to 16 of the 2013 Act did not apply.”

Deddf Addysg 1996

- 2 (1) Mae Deddf Addysg 1996 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn adran 409(4) (cwynion a gorfodi: ysgolion a gynhelir yng Nghymru) yn lle'r geiriau o
25 "section 496" i "duties)" rhodder "Chapter 1 or 2 of Part 2 of the School Standards and
Organisation (Wales) Act 2013 (intervention in conduct of maintained schools and local
authorities)".
- (3) Yn adran 484(7) (grantiau safonau addysg) yn lle "sections 495 to 497" rhodder "section
495 or in Chapter 2 of Part 2 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013".
- 30 (4) Yn adran 496(2) (y pŵer i atal arfer afresymol o swyddogaethau) –
- (a) ym mharagraff (a), ar ôl "local authority" mewnosoder "in England";
- (b) ym mharagraff (b) ar ôl "school" ym mhob man yr ymddengys mewnosoder "in
England".
- (5) Yn adran 497(2) (pwerau diofyn cyffredinol am fethu â chyflawni dyletswydd) –
- 35 (a) ym mharagraff (a), ar ôl "local authority" mewnosoder "in England";
- (b) ym mharagraff (b), ar ôl "school" ym mhob man yr ymddengys mewnosoder "in
England".

- (6) Yn adran 497A(1) (y pŵer i sicrhau cyflawni swyddogaethau'n briodol) yn lle "a local authority's education functions" rhodder "the education functions of a local authority in England".
- (7) Yn adran 560(6) (profiad gwaith ym mlwyddyn olaf addysg orfodol mewn ysgol) ar ôl "or 496" mewnosoder "or Chapter 2 of Part 2 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013".
- (8) Ym mharagraff 6(4) o Atodlen 1 (unedau cyfeirio disgyblion) yn lle'r geiriau o "section 496" i "powers" rhodder "Chapter 2 of Part 2 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (intervention in local authorities)".

10 *Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998*

- 3 Yn adran 19 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (gofyniad i ddilyn cyfnod ymsefydlu) yn lle is-adran (12) rhodder—

15 "(12) Chapter 1 of Part 2 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 ("the 2013 Act") (intervention in conduct of maintained schools) has effect in relation to duties imposed and powers conferred by virtue of this section as if—

- (a) references to functions under the Education Acts included duties imposed and powers conferred by virtue of this section;
- (b) references to the governing body of a maintained school included—
- 20 (i) the governing body of a special school not maintained by a local authority,
- (ii) the governing body (within the meaning given by section 90(1) of the Further and Higher Education Act 1992) of a further education institution, and
- 25 (iii) an appropriate body for the purposes of subsection (2);
- (c) the only relevant grounds for intervention were grounds 5 and 6 in section 2 of the 2013 Act; and
- (d) sections 3 to 9 and 12 to 16 of that Act did not apply.

30 (13) Chapter 2 of Part 2 of the 2013 Act (intervention in local authorities) has effect in relation to duties imposed and powers conferred by virtue of this section as if references to education functions included duties imposed and powers conferred on a local authority by virtue of this section."

35 *Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998*

- 4 (1) Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Mae Pennod 4 o Ran 1 (ymyrryd mewn ysgolion yng Nghymru sy'n peri pryder) wedi ei diddymu.
- (3) Yn adran 51A (gwariant a wnaed at ddibenion cymunedol)—
- 40 (a) hepgorer "section 17 or";

(b) ar ôl “15” mewnosoder “or section 8 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013”.

(4) Yn adran 62 (pŵer wrth gefn i atal methiant mewn disgyblaeth) –

(a) yn is-adran (1) –

(i) ar ôl “local authority” mewnosoder “in England”;

(ii) hepgorer “or (3)”;

(b) hepgorer is-adran (3).

(5) Yn adran 89C(2) (darpariaeth bellach ynghylch cynlluniau i gydgyssylltu trefniadau derbyn) yn lle “, sections 496” i’r diwedd rhodder –

“(a) Chapter 1 of Part 2 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (“the 2013 Act”) (intervention in conduct of maintained schools) is to apply as if any obligations imposed on a governing body under the scheme were duties imposed by the Education Acts.

(b) Chapter 2 of Part 2 of the 2013 Act (intervention in local authorities) is to apply as if any obligation imposed on a local authority were an education function.”

(6) Yn adran 142(4)(b) (dehongli cyffredinol) hepgorer “of section 16(6) or (8)”.

(7) Yn adran 143 (mynegai) yn y cofnod ar gyfer “maintained school”, hepgorer y cofnod sy’n dechrau “(in Chapter 4 of Part 1)”.

(8) Hepgorer Atodlen 1A (cyrff llywodraethu a ffurfiwyd o aelodau gweithrediaeth interim).

(9) Yn Atodlen 22 (gwaredu tir), ym mharagraff 5(1)(b)(i) yn lle “section 19(1)” rhodder “section 16 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013”.

Deddf Llywodraeth Leol 2000

(1) Mae Atodlen 1 i Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (trefniadau gweithrediaeth yng Nghymru) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle paragraff 10 rhodder –

“10 Chapter 2 of Part 2 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (intervention in local authorities) applies to the performance of any duty imposed on a local authority by virtue of paragraph 8 or 9 as it applies to the performance by a local authority of a duty that is an education function but as if –

(a) the only relevant grounds for intervention were grounds 1 and 2 in section 21 of that Act; and

(b) sections 24 to 27 of that Act did not apply.”

(3) Ym mharagraff 11A yn lle “9” rhodder “10”.

Deddf Addysg 2002

(1) Mae Deddf Addysg 2002 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

- (2) Yn adran 34(7) (trefniadau ar gyfer llywodraethu ysgolion newydd) ar ôl "State)" mewnosoder "and Chapter 1 of Part 2 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (intervention in conduct of maintained schools in Wales)".
- (3) Yn adran 35(7) (staffio ysgolion cymunedol, ysgolion gwirfoddol a reolir, ysgolion arbennig cymunedol ac ysgolion meithrin a gynhelir) –
- (a) hepgorer "section 17 of, or";
- (b) ar ôl "2006" mewnosoder "or section 8 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013".
- (4) Yn adran 36(7) (staffio ysgolion sefydledig, ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion arbennig sefydledig) –
- (a) hepgorer "section 17 of, or";
- (b) ar ôl "2006" mewnosoder "or section 8 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013".
- (5) Yn adran 37(11) (taliadau mewn cysylltiad â diswyddo, etc) –
- (a) hepgorer "section 17 of, or";
- (b) ar ôl "1998 (c 31)" mewnosoder "or section 8 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013".
- (6) Hefgorer adrannau 55 i 59 ac adran 63 (pwerau ymyrryd).
- (7) Yn adran 64 (darpariaethau sy'n atodol i bwerau i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gael gwasanaethau cynghori) –
- (a) yn is-adran (1) –
- (i) hepgorer "or 63",
- (ii) hepgorer "or the National Assembly for Wales",
- (iii) hepgorer "or it",
- (iv) hepgorer "or the Assembly" (yn y ddau le);
- (b) i yn is-adran (2) hepgorer "or 63";
- (c) yn is-adran (7) hepgorer "or 63" ac "or 63(2)".
- (8) Hefgorer Atodlenni 5 a 6 (diwygiadau mewn perthynas ag ysgolion sy'n peri pryder a chyrrff llywodraethu a ffurfiwyd o aelodau gweithrediaeth interim).
- (9) Yn Atodlen 21 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol) hepgorer paragraffau 92 i 94 a 103.
- (10) Gweler hefyd y diwygiad a wnaed gan baragraff 20(6) o'r Atodlen hon i baragraff 5(2)(b) (iii) o Atodlen 1 (sy'n rhannol o ganlyniad i Ran 2 o'r Ddeddf hon).

Deddf Plant 2004

- (1) Mae Deddf Plant 2004 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn adran 50 (ymyrryd) –
- (a) yn is-adran (1) ar ôl "local authority" mewnosoder "in England";

(b) yn is-adran (2)(c) hepgorer “or under sections 25, 26 and 29 above (in the case of a local authority in Wales)”;

(c) yn y pennawd ar ôl “Intervention” mewnosoder “- England”.

(3) Ar ôl adran 50 mewnosoder—

“50A Intervention – Wales

(1) Chapter 2 of Part 2 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (intervention in local authorities) applies in relation to the functions of a local authority in Wales which are specified in subsection (2) as it applies in relation to a local authority’s education functions but as if the only relevant ground for intervention were ground 3 in section 21 of that Act.

(2) The functions of a local authority are—

(a) functions conferred on or exercisable by the authority which are social services functions, so far as those functions relate to children;

(b) the functions conferred on the authority under sections 23C to 24D of the Children Act 1989 (so far as not falling within paragraph (a)); and

(c) the functions conferred on the authority under sections 25, 26 and 29 above.

(3) In the application of Chapter 2 of Part 2 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 by virtue of this section, section 27 of that Act (power to direct exercise of other education functions) has effect as if the reference to education functions included (for all purposes) the functions of the local authority which are specified in subsection (2).

(4) In this section—

“education functions” has the meaning given by section 579(1) of the Education Act 1996;

“social services functions” has the same meaning as in the Local Authority Social Services Act 1970.”

Deddf Addysg 2005

(1) Mae Deddf Addysg 2005 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer adran 45 (y pŵer i gyfarwyddo bod ysgol yn cael ei chau).

(3) Yn adran 114(8) (cyflenwi gwybodaeth am weithlu ysgol)—

(a) hepgorer “and” ar ddiwedd paragraff (a);

(b) ym mharagraff (b) ar y dechrau mewnosoder “in relation to England,”;

(c) ar ôl paragraff (b) mewnosoder—

“and

(c) in relation to Wales, provide that Chapter 2 of Part 2 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (intervention in local authorities) is to have effect as if—

(i) references to a local authority included a reference to a prescribed person,

(ii) duties imposed by virtue of this section were education functions,

(iii) the only relevant ground for intervention were ground 1 in section 21, and

(iv) sections 24 to 27 did not apply.”

(4) Yn Atodlen 9 (diwygiadau mewn perthynas ag arolygu ysgol) hepgorer paragraffau 14 i 20.

(5) Gweler hefyd y diwygiad a wnaed gan baragraff 21(2)(b) o'r Atodlen hon i adran 28(4)(c) o Ddeddf Addysg 2005 (sy'n rhannol o ganlyniad i Ran 2 o'r Ddeddf hon).

15 *Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006*

9 (1) Mae Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 7 (diwygiadau mewn perthynas ag ysgolion sy'n peri pryder) hepgorer paragraffau 3 i 14, 16, 17, 18, 19(b), 21.

(3) Yn Atodlen 17 (diwygiadau amrywiol) hepgorer paragraffau 1, 2 a 6.

20 *Deddf Gofal Plant 2006*

10 Yn lle adran 29 o Ddeddf Gofal Plant 2006 (pwerau Gweinidogion Cymru i sicrhau cyflawniad priodol etc) rhodder—

“29 Powers of intervention of Welsh Ministers

(1) Chapter 2 of Part 2 the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (intervention in local authorities) applies in relation to a Welsh local authority and the powers conferred or the duties imposed on it by, under or for the purposes of this Part as it applies in relation to the education functions (as defined by section 579(1) of the Education Act 1996) of such an authority.

(2) In the application of Chapter 2 of Part 2 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 by virtue of this section, section 27 of that Act (power to direct exercise of other education functions) has effect as if the reference to education functions included (for all purposes) functions of a Welsh local authority under this Part.”

35 *Deddf Cydraddoldeb 2010*

11 (1) Mae adran 87 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (cymhwyso pwerau penodol o dan Ddeddf Addysg 1996) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar y dechrau mewnosoder—

“(A1) Subsections (1) and (2) do not apply in the case of a school in Wales.”

(3) Ar ôl is-adran (2) mewnosoder –

“(3) In the case of a school in Wales –

(a) Chapter 1 of Part 2 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (“the 2013 Act”) (intervention in conduct of maintained schools) applies to the performance of a duty under section 85, but as if –

(i) the only relevant grounds for intervention were grounds 5 and 6 in section 2 of that Act, and

(ii) sections 3 to 9 and 12 to 16 of that Act did not apply;

(b) Chapter 2 of Part 2 of the 2013 Act (intervention in local authorities) applies to the performance of a duty under section 85, but as if –

(i) the only relevant grounds for intervention were grounds 1 and 2 in section 21 of that Act, and

(ii) sections 24 to 27 of that Act did not apply.

(4) But neither of Chapters 1 and 2 of Part 2 of the 2013 Act applies to the performance of a duty under section 85 by the proprietor of an independent educational institution (other than a special school).”

20 *Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009*

12 Yn Neddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 hepgorer adran 205 ac Atodlen 14 (pwerau mewn perthynas ag ysgolion sy’n peri pryder).

Mesur Addysg (Cymru) 2011

13 (1) Mae Mesur Addysg (Cymru) 2011 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

25 (2) Hepgorer adran 16 (ffedereiddio ysgolion sy’n peri pryder drwy gyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru).

(3) Yn adran 18(1) (ffederasiynau: darpariaethau atodol) –

(a) yn lle paragraff (a) rhodder –

30 “(a) Pennod 1 o Ran 2 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (ymyrryd ym materion rhedeg ysgolion a gynhelir), neu”; a

(b) ym mharagraff (b) yn lle “o’r Ddeddf honno” rhodder “o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998”.

RHAN 2

DIWYGIADAU SY’N YMWNEUD Â RHAN 3 (TREFNIADAETH YSGOL)

Deddf Diwygio Addysg 1988

14 (1) Mae Deddf Diwygio Addysg 1988 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

5 (2) Yn adran 198 (trosglwyddo o dan Rannau 1 a 2) ar ôl paragraff (c) mewnosoder –

“or

(d) Part 3 of Schedule 5 to the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013;”.

Mesur Byrddau Addysg Esgobaethol 1991

10 15 (1) Mae Mesur Byrddau Addysg Esgobaethol 1991 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 3 (gweithrediadau pan fo cyngor neu gydsyniad y Bwrdd yn ofynnol) –

(a) hepgorer is-adran (1)(a)(ii), (b)(ii) a (d);

(b) yn is-adran (1)(c) yn lle “1998 Act” rhodder “School Standards and Framework Act 1998 (“the 1998 Act”)”.

15 (3) Yn adran 7 (pwerau’r Bwrdd i roi cyfarwyddiadau i gyrff llywodraethu ysgolion eglwysig gwirfoddol a gynorthwyir) –

(a) yn is-adran (1) –

(i) hepgorer paragraffau (a)(ii), (b)(ii) ac (c);

(ii) ym mharagraff (b)(i) yn lle “1998 Act” rhodder “School Standards and Framework Act 1998”;

(b) yn is-adran (1A) hepgorer “or paragraph 2 or 3 of Schedule 8 to the 1998 Act”;

(c) yn is-adran (3) –

(i) ym mharagraff (a) hepgorer “or section 28(2)(b) of the 1998 Act”;

(ii) hepgorer paragraff (b);

(iii) yn y geiriau ar ôl paragraff (b) hepgorer “the 1998 Act and”.

Deddf Addysg Bellach ac Addysg Uwch 1992

16 (1) Mae Deddf Addysg Bellach ac Addysg Uwch 1992 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 58 (ad-drefnu ysgolion sy’n ymwneud â sefydlu corfforaeth addysg bellach) –

(a) yn is-adran (3), yn lle paragraff (b) rhodder –

“(b) a relevant alteration has been made to the school;”;

(b) hepgorer is-adran (4);

(c) ar y diwedd mewnosoder –

“(5) In subsection (3)(b) “relevant alteration” means –

- (a) in the case of a school in England, a prescribed alteration within the meaning of section 18 of the Education and Inspections Act 2006, and
- (b) in the case of a school in Wales, a regulated alteration within the meaning of Chapter 2 of Part 3 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013."

Deddf Addysg 1996

17 (1) Mae Deddf Addysg 1996 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 5(3A)(b) (ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac ysgolion canol) –

10 (a) mae'r geiriau ar ôl "Wales," yn mynd yn is-baragraff (i);

(b) ar ôl "1998" mewnosoder –

“, and

(ii) section 49, 60 or 69 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013”.

15 (3) Yn adran 394 (penderfynu achosion pan nad yw'r gofyniad ar gyfer addoli cynulleidfaol Cristnogol i fod yn gymwys), hepgorer is-adran (9)(b).

(4) Yn adran 529(2) (y pŵer i dderbyn rhoddion ar ymddiried at ddibenion addysgol) –

(a) yn lle "28 and 31 of the School Standards and Framework Act 1998" rhodder "41 and 44 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013";

20 (b) yn lle'r geiriau o "(so that" i "in Wales)" rhodder "and sections 49 to 56 of, and Schedule 4 to, that Act (school organisation proposals”.

(5) Yn adran 530(3)(b) (prynu tir yn orfodol) o'r geiriau o "paragraph 18" i'r diwedd rhodder "paragraph 9 of Schedule 4 to the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (assistance in respect of maintenance and other obligations relating to voluntary aided schools) including that paragraph as applied by section (3) of that Act”.

25

Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998

18 (1) Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 20(2A)(b) (categoriâu newydd o ysgolion a gynhelir) ar ôl "this Act" mewnosoder "or sections 45 to 56 of, and Schedule 5 to, the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013”.

30

(3) Yn adran 21(6) (mathau o ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a mathau o sefydliadau) –

(a) ym mharagraff (a) –

(i) hepgorer "in accordance with Schedule 8 or", a

35 (ii) ar ôl "Act 2006" mewnosoder "or in accordance with proposals made under section 45 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013";

(b) ym mharagraff (f) –

- (i) yn is-baragraff (i), hepgorer “under paragraph 2 of Schedule 8 or” ac ar ôl “Act 2006” mewnosoder “or under section 49 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013”,
- (ii) yn is-baragraff (ii) yn lle “that paragraph or that section” rhodder “either of those sections”,
- (iii) hepgorer is-baragraff (iii).
- (4) Hepgorer adrannau 28 a 29 (cynigion ar gyfer sefydlu, newid a therfynu ysgolion prif ffrwd).
- (5) Yn adran 30 (hysbysiad gan gorff llywodraethu am derfynu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol) –
- (a) yn is-adran (1) ar ôl “voluntary school” mewnosoder “in England”;
- (b) yn is-adran (3) hepgorer paragraff (b);
- (c) yn is-adran (9) hepgorer paragraff (a);
- (d) yn y pennawd ar ôl “voluntary school” mewnosoder “in England”.
- (6) Hepgorer adrannau 31 i 35 (darpariaethau’n ymwneud ag ysgolion arbennig, rhesymoli lleoedd ysgol a newid categori ysgolion).
- (7) Yn adran 49(6) (ysgolion a gynhelir i gael cyllidebau dirprwyedig) –
- (a) hepgorer “paragraph 14(2) of Schedule 6, paragraph 3(3) of Schedule 7A to the Learning and Skills Act 2000”,
- (b) ar ôl “2002” mewnosoder “section 76(2)(b) of, or paragraph 4 of Schedule 4 to, the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013”.
- (8) Yn adran 82(1) (addasu gweithredoedd ymddiriedolaeth), yn lle “or the Academies Act 2010” rhodder “, the Academies Act 2010 or the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013”.
- (9) Hepgorer adran 101(3) (dethol a ganiateir: bandio disgyblion).
- (10) Yn adran 103(2)(b) (dethol a ganiateir: cyflwyno, amrywio neu roi’r gorau i ddarpariaeth ar gyfer dethol o’r fath) yn lle “prescribed alteration for the purposes of section 28” rhodder “regulated alteration within the meaning of Chapter 2 of Part 3 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013”.
- (11) Yn adran 143 (mynegai) –
- (a) hepgorer y cofnod sy’n dechrau “alteration”;
- (b) hepgorer y cofnod sy’n dechrau “area”;
- (c) hepgorer y cofnod sy’n dechrau “discontinuing”;
- (d) hepgorer y cofnod sy’n dechrau “promoters”;
- (e) hepgorer y cofnod sy’n dechrau “school opening date”.
- (12) Yn Atodlen 3 (cyllido ysgolion sefydledig, ysgolion gwirfoddol ac ysgolion arbennig sefydledig) –

- (a) ym mharagraff 2(2)(a)(ii), yn lle'r geiriau o "or promoters" i "proposals" rhodder "or the person by whom proposals were made is required to provide by virtue of Part 2 of Schedule 4 to the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (provision of premises and other assistance)";
- 5 (b) ym mharagraff 7 –
- (i) yn is-baragraff (3)(a) ar ôl "28," mewnosoder –
- "(ia) the implementation of proposals made under section 42 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 to make a regulated alteration to a school,";
- 10 (ii) yn is-baragraff (5) yn lle "to the promoters" rhodder –
- "(a) in relation to England, to the promoters, and
- (b) in relation to Wales, to the person who made the proposals under section 41(2) of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013".
- 15 (13) Hepgorer Atodlenni 6 i 8 (darpariaethau'n ymwneud â gweithdrefn a gweithredu cynigion statudol, rhesymoli lleoedd ysgol a newid categori ysgolion).
- (14) Yn Atodlen 22 (gwaredu tir) –
- (a) ym mharagraff 1, ar ôl is-baragraff (1)(a) mewnosoder –
- 20 "(aa) any land acquired under paragraph 7 of Schedule 4 to the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013, under that paragraph as applied by section (1) of that Act or under Part 3 of Schedule 5 to that Act;"
- (b) ym mharagraff 2, ar ôl is-baragraff (1)(a) mewnosoder –
- 25 "(aa) any land acquired under paragraph 7 or 11 of Schedule 4 to the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013, under either of those paragraphs as applied by section (1) or (3) of that Act or under Part 3 of Schedule 5 to that Act;"
- (c) ym mharagraff 2A
- (i) ar ôl is-baragraff (1)(a) mewnosoder –
- 30 "(aa) any land acquired under paragraph 7 of Schedule 4 to the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013, under that paragraph as applied by section (1) of that Act or under Part 3 of Schedule 5 to that Act;"
- (ii) yn is-baragraff (1)(b) ar ôl "(a)" mewnosoder "or (aa)";
- 35 (iii) yn is-baragraff (2)(a)(ii) ar ôl "(a)" mewnosoder "or (aa)";
- (iv) yn is-baragraff (2)(b) ar ôl "(a)" mewnosoder "or (aa)";
- (d) ym mharagraff 3 –
- (i) ar ôl is-baragraff (1)(a) mewnosoder –

- “(aa) any land acquired under paragraph 7 or 11 of Schedule 4 to the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013, under those paragraphs as applied by section (1) or (3) of that Act or under Part 3 of Schedule 5 to that Act;”;
- 5 (ii) yn is-baragraff (3) ar ôl “(a)” mewnosoder “or (aa),”;
- (iii) yn is-baragraff (4)(c)(ii) ar ôl “this Act” mewnosoder “or under paragraph 7(6) of Schedule 4 to the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013”;
- (e) ym mharagraff 5—
- 10 (i) yn is-baragraff (1)(b)(ii) yn lle “section 32(1)” rhodder “section 60 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013,”;
- (ii) yn is-baragraff (4)(c) ar ôl “alteration” mewnosoder “or regulated alteration”;
- (iii) yn is-baragraff (4A) ar ôl “(a),” mewnosoder “(aa),”;
- 15 (iv) yn is-baragraff (4B)(d) ar ôl “alteration” mewnosoder “or regulated alteration”;
- (v) yn is-baragraff (6)(a) ar ôl “2A(1)(a),” mewnosoder “(aa),”;
- (f) ym mharagraff 6—
- (i) yn is-baragraff (1) ar ôl “section 30(1)” mewnosoder “or section 81 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013”;
- 20 (ii) yn is-baragraff (2)(a) ar ôl “section 30(2)” mewnosoder “or section 81(2) of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013”;
- (g) ym mharagraff 8—
- (i) yn is-baragraff (1) ar ôl “section 30(10)” mewnosoder “or section 81(11) of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013”;
- 25 (ii) yn is-baragraff (2) ar ôl “section 30(2)(a) to (d)” mewnosoder “or section 81(2) of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013”;
- (h) ym mharagraff 10 ar ôl is-baragraff (1)(e) mewnosoder—
- 30 “(f) “regulated alteration” has the same meaning as in Chapter 2 of Part 3 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013.”

Deddf Dysgu a Sgiliau 2000

- 19 (1) Mae Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Ar ôl adran 83(9) (arolygiadau ardal) mewnosoder—
- 35 “(9A) For provision on reporting on sixth forms found to be causing concern in an area inspection, see sections 44C and 44E of the Education Act 2005.”
- (3) Hepgorer y darpariaethau a ganlyn—
- (a) adrannau 113 a 113A,

- (b) Atodlenni 7 a 7A,
- (c) paragraffau 84, 89 a 90 o Atodlen 9.

Deddf Addysg 2002

- 20 (1) Mae Deddf Addysg 2002 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- 5 (2) Hepgorer adran 72 (ailstrwythuro addysg chweched dosbarth).
- (3) Yn adran 129(6)(b) (trosglwyddo cyflogaeth) ar ôl "1998" mewnosoder "or Part 3 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013".
- (4) Hepgorer adran 154 (sefydlu neu newid ysgolion meithrin a gynhelir).
- 10 (5) Hepgorer adrannau 191 i 193 (darpariaeth ranbarthol ar gyfer anghenion addysgol arbennig).
- (6) Ym mharagraff 5(2)(b) o Atodlen 1 (ymgorfforiad a phwerau corff llywodraethu) yn lle paragraffau (i) i (iii) rhodder –
- 15 "(i) the date on which proposals for discontinuing the school are implemented under Part 3 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013,
- (ii) the date on which the school is discontinued under section 81 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013, or
- 20 (iii) the date specified in a direction given under section 16(2) or 82(1) of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013".
- (7) Hepgorer Atodlenni 9 a 10 (cynigion sy'n ymwneud â chweched dosbarth a sefydlu ysgolion).
- 25 (8) Yn Atodlen 21 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol) hepgorer paragraffau 98, 115, 116 a 126.

Deddf Addysg 2005

- 21 (1) Mae Deddf Addysg 2005 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn adran 28(4) (dyletswydd i drefnu arolygiadau rheolaidd ar ysgolion penodol) –
- 30 (a) ym mharagraff (b) yn lle "section 30 of the School Standards and Framework Act 1998 (c31)" rhodder "section 81 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013",
- (b) ym mharagraff (c) yn lle "section 19 or 32 of that Act" rhodder "section 16(2) or 82(1) of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013".
- (3) Hepgorer y darpariaethau a ganlyn –
- 35 (a) adran 46 (chweched dosbarth lle y mae gwelliant arwyddocaol yn ofynnol);
- (b) adrannau 68, 69, 70, 71 (trefniadaeth ysgol);
- (c) Atodlen 5 (chweched dosbarth lle y mae gwelliant arwyddocaol yn ofynnol);
- (d) paragraffau 7, 8, 13 a 14 o Atodlen 12 (diwygiadau'n ymwneud â threfniadaeth ysgol).

Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006

- 22 (1) Mae Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Hepgorer adran 54(1)(e) (bandio disgyblion).
- 5 (3) Yn Atodlen 3 (diwygiadau'n ymwneud â threfniadaeth ysgol) hepgorer paragraffau 14(b) (ii), 18, 20, 22 i 26, 33 i 36, 46 a 50.
- (4) Yn Atodlen 14 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol) hepgorer paragraffau 61 a 66.

Deddf Cydraddoldeb 2010

- 23 (1) Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- 10 (2) Ym mharagraff 4 o Atodlen 11 (ysgolion un rhyw yn troi i fod yn ysgolion cydaddysgol) –
- (a) yn is-baragraff (2) yn lle'r geiriau o "paragraph 22" i "1998" rhodder "Section 83 of, or Part 3 of Schedule 4 to, the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013",
- 15 (b) hepgorer is-baragraff (5).

Mesur Addysg (Cymru) 2011

- 24 (1) Mae Mesur Addysg (Cymru) 2011 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn adran 13(b) (corff llywodraethu sengl ar gyfer ffederasiynau) yn lle'r geiriau o "ym Mhennod 2" i'r diwedd rhodder "yn Rhan 3 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (trefniadaeth ysgolion) neu yn Rhan 3 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (derbyniadau i ysgolion)".
- 20 (3) Hepgorer adran 20 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Addysg 2005).
- (4) Hepgorer adrannau 26 i 30 (ysgolion sefydledig).

RHAN 3

DIWYGIADAU SY'N YMWNEUD Â RHAN 5 (DYLETSWYDDAU AMRYWIOL YSGOLION)

Deddf Addysg 1996 a gorchmynion a wneir odani

- 25 (1) Yn adran 512A(6) o Ddeddf Addysg 1996 (trosglwyddo swyddogaethau o dan adran 512 i gyrff llywodraethu), hepgorer o "and such" i'r diwedd.
- 30 (2) Yng Ngorchymyn Addysg (Trosglwyddo Swyddogaethau Ynghylch Ciniawau Ysgol) (Cymru) 1999 (OS 1999/610), hepgorer erthygl 4.
- (3) Yng Ngorchymyn Addysg (Trosglwyddo Swyddogaethau Ynghylch Ciniawau Ysgol) (Cymru) (Rhif 2) 1999 (OS 1999/1779), hepgorer erthygl 4.

Deddf Addysg 2002

- 35 26 Yn Atodlen 21 i Ddeddf Addysg 2002 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol) hepgorer paragraff 110.

Deddf Addysg 2005

27 Yn adran 103 o o Ddeddf Addysg 2005 (cyfarfodydd blynyddol rhieni) hepgorer is-adran (2) a (3)(a)(ii).

Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006

- 5 28 (1) Mae Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Hefgorer adran 58 (cod ymarfer o ran y berthynas rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion a gynhelir).
- (3) Yn adran 87 (y pŵer i godi tâl am ddarparu prydu bwyd) –
- (a) yn is-adran (1), hepgorer paragraff (b);
- 10 (b) yn is-adran (2), hepgorer paragraff (b).

Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009

29 Yn adran 8(2)(b) o Fesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 (sy'n darparu i is-adran (4A) newydd gael ei mewnosod yn adran 512 o Ddeddf Addysg 1996), yn lle "7(5)" rhodder "4".

15 *Deddf Addysg 2011*

- 30 Yn adran 35 o Ddeddf Addysg 2011 (dyletswyddau mewn perthynas â phrydu bwyd) –
- (a) yn is-adran (2) hepgorer paragraff (b);
- (b) yn is-adran (3) hepgorer paragraff (b).



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

BIL SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU)

Memorandwm Esboniadol
yn cynnwys yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau
Esboniadol

Ebrill 2012

BIL SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU)

Memorandwm Esboniadol i Fil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru)

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Datganiad yr Aelod

Yn fy marn i byddai darpariaethau Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) a gyflwynwyd i mi ar 23 Ebrill 2012 o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Leighton Andrews AC

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau

Yr Aelod Cynulliad sy'n gyfrifol am y Bil

23 Ebrill 2012

CYNNWYS

RHAN 1

1. Disgrifiad
2. Y Cefndir Deddfwriaethol
3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir ei chael
4. Ymgynghori
5. Pŵer i lunio is-ddeddfwriaeth
6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

RHAN 2 – ASESAD EFFAITH

7. Yr Opsiynau
8. Costau a manteision
9. Asesiad o'r gystadleuaeth
10. Adolygu ar ôl gweithredu

ATODIAD 1 – Nodiadau Esboniadol

RHAN 1

1. Disgrifiad

1.1 Mae Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) ('Y Bil') yn amlinellu nifer o gynigion a fydd yn gwneud ysgolion yn fwy atebol drwy gyfuno, diweddarau a thynhau safonau a dulliau rheoli. Bydd y Bil yn diwygio'r broses statudol ynghylch trefniadaeth ysgolion fel bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn lleol lle y bo'n bosibl. Bydd prif ffrydio sawl rhaglen a ariennir gan grant yn gwella'r modd y caiff y prosesau presennol eu symleiddio. Bydd newid y modd y mae Cyrff Llywodraethu yn cynnal eu Cyfarfodydd Blynyddol Rhieni yn fodd i sicrhau bod cyfarfodydd o'r fath yn cael eu cynnig mewn modd mwy hyblyg er mwyn bodloni anghenion rhieni. Bydd awdurdodau lleol ac ysgolion yn cael rhagor o hyblygrwydd ynghylch prisiau prydau ysgol. Yn olaf, bydd awdurdodau lleol yn atebol am gynllunio'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy roi sail statudol i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

1.2 Mae'r Bil hefyd yn ailwampio ac yn cyfuno darpariaethau addysg presennol ac yn cyflawni cynnydd yn unol â datblygiad Llyfr Statud i Gymru.

2. Y Cefndir Deddfwriaethol

2.1 Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud darpariaeth ar gyfer Safonau a Threfniadaeth Ysgolion ac mewn cysylltiad â hwy yn rhinwedd Atodlen 7, pwnc 5 (addysg a hyfforddiant) a phwnc 9 (iechyd a gwasanaethau iechyd) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (“Deddf Llywodraeth Cymru 2006”).

2.2 Caiff Atodlen 7, pwnc 5 o Ddeddf Llywodraeth Cymru ei hatgynhyrchu isod:

Education and training

5. Education, vocational, social and physical training and the careers service, Promotion of advancement and application of knowledge.

Exception—

Research Councils.

2.3 Caiff Atodlen 7, pwnc 9 o Ddeddf Llywodraeth Cymru ei hatgynhyrchu isod:

Health and health services

9. Promotion of health. Prevention, treatment and alleviation of disease, illness, injury, disability and mental disorder. Control of disease. Family planning. Provision of health services, including medical, dental, ophthalmic, pharmaceutical and ancillary services and facilities. Clinical governance and standards of health care. Organisation and funding of national health service.

Exceptions—

Abortion.

Human genetics, human fertilisation, human embryology, surrogacy arrangements.

Xenotransplantation.

Regulation of health professionals (including persons dispensing hearing aids).

Poisons.

Misuse of and dealing in drugs.

Human medicines and medicinal products, including authorisations for use and regulation of prices.

Standards for, and testing of, biological substances (that is, substances the purity or potency of which cannot be adequately tested by chemical means).

Vaccine damage payments.

Welfare foods.

Health and Safety Executive and Employment Medical Advisory Service and provision made by health and safety regulations.

3. Diben y deddfwriaeth a'r effaith y bwriedir ei chael

3.1 Trwy'r Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) bydd Llywodraeth Cymru yn deddfu yn y meysydd canlynol er mwyn ceisio cyflawni gwelliannau ar unwaith:

- Ymyrryd mewn ysgolion sy'n peri pryder;
- Gwella Ysgolion;
- Trefniadaeth ysgolion;
- Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg;
- Cyfarfodydd Blynyddol Rhieni;
- Cwnsela mewn ysgolion;
- Y fenter brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd;
- Codi taliadau hyblyg am brydau ysgol.

3.2 Mae safonau ysgolion yng Nghymru yn rhy isel ac yn amrywio gormod. Er bod canlyniadau arholiadau wedi codi dros y degawd diwethaf, nid yw perfformiad Cymru yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad gwledydd eraill. Yn 2010 cyhoeddodd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) ei Raglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA), sy'n cymharu perfformiad systemau ysgolion ar draws 65 o wledydd. Dyma'r eildro i Gymru gymryd rhan yn yr astudiaeth hon a daeth yn amlwg fod Cymru'n syrthio ar ei hôl hi. Ar hyn o bryd mae perfformiad Cymru islaw cyfartaledd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd mewn darllen a mathemateg.

3.3 Mae tanberfformiad cymharol system ysgolion Cymru yn cael effaith waeth ar ein myfyrwyr mwy abl. Mae arolygiadau dilynol gan Estyn o ysgolion ac awdurdodau lleol yn dangos amrywiad mawr yn neilliannau ysgolion: mae darpariaeth rhagorol i'w chael mewn ysgolion yng Nghymru, ond ceir hefyd fethiannau systemig. Mae angen i rai ysgolion a gwasanaethau addysg rhai awdurdodau lleol wella'n sylweddol. Mae adolygiadau thematig gan Estyn ar draws materion amrywiol iawn yn dangos amrywiaeth sylweddol mewn arferion ar draws ysgolion yng Nghymru. Ym mis Chwefror 2011 amlinellodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau Gynllun Gweithredu 20 Pwynt ar gyfer Addysg yng Nghymru er mwyn codi safonau a lleihau'r bwlch cyrhaeddiad. Amlinella'r Bil hwn y cydrannau deddfwriaethol o'r cynllun gweithredu hwnnw er mwyn codi safonau ysgolion yng Nghymru.

Ymyrryd mewn ysgolion sy'n peri pryder

3.4 Os yw ysgolion yn perfformio'n is na'r safon, boed o ran perfformiad addysgol neu o ran trefniadau llywodraethu, mae rhieni a myfyrwyr yn disgwyl i'r camau priodol gael eu cymryd. Ar hyn o bryd caiff y gweithdrefnau sy'n galluogi awdurdodau lleol a/neu Lywodraeth Cymru i ymyrryd yn yr ysgolion hyn, sydd wedi'u pennu fel ysgolion sy'n peri pryder, eu hamlinellu mewn gwahanol ddeddfwriaeth.

3.5 Caiff ysgol sy'n peri pryder ei phennu gan yr awdurdod lleol fel rhan o'i gyfrifoldebau ynghylch cefnogi a herio perfformiad eu hysgolion neu gan Estyn fel

rhan o'i broses arolygu. Ar ôl i awdurdod lleol nodi bod ysgol yn peri pryder gall roi hysbysiad rhybuddio i gorff llywodraethu o dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 mewn perthynas â'r seiliau canlynol.

- bod safonau perfformiad disgyblion yn yr ysgol yn annerbyniol o isel neu eu bod yn debygol o barhau'n isel oni bai bod yr awdurdod lleol yn defnyddio'i bwerau ymyrryd; neu
- bod methiant difrifol o ran y ffordd y mae'r ysgol yn cael ei rheoli neu ei llywodraethu sy'n niweidio safonau perfformiad yn yr ysgol, neu sy'n debygol o'u niweidio; neu
- bod bygythiad i ddiogelwch disgyblion neu staff yr ysgol;
- bod y corff llywodraethu wedi methu â chydymffurfio â darpariaeth mewn gorchymyn a wnaed o dan Adran 122 o Ddeddf Addysg 2002 (tâl ac amodau athrawon) sy'n gymwys i athro yn yr ysgol neu fod corff llywodraethu'r ysgol wedi methu â sicrhau bod y pennaeth yn cydymffurfio â darpariaeth o'r fath; neu
- bod y corff llywodraethu wedi methu â sicrhau bod pennaeth yr ysgol yn cydymffurfio â thâl ac amodau athrawon.

3.6 Os bydd corff llywodraethu'r ysgol yn methu â chydymffurfio â'r hysbysiad rhybuddio sy'n amlinellu'r hyn sy'n peri pryder o fewn amserlen benodol gall yr awdurdod lleol gymryd y camau canlynol:

- penodi llywodraethwyr ychwanegol
- atal yr hawl i gyllideb ddirprwyedig a/neu
- gofyn i Weinidogion Cymru benodi bwrdd gweithrediaeth interim i gymryd lle'r corff llywodraethu.

3.7 Ychydig iawn o awdurdodau lleol yng Nghymru sydd wedi rhoi hysbysuadau rhybuddio i ysgolion o dan yr amgylchiadau hyn, fodd bynnag. Canlyniad hyn yw fod gormod o ysgolion yn parhau'n ysgolion sy'n peri pryder am gyfnod rhy hir, heb i'r camau cynnar priodol gael eu cymryd.

3.8 Yn ei rhagair i adroddiad blynyddol Estyn ar gyfer 2010/11 dywed Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Cymru *"Yn llawer o awdurdodau lleol, mae ychydig o ysgolion wedi cael tanberfformio dros gyfnod hir, a hynny'n bennaf am nad yw'r awdurdodau'n defnyddio'u holl bwerau i wella ysgolion yn ddigon cyflym"*. Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau gwerthusiad o effaith ymyrraeth a chymorth awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion sy'n peri pryder, a gynhaliwyd gan Estyn yn 2009.

3.9 Mae ymgynghori anffurfiol diweddar gan Lywodraeth Cymru â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn dangos yn glir bod awdurdodau lleol yn gyndyn o ddefnyddio eu pwerau ymyrryd presennol oherwydd eu bod yn teimlo bod y ddeddfwriaeth bresennol yn rhy aneglur ac amwys.

3.10 Caiff y gyfraith, ar ei ffurf bresennol, ynghylch pwerau ymyrryd awdurdodau lleol, fel y crybwyllwyd ynghynt, ei chynnwys gan fwyaf yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Mae'r ddeddfwriaeth hon wedi cael ei diwygio dros y blynyddoedd, ac mae hyn wedi arwain at sawl croesgyfeiriad at ddeddfiadau. Golyga

hyn oll ei bod hi'n anodd iawn i'r darllenydd ddeall holl gwmpas y pwerau. Diwygiadau i destun oedd llawer o'r diwygiadau hynny, ond nid y cyfan ohonynt. Mae rhai o'r diwygiadau yn gymharol gymhleth sy'n golygu bod angen gwybodaeth fanwl am wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth.

3.11 Ceir hefyd gymysgedd dryslyd o bwyntiau sbarduno ynghylch y defnydd o bwerau ymyrryd. Golyga hyn fod y drefn yn aneglur ac yn ddryslyd pan fydd gofyn i awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru arfer eu pwerau ymyrryd mewn perthynas ag ysgolion sy'n peri pryder. Yn syml, mae hi bellach yn fwyfwy anodd i ddehongli'r ddeddfwriaeth yn gywir. Canlyniad hyn yw sefyllfa lle nad yw'n glir pwy ddylai arfer ei bwerau gyntaf - yr awdurdod lleol neu Weinidogion Cymru?

3.12 Mae'n hanfodol fod awdurdodau lleol yn deall eu pwerau ymyrryd hwy a hefyd bwerau ymyrryd Gweinidogion Cymru fel bod modd eu defnyddio mewn modd pendant ac effeithiol er mwyn gwella safonau addysg.

3.13 Bydd y Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) yn dwyn ynghyd, am y tro cyntaf, y darpariaethau presennol ynghylch:

- ymyrraeth gan awdurdodau lleol ynghylch materion rhedeg ysgolion a gynhelir sydd wedi'u pennu fel ysgolion sy'n peri pryder;
- ymyrraeth gan Weinidogion Cymru ynghylch materion rhedeg ysgolion a gynhelir sydd wedi'u pennu fel ysgolion sy'n peri pryder
- ymyrraeth gan Weinidogion Cymru o fewn awdurdodau lleol wrth iddynt arfer eu swyddogaethau addysg.

3.14 Yn ogystal â hyn mae'r Bil hwn yn ceisio cryfhau a diwygio'r pwerau ymyrryd hynny lle y bo angen.

3.15 Mae'r darpariaethau ynghylch ymyrraeth mewn ysgolion a geir o fewn y Bil wedi'u drafftio i adlewyrchu'r ffaith ei bod hi'n gwbl briodol fod yr awdurdod lleol yn cymryd camau i ddechrau. Os bydd ymyrraeth yr awdurdod lleol yn aflwyddiannus neu'n annigonol, fodd bynnag, bydd gan Weinidogion Cymru hefyd y pŵer i ymyrryd. Bydd y broses hon o ddiwygio'r gyfraith bresennol yn dwyn ynghyd yr holl bwerau ymyrryd ac yn rhoi'r un seiliau dros ymyrryd i awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru.

3.16 Bydd atgyfnerthu'r darpariaethau presennol, eu diwygio a'u gwneud yn fwy eglur drwy'r ddeddfwriaeth hon yn codi safonau ysgolion. Bydd hefyd yn sicrhau bod ymyrraeth awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru mewn ysgolion sy'n peri pryder yn digwydd yn brydlon ac mewn modd priodol, gan gyflawni gwelliannau mewn ysgolion sy'n tangyflawni a chau'r ysgolion hynny y bernir nad oes modd gwyrddroi eu sefyllfa. Bydd y Bil yn gwaredu'r dryswch a'r amwysedd presennol ynghylch y meysydd canlynol.

- y seiliau dros ymyrryd;
- y broses ar gyfer ymyrryd;
- pryd yn union y gellir ymyrryd; a
- beth yn union sydd ynghlwm ag ymyrryd.

3.17 Mae'n rhaid pennu'r seiliau dros ymyrryd yn gwbl glir fel y gall awdurdodau lleol ymyrryd yn brydlon ac yn effeithiol. O'r herwydd bydd y Bil yn ailddatgan y seiliau ac yn gwaredu unrhyw orgymhlethdod diangen yn eu cylch.

Sail 1 Ni fydd hi bellach yn ofynnol i awdurdod lleol ddangos bod y safonau perfformiad 'yn debygol o barhau'n annerbyniol o isel', fel sy'n ofynnol ar hyn o bryd. Cred Llywodraeth Cymru fod y ffaith eu bod eisoes yn annerbyniol o isel yn ddigon o sail dros ymyrryd.

Sail 2 Caiff y geiriau 'sy'n rhagfarnu, neu sy'n debygol o ragfarnu safonau perfformiad' eu gwaredu. Bydd hyn yn sicrhau gwell sail i awdurdodau lleol ystyried rhoi hysbysiadau rhybuddio yn ddigon cynnar a chyn i'r sefyllfa ddirywio i'r graddau lle y mae'n amharu ar berfformiad.

Sail 3 Mae ymddygiad disgyblion yn yr ysgol neu unrhyw gamau a gymerwyd gan y disgyblion hynny neu eu rhieni yn rhagfarnu'n ddifrifol, neu'n debyg o ragfarnu'n ddifrifol, addysg unrhyw ddisgyblion yn yr ysgol.

Sail 4 Mae'n cyfateb i'r sail dros ymyrryd a nodir yn adran 15(2)(a)(iii) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Sail 5 Mae'r sail hon yn ymwneud â methiant neu fethiant tebygol y corff llywodraethu neu'r pennaeth i gydymffurfio â dyletswydd o dan y Deddfau Addysg ac mae'n ailosod y sail dros ymyrryd a nodir yn adran 497 o Ddeddf Addysg 1996.

Sail 6 Mae'r corff llywodraethu neu'r pennaeth wedi gweithredu, neu'n bwriadu gweithredu'n afresymol, wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Deddfau Addysg. Mae'n cyfateb i'r sail dros ymyrryd a nodir yn adran 496 o Ddeddf Addysg 1996.

Bydd Sail 5 a 6 ynghyd â'r pŵer cyfeirio a geir yn adran 17 a 28 o'r Bil yn disodli'r pŵer cyfeirio presennol a geir yn adran 496 (Sail 6) a 497 (Sail 5) o Ddeddf Addysg 1996. Os bydd sail 5 neu 6 yn bodoli, fodd bynnag, gallai awdurdod lleol ddefnyddio'i holl bwerau ymyrryd. Nid oedd Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ond yn rhoi pwerau cymharol lym fel penodi llywodraethwyr ychwanegol, atal cyllideb yr ysgol neu benodi bwrdd gweithrediaeth interim. Golyga hyn, fodd bynnag, nad oes gan yr awdurdod lleol unrhyw bŵer ar hyn o bryd i roi cyfarwyddyd i gorff llywodraethu wneud rhywbeth os yw'r corff llywodraethu'n gweithredu mewn modd afresymol neu os nad yw'n cydymffurfio â'i ddyletswyddau. Mae hyn yn amhriodol gan mai ein bwriad ni yw sicrhau mai awdurdodau lleol ddylai gymryd y camau cyntaf mewn ysgolion sy'n peri pryder.

Mae Seiliau 7 ac 8 yn ymwneud â hysbysiad(au) rhybuddio a roddir gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant o dan Ddeddf Addysg 2005 ac maent yn ailadrodd y seiliau dros ymyrryd a geir yn adran 15(4) a (6) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

3.18 Yn yr un modd, mae'r broses ar gyfer ymyrryd a'r arfer o roi hysbysiad rhybuddio os bydd unrhyw un o'r seiliau uchod (1-6) yn berthnasol yn rhy gymhleth. O dan y ddeddfwriaeth bresennol, er enghraifft, mae gofyn cyhoeddi hysbysiad rhybuddio ynghylch hysbysiad rhybuddio. Er ei bod hi'n arfer da i gynnwys yr ysgol yn gynnar yn y broses nid oes angen pennu trafodaethau blaenorol fel amodau statudol ar gyfer cyhoeddi hysbysiad gorfodi. Mae'r darpariaethau hyn wedi'u symleiddio er mwyn adlewyrchu'n well y ffaith mai'r pwynt sbarduno ar gyfer ymyrryd yw methiant y corff llywodraethu i ymateb yn ddigonol i hysbysiad.

3.19 Nid yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn cynnig unrhyw gysondeb o ran y terfynau amser ar gyfer camau ymyrryd, ond bydd y Bil yn symleiddio ac yn egluro'r sefyllfa drwy bennu'r un amserlen ar gyfer gweithredu gan awdurdodau mewn perthynas â phob pŵer. Mae'n gyfnod hyblyg sy'n golygu bod yn rhaid i'r awdurdod barhau i adolygu'r sefyllfa a bodloni ei hun fod y materion wedi'u datrys i lefel foddhaol neu na fyddai'n briodol i arfer ei bwerau am unrhyw reswm arall cyn dod â'r cyfnod i ben. Mae'r un dull wedi'i gyflwyno ar gyfer y terfynau amser sydd ynghlwm â phwerau ymyrryd Gweinidogion Cymru.

3.20 Mae'r Bil hefyd yn cynnwys pŵer newydd a fydd yn galluogi'r awdurdod lleol i'w gwneud hi'n ofynnol i ysgol wan gydweithio ag ysgol arall neu gydweithio â phartner ynghylch gwella'r ysgol. Gallai hyn gynnwys cysylltu â pharti arall ar gyfer darparu gwasanaethau cynghori i'r corff llywodraethu; cydweithio â chorff llywodraethu ysgol arall; cydweithio â choleg addysg bellach; creu ffederasiwn neu ymuno ag un. Bydd cydweithredu o'r fath yn creu cyfle i'r ysgol fynd i'r afael â'r seiliau sy'n peri pryder, gan osgoi ymyrraeth fwy difrifol gan yr awdurdod.

3.21 Mae'r Bil yn efelychu'r pŵer presennol i'r awdurdod lleol benodi llywodraethwyr ychwanegol. Eto i gyd, mae'r darpariaethau hyn wedi'u diwygio felly'r un yw'r pŵer ar gyfer awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru. O dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, lle y mae awdurdodau lleol yn penodi llywodraethwyr o'r fath, ceir pŵer i'r awdurdod esgobaethol priodol neu i'r corff sy'n penodi llywodraethwyr sefydledig benodi rhagor o lywodraethwyr. Os bydd Gweinidogion Cymru yn penodi llywodraethwyr o'r fath nid oes unrhyw bŵer cyffelyb i benodi llywodraethwyr ychwanegol. O'r herwydd, mae'r Bil yn gwaredu'r gwahaniaeth hwn fel bod yr awdurdod esgobaethol priodol neu'r corff sy'n penodi llywodraethwyr sefydledig yn colli'r pŵer hwnnw. Os yw'r ysgol yn peri pryder a bod trefniadau llywodraethu a rheoli'r ysgol wedi methu ni chredir ei bod hi'n briodol bod y pŵer hwn yn parhau.

3.22 Er mwyn sicrhau bod gan awdurdodau lleol yr wybodaeth a'r cymorth sydd ei angen ar gyfer dehongli'r ddeddfwriaeth newydd, bydd y Bil hefyd yn creu pŵer newydd i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol ynghylch ymyrryd mewn ysgolion.

3.23 Bydd y canllawiau statudol ynghylch ymyrryd mewn ysgolion yn amlinellu'n glir y gweithdrefnau i'w dilyn gan awdurdodau lleol wrth sicrhau bod ysgolion sy'n peri pryder yn gwneud y newidiadau angenrheidiol cyn gynted â phosibl. Bydd y canllawiau yn rhoi cyngor clir ynghylch sut y dylai awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru ymyrryd mewn modd amserol, priodol a chyson er mwyn sicrhau bod ysgolion sy'n tangyflawni yn gwella'n gyflym. Bydd y canllawiau hefyd yn cynnwys

canllawiau presennol ynghylch hysbysiadau rhybuddio a chyrrff llywodraethu a amlinellir ar hyn o bryd yng Nghod Ymarfer 1999 ynghylch Cysylltiadau rhwng Awdurdodau Addysg Lleol ac Ysgolion. Diben gwneud hyn yw sicrhau bod awdurdodau lleol yn llwyr ymwybodol o'r pwerau sy'n bodoli ac yn gwybod o dan ba amgylchiadau y dylent eu defnyddio. Bydd hyn yn annog gwell defnydd o'r pwerau hyn. Bydd y canllawiau yn cynnwys rhagor o fanylion ynghylch:

- disgwyliadau o ran defnyddio canlyniadau dadansoddiadau Llywodraeth Cymru (bandiau ysgolion a thargedau gwaelodol) er mwyn pwysleisio'r ffaith bod disgwyl i awdurdodau lleol ystyried bandiau ysgolion a mathau eraill o ddadansoddiadau Llywodraeth Cymru a chymryd camau lle bernir bod ysgolion mewn bandiau isel, lle dengys y dystiolaeth fod deilliannau'n lleihau neu lle nad yw'r safonau isaf (targedau gwaelodol) a ddiffinnir gan Lywodraeth Cymru yn cael eu bodloni. Bydd disgwyl i ysgolion roi sylw dyledus i Set Ddata Graidd Cymru Gyfan wrth lunio eu targedau ar gyfer gwella a'u Cynllun Gwella Ysgol;
- yr hyn a ddisgwylir gan awdurdodau lleol mewn perthynas â chynlluniau gwella ysgolion er mwyn sicrhau bod yr awdurdod lleol yn fodlon eu bod yn ddigon cadarn ac yn gyson â'r Canllawiau newydd ynghylch Gwella Ysgolion neu fod yr awdurdod lleol yn gofyn i'r ysgol ailystyried ei chynllun os bydd yr awdurdod lleol yn barnu nad yw'n ddigon cadarn.

3.24 Mae'n rhaid i awdurdodau lleol, cyrrff llywodraethu a phenaethiaid ysgolion a gynhelir ddilyn y canllawiau, oni bai y bydd ganddynt reswm da iawn dros wyro oddi wrthynt. Lle barnant fod rheswm da dros beidio â dilyn y canllawiau neu bennu polisi arall mae'n rhaid iddynt gyhoeddi datganiad polisi yn amlinellu sut y maent yn cynnig arfer swyddogaethau mewn modd gwahanol. Eto i gyd, gallai Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i'r awdurdod ysgol gymryd unrhyw gamau y credent eu bod yn briodol os byddant yn barnu na fydd polisi arall yr awdurdod yn debygol o wella safon yr addysg a ddarperir yn yr ysgol.

3.25 Byddai methiant i ddeddfu yn y maes hwn yn golygu na fyddai'r gyfraith yn cael ei chyfuno a'i gwneud yn fwy eglur mewn perthynas â'r ysgolion hyn. Byddai'r gyfraith, ar ei ffurf bresennol, yn parhau'n aneglur a byddai'n anodd i awdurdodau lleol ei defnyddio. Byddai pwerau ymyrryd awdurdodau lleol yn parhau'n aneglur.

3.26 Byddai'r methiannau presennol a bennwyd gan Estyn yn cynnal y sefyllfa bresennol, lle y caiff hysbysiadau rhybuddio a dulliau ymyrryd eu defnyddio mewn modd aneffeithiol. Ymhellach, ni fydd gan Weinidogion Cymru y pwerau angenrheidiol ar gyfer cyhoeddi canllawiau statudol ynghylch ysgolion sy'n peri pryder ac ni fydd unrhyw ddyletswydd gyfatebol ar awdurdodau lleol i gydymffurfio â'r canllawiau anstatudol.

3.27 Cred Llywodraeth Cymru fod ymyrryd yn gynnar yn yr ysgolion hynny sy'n peri pryder yn gwbl allweddol er mwyn codi safonau mewn ysgolion yng Nghymru.

Canllawiau Gwella Ysgolion

3.28 Nid yw prosesau a thechnegau addysgu a dysgu, sy'n arferion da, yn cael eu defnyddio mewn modd cyson ar draws pob ysgol. Mae hyn wedi cael ei nodi mewn arolygiadau niferus ac adolygiadau thematig gan Estyn a dyma'r prif ffactor sy'n cyfrannu at yr amrywiaeth mewn safonau ysgolion (ee canlyniadau arholiadau) rhwng ysgolion sydd ag allbynnau economaidd-gymdeithasol tebyg. Nod y Canllawiau Statudol ynghylch Gwella Ysgolion yw cyflymu'r broses o wella ysgolion ar draws Cymru a sicrhau perfformiad mwy cyson ar draws pob ysgol, gan sicrhau y gall dysgwyr elwa ar yr addysgu a'r dysgu mwyaf effeithiol a chyflawni hyd eithaf eu gallu.

3.29 Dengys tystiolaeth o arolygiadau a deilliannau arholiadau fod rhai ysgolion yng Nghymru yn cyflawni canlyniadau rhagorol ar gyfer eu dysgwyr yn gyson, tra nad yw ysgolion eraill tebyg, lle ceir dysgwyr sydd ag amgylchiadau economaidd-gymdeithasol cyffelyb, yn cyflawni'r un canlyniadau. Mae'r broses o fandio ysgolion, sef system Llywodraeth Cymru ar gyfer asesu'n dryloyw berfformiad ysgolion, wedi tynnu sylw at y gwahaniaethau hyn ym mherfformiad ysgolion. Nod y broses hon yw sicrhau bod yr ysgolion sydd fwyaf angen cymorth yn ei dderbyn. Mae Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â chonsortia awdurdodau lleol ar draws Cymru, wedi mynd ati i ddadansoddi'n ofalus ddata a thystiolaeth ynghylch blaenoriaethau ar gyfer gwella i'r ysgolion sy'n perfformio ar y lefel isaf fel rhan o'r broses o fandio ysgolion.

3.30 Mae Uned Safonau Ysgolion Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu methodoleg systematig ar gyfer pennu arferion gorau a'u gweithredu'n effeithiol mewn ysgolion eraill. Rydym hefyd wrthi'n pennu gwahanol ddeunyddiau ac adnoddau o safon uchel a fydd yn cynorthwyo athrawon ac yn eu galluogi i ddatblygu eu harferion, gan ganolbwyntio ar flaenoriaethau cenedlaethol ynghylch llythrennedd, rhifedd a lleihau effaith tloidi ar gyrhaeddiad. Caiff deunyddiau o'r fath ynghylch arferion gorau eu datblygu drwy ymgynghori ag awdurdodau lleol ac ysgolion. Caiff y canllawiau eu cyhoeddi ar wefan Dysgu Cymru adeg eu lansio ym mis Medi 2012. Rydym wedi cydweithio ag addysgwyr er mwyn sicrhau bod y deunyddiau hyn yn berthnasol ac yn ennyn diddordeb addysgwyr, gan eu hannog i'w defnyddio er mwyn gwella eu dulliau addysgu. Diben y cymalau a geir yn y Bil hwn ynghylch canllawiau gwella ysgolion yw rhoi sail statudol i ganllawiau o'r fath.

3.31 Mae ymchwil gan Arolygiaeth wedi awgrymu nad yw arferion gorau yn lledu'n gyflym. Mae rhai ysgolion yn gyndyn o newid eu dulliau gweithredu, hyd yn oed os ydynt yn llai llwyddiannus nag ysgolion eraill. Ar hyn o bryd nid oes gan Weinidogion Cymru y pŵer i roi cyfarwyddyd ynghylch yr arferion neu'r technegau penodol y mae'n rhaid eu defnyddio mewn ysgol sy'n dewis anwybyddu'r dystiolaeth sy'n nodi nad yw'r dulliau y maent yn eu defnyddio yn cyflawni'r deilliannau gorau ar gyfer eu dysgwyr. Mae angen i hyn gynnwys pa fanteision a fydd yn deillio o'r pwerau hyn, hy ymyrryd yn gynharach, cysondeb o ran dull etc.

3.32 Bydd y canllawiau statudol yn amlinellu'n glir y gweithdrefnau y bydd gofyn i awdurdodau lleol eu dilyn wrth sicrhau bod ysgolion sy'n peri pryder yn gwella'n gyflym a byddant hefyd yn nodi rôl awdurdodau lleol o ran pennu ysgolion o'r fath ac ymyrryd yn eu cylch. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a

phenaethiaid ysgolion a gynhelir ddilyn y canllawiau, oni bai y bydd ganddynt reswm da iawn dros wyro oddi wrthynt.

3.33 Lle barnant fod rheswm da dros beidio â dilyn y canllawiau neu bennu polisi arall, mae'n rhaid iddynt gyhoeddi datganiad polisi yn amlinellu sut y maent yn cynnig arfer swyddogaethau mewn modd gwahanol.

3.34 Os cred Gweinidogion Cymru nad yw polisi amgen yr awdurdod yn debygol o wella safon yr addysg a ddarperir yn yr ysgol y mae'r datganiad polisi yn perthyn iddi, gallent roi cyfarwyddyd i awdurdod yr ysgol gymryd unrhyw gamau y cred Gweinidogion Cymru eu bod yn briodol. Diben hyn fydd sicrhau bod yr awdurdod yn arfer swyddogaethau yn unol â'r canllawiau ar gyfer gwella ysgolion.

3.35 Bydd angen i'r pwerau ar gyfer cyhoeddi canllawiau statudol ynghylch gwella ysgolion fod yn eang eu cwmpas. Bydd hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau sy'n targedu nifer o lefelau sef awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a phenaethiaid. Gallai canllawiau gael eu rhoi i ysgol neu ysgolion penodol o fewn grŵp penodol neu awdurdodau lleol unigol sy'n gweithio mewn Consortia. Gallai gwahanol ganllawiau gael eu cyhoeddi ynghylch pynciau penodol hy addysg mewn cyfnod allweddol penodol. Bydd y canllawiau yn effeithio ar ranbarthau consortia; awdurdodau lleol; ysgolion; cyrff llywodraethu; penaethiaid; addysgwyr; dysgwyr.

3.36 Bydd y canllawiau statudol yn:

- (a) rhoi cyngor ynghylch sut y dylai awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru ymyrryd mewn modd amserol, priodol a chyson er mwyn sicrhau bod ysgolion sy'n tangyflawni yn gwella'n gyflym. Bydd y canllawiau hefyd yn cynnwys canllawiau presennol ynghylch hysbysiadau rhybuddio a chyrrff llywodraethu a amlinellir ar hyn o bryd yng Nghod Ymarfer 1999 ynghylch Cysylltiadau rhwng Awdurdodau Addysg Lleol ac Ysgolion. Diben gwneud hyn yw sicrhau bod awdurdodau lleol yn llwyr ymwybodol o'r pwerau sy'n bodoli ac yn gwybod o dan ba amgylchiadau y dylent eu defnyddio. Bydd hyn yn annog gwell defnydd o'r pwerau hyn.
- (b) amlinellu disgwyliadau ynghylch defnyddio canlyniadau dadansoddiadau Llywodraeth Cymru (bandiau ysgolion a thargedau gwaelodol) er mwyn pwysleisio'r ffaith bod disgwyl i awdurdodau lleol ystyried bandiau ysgolion a mathau eraill o ddadansoddiadau Llywodraeth Cymru a chymryd camau lle bernir bod ysgolion mewn bandiau isel, lle dengys y dystiolaeth fod deilliannau'n lleihau neu lle nad yw'r safonau isaf (targedau gwaelodol) a ddiffinnir gan Lywodraeth Cymru yn cael eu bodloni. Bydd disgwyl i ysgolion roi sylw dyledus i Set Ddata Graidd Cymru Gyfan wrth lunio eu targedau ar gyfer gwella a'u Cynllun Gwella Ysgol.
- (c) pennu'r hyn a ddisgwylir gan awdurdodau lleol mewn perthynas â chynlluniau gwella ysgolion er mwyn sicrhau bod yr awdurdod lleol yn fodlon eu bod yn ddigon cadarn ac yn gyson â'r Canllawiau newydd ynghylch Gwella Ysgolion neu fod yr awdurdod lleol yn gofyn i'r ysgol

aillystyried ei chynllun os bydd yr awdurdod lleol yn barnu nad yw'n ddigon cadarn.

- (d) wrth i'r dystiolaeth o'r broses bandio ysgolion ac o ddadansoddi'r archwiliadau ddatblygu efallai y byddwn yn pennu meysydd lle y mae'r dystiolaeth yn dangos yn glir bod rhai arferion neu dechnegau lawer yn fwy llwyddiannus nag arferion neu dechnegau eraill.

3.37 Mewn achosion o'r fath hoffem ddefnyddio'r Canllawiau Gwella Ysgolion er mwyn pennu technegau profedig a nodi'r ysgolion y dylid eu defnyddio ynddynt. Gallai enghreifftiau o hyn gynnwys pennu'r cynlluniau llythrennedd mwyaf effeithiol ar gyfer "dal i fyny", neu'r technegau gorau ar gyfer rheoli ymddygiad.

3.38 Os na chaiff y ddeddfwriaeth ei llunio y risg yw na fydd gennym bwerau i roi cyfarwyddyd i ysgolion gymryd camau a fyddai'n llesol iawn i'w dysgwyr, fel y dengys y dystiolaeth. Byddai hyn yn golygu bod y dysgwyr o dan anfantais a byddai'n arafu'r broses o wella ysgolion ar draws Cymru.

3.39 Byddai hyn hefyd yn cyflawni gwell effeithlonrwydd gan y bydd cyhoeddi canllawiau ynghylch y technegau gorau ar gyfer gwella ysgolion yn golygu na fydd llawer o ysgolion yn mynd ati i "ailddyfeisio'r olwyn" neu gadw at dechnegau y gŵyr eraill eu bod yn aneffeithiol. Bydd hyn hefyd yn cyflymu'r broses o wella ysgolion.

Trefniadaeth ysgolion

3.40 Mae angen i ymyrraeth lwyddiannus mewn ysgolion a chanllawiau statudol sy'n ceisio gwella safonau gael eu hategu gan systemau priodol sy'n ymwneud â threfniadaeth ysgolion. Mae angen i'r broses gyfredol o benderfynu ynghylch cynigion yn ymwneud â threfniadaeth ysgolion gael ei diwygio fel bod y systemau hynny'n cael eu llunio a'u penderfynu ar lefel leol.

3.41 Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn pennu ar ba sail y ceir sefydlu, addasu neu newid categori ysgol, neu ysgol agos, ac mae'n rhoi pwerau amrywio i awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol ac ysgolion sefydledig a phersonau eraill wneud cynigion o'r fath. Mae'r pwerau hynny'n gymwys i ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig a ariennir gan awdurdod lleol. Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer rheoliadau sy'n pennu sut y caiff y pwerau hyn eu cymhwyso a'r broses i'w defnyddio ar gyfer rhoi'r pwerau hyn ar waith.

3.42 Mae tri darn allweddol o reoliadau -

- Rheoliadau Addysg (Cynigion Trefniadaeth Ysgolion) (Cymru) 1999;
- Rheoliadau Addysg (Ysgolion Arbennig a Gynhelir) (Cymru) 1999;
- Rheoliadau Newid Categori Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2001.

3.43 Mae dau gylchlythyr cyfarwyddyd hefyd:

- Cylchlythyr 9/99 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 - Trefniadaeth Lleodedd Ysgol, sy'n disgrifio'r gweithdrefnau ar gyfer cyhoeddi cynigion a phenderfynu arnynt;
- Cylchlythyr 21/09 Cynigion Trefniadaeth Ysgol, sy'n nodi'r ystyriaethau polisi y mae angen i gynigwyr eu hystyried wrth baratoi cynnig a'r meini prawf y bydd Gweinidogion Cymru yn eu defnyddio wrth benderfynu ar gynigion.

3.44 Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn cynnwys darpariaeth sy'n pennu bod yn rhaid i awdurdodau lleol neu gyrff llywodraethu a hyrwyddwyr eraill, fel y bo'n berthnasol, gyhoeddi eu cynigion a rhoi'r cyfle i unrhyw berson wrthwynebu cynigion o'r fath. Os daw unrhyw wrthwynebiadau i law, mater i Weinidogion Cymru yw penderfynu ar y cynigion. Caiff Gweinidogion Cymru gymeradwyo'r cynigion (ar ôl eu haddasu neu heb eu haddasu) neu cânt eu gwrthod.

3.45 Mae gan Weinidogion Cymru bwerau hefyd o dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 i gyflwyno cynigion i sefydlu addysg ôl-16 mewn ysgolion, i newid yr addysg honno neu i ddod â hi i ben. Mae'r broses ar gyfer cyhoeddi'r cynigion hyn a phenderfynu arnynt yn debyg i'r broses sy'n ymwneud â chynigion a wneir o dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Fe'i pennwyd yn y Rheoliadau Cynigion ar Drefniadaeth Ysgolion gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2004.

3.46 Mae'r broses bresennol ar gyfer newid trefniadaeth ysgolion fel a ganlyn:

- mae'r awdurdod lleol, y corff llywodraethu neu'r hyrwyddwr ("y cynigydd") yn paratoi'r cynnig – gan gasglu gwybodaeth, rhoi sylw i'r prif ystyriaethau a nodir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru, a mynd ati'n anffurfiol i holi barn am y cynnig;
- yn unol â'r hyn sy'n ofynnol o dan y gyfraith, mae'r cynigydd yn ymgynghori â'r grwpiau buddiant allweddol – fel arfer, bydd dogfen ymgynghori'n cael ei chyhoeddi, a chyfarfodydd cyhoeddus yn cael eu cynnal;
- mae'r cynigydd yn dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghori ac yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig ai peidio;
- os yw'n penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig, cyhoeddir hysbysadau sy'n amlinellu'r cynnig ac sy'n caniatáu 1 mis i unrhyw unigolyn neu sefydliad gyflwyno gwrthwynebiad;
- os na ddaw unrhyw wrthwynebiadau i law, mae'r cynigydd yn penderfynu a yw am fwrw ymlaen â'r cynnig ai peidio ac mae ganddo 3 mis i wneud y penderfyniad hwn;
- os daw unrhyw wrthwynebiadau i law, cyfrifoldeb Gweinidogion Cymru yw penderfynu ar y cynnig ac mae gan y cynigydd bythefnos i gyflwyno, i Weinidogion Cymru, ei ymatebion i'r gwrthwynebiadau;
- mae Gweinidogion Cymru yn ystyried y cynnig yn unol â'r ffactorau allweddol a bennir yn y canllawiau ynghyd â'r gwrthwynebiadau, ymatebion y cynigydd, ac asesiad Estyn o ragoriaethau addysgol y cynnig;
- mae Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi'u penderfyniad - fel arfer, rhwng 4 a 6 mis ar ôl cael ymateb y cynigydd i'r gwrthwynebiadau;

- os yw'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, mae dyletswydd gyfreithiol ar y cynigydd i'w weithredu.

3.47 Mae nifer o ganlyniadau negyddol yn deillio o'r system bresennol.

3.48 Ar hyn o bryd, rhaid i bob cynnig sy'n cael ei wrthwynebu gael ei benderfynu gan Weinidogion Cymru. Dros y 5 mlynedd diwethaf, mae hyn, ar gyfartaledd, wedi arwain at 17 cynnig y flwyddyn, ac yn 2009-2010 a 2010-11 y ffigur oedd 22. Gan mai'r awdurdodau lleol, yn hytrach na Llywodraeth Cymru, sy'n gyfrifol am gynllunio a darparu lleoedd mewn ysgolion, bernir mai ar y lefel leol yn hytrach nag ar lefel Gweinidogion Cymru y dylai penderfyniadau gael eu gwneud yn y mwyafrif helaeth o achosion.

3.49 Mae'r broses bresennol sydd ynghlwm â threfniadaeth ysgolion yn cymryd gormod o amser ac mae'r ffaith bod Gweinidogion Cymru yn gysylltiedig â phob cynnig sy'n cael ei wrthwynebu yn ychwanegu lefel ddiangen o fiwrocratiaeth ac weithiau'n achosi oedi sylweddol. Mae oedi o'r fath yn llesteirio'n sylweddol ymdrechion yr awdurdodau lleol i gyflwyno newidiadau a fydd yn arwain at well defnydd o'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer addysg. Mae'r rhan fwyaf o benderfyniadau Gweinidogion Cymru yn cymryd sawl mis, gan ddechrau ar y dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad statudol, ac mewn rhai achosion cymhleth iawn, aeth 6 mis heibio cyn y penderfynwyd ar y cynnig.

3.50 Ar y cyfan, bydd cynigion y cyflwynir gwrthwynebiadau iddynt (hyd yn oed os yw'r rheini, ar y cyfan, yn gymharol ddi-ddadl) yn cymryd o leiaf 6 mis i'w penderfynu, o'r adeg y gwnaed penderfyniad i ymgynghori hyd at yr adeg y bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi eu penderfyniad. Daeth newidiadau cyfyngedig i rym ym mis Mawrth 2011, ac mae'r newidiadau hynny (a gafodd eu gwneud drwy ddiwygio rheoliadau a oedd eisoes yn bod ynghylch gweithdrefnau) yn golygu bod yr amserlen ar gyfer cyflwyno gwrthwynebiadau bellach 6 wythnos yn fyrrach na chynt. Er hynny, bernir bod angen cwtogi mwy ar yr amserlenni, lle nad oes llawer o wrthwynebiad i gynigion.

3.51 Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn amhriodol, a hynny am fod modd i un gwrthwynebydd sydd heb fuddiant uniongyrchol mewn ysgol beri bod cynnig yn cael ei gyfeirio at Weinidogion Cymru. Gall y ddarpariaeth hon arwain at oedi ac at ansicrwydd i rieni ac i blant lleol sydd â chysylltiad uniongyrchol ag ysgol, boed y rheini o blaid neu yn erbyn y newid arfaethedig, ac mae hyn, yn amlwg, yn rhywbeth nad ydym yn dymuno'i weld.

3.52 I gau ysgolion nad oes ganddynt ond ychydig o ddisgyblion neu nad oes ganddynt unrhyw ddisgyblion o gwbl mae angen defnyddio'r un broses ddeddfwriaethol ag, er enghraifft, ar gyfer proses gymhleth o ad-drefnu nifer o ysgolion uwchradd. Bernir nad oes unrhyw gyfiawnhad dros yr angen am broses morfaith yn achos ysgolion nad ydynt bellach yn hyfyw yn addysgol neu'n ariannol. Yn achos yr ysgolion hynny nad oes ynddynt unrhyw ddisgyblion o gwbl, mae'r ffaith ei bod yn ofynnol defnyddio'r un broses gyfreithiol ar eu cyfer hwy ag ar gyfer ysgolion sydd â disgyblion ar y gofrestr, yn golygu bod perygl y bydd anfri'n cael ei ddwyn ar y system gyfan.

3.53 Er bod llawer o awdurdodau lleol yn dda am feithrin cysylltiadau â rhanddeiliaid ac am esbonio'r hyn sydd ganddynt mewn golwg yn glir pan fyddant yn mynd ati i ymgynghori ar gynigion, nid oes digon o fanylion yn y canllawiau statudol presennol i sicrhau cysondeb wrth fynd ati i ymgynghori. At hynny, mae'r rheini sy'n cyflwyno cynigion, ynghyd ag unigolion a chyrrff sydd â buddiant, weithiau'n aneglur ynghylch yr hyn a olygir wrth arferion da a'r hyn y byddai'n rhesymol i bobl leol ei ddisgwyl oddi wrth broses ymgynghori. Byddai Cod y byddai'n rhaid i hyrwyddwyr gydymffurfio ag ef, ac y byddai ynddo set o ofynion ymgynghori sylfaenol, yn helpu i sicrhau eglurder ac i ennyn hyder yn y broses.

3.54 Mae'r Bil yn diddymu gwahanol elfennau o'r ddeddfwriaeth bresennol ar drefniadaeth ysgolion yng Nghymru ac yn rhoi un fframwaith deddfwriaethol cynhwysfawr yn eu lle. Mae llawer o'r ddeddfwriaeth bresennol wedi'i haildatgan, ar ffurf wahanol, lle barnwyd bod hynny'n briodol at ddibenion eglurder neu symylrwydd. Bwriedir i'r trefniadau hyn adlewyrchu'r effaith a gaiff y cynigion mewn ardal drwy sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar lefel briodol, yn unol â faint o bryder a fynegir gan y rheini y mae'r cynnig i ad-drefnu ysgolion mewn ardal yn ymwneud yn bennaf â hwy. Bydd hyn yn sicrhau bod y mwyafrif helaeth o gynigion yn cael eu penderfynu ar lefel leol, ac mewn sawl achos dylai'r broses fod lawer yn gynt.

3.55 Yn benodol, mae'r Bil yn cyflwyno'r newidiadau sylweddol canlynol i'r modd y caiff cynigion ynghylch trefniadaeth ysgolion eu penderfynu:

- Drwy'r Bil, bydd modd cyflwyno Cod statudol i ymdrin ag ymgynghori a threfniadau eraill, a hwnnw'n seiliedig ar yr arfer gorau. Mantais llunio Cod yw y byddai dogfen o'r fath yn gallu esbonio'r gyfraith yn glir, gan wneud hynny mewn ffordd a fyddai'n hwylus i'r hyrwyddwyr ac i'r cyhoedd, gan hybu dealltwriaeth a hyrwyddo cydymffurfiaeth. Bydd yn gosod safonau ar gyfer cydymffurfiaeth, a byddai gofyn cydymffurfio â'r rheini. Ar hyn o bryd, dim ond "ystyried" y canllawiau statudol y mae'n rhaid i hyrwyddwyr ei wneud. Byddai cyflwyno Cod y byddai'n rhaid i hyrwyddwyr gydymffurfio ag ef yn ffordd fwy grymus o sicrhau bod hyrwyddwyr yn dilyn y gweithdrefnau cywir. Rhagwelir y bydd y Cod drafft ynghylch trefniadaeth ysgolion yn cael ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, yn ddarostyngedig i gymeradwyo'r Bil, yn fuan ar ôl derbyn Cydsyniad Brenhinol. Disgwylir y bydd darpariaethau'r Ddeddf, gofynion y Cod a'r canllawiau statudol yn dod i rym yn ystod hydref 2013, ac y byddant yn gymwys i unrhyw gynnis sy'n ymwneud â threfniadaeth ysgolion a gyhoeddir ar ôl y dyddiad hwnnw.
- Yn hytrach na sefyllfa lle mae pob cynnig a wrthwynebir yn cael ei gyfeirio at Weinidogion Cymru, yr unig gynigion a gyfeirir atynt fydd y cynigion hynny y derbynir gwrthwynebiad iddynt gan awdurdod lleol (neu yn achos ysgol ag iddi gymeriad crefyddol, y corff crefyddol perthnasol) neu gynigion sy'n ymwneud yn unig â dileu neu sefydlu darpariaeth chweched dosbarth (yn unol â chyfrifoldebau statudol Gweinidogion Cymru mewn perthynas â darpariaeth addysg ôl-16 a'r cyllid perthnasol).

- Bydd cynigion a gaiff o leiaf 1 gwrthwynebiad gan y personau canlynol yr effeithir arnynt: corff llywodraethu'r ysgol, cyngor yr ysgol, Sefydliadau Addysg Bellach (yn achos ysgolion uwchradd), y corff crefyddol perthnasol ar gyfer yr ysgol, Aelod Cynulliad neu Aelod Seneddol, neu gan 10 neu ragor o bobl sydd â buddiant uniongyrchol yn yr ysgol (gan gynnwys disgyblion, rhieni a staff), yn cael eu cyfeirio at banel dyfarnu lleol (PDLI) - cyrff a sefydlwyd ar lefel yr awdurdod lleol yn benodol at y diben hwn. Bydd y cyrff hyn yn cynnwys pum person a fydd naill ai'n aelodau o'r awdurdod lleol a heb gysylltiad blaenorol â'r cynnig, neu'n bersonau lleyg annibynnol. Y panel dyfarnu lleol, yn unol â'r Cod, fyddai'n penderfynu a ddylid caniatáu i'r cynnig fynd rhagddo ai peidio, a chyhoeddi ar ba sail y gwnaeth ei benderfyniad. Byddent yn lefel ychwanegol o graffu ar lefel leol gan unigolion a fyddai'n gyfarwydd â'r amodau lleol.
- Bydd cynigion heb wrthwynebiadau, neu gynigion heb lefel ddigonol o wrthwynebiad i gyfeirio'r cynnig at Weinidogion Cymru neu'r Paneli Dyfarnu Lleol, yn cael eu penderfynu gan y cynigwyr.
- Yn achos ysgol sydd â llai na 10 disgybl ar y gofrestr, bydd y broses o'i chau yn fyrrach. Ni fydd angen ymgynghori cyn cyhoeddi hysbysiadau statudol, a chaiff y mater ei benderfynu gan y cynigydd, boed gwrthwynebiadau wedi dod i law ai peidio.

3.56 Mae'r Bil hefyd yn pennu'r mathau o newidiadau i ysgolion a fydd yn golygu bod angen cyhoeddi cynigion. Seiliwyd y rhain, i raddau helaeth, ar y rheoliadau presennol. Serch hynny, yn y dyfodol, bydd modd i awdurdod lleol gynnig gostwng maint ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol heb gymeriad crefyddol, yn ogystal â chynyddu ei maint.

3.57 Diben y darpariaethau yn y Bil hwn ynghylch trefniadaeth ysgolion yw llunio dull cydlynus o weithredu, a byddant yn cyflawni'r amcanion polisi canlynol:

- mwy o benderfyniadau ad-drefnu yn cael eu gwneud yn lleol;
- llai o gynigion y byddai angen i drydydd parti benderfynu arnynt am fod gwrthwynebiadau wedi dod i law;
- lle mae angen trydydd parti i benderfynu ar gynigion, proses sydd lawer yn gynt ac sy'n cael ei chynnal ar lefel leol yn bennaf;
- proses ymgynghori a phenderfynu sy'n cael ei chymhwyso'n gyson, sy'n cael ei deall yn llwyr ac sy'n ennyn hyder ac ymddiriedaeth y cyhoedd;
- casglu ynghyd, mewn un man, yr holl gyfraith sylwedd sy'n ymwneud ag ad-drefnu ysgolion yng Nghymru.

3.58 Pan fo angen ad-drefnu ysgolion er mwyn gwneud y gorau o gyfleoedd dysgu ac er mwyn gwella ansawdd y ddarpariaeth a chreu system o ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif, bydd y darpariaethau, ar y cyfan, yn sicrhau bod hynny'n digwydd mewn ffordd fwy effeithlon ac effeithiol. Wrth wneud hynny, bydd y cynigion yn helpu i sicrhau'r addysg orau bosibl i blant.

3.59 Gallai methu â deddfu yn y maes hwn olygu bod sefyllfa yn parhau lle y mae Gweinidogion Cymru yn penderfynu ynghylch cyfran uchel o gynigion yn ymwneud â threfniadaeth ysgolion. Cred Llywodraeth Cymru fod hyn yn amhriodol a'i bod hi lawer yn fwy priodol fod y materion hyn yn cael eu datrys yn lleol. Ymhellach, mae'n golygu y gallai cynigion nad oes llawer o wrthwynebiad lleol iddynt, neu gynigion sy'n golygu cau ysgolion heb lawer o ddisgyblion neu ddim o gwbl, wynebu hir oedi diangen. Yn olaf, byddai'n golygu nad oes modd cyflwyno Cod ynghylch Trefniadaeth Ysgolion. Gallai'r Cod hwn gael ei ddefnyddio ar gyfer sefydlu arferion da a sicrhau cysondeb ar draws Cymru.

3.60 Yn ddarostyngedig i sylwadau'r Cynulliad a chymeradwyo'r Bil, rhagwelwn y byddai'r rheoliadau'n dod i rym ym mis Medi 2013.

Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg

3.61 Mae'r *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg*¹ a'r rhaglen weithredu atodol yn amlinellu'r cyfeiriad strategol cenedlaethol ar gyfer gwella statws addysg cyfrwng Cymraeg a'r modd y caiff ei chynllunio. Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw cael system addysg a hyfforddiant sy'n ymateb mewn ffordd wedi'i chynllunio i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg, sy'n cyrraedd ein cymunedau amrywiol ac yn eu hadlewyrchu ac sy'n sicrhau cynnydd yn nifer y bobl o bob oedran a chefnidir sy'n rhugl yn y Gymraeg ac sy'n gallu defnyddio'r iaith gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle.

3.62 Mae'r Strategaeth yn cynnwys targedau pum mlynedd a thargedau deng mlynedd er mwyn sicrhau:

- a. bod mwy o blant 7 oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg;
- b. bod mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd;
- c. bod mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg;
- d. bod mwy o ddysgwyr rhwng 16 ac 19 yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg; a
- e. bod mwy o ddysgwyr â sgiliau lefel uchel yn y Gymraeg.

3.63 Dangosodd y dystiolaeth a gasglwyd wrth baratoi'r fersiwn drafft o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ac wrth ymgynghori yn ei chylch yn 2009 pa mor dameidiog oedd natur y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a'r ddarpariaeth ddwyieithog ar draws Cymru. Dangosodd y dystiolaeth nad oes cynllunio cadarn a systematig ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg ym mhob ardal awdurdod lleol. Roedd y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn cydnabod, ar sail y dystiolaeth, bod angen "*gwaith cynllunio strategol er mwyn hwyluso twf a sicrhau y ceir datblygiad mwy cydlynol ac y caiff anghenion eu hystyried ar ddechrau'r broses o ddatblygu polisiau mewn ffordd gydgyssylltiedig.*"

¹ Llywodraeth Cymru (2010) *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* – ar gael yn <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/welshmededstrat/?jsessionid=Yc11PjYS0hG35WHQvZD8fxTlydmwqGFnkP5vz0MtT6wS82vOfZ4J!275472671?lang=cy>

3.64 Ym mis Rhagfyr 2011, cyflwynodd awdurdodau lleol eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg cyntaf i Lywodraeth Cymru, gan amlinellu sut y bydd pob awdurdod yn cyflawni'r canlyniadau a'r targedau a bennir yn y Strategaeth. Bydd y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (sy'n anstatudol ar hyn o bryd) yn gyfrwng i Lywodraeth Cymru fonitro'r modd y mae awdurdodau lleol yn ymateb ac yn cyfrannu at weithredu amcanion y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Caiff Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg eu hystyried fel dogfennau cwbl allweddol ar gyfer creu gwell system gynllunio ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg drwy:

- sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg yn ganolog i ystyriaethau cynllunio'r awdurdodau lleol;
- cynllunio ar gyfer ymestyn y ddarpariaeth lle bo angen;
- ad-drefnu'r gwasanaeth cymorth drwy wyro oddi wrth rolau traddodiadol yr *athrawon bro*², a datblygu gwasanaeth hyfforddi a mentora o'r newydd;
- sicrhau y gellir cyflawni gwasanaethau cymorth cyfrwng Cymraeg ar sail consortia yn y dyfodol agos;
- gwella safonau ac ehangu defnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg; a
- dangos cynnydd o ran y mesurau lleol y cytunwyd arnynt gydag awdurdodau lleol, gan adlewyrchu'r targedau penodol yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

3.65 Bwriedir i'r gweithgarwch a wneir gan awdurdodau lleol, ysgolion a darparwyr dysgu eraill, o fewn cwrdd y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, gyfrannu at gyflawni canlyniadau allweddol y Strategaeth (a amlinellir ym mharagraff 3.62) ynghyd â'r ddau ganlyniad canlynol, a gyflwynir yn y Canllawiau presennol ynghylch y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg:

- gwell darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol; a
- gwell proses o gynllunio'r gweithlu a mwy o gyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus.

3.66 Nid oes cynllunio cadarn a systematig ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg ym mhob ardal awdurdod lleol.

3.67 Mewn ymgais i greu dull ffurfiol o gynllunio, mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi bod yn defnyddio'i bwerau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi Cynlluniau Addysg Gymraeg. Mae'r Cynlluniau Addysg Gymraeg yn canolbwyntio, i raddau helaeth, ar sicrhau bod digon o leoedd ar gyfer plant y mae eu rhieni yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg ar eu cyfer.

3.68 Serch hynny, er gwaethaf y ffaith bod y Cynllun Addysg Gymraeg wedi'i gyflwyno ac wedi'i ddefnyddio, mae'r materion sydd ynghlwm â chynllunio annigonol yn parhau'n berthnasol. Er bod sail statudol i'r Cynlluniau Addysg Gymraeg, nid

² Mae'r gwasanaeth Athrawon Bro yn dîm arbenigol o athrawon Cymraeg sy'n gweithio mewn ysgolion a chydag athrawon

ydynt wedi sbarduno digon o newid, a hynny'n bennaf oherwydd eu gwendidau. Dyma'r gwendidau pennaf:

- a. cawsant eu cyflwyno fel rhan o gynllun iaith cyffredinol yn hytrach na thrwy ddeddfwriaeth fel cynlluniau addysgol penodol;
- b. Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, sef Bwrdd yr Iaith Gymraeg, sydd wedi cytuno arnynt ac nid ydynt wedi'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru;
- c. nid oes cysylltiad rhyngddynt â'r targedau cenedlaethol;
- d. nid ydynt yn ddigon hyblyg i ymdopi â datblygiadau newydd ym maes polisi addysg.

3.69 Yn ogystal, daeth llawer o'r Cynlluniau Addysg Gymraeg gwreiddiol i ben ar ôl eu cyfnod gwreiddiol gan fod yr awdurdodau lleol yn araf yn paratoi ac yn cyflwyno'r cynlluniau diwygiedig.

3.70 O fis Ebrill 2012 bydd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn diddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg, ymysg materion eraill. O'r herwydd, ni fydd y Cynllun Addysg Gymraeg yn bodoli mwyach.

3.71 Roedd systemau cynllunio eraill hefyd yn ceisio sicrhau bod y gwaith o gynllunio'r ddarpariaeth addysgol cyfrwng Gymraeg yn fwy trylwyr. Er enghraifft, mae Deddf Plant 2004 yn pennu bod yn rhaid i Gynlluniau Plant a Phobl Ifanc gael eu paratoi. Roedd y canllawiau atodol ar gyfer y cynlluniau hyn yn pennu y dylai awdurdodau lleol *"amlinellu yn eu Cynllun Plant a Phobl Ifanc eu bwriadau mewn perthynas â'r ddarpariaeth o wasanaethau cyfrwng Gymraeg"*. Eto i gyd, ni chafodd llawer iawn o fanylion eu cynnwys yn unol â'r gofyniad hwn mewn gwirionedd o fewn llawer o'r cynlluniau a gyflwynwyd gan yr awdurdodau lleol oherwydd natur eang cynlluniau o'r fath.

3.72 Ar y cyfan, ceisio dal i fyny y mae'r awdurdodau lleol; ceisio canfod a dyrannu'r adnoddau angenrheidiol ar gyfer digon o leoedd cyfrwng Gymraeg mewn dull ad hoc y maen nhw. Gyda rhai eithriadau, mae'n amlwg fod yr agweddau penodol ar gynllunio effeithiol yn fregus, os nad yn absennol.

3.73 Mae'r Bil yn ceisio adeiladu ar y Cynlluniau Strategol Gymraeg mewn Addysg presennol sydd ar ffurf anstatudol drwy roi sail statudol iddynt. Bydd y Bil yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ymgynghori ynghylch Cynllun Strategol Gymraeg mewn Addysg, ei baratoi a'i gyhoeddi i'w gyflwyno i Weinidogion Cymru, ei gymeradwyo a'i fonitro. Cynlluniau 3 blynedd fydd y rhain a byddant yn cael eu hadolygu bob blwyddyn.

3.74 Mae'n rhaid i bob Cynllun Strategol Gymraeg mewn Addysg gynnwys:

- cynigion yr awdurdod lleol ynghylch sut y bydd yn cyflawni ei swyddogaethau addysg, gan wella'r modd y cynllunnir y ddarpariaeth o addysg cyfrwng Gymraeg yn ei ardal, ynghyd â'r safonau a'r addysgu;
- targedau'r awdurdod lleol ar gyfer gwella'r ddarpariaeth o addysg cyfrwng Gymraeg, y safonau a'r addysgu; ac

- adroddiad ar hynt y gwaith o fodloni targedau a amlinellwyd mewn cynlluniau blaenorol.

3.75 Mae'n rhaid i'r cynllun gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru a allai ei gymeradwyo (gydag addasiadau neu hebddynt) neu ei wrthod, gan baratoi cynllun arall yn ei le.

3.76 Mae'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau ynghylch Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, fel y gellir gwneud darpariaeth bellach ynghylch:

- ffurf a chynnwys cynllun;
- amseriad a hyd cynllun;
- cadw golwg ar gynllun a'i ddiwygio;
- ymgynghori yn ystod y broses o lunio cynllun;
- cyflwyno cynllun i gael ei gymeradwyo;
- pryd a sut i gyhoeddi cynllun.

3.77 Bydd rheoliadau hefyd yn pennu'r modd y caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol asesu'r galw ymhlith rhieni yn ei ardal am addysg cyfrwng Cymraeg ynghyd â'r amgylchiadau perthnasol.

3.78 Yn ogystal â'r canlyniadau a ddisgwylir yn sgil cyflawni'r Strategaeth (a chanlyniadau ychwanegol y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg), rydym yn disgwyl y bydd y cynigion o fewn y Bil yn arwain at:

- sefydlu gwell system gynllunio gan yr awdurdodau lleol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg. Prif ganlyniad hynny fyddai rhagor o gydlynw a chysondeb o ran darparu lleoedd cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion er mwyn diwallu'r angen neu'r galw a ragamcenir ym mhob ardal ac ar draws rhanbarthau;
- sefyllfa a fyddai'n golygu mai'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg fyddai'r prif ddull o fwrw ymlaen â'r cyfeiriad strategol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a bod yn atebol i Weinidogion Cymru;
- cyhoeddi data ac adroddiadau blynyddol rheolaidd gan yr awdurdodau lleol am gynnyddyn unol â'r targedau cenedlaethol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg;
- mwy o gyfleoedd i ddysgwyr fanteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg;
- mwy o ddysgwyr â sgiliau iaith uwch yn y Gymraeg.

3.79 Os na chaiff Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg sail statudol, ni fyddai unrhyw ffordd effeithiol o orfodi awdurdodau lleol i baratoi a gweithredu Cynllun. Felly, mae'r agwedd ddarniog ac ymatebol at gynllunio a sicrhau darpariaeth yn debygol o barhau. Yn ogystal, byddai system gynllunio statudol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg (Cynlluniau Addysg Gymraeg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993) yn cael ei disodli gan system heb iddi sail statudol.

3.80 Yn ddarostyngedig i farn y Cynulliad a chymeradwyo'r Bil, rydym yn rhagweld y byddai'r rheoliadau yn dod i rym ym mis Rhagfyr 2013, ac y byddai'n ofyniad

statudol i awdurdodau lleol gyflwyno Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg i'w gweithredu o 1 Ebrill 2014, yn unol â'r rheoliadau.

Cyfarfodydd Blynyddol Rhieni

3.81 Lle mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod prosesau beichus neu ddianghenraid mewn ysgolion, cânt eu diddymu neu eu newid i fodloni'r ymrwymiad ynghylch adnoddau rheng flaen ychwanegol.

3.82 Mae'r rheidrwydd sydd ar gyrff llywodraethu ar hyn o bryd i gynnal cyfarfod blynyddol rhieni yn broses feichus a dianghenraid ym marn Llywodraeth Cymru. Er ei bod yn bwysig bod gan rieni hawl i gyfarfod â chorff llywodraethu eu hysgol a'u bod yn gallu arfer yr hawl honno, mae'r rheidrwydd i drefnu cyfarfod o'r fath bob blwyddyn, hyd yn oed lle nad oes angen cyfarfod o'r fath neu lle nad oes braidd neb yn ei fynychu, yn cael ei ystyried yn faich ar gyrff llywodraethu.

3.83 Mae Llywodraeth Cymru, ers sawl blwyddyn bellach, wedi cael sylwadau gan randdeiliaid yn gofyn am ddiddymu'r cyfarfod blynyddol rhieni, am yr union resymau hyn.

3.84 Serch hynny, mae rhieni'n rhanddeiliaid allweddol yng nghymuned yr ysgol ac mae ganddynt fuddiant amlwg a chryf yn addysg eu plant, ac felly byddai'n amhriodol diddymu'n llwyr hawl rhieni i gyfarfod â llywodraethwyr yr ysgol. Mae Llywodraeth Cymru felly'n ymroddedig i sicrhau bod cyrff llywodraethu yn meithrin perthynas â rhieni ac yn atebol iddynt, drwy roi gwybodaeth iddynt a chyfleoedd i drafod a chyfrannu at y modd y caiff ysgolion eu rhedeg.

3.85 Ar hyn o bryd mae sawl ffordd o gynnwys y rhieni. Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion roi adroddiad blynyddol i rieni. Mae'r adroddiad blynyddol yn cynnwys adroddiadau cymharol am berfformiad ar ddiwedd yr asemiadau Cyfnodau Allweddol a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru, ffigurau presenoldeb ac absenoldeb, a gwybodaeth am y cwricwlwm a threfniadaeth yr ysgol a'i dulliau addysgu.

3.86 Yn ogystal, mae gofyn i benaethiaid roi adroddiad i rieni ar gynnydd eu plentyn gan gynnwys manylion am gyflawniad a chynnydd eu plentyn ym mhob maes dysgu. Hefyd, mae'n ofynnol i ysgolion baratoi llawlyfr ysgol sy'n rhoi gwybodaeth gyffredinol i rieni am yr ysgol, megis nifer y disgyblion, polisïau a gwybodaeth am berfformiad. Yn ogystal â'r wybodaeth ysgrifenedig hon, mae'n ofynnol hefyd i gyrff llywodraethu gynnal cyfarfod blynyddol ar gyfer rhieni y disgyblion cofrestredig. Diben y cyfarfod hwnnw yw rhoi cyfle i rieni drafod gyda'r llywodraethwyr y modd y caiff yr ysgol ei rhedeg neu'r modd y bydd yn cael ei rhedeg, neu i drafod unrhyw fater arall sy'n ymwneud â'r ysgol.

3.87 Yn ogystal â'r gofynion statudol hyn, bydd ysgolion hefyd yn trefnu 'nosweithiau' anffurfiol lle caiff rhieni/gofalwyr gyfarfod â rhai o'r staff i drafod cynnydd eu plentyn.

3.88 Yn y rheoliadau sy'n ymwneud â'r Cyfarfod Blynyddol Rhieni mae rhywfaint o hyblygrwydd ynghylch yr adeg y dylid cynnal y cyfarfod yn ystod y flwyddyn ysgol,

ond y corff llywodraethu sy'n pennu dyddiadau'r cyfarfod ac efallai na fydd yn amserol nac yn fanteisiol i rieni a allai fod â mater penodol yr hoffent ei drafod â'r corff llywodraethu ar adeg gwahanol. Mae'n bosibl y bydd y cyfarfod blynyddol rhieni yn cael ei drefnu yn nes ymlaen yn y flwyddyn ysgol ac felly gallai'r mater dan sylw ac unrhyw drafodaethau golli eu heffaith oherwydd hynny.

3.89 Mae'r cyfarfod blynyddol rhieni yn golygu ymrwymiad amser gan y llywodraethwyr, ynghyd â staff yr ysgol sydd hefyd yn llywodraethwyr, a chlerc y corff llywodraethu sy'n cadw cofnodion. Gallai fod angen i rywun arall roi ei amser hefyd, fel gofalwr i drefnu'r ystafell ac i wneud trefniadau ymarferol eraill.

3.90 Yn ôl yr wybodaeth a gafodd Llywodraeth Cymru tybir bod mwy o riant-llywodraethwyr yn mynychu'r cyfarfod blynyddol na rhieni. Mae tystiolaeth yn dangos bod rhieni, am ba bynnag reswm, yn ddi-hid o waith y corff llywodraethu a'u bod yn barnu ysgol yn ôl profiadau'r plant yn hytrach na phethau mwy haniaethol, fel y materion a gynhwysir yn adroddiad blynyddol y llywodraethwyr neu faterion rhedeg cyffredinol yr ysgol.

3.91 Fodd bynnag, pan fyddant yn mynychu'r cyfarfodydd hyn, mae'n gyfle i'r corff llywodraethu drafod materion gyda'r rhieni a chael eu safbwyntiau. Mae hefyd yn rhoi llais cryfach iddynt a dylanwad uniongyrchol ar yr hyn sy'n digwydd yn yr ysgol a'r hyn y mae'r ysgol yn ei wneud er budd rhieni a disgyblion.

3.92 Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried sefyllfa'r Cyfarfodydd Blynyddol Rhieni yn ofalus. Er ei bod yn bwysig bod rhieni yn medru cyfarfod â'r corff llywodraethu, y mae'r un mor bwysig bod y cyfarfodydd hynny'n amserol a bod y rhieni yn awyddus i'w cael. O dan y trefniadau cyfredol nid felly y mae hi, ac er mwyn ymateb i hyn mae'r Bil yn cynnig y canlynol:

- byddai angen i rieni 10% o ddisgyblion cofrestredig mewn ysgol uwchradd neu rieni 30 disgybl cofrestredig, pa un bynnag yw'r isaf, neu rieni 10% o ddisgyblion cofrestredig mewn ysgol gynradd neu rieni 10 disgybl cofrestredig, pa un bynnag yw'r isaf, ofyn i Gadeirydd y Llywodraethwyr am gyfarfod rhieni.
- Ar ôl derbyn cais byddai gofyn i'r corff llywodraethu ysgrifennu at bob rhiant yn eu hysbysu bod cyfarfod i gael ei gynnal ar ddiwrnod penodol i drafod materion yn ymwneud â'r ysgol.
- Bydd gofyn i'r corff llywodraethu roi cyhoeddusrwydd i'r trefniadau newydd yn llawlyfr yr ysgol, a'i gwneud yn glir y caiff rhieni ofyn am hyd at dri chyfarfod y flwyddyn.
- Bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi canllawiau statudol ar y cynigion hyn.

3.93 Mantais y cynigion hyn yw na fyddai ymrwymiad, yn groes i'r sefyllfa bresennol, ar gyrff llywodraethu i drefnu cyfarfod gyda rhieni oni bai bod y rhieni wedi gofyn am gyfarfod o'r fath ac y cafwyd cworwm o rieni. Ar sail y dystiolaeth gyfredol a gafwyd yn y trafodaethau gyda swyddogion awdurdodau lleol a'r ohebiaeth a ddaeth

i law, mae'n debygol y bydd llawer o ysgolion na chânt gais am gyfarfod o'r fath. Ond mewn ysgolion lle mae mater pwysig i'w drafod fel colli swyddi neu broblemau'n ymwneud ag arweinyddiaeth a staff, byddai'r ddarpariaeth hon yn ei gwneud yn bosibl i rieni drafod sut y mae'r amgylchiadau hyn yn effeithio ar addysg eu plant a hynny ar yr adeg pan fyddant fwyaf perthnasol.

3.94 Gallai methu â deddfu yn y maes hwn olygu parhau â'r system gyfredol ar gyfer cyrff llywodraethu, sef gorfod cynnal neu drefnu cyfarfod bob blwyddyn. Byddai hefyd yn golygu na fydd rhieni bob amser yn cael cyfle amserol a/neu gyfnod digon hir i drafod materion sy'n achosi pryder gyda llywodraethwyr yr ysgol.

3.95 Nid yw'r system gyfredol, ar ei ffurf bresennol, yn gwneud defnydd effeithiol o amser rhieni na llywodraethwyr. Bydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn gyfle i'r rhieni gael trafodaeth gyda'r llywodraethwyr ysgol ar yr adeg briodol. Hefyd, pe byddai corff llywodraethu yn dal i fod yn awyddus i ymgysylltu â'r rhieni fel y maent yn ei wneud ar hyn o bryd, gallent barhau i wneud hynny.

Lleihau Biwrocratiaeth

3.96 Nod y cynigion canlynol yn y Bil yw lleihau biwrocratiaeth, symleiddio prosesau a rhoi mwy o hyblygrwydd.

3.97 Cwblhawyd yr Adolygiad o Adnoddau Rheng Flaen ym mis Mehefin 2011. Diben yr adolygiad oedd lleihau'r baich gweinyddol yn y system addysg, er mwyn rhyddhau arian fel y gallai'r rheng flaen gyflawni. Awgrymodd Adroddiad Flwyddyn yn Ddiweddarach yr Adolygiad o Adnoddau Rheng Flaen y gellid cyfuno rhai grantiau penodol, ac argymhellodd hefyd fod mwy o waith cyffredinol yn cael ei wneud i symleiddio'r system grantiau a throsglwyddo rhai grantiau i'r Grant Cynnal Refeniw fel y bo'n briodol.

3.98 Yn y 'Protocol ar Arian wedi'i Neilltuo' rhwng Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru nodir mai ond am gyfnod penodol y disgwylir i grantiau sydd wedi'u neilltuo fod ar gael, a hynny tra bo gwasanaethau newydd yn cael eu trefnu. Byddai'r arian, gydag amser, yn symud i'r Grant Cynnal Refeniw.

3.99 Yn unol â'r ymrwymiad i symleiddio a lleihau biwrocratiaeth, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i drosglwyddo dwy elfen o'r cyllid grant penodol, sef darparu brechwast am ddim mewn ysgolion a chwmsela mewn ysgolion, i'r Grant Cynnal Refeniw. Mae'r cyllidebau hyn yn seiliedig ar alw ac ar hyn o bryd mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru asesu'n barhaus wariant pob un o'r 22 awdurdod lleol yn y maes hwn, a gwneud taliadau blynyddol ar sail hyn. Drwy reoli'r cyllid ar lefel leol, byddai awdurdodau lleol yn medru gweld faint o alw sydd mewn ysgolion unigol a gwneud penderfyniadau'n seiliedig ar wybodaeth leol.

Cwmsela Mewn Ysgolion

3.100 Ar ôl cyhoeddi'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Cwmsela mewn Ysgolion yn 2008, mae gwasanaethau cwmsela wedi'u sefydlu ym mhob ardal awdurdod lleol. Ar hyn o bryd mae gwasanaeth cwmsela ar gael ym mhob ysgol uwchradd ac mae'n cael ei reoli gan yr awdurdod lleol. Diben y gwasanaeth yw cefnogi pob person ifanc

sy'n cael addysg uwchradd, a hefyd ddisgyblion ym mlwyddyn olaf eu haddysg gynradd, boed yn ddisgyblion cofrestredig mewn ysgol ai peidio.

3.101 Mae cwnsela yn un o amryw o wasanaethau sy'n helpu i gefnogi anghenion iechyd, anghenion emosiynol ac anghenion cymdeithasol disgyblion gan arwain at ddiwylliant ysgol iach. Gall medru manteisio ar wasanaeth cwnsela hwylus mewn da bryd mewn ysgolion atal problemau iechyd meddwl rhag datblygu neu fynd yn fwy difrifol. Gall hefyd feithrin ymddiriedaeth a hyder fel y gall cleientiaid gael gwasanaethau mwy arbenigol lle bo angen hynny. Mae'r gwasanaeth cwnsela ar gael mewn ysgolion uwchradd ac i'r rheini ym mlwyddyn olaf eu haddysg gynradd.

3.102 Argymhellodd y gwerthusiad annibynnol o'r Strategaeth Cwnsela mewn Ysgolion, Gorffennaf 2011 (Ymchwil Gymdeithasol: Dogfen Rhif 23/2011) fod Llywodraeth Cymru yn ystyried cyflwyno'r Strategaeth i bob disgybl sy'n cael addysg gynradd (blwyddyn 5 ac is) ar ffurf sy'n addas i'w hoedran. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried cwnsela mewn ysgolion cynradd (blwyddyn 5 ac is).

3.103 Er mwyn medru cyflawni bwriad polisi Llywodraeth Cymru wrth drosglwyddo'r grant cyllid penodol i'r Grant Cynnal Refeniw, bydd y Bil yn gwneud y ddarpariaeth ganlynol:

- bydd gofyn i awdurdodau lleol wneud darpariaeth resymol i ddarparu gwasanaeth cwnsela annibynnol ar gyfer disgyblion sy'n cael addysg uwchradd neu ddisgyblion ym mlwyddyn 6 addysg gynradd mewn ysgol yn ei ardal, personau eraill 11 - 18 oed sy'n perthyn i ardal yr awdurdod, a phersonau eraill sy'n cael addysg gynradd yn ôl fel y caiff Gweinidogion Cymru ei bennu mewn rheoliadau.
- rhaid i'r gwasanaeth cwnsela fod yn annibynnol ar yr ysgol sy'n darparu addysg i'r person ifanc sy'n cael ei gwnsela.
- caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau mewn perthynas â chwnsela mewn ysgolion y mae'n rhaid i awdurdodau lleol dalu sylw iddynt.
- bydd gofyn i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaeth cwnsela ar safle pob ysgol a gynhelir ganddynt sy'n darparu addysg uwchradd. Cânt ddarparu gwasanaethau cwnsela ychwanegol mewn mannau eraill os dymunir hynny.
- caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaeth cwnsela annibynnol mewn mannau eraill. Er enghraifft, i'w gwneud yn ofynnol bod gwasanaeth cwnsela yn cael ei ddarparu ar safle ysgol gynradd.
- caiff Gweinidogion Cymru ofyn i'r awdurdod lleol am wybodaeth am y gwasanaeth cwnsela;

3.104 Bydd dyletswyddau ar awdurdodau lleol o fewn y Bil i sicrhau bod pobl ifanc sy'n cael addysg uwchradd ac addysg ym Mlwyddyn 6 ysgolion cynradd yn parhau i gael y math yma o gefnogaeth o fewn fframwaith o arfer diogel ac effeithiol. Bydd y

gwasanaeth yn parhau i fod ar gael i bob person ifanc 11-18 oed ni waeth pa fath o ysgol y maent yn ei mynychu neu boed hwy'n mynychu ysgol ai peidio. Felly, bydd yn cynnwys y rheini sy'n mynychu darpariaeth y tu allan i'r ysgol, y rheini a addysgir gartref a'r rheini a addysgir mewn ysgolion annibynnol. Bydd hyn hefyd yn cynnwys myfyrwyr addysg bellach nad ydynt efallai'n medru cael gwasanaethau cwnsela drwy eu darparwr addysg bellach.

3.105 Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth hefyd i Weinidogion Cymru roi effaith i unrhyw fwriad polisi yn y dyfodol i estyn y darpariaethau cwnsela i categorïau eraill o bersonau, er enghraifft disgyblion cynradd ym mlwyddyn 5 ac is.

3.106 Gallai methu â deddfu yn y maes hwn olygu bod y grantiau hyn yn cael eu trosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw heb fod y dyletswyddau angenrheidiol yn cael eu gosod ar yr awdurdodau lleol. Bydd y dyletswyddau hyn yn helpu i sicrhau y bydd y fenter brechwast am ddim mewn ysgolion cynradd a'r gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion yn parhau. Heb ddeddfwriaeth i ategu hyn, mae perygl y gallai awdurdodau lleol benderfynu peidio â pharhau â'r rhaglenni hyn; lleihau'r gweithgarwch; neu yn achos brechwast, peidio â gadael i unrhyw ysgolion eraill gymryd rhan. Byddai hyn yn cael effaith negyddol ar allu plant a phobl ifanc i fanteisio ar y ddarpariaeth yn y meysydd hyn a chael budd ohoni.

Y Fenter Brechwast am Ddim Mewn Ysgolion Cynradd

3.107 Cyflwynwyd y fenter brechwast am ddim mewn ysgolion cynradd ym mis Medi 2004 a chafodd ei chyflwyno'n raddol i bob awdurdod lleol. Gwahoddwyd pob ysgol i gymryd rhan yn y cynllun erbyn Ionawr 2007. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i ddarparu brechwast iach am ddim yn yr ysgol bob dydd i bob disgybl oedran cynradd sydd wedi'i gofrestru mewn ysgol gynradd a gynhelir yng Nghymru, gan roi'r dechrau gorau posibl iddynt i'r diwrnod.

3.108 O gofio fod mwyafrif helaeth yr ysgolion sydd am gymryd rhan eisoes wedi cofrestru (ar hyn o bryd mae 71% yn rhan o'r cynllun) mae nifer yr ysgolion ychwanegol sy'n dewis ymuno wedi gostwng yn raddol ers 2007-08. Disgwylir i hyn barhau ac felly mae'n fwriad gan Lywodraeth Cymru i drosglwyddo'r cyllid grant penodol i'r Grant Cynnal Refeniw. Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru yn parhau'n ymrwymedig i'r fenter brechwast am ddim; felly bydd y Bill yn cynnig y canlynol:

- y bydd gofyn i awdurdodau lleol ddarparu brechwast am ddim ar bob diwrnod ysgol mewn ysgol gynradd a gynhelir ganddo, os bydd corff llywodraethu'r ysgol wedi gwneud cais ysgrifenedig am frechwast, ac os oes 90 diwrnod wedi mynd heibio ers i'r awdurdod lleol dderbyn y cais. Bydd y cyfnod o 90 diwrnod yn rhoi digon o amser i'r awdurdod lleol drefnu'r ddarpariaeth.
- ni fydd dyletswydd yr awdurdod lleol i ddarparu brechwast yn gymwys (neu bydd yn dod i ben) os yw'r corff llywodraethu wedi gofyn i'r awdurdod lleol roi'r gorau i ddarparu brechwast, neu os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu y byddai'n afresymol darparu brechwast, neu barhau i'w ddarparu. Byddai gofyn i'r awdurdod lleol hysbysu'r corff

llywodraethu yn ysgrifenedig os bydd yn gwrthod darparu brecwast, neu os yw'n bwriadu rhoi'r gorau i ddarparu brecwast.

- bydd gan ddisgyblion hawl i frecwast am ddim os yw dyletswydd yr awdurdod lleol i ddarparu brecwast yn gymwys, ac os gwneir cais am frecwast i'r awdurdod lleol gan y disgyblion neu ar eu rhan.
- rhaid i awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu dalu sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru. Bydd unrhyw ganllawiau o'r fath yn seiliedig ar y canllawiau presennol - cylchlythyr rhif 021/2008 'Menter Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd' sy'n rhan o'r telerau a'r amodau presennol ar gyfer gweithredu'r cynllun grant penodol.
- byddai hyblygrwydd gan awdurdodau lleol i benderfynu ar ffurf y brecwast, yn amodol ar gydymffurfio ag unrhyw reoliadau a wnaed o dan Fesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 i reoleiddio'r bwyd a'r diod a roddir i ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir.

Codi taliadau hyblyg am brydau ysgol.

3.109 Wrth ddarparu llaeth, prydau a lluniaeth arall mewn ysgolion, gall awdurdodau lleol godi tâl am y ddarpariaeth honno. Os byddant yn codi tâl, fodd bynnag, golyga'r ddeddfwriaeth bresennol fod yn rhaid iddynt godi'r un tâl ar bob person am yr un faint o'r un eitem.

3.110 Mae'r diffyg hyblygrwydd yma i awdurdodau lleol wrth iddynt bennu eu prisiau yn eu hatal rhag cyflwyno polisïau a fyddai'n cynorthwyo teuluoedd â sawl plentyn yn yr ysgol neu a fyddai'n annog disgyblion i ddewis prydau ysgol. Mae trafodaethau anffurfiol wedi'u cynnal ag awdurdodau lleol ac maent wedi nodi'r ffaith yr hoffent ragor o hyblygrwydd ynghylch codi tâl am brydau ysgol.

3.111 Gallai trefn o'r fath â thaliadau hyblyg gael ei defnyddio gan awdurdod er mwyn cynnig prisiau gostyngol i:

- ddisgyblion o fewn teuluoedd mwy lle y mae mwy nag un disgybl yn derbyn prydau ysgol.
- disgyblion iau er mwyn eu hannog i ddewis prydau ysgol,
- disgyblion newydd yn yr ysgol am gyfnod penodedig.

3.112 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn fod darparu pryd ysgol iachach i ddysgwyr yn bwysig yng nghyd-destun sawl menter.

- Blas am Oes - agenda Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella'r bwyd a'r diod a ddarperir mewn ysgolion;
- Mae Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer 'Hybu prydau mewn ysgolion a sefydliadau

addysgol eraill' a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol/cyrff llywodraethu annog disgyblion i ddewis prydau ysgol;

- Y Strategaeth Tlodi Plant.

3.113 Felly, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i roi hyblygrwydd i awdurdodau lleol dros bris prydau ysgol. Hefyd, caiff Deddf Addysg 1996 ei diwygio i rwystro awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu rhag codi mwy ar ddisgyblion na'r gost o ddarparu llaeth, prydau neu luniaeth arall. Ar hyn o bryd, nid oes terfyn ar y swm y gellir ei godi ar ddisgybl.

3.114 Ni all Llywodraeth Cymru weld unrhyw reswm dros godi pris uwch am bryd ysgol ar un grŵp o ddisgyblion er mwyn gwneud iawn am godi pris is ar grŵp arall o ddisgyblion. Byddai'r ddarpariaeth hon yn golygu na chaiff awdurdodau lleol ac ysgolion godi pris sy'n uwch na'r gost o ddarparu'r pryd.

3.115 Nid yw'r newid hwn o ran prisiau yn effeithio ar ddarparu prydau ysgol am ddim (neu laeth am ddim) i ddisgyblion cymwys.

3.116 Oni chaiff y ddeddfwriaeth hon ei chyflwyno, byddai'n rhaid i'r awdurdodau lleol barhau â'r system gyfredol o brisio prydau ysgol. Byddai'r strwythur prisiau sefydlog, ar ei ffurf bresennol, yn atal unrhyw ddull arloesol o bennu prisiau y gallai awdurdod lleol ddymuno ei fabwysiadu, boed nawr neu yn y dyfodol. Os bydd awdurdod lleol yn dymuno defnyddio'r hyblygrwydd hwn ynghylch prisiau, mae Llywodraeth Cymru yn hyderus y bydd o fudd sylweddol i rieni a phlant.

4. Ymgynghori

Y Papur Gwyn

4.1 Cafwyd ymrwymiad gan Brif Weinidog Cymru yn ei ddatganiad deddfwriaethol ym mis Gorffennaf 2011 i ymgynghori'n briodol ac i ymgysylltu'n ystyrlon gyda'n partneriaid wrth lunio deddfwriaeth. Yn unol â'r datganiad hwn cyhoeddodd yr Adran Addysg a Sgiliau Bapur Gwyn ar 10 Hydref 2011 ynghylch Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2012. Yr oedd y Papur Gwyn yn gwahodd sylwadau ar bob un o'r cynigion ar gyfer y Bil ac fe'i cyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru. Lluniodd yr adran fersiynau ar gyfer plant a phobl ifanc hefyd. Mae'r dogfennau hyn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn:

<http://wales.gov.uk/consultations/education/wms/?lang=cy&status=closed>

4.2 Gwahoddwyd ymatebion am gyfnod o ddeuddeg wythnos a daeth y cyfnod i ben ar 5 Ionawr 2012. Cafwyd cyfanswm o 342 ymateb i'r cynigion gan 72 ymatebydd. Roedd yr ymateb i'r Papur Gwyn yn gadarnhaol ar y cyfan, a chytunai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr â'r cynigion i raddau helaeth.

4.3 Dyma grynodedb o'r rhai a ymatebodd i'r Papur Gwyn, ar sail y cwestiynau a ofynnwyd.

Roedd 61% yn cytuno â'r holl gynigion neu â'r rhan fwyaf ohonynt
Roedd 29% yn cytuno â rhai o'r cynigion ac yn anghytuno â rhai eraill
Roedd 10% yn anghytuno â'r rhan fwyaf o'r cynigion neu â'r cyfan ohonynt

4.4 Gellir dosbarthu'r 72 ymatebydd fel a ganlyn:

Awdurdodau Lleol	10
Cyrff Cynrychiadol	27
Undebau	7
Ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach	6
Elusennau	9
Y Sector Iechyd	2
Unigolion	9
Arall	2

4.5 Roedd y rhan fwyaf o'r cwestiynau a ofynnwyd gan yr ymatebwyr yn gofyn am eglurhad ynghylch rhai elfennau o'r cynigion neu'n awgrymu mân newidiadau i fanylion penodol y cynigion. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried pob un o'r ymatebion yn fanwl a lle bo hynny'n briodol cawsant eu hymgorffori yn y Bil.

4.6 Roedd nifer o gwestiynau ynghylch manylion y cynigion ar gyfer ysgolion sy'n peri pryder, gwella ysgolion a threfniadaeth ysgolion. Caiff y deddfwriaeth ar gyfer pob un o'r meysydd hyn ei hategu gan ganllawiau. Caiff y cwestiynau a gododd yn ystod yr ymgynghoriad eu hystyried wrth baratoi'r canllawiau, a lle bo hynny'n briodol, byddant yn destun ymgynghoriad pellach.

4.7 Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr awgrymiadau ar gyfer diwygio'r trothwyon sydd eu hangen fel y gall rhieni alw cyfarfod. Mae Llywodraeth Cymru wedi dod i'r casgliad y dylid gosod trothwyon gwahanol ar gyfer ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd fel ei fod yn opsiwn realistig i rieni ei gyflawni.

4.8 Mae ymateb manwl Llywodraeth Cymru i'r Papur Gwyn i'w gael yn: <http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2012/schoolstandardsbill/?lang=cy>

Ymgynghoriadau eraill

4.9 Cyn cyhoeddi Papur Gwyn y Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) cynhaliwyd ymgynghoriad ar wahân mewn perthynas â chynigion sy'n ymwneud â threfniadaeth ysgolion a'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

4.10 Mae ymgynghori helaeth â rhanddeiliaid wedi mynd rhagddo mewn perthynas â'r egwyddorion sy'n sail i'r darpariaethau ynghylch trefniadaeth ysgolion. Cyhoeddwyd dogfen ymgynghori fanwl ynghylch y newidiadau deddfwriaethol posibl ar 28 Tachwedd 2010. Amlinellodd y ddogfen y broses bresennol ynghyd â'r sail resymegol dros newid. Rhestrodd hefyd y rhan fwyaf o'r newidiadau penodol y cynigiwyd eu gwneud. Roedd y Papur Gwyn yn gofyn cyfres o gwestiynau ynghylch agweddau arbennig ar y cynigion, a rhoddwyd cyfle hefyd i wneud sylwadau mwy cyffredinol. Lluniwyd holiadur ar wahân ar gyfer plant a phobl ifanc.

4.11 Anfonwyd y ddogfen ymgynghori at nifer o sefydliadau gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a phob awdurdod lleol, awdurdodau addysg esgobaethol, y Comisiynydd Plant, cyrff llywodraethu pob ysgol sefydledig a sampl o 10% o bob ysgol arall. Roedd y ddogfen hefyd ar gael ar y rhyngwrdd.

4.12 Yn ogystal, aeth swyddogion ati i gynnal seminarau a chyfarfodydd â chynrychiolwyr o'r awdurdodau lleol, yr awdurdodau addysg esgobaethol a'r Comisiynydd Plant.

4.13 Derbyniwyd 13 o ymatebion i'r holiadur ar gyfer plant a phobl ifanc a derbyniwyd 32 o ymatebion mewn perthynas â'r brif ddogfen ymgynghori - roedd tua hanner y rhain yn ymatebion oddi wrth awdurdodau lleol. Derbyniwyd sylwadau yn ogystal oddi wrth CLILC, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, undebau athrawon, Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig, Llywodraethwyr Cymru, cynrychiolwyr ysgolion sefydledig ac aelodau o'r cyhoedd.

4.14 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cydnabod yr angen am newid ac roeddent yn cefnogi'r rhan fwyaf o'r agweddau ar y cynigion. Awgrymwyd hefyd rai mân newidiadau i faterion fel amseriad. O ran mater y penderfynwr lleol, fodd bynnag, roedd yr awdurdodau lleol a CLILC, ar y cyfan, yn ffafrio'r cynnig i ganiatáu i swyddogion gweithredol yr awdurdodau lleol wneud yr holl benderfyniadau. Roedd cryn wahaniaeth barn ynghylch y broses gyflymu arfaethedig ar gyfer ysgolion bach iawn, a chredai rhai ymatebwyr fod y dull hwn yn annheg. Roedd cynrychiolwyr yr ysgolion sefydledig yn gwrthwynebu pob agwedd ar y cynigion gan y credent y byddai'n golygu ei bod yn haws i awdurdodau lleol addasu neu gau ysgolion sefydledig.

4.15 Yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad, gwnaed nifer o newidiadau i fanylion y cynigion. Yn ogystal, ystyriodd Llywodraeth Cymru fater y penderfynwr lleol o'r newydd, ynghyd â'r gweithdrefnau mwy cyflym ar gyfer ysgolion bach iawn. Er bod rhai ymatebwyr wedi mynegi pryder a sylwadau anffafriol, daethpwyd i'r casgliad bod manteision y cynigion yn drech na'r anfanteision.

4.16 Mewn perthynas â'r cynigion ar y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, ymgynghorwyd yn ffurfiol ar y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg drafft dros gyfnod o 12 wythnos yn 2009. Yn gyffredinol, croesawyd system gynllunio mwy systematig dan nawdd Llywodraeth Cymru.

4.17 Yn ogystal â'r ymgynghori ar y Strategaeth, cyhoeddwyd hefyd ymgynghoriad ar wahân yn 2009 ynghylch asesu'r galw ymhlith rhieni am addysg cyfrwng Cymraeg. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn i'r ymatebwyr roi eu barn ynghylch ei gwneud yn ofyniad statudol i bob awdurdod lleol gynnal arolygon ymhlith rhieni er mwyn canfod faint o alw sydd am addysg cyfrwng Cymraeg, ac i awdurdodau lleol ymateb yn gadarnhaol i ganlyniadau'r arolygon hynny a diwallu'r anghenion a nodwyd. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr o blaid ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fesur y galw ymhlith rhieni. Serch hynny, nododd yr ymatebwyr y dylid ystyried canllawiau neu amodau penodol, yn enwedig o ran amgylchiadau lleol.

4.18 Gellir gweld dogfennau'r ymgynghoriad a'r ymatebion yn: <http://wales.gov.uk/consultations/education/wms/?lang=cy&status=closed>

5. Pŵer i lunio is-ddeddfwriaeth

5.1 Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth. Mae'r tabl canlynol yn amlinellu'r manylion canlynol mewn perthynas â phob darpariaeth:

- y person, neu'r corff, y rhoddir y pŵer iddo;
- ar ba ffurf y caiff y pŵer ei arfer;
- priodoldeb y pŵer dirprwyedig; ac
- y weithdrefn a gymhwyswyd (cadarnhaol, negyddol, dim gweithdrefn), os o gwbl, ynghyd â'r rhesymau pam y bernir ei bod yn briodol.

Adran :	Pŵer wedi'i roi	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Y rheswm dros y weithdrefn
Adran 39 Pŵer i gyhoeddi Cod Statudol ynghylch trefniadaeth ysgolion	Gweiniglogion Cymru	Cod Statudol	Bydd pennu gofynion mewn Cod yn hytrach nag ar wyneb y Bil neu mewn rheoliadau yn golygu bod modd defnyddio iaith sy'n haws i'w deall gan bartïon sydd â diddordeb. Bydd y darpariaethau yn seiliedig ar arferion gorau ac efallai y byddant yn cael eu datblygu dros amser. Bydd Cod Statudol yn sicrhau ei bod hi'n haws ymgorffori datblygiadau mewn arferion gorau.	Gweithdrefn Statudol, fel y'i hamlinellir yn adran 39 o'r Ddeddf	Bernir ei bod hi'n briodol fod y darpariaethau a gynhwysir yn y cod y mae'n rhaid i gyfrff perthnasol weithredu yn unol â hwy yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Caiff y weithdrefn ei gosod ar wyneb y Bil ac mae'n adlewyrchu'r weithdrefn ar gyfer gosod y Codau ar Dderbyn i Ysgolion ac Apelau ynghylch Derbyn i Ysgolion.

Adran :	Pŵer wedi'i roi	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Y rheswm dros y weithdrefn
Adran 57(3) - Pŵer i wneud gorchymyn yn newid y dyddiad perthnasol ar gyfer pennu a yw nifer ar gofrestr ysgol yn ei gwneud hi'n ysgol fach.	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Mae'r dyddiad perthnasol a gynhwysir yn y Bil yn gysylltiedig â dyddiad y cyfrifiad ysgol blyneddol. Os bydd yn newid, mae'n briodol fod gan Weinidogion Cymru ffordd o sicrhau bod deddfwriaeth hefyd yn newid.	Penderfyniad negyddol	Manylion gweinyddol yw'r diwygiadau i'r dyddiad ac maent yn annhebygol o fod yn ddadleuol.
Adran 88(1) Pŵer i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau yn asesu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg.	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Nodir y prif ddyletswyddau ar wyneb y Bil. Bydd angen newid y manylion hyn gydag amser ac yn rheolaidd er mwyn ymateb i anghenion sy'n seiliedig ar dystiolaeth.	Penderfyniad negyddol	Manylion technegol yw'r manylion ynghylch sut y caiff awdurdod lleol asesu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg, ac maent yn annhebygol o fod yn ddadleuol.
Adran 88(2)(a) Pŵer i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau mewn perthynas â ffurf a chynnwys Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Nodir y prif ddyletswyddau ar wyneb y Bil. Bydd angen newid y manylion hyn gydag amser ac yn rheolaidd er mwyn ymateb i anghenion sy'n seiliedig ar dystiolaeth.	Penderfyniad negyddol	Manylion technegol yw'r manylion ynghylch ffurf a chynnwys Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, ac maent yn annhebygol o fod yn ddadleuol.
Adran 88(2)(b) Pŵer i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau mewn perthynas ag	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Nodir y prif ddyletswyddau ar wyneb y Bil. Bydd angen newid y manylion hyn gydag amser ac yn rheolaidd er	Penderfyniad negyddol	Manylion technegol yw'r manylion ynghylch amseriad a hyd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, ac maent yn

Adran :	Pŵer wedi'i roi	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Y rheswm dros y weithdrefn
amseriad a hyd Strategol Cymraeg mewn Addysg.			mwyn ymateb i anghenion sy'n seiliedig ar dystiolaeth.		annhebygol o fod yn ddadleuol.
Adran 88(2)(c) Pŵer i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau mewn perthynas â chadw golwg ar Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a'i ddiwygio.	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Nodir y prif ddyletswyddau ar wyneb y Bil. Bydd angen newid y manylion hyn gydag amser ac yn rheolaidd er mwyn ymateb i anghenion sy'n seiliedig ar dystiolaeth.	Penderfyniad negyddol	Manylion technegol yw'r manylion ynghylch cadw Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg dan adolygiad a'i adolygu ac maent yn annhebygol o fod yn ddadleuol.
Adran 88(2)(d) Pŵer i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau mewn cysylltiad ag ymgynghori yn ystod y broses o lunio cynllun strategol Cymraeg mewn addysg a'i ddiwygio.	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Nodir y prif ddyletswyddau ar wyneb y Bil. Bydd angen newid y manylion hyn gydag amser ac yn rheolaidd er mwyn ymateb i anghenion sy'n seiliedig ar dystiolaeth.	Penderfyniad negyddol	Manylion technegol yw'r manylion ynghylch ymgynghori ar gynllun strategol Cymraeg mewn addysg ac nid ydynt yn debygol o fod yn ddadleuol.
Adran 88(2)(e) Pŵer i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau mewn perthynas â	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Nodir y prif ddyletswyddau ar wyneb y Bil. Bydd angen newid y manylion hyn gydag amser ac yn rheolaidd er	Penderfyniad negyddol	Manylion technegol yw'r manylion ynghylch cyflwyno cynllun strategol Cymraeg mewn addysg i'w gymeradwyo gan

Adran :	Pŵer wedi'i roi	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Y rheswm dros y weithdrefn
chylwyno Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i gael ei gymeradwyo.			mwyn ymateb i anghenion sy'n seiliedig ar dystiolaeth.		Weinidogion Cymru ac nid ydynt yn debygol o fod yn ddadleuol.
Adran 88(2)(f) Pŵer i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau mewn perthynas â phryd y gellir cyhoeddi cynllun strategol Cymraeg mewn addysg i'w gymeradwyo a sut y gellir gwneud hynny.	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Nodir y prif ddyletswyddau ar wyneb y Bil. Bydd angen newid y manylion hyn gydag amser ac yn rheolaidd er mwyn ymateb i anghenion sy'n seiliedig ar dystiolaeth.	Penderfyniad negyddol	Manylion technegol yw'r manylion ynghylch cyhoeddi cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i'w gymeradwyo gan Weinidogion Cymru ac nid ydynt yn debygol o fod yn ddadleuol.
Adran 88(3) Pŵer i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau mewn perthynas â llunio Cydgyllun Strategol Cymraeg mewn Addysg gan ddau neu fwy o awdurdodau lleol	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Bydd y rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer galluogi awdurdodau lleol i baratoi a chyflwyno cydgyllun. Gwneir hyn er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod awdurdodau lleol yn cydweithio. Gallai unrhyw reoliadau o'r fath hefyd addasu darpariaethau yn y Rhan hon o'r Bil sy'n cyfeirio at	Penderfyniad negyddol	Manylion technegol yw'r manylion ynghylch paratoi cydgyllun strategol Cymraeg mewn addysg ac nid ydynt yn debygol o fod yn ddadleuol.

Adran :	Pŵer wedi'i roi	Ffurfi	Priodoldeb	Gweithdrefn	Y rheswm dros y weithdrefn
Adran 93(1) (d) Pŵer i lunio Rheoliadau sy'n estyn dyletswydd yr awdurdod lleol i wneud darpariaeth resymol ar gyfer gwasanaethau cwnsela annibynnol i bersonau eraill sy'n derbyn addysg gynradd.	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Mae cwnsela mewn ysgolion yn cael ei dreialu mewn ysgolion cynradd. Bydd rheoliadau'n galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i unrhyw angen yn y dyfodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth.	Penderfyniad negyddol	Nodir y prif ddyletswyddau ar wyneb y Bil. Bernir ei bod hi'n briodol rhoi'r hyblygrwydd i Weiniidogion Cymru ynghyd â'r ffordd o ymateb yn gyflym i anghenion yn y dyfodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth o fewn y sector cynradd. Nid yw'r manylion yn debygol o fod yn ddadleuol.
Adran 93(5) Pŵer i lunio Rheoliadau sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r awdurdod lleol ddarparu gwasanaethau cwnsela annibynnol	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Bydd rheoliadau'n galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i unrhyw angen yn y dyfodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth.	Penderfyniad negyddol	Nodir y prif ddyletswyddau ar wyneb y Bil. Bernir ei bod hi'n briodol rhoi'r hyblygrwydd i Weiniidogion Cymru ynghyd â'r ffordd o ymateb yn gyflym i anghenion yn y dyfodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Nid yw'r

Adran :	Pŵer wedi'i roi	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Y rheswm dros y weithdrefn
mewn manau eraill.					manylion yn debygol o fod yn ddadleuol.
Atodlen 1 Paragraff 17(2) Pŵer i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau mewn cysylltiad â throsi o fwrdd gweithrediaeth interim i gorff llywodraethu a gyfansoddiwyd yn normal	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Caiff y seiliau dros ymyryd mewn ysgol ynghyd â'r pŵer i sefydlu bwrdd gweithrediaeth interim eu hamlinellu ar wyneb y Bil. Yn syml, bydd rheoliadau o dan y pŵer hwn yn amlinellu'r trefniadau technegol pan fydd y bwrdd gweithrediaeth interim wedi cwblhau ei fusnes, a phan fydd corff llywodraethu a gyfansoddiwyd yn normal yn derbyn cyfrifoldeb am llywodraethu a gweithrediaeth yr ysgol.	Negyddol	Manylion technegol yw'r manylion ynghylch trosi i gorff llywodraethu a gyfansoddiwyd yn normal ac nid ydynt yn debygol o fod yn ddadleuol.
Atodlen 2 paragraff 26 Pŵer i ychwanegu, dileu neu ddiwygio addasiadau penodedig	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Bydd y mathau o addasiadau i ysgolion sy'n golygu bod yn rhaid cyhoeddi cynigion yn agored i newid dros amser, wrth i bolisi ddatblygu. Byddai pŵer ar gyfer gwneud gorchymyn yn	Penderfyniad cadarnhaol	Credir ei bod hi'n briodol fod newidiadau a wneir i ddeddfwriaeth sylfaenol yn cael eu cymeradwyo yn y cyfarfod llawn

Adran :	Pŵer wedi'i roi	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Y rheswm dros y weithdrefn
			golygu bod modd diwygio'r Ddeddf heb yr angen am ddeddfwriaeth sylfaenol newydd.		
Atodlen 5 paragraff 40 Pŵer i lunio Rheoliadau mewn cysylltiad â gweithredu cynigion i newid categori ysgol o ran llywodraethu'r ysgol	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Byddai'r materion yr ymdrinnir â hwy mewn unrhyw reoliadau a wneir o dan y pŵer hwn yn gwbl dechnegol eu natur ac maent yn faterion a gaiff eu haminellu mewn rheoliadau.	Negyddol	Manylion technegol yw'r manylion ynghylch gweithredu newid categori a newidiadau sy'n deillio o hynny i'r corff llywodraethu ac nid ydynt yn debygol o fod yn ddadleuol.

5.2 Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ynghylch cynnwys yr is-ddeddfwriaeth lle bo hynny'n briodol, a bydd union ffurf yr ymgynghoriad hwnnw'n cael ei benderfynu pan fydd y cynigion wedi'u ffurfioli.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1 Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gwblhau ar gyfer y Bil, yn unol â Rheol Sefydlog 26.6(vi), a gellir ei weld yn Adran 7.

6.2 Caiff asesiad o'r costau a'r manteision ei gynnwys yn Adran 8.

6.3 Nid oes unrhyw ddarpariaethau penodol yn y Bil a allai olygu bod arian yn cael ei wario o Gronfa Gyfunol Cymru.

RHAN 2 - ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

7. Yr Opsiynau

Ymyrryd mewn ysgolion sy'n peri pryder

Opsiwn 1: Gwneud dim - peidio â chyfuno, esbonio a diwygio'r darpariaethau presennol

7.1 Mae Estyn wedi nodi nad yw llawer o awdurdodau lleol yn defnyddio'r ystod lawn o bwerau sydd ganddynt i wella ysgolion yn gyflym ac mae rhai ysgolion yn cael eu gadael i dangyflawni dros gyfnod hir. Dim ond rhai o'r awdurdodau lleol sydd wedi dosbarthu hysbysiadau rhybuddio yn yr achosion hyn. Mae ymgynghori anffurfiol â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn awgrymu bod awdurdodau lleol yn barnu bod eu pwerau presennol yn aneglur ac yn amwys. Nid yw'r meini prawf ar gyfer rhoi hysbysiadau rhybuddio yn cymell awdurdodau lleol i'w rhoi'n ddigon cynnar. Ar hyn o bryd nid oes gan Weinidogion Cymru unrhyw bŵer i gyhoeddi canllawiau statudol ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol ynghylch cyflwyno arfer gwell a mwy cyson o ran ymyrryd mewn ysgolion sy'n peri pryder.

7.2 Ni fydd gwneud dim yn newid yr arferion gwael a nodwyd gan Estyn lle nad yw awdurdodau lleol yn defnyddio'r ystod lawn o bwerau sydd ganddynt i sicrhau bod ysgolion sy'n tangyflawni yn gwella'n gyflym.

Opsiwn 2: Gwneud y lleiaf posibl - Cyfuno ac ailddatgan y darpariaethau presennol

7.3 Bydd cyfuno ac ailddatgan y darpariaethau presennol yn sicrhau bod awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru yn deall y pwerau sy'n bodoli ar hyn o bryd ac o dan ba amgylchiadau y cânt eu defnyddio.

7.4 Serch hynny, ni fydd yn newid y sefyllfa bresennol sef nad yw'r meini prawf ar gyfer rhoi hysbysiadau rhybuddio yn cymell awdurdodau lleol i'w rhoi'n ddigon cynnar.

7.5 O dan yr opsiwn hwn ni fyddai gan Weinidogion Cymru unrhyw bŵer i gyhoeddi canllawiau statudol ynghylch ysgolion sy'n peri pryder y bydd gofyn i awdurdodau lleol eu dilyn, sef y sefyllfa bresennol. Byddai canllawiau o'r fath yn cyflwyno arfer gwell a mwy cyson o ran cefnogi ysgolion sy'n peri pryder ac ymyrryd yn eu cylch.

Opsiwn 3: Cyfuno, egluro, a lle bo angen, diwygio'r darpariaethau presennol

7.6 Bydd cyfuno, egluro a diwygio'r darpariaethau presennol yn ei gwneud yn haws i awdurdodau lleol ddeall y gyfraith mewn perthynas ag ysgolion sy'n peri pryder. Bydd awdurdodau lleol yn deall eu pwerau i ymyrryd a phwerau Gweinidogion Cymru, ac o dan ba amgylchiadau y dylid defnyddio'r pwerau hynny ac y ceir eu defnyddio.

7.7 Bydd ehangu'r meini prawf ar gyfer cyhoeddi hysbysiadau rhybuddio yn sicrhau gwell sail i awdurdodau lleol ystyried cyhoeddi hysbysiadau rhybuddio yn ddigon cynnar a chyn bod problemau rheoli a phroblemau llywodraethu yn cael effaith niweidiol ar safonau'r ysgol.

7.8 Byddai gan Weinidogion Cymru bŵer i gyhoeddi canllawiau statudol ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol ynghylch ysgolion sy'n peri pryder, a byddai'n rhaid i awdurdodau lleol ddilyn y canllawiau hynny oni bai bod rhesymau da dros beidio â gwneud hynny. Bydd hyn yn annog awdurdodau lleol i ddefnyddio'u pwerau ymyrryd yn well, gan arwain at arferion mwy cyson, amserol ac effeithiol ac at sicrhau bod ysgolion sy'n peri pryder yn gwella'n gynt.

Gwella Ysgolion

Opsiwn 1: Gwneud Dim

7.9 O dan yr opsiwn hwn ni chymerir unrhyw gamau deddfwriaethol. Bydd strategaethau ar gyfer gwella ysgolion sydd wrthi'n cael eu datblygu, sy'n cynnwys strategaethau addysgu dibynadwy iawn a chymunedau dysgu proffesiynol yn parhau i gael eu gweithredu o dan y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, ar sail anstatudol. Er y bydd archwiliadau'r Uned Safonau Ysgolion yn sicrhau gwell sail ar gyfer blaenoriaethau gwella ysgolion drwy'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, mae perygl na fydd y dull hwn ond yn cynnal y sefyllfa bresennol.

7.10 Yn gryno, byddai'r opsiwn 'Gwneud dim' yn mynd yn groes i ymrwymiad y Gweinidog Addysg a Sgiliau i wella ysgolion a chyflwyno her ar lefel genedlaethol. Gallai'r opsiwn hwn:

- effeithio ar y modd y cyflawnir "Cynllun Gweithredu 20 Pwynt" y Gweinidog, os na chaiff y cynllun ei ategu gan fframwaith statudol ar gyfer gwella ysgolion;
- cyfrannu at y bwch parhaus rhwng perfformiad addysgol (os nad oes dull statudol a safonol ar gyfer gwella ysgolion a hunanwerthuso ysgolion);
- ynysu ymhellach arferion arweiniol o fewn y sector (a bennwyd fel blaenoriaeth frys i'r Uned Safonau Ysgolion) os na chaiff ysgolion eu cyfarwyddo i fabwysiadu strategaethau profedig ar gyfer gwella ysgolion, gan gynnwys cymunedau dysgu proffesiynol;
- lleihau effaith darpariaethau cymharol o fewn y Bil i gyhoeddi canllawiau statudol mewn perthynas ag ymyriadau ffurfiol mewn ysgolion, a allai gael eu hatgyfnerthu gan bwerau statudol ar gyfer gwella ysgolion.

Opsiwn 2: Gwneud y lleiaf posibl

7.11 Mae'r opsiwn hwn yn gyfle i Weinidogion Cymru ddylanwadu ar wella ysgolion drwy ddefnyddio'r ddeddfwriaeth bresennol i gyhoeddi gorchymyn

mewn perthynas ag agweddau penodol ar y cwricwlwm a llunio rheoliadau mewn perthynas â hyfforddi athrawon.

7.12 O ran y cwricwlwm, gall Gweinidogion Cymru lunio gorchymyn ar hyn o bryd o dan adran 108 o Ddeddf 2002 mewn perthynas â rhagnodi dulliau addysgu a deunyddiau addysgu. Mae gan awdurdodau lleol hefyd ddyletswyddau mewn perthynas â chynllunio'r cwricwlwm lleol. Gan ddefnyddio'r pwerau presennol gallai Gweinidogion Cymru lunio gorchymyn o dan adran 108 ar gyfer cyflawni amcan polisi hy. o ran llythrennedd, gallai Gweinidog Cymru bennu'r testunau a ddylai gael eu defnyddio fel offerynnau addysgu mewn ysgolion.

7.13 Byddai gorchymyn o dan adran 108 yn rhoi dyletswydd ar ysgolion i ddefnyddio deunyddiau penodol yn hytrach na bod canllawiau yn eu hargymell i'w defnyddio. Cyfyng yw cwmpas y gorchymyn hwn, fodd bynnag, gan na fyddai gan Weinidog Cymru y pŵer i bennu rhaglenni astudio; targedau cyrhaeddiad na threfniadau asesu ar gyfer y cwricwlwm lleol. Byddai hyn yn cyfyngu ar allu Gweinidogion Cymru i ymyrryd yn lleol.

7.14 O ran hyfforddiant ynghylch safonau addysgu, gallai Gweinidogion Cymru lunio rheoliadau o dan adran 21 o Ddeddf 2002 a fydd yn diffinio rolau a chyfrifoldebau awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a phenaethiaid ynghylch materion rhedeg yr ysgol. Gallai hyn gynnwys darpariaethau am hyfforddiant ynghylch safonau addysgu. Caiff rheoliadau o'r fath roi swyddogaethau ar yr awdurdod lleol, y corff llywodraethu a'r pennaeth. Yn benodol, mae'r adran hon yn rhoi dyletswydd ar y corff llywodraethu i redeg yr ysgol, gan hybu safonau uchel o lwyddiant addysgol. Byddai adran 21, er enghraifft, yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i neilltuo'r rolau a'r cyfrifoldebau o ran adnabod anghenion hyfforddi athrawon a phwy ddylai ddarparu/sicrhau hynny. Serch hynny, ni fyddai'n caniatáu i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i athrawon ysgol ymgymryd â mathau penodol o hyfforddiant.

7.15 Mae adran 95 o Ddeddf Addysg 2005 hefyd yn rhoi pŵer i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir ddarparu hyfforddiant i weithlu'r ysgol, gan gynnwys hyfforddiant sy'n rhan o gwrs a ddarperir gan ddarparwr hyfforddiant arall. Ceir felly orgyffwrdd rhwng y pwerau perthnasol a gaiff eu rhoi i gyrff llywodraethu gan adran 95 o Ddeddf Addysg 2005 ac adran 21 o Ddeddf Addysg 2002, a gallai hynny arwain at anghysondeb o ran y ddarpariaeth hyfforddi sy'n gysylltiedig â'r gofynion statudol.

Opsiwn 3: Pŵer i Gyhoeddi Canllawiau Statudol

7.16 Gwneud darpariaeth i roi pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol ynghylch gwella ysgolion ar gyfer awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a phenaethiaid ysgolion a gynhelir ynghylch arfer eu swyddogaethau addysg er mwyn gwella safonau addysg. Byddai'r opsiwn hwn yn hwb i ddatblygu fframwaith statudol newydd ar gyfer gwella ysgolion, gan ategu'r meysydd polisi y rhoddir blaenoriaeth iddynt a amlinellir yn Adran 3, gan gynnwys strategaethau addysgu dibynadwy a chymunedau dysgu

proffesiynol. Bydd y pwerau hefyd yn ategu gwaith yr Uned Safonau Ysgolion wrth adolygu perfformiad cenedlaethol, pennu blaenoriaethau ar gyfer gwella ysgolion a chyflwyno her ar lefel genedlaethol.

7.17 Mae tystiolaeth feincnodi ryngwladol yn awgrymu y gall systemau addysg sy'n perfformio'n wael neu'n weddol wella drwy ganolfan sy'n cynyddu'r arfer o roi cyfarwyddyd ac sy'n sgriptio yn ei gyloch ar gyfer ysgolion ac athrawon.

7.18 O ran y cwricwlwm, gallai canllawiau statudol fod yn ddewis arall yn lle gorchymyn adran 108 a wneir o dan Ddeddf Addysg 2002, neu gallent fod yn ychwanegol at orchymyn o'r fath. Bydd rhoi grym statudol i'r canllawiau yn sicrhau bod pob ysgol ac awdurdod lleol yn eu hystyried a bydd yn lleihau amrywiadau yn y dulliau presennol ar gyfer gwella ysgolion. Bydd canllawiau yn sicrhau dull safonol o bennu sut y mae awdurdodau lleol ac ysgolion yn cyflawni swyddogaethau ar gyfer gwella ysgolion. Yn ogystal, bydd pŵer a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo corff i gydymffurfio â'r canllawiau os nad yw'r Gweinidog yn cytuno â'u rhesymau sydd wedi'u cyhoeddi yn lleihau achosion o ddiffyg cydymffurfio.

7.19 O ran hyfforddi athrawon, mae'n bosibl ceisio pŵer ar gyfer Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau statudol ynghylch sut y caiff y pŵer yn adran 21 o Ddeddf Addysg 2002 ac adran 95 o Ddeddf Addysg 2005 ei gyflawni gan gyrff llywodraethu. Gallai'r canllawiau ymwneud yn benodol â'r trefniadau sydd i'w gwneud gan gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, awdurdodau lleol a phenaethiaid ar gyfer hyfforddi athrawon fel y gallant ffurfio cymunedau dysgu proffesiynol.

Trefniadaeth Ysgolion

Opsiwn 1: Gwneud dim

7.20 O dan y gweithdrefnau presennol ar gyfer penderfynu ynghylch cynigion yn ymwneud â threfniadaeth ysgolion, caiff unrhyw gynig y cyflwynir gwrthwynebiadau iddo ei gyfeirio at Weinidogion Cymru. O'r herwydd, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gymeradwyo tua 50% o'r holl gynigion a gaiff eu cyhoeddi. Nid yw hyn yn cyd-fynd â chyfrifoldeb cyfreithiol awdurdodau lleol am sicrhau bod digon o leoedd mewn ysgolion ac am sicrhau bod y ddarpariaeth honno'n effeithlon. At hynny, nid yw rôl anghymesur Gweinidogion Cymru yn cyd-fynd â'r ffaith bod yr arbenigedd wrth gynllunio lleoedd ysgol a'r wybodaeth fanwl am anghenion ac amgylchiadau lleol yn parhau ar y lefel leol yn hytrach na'r lefel genedlaethol.

7.21 Mae'r ffaith bod Gweinidogion Cymru yn gysylltiedig â phob cynnig sy'n cael ei wrthwynebu yn ychwanegu lefel ddiangen o fiwrocratiaeth ac mae, ar brydiau, yn gallu arwain at oedi sylweddol. Gall gymryd sawl mis i wneud penderfyniad ynghylch yr achosion mwyaf cymhleth oherwydd nid yw Gweinidogion Cymru yn aml yn meddu ar unrhyw wybodaeth flaenorol am y cynigion unigol a'r materion y maent yn eu codi. Yn ogystal gall problemau godi pan fydd llawer o awdurdodau lleol yn cyhoeddi cynigion ar yr un pryd a'r

rheini'n gynigion y mae angen eu cyfeirio at Weinidogion Cymru. Ni all Gweinidogion Cymru reoli nifer y cynigion statudol a gyflwynir na'r amser y'u cyflwynir ac mae'r ffaith y gall cynifer gael eu cyfeirio ar yr un pryd wedi arwain at oedi sylweddol. Mae oedi o'r fath yn llesteirio'n sylweddol ymdrechion yr awdurdodau lleol i gyflwyno newidiadau a fydd yn arwain at well defnydd o'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer addysg. Yn wir, gallai'r ansicrwydd y mae oedi o'r fath yn ei greu weithiau atal awdurdodau lleol rhag cyflwyno cynigion yn y lle cyntaf.

7.22 Ar hyn o bryd gall un gwrthwynebiad i gynnig ynghylch trefniadaeth ysgol olygu bod angen i Weinidogion Cymru wneud penderfyniad yn ei gylch. Dyma'r sefyllfa hyd yn oed os nad oes gan y gwrthwynebydd unrhyw fuddiant uniongyrchol yn yr ysgol neu'r ysgolion dan sylw, a hyd yn oed lle y mae'r bobl y bydd y cynnig yn effeithio'n uniongyrchol arnynt (disgyblion, rhieni, staff etc) yn cefnogi'r cynnig. O dan amgylchiadau o'r fath mae'n gwbl ddisynnwyr fod cynigion yn destun proses graffu annibynnol a hir, sy'n creu ansicrwydd i bawb y bydd y cynnig yn effeithio arnynt.

7.23 Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng y broses deddfwriaethol i gau ysgolion nad oes ganddynt ond ychydig o ddisgyblion neu nad oes ganddynt unrhyw ddisgyblion o gwbl â'r broses ar gyfer ymdrin ag achosion cymhleth o ad-drefnu nifer o ysgolion uwchradd, er enghraifft. Bernir nad oes unrhyw gyfiawnhad dros yr angen am broses mor faith yn achos ysgolion nad ydynt bellach yn hyfyw yn addysgol neu'n ariannol. Yn achos yr ysgolion hynny nad oes ynddynt unrhyw ddisgyblion o gwbl, mae'r ffaith ei bod yn ofynnol defnyddio'r un broses gyfreithiol ar eu cyfer hwy ag ar gyfer ysgolion sydd â disgyblion ar y gofrestr yn golygu y gallai anfri gael ei ddwyn ar y system gyfan.

7.24 Er bod llawer o gynigwyr yn dda am feithrin cysylltiadau â rhanddeiliaid ac am esbonio'r hyn sydd ganddynt mewn golwg yn glir pan fyddant yn mynd ati i ymgynghori am gynigion, rydym o'r farn nad oes digon o fanylion yn y canllawiau statudol presennol i sicrhau cysondeb wrth fynd ati i ymgynghori. At hynny, mae'r rheini sy'n cyflwyno cynigion, ynghyd ag unigolion a chyrrff sydd â buddiant, weithiau'n aneglur ynghylch yr hyn a olygir wrth arferion da a'r hyn y byddai'n rhesymol i bobl leol ei ddisgwyl oddi wrth broses ymgynghori. O'r herwydd, gall y gwaith ymgynghori amrywio'n sylweddol o ran ei ansawdd a pha mor drylwyr ydyw, ac mae'r ymddiriedaeth yn y broses yn aml yn cael ei niweidio.

7.25 Ar hyn o bryd caiff deddfwriaeth ynghylch trefniadaeth ysgolion ei chynnwys mewn gwahanol Ddeddfau Seneddol ac offerynnau statudol. Mae'r cyfeiriadau deddfwriaethol lluosog hyn yn peri dryswch i'r sawl sy'n gyfrifol am gynllunio lleoedd ysgol a gwneud penderfyniadau ynghylch cynigion.

Opsiwn 2: Gwneud y lleiaf posibl

7.26 Yn fyr, byddai'r opsiwn hwn yn golygu:

- Cyflwyno canllawiau newydd ar gyfer cynigwyr sy'n amlinellu'r arferion gorau ac yn cynnwys rhagor o fanylion ynghylch sut y dylent gyflawni eu dyletswydd i ymgynghori ynghylch cynigion yn ymwneud â threfniadaeth ysgolion;
- Diwygio rheoliadau er mwyn lleihau nifer yr addasiadau i ysgolion y mae angen cynigion statudol yn eu cylch. Eto i gyd, Gweinidogion Cymru fyddai'n parhau i wneud penderfyniadau ynghylch yr holl gynigion sy'n destun anghydfod.

7.27 Byddai gwneud y lleiaf posibl yn mynd i'r afael yn rhannol â'r anfanteision canlynol sydd ynghlwm â'r system bresennol:

- Gallai cyflwyno canllawiau newydd ar gyfer cynigwyr sy'n amlinellu'r arferion gorau a rhagor o fanylion ynghylch ymgynghori am drefniadaeth ysgolion arwain at wella safonau a chysondeb yn y maes hwn. Byddai hefyd yn creu sail mwy clir ar gyfer ystyried penderfyniadau ynghylch pa mor ddigonol yw'r ymgynghori. Fodd bynnag, gan fod y ddeddfwriaeth wedi'i llunio mewn modd sy'n golygu nad oes ond yn rhaid i gynigwyr ystyried canllawiau o'r fath, ac nad oes modd eu cymell i weithredu yn unol â hwy, gallai ei heffaith fod yn dameidiog ac yn fyrhoedlog. Golyga hyn oll nad yw'r broses ymgynghori yn debygol o ennyn llawer o ymddiriedaeth ac nad yw'n debygol o gael ei derbyn.
- Byddai diwygio'r rheoliadau, fel bod angen cyhoeddi cynigion statudol ynghylch nifer llai o addasiadau i ysgolion, yn cyflymu'r broses o wneud yr addasiadau hynny a byddai hefyd yn lleihau nifer y cynigion y mae Gweinidogion Cymru yn gwneud penderfyniadau yn eu cylch. Serch hynny, ni fyddai hyn o anghenraid yn lleihau nifer y cynigion statudol sy'n destun anghydfod a gyfeirir at Weinidogion Cymru. Byddai anfantais ychwanegol yn deillio o hyn hefyd gan y byddai newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud i ysgolion heb unrhyw fewnbwn oddi wrth randdeiliaid lleol na'r bobl y bydd y newidiadau'n effeithio'n uniongyrchol arnynt. Nid yw ymgynghoriadau blaenorol â rhanddeiliaid ynghylch yr addasiadau rhagnodedig presennol wedi pennu unrhyw addasiadau lle bernir bod y prosesau statudol yn ddiangen.

7.28 Ni fyddai'r opsiwn 'gwneud y lleiaf posibl':

- yn golygu bod rhagor o gynigion ynghylch trefniadaeth ysgolion yn cael eu datrys yn lleol;
- yn gwneud y broses yn fwy syml nac yn llai llafurus;
- yn cyflwyno gweithdrefnau mwy cyflym ar gyfer cau ysgolion gydag ychydig o ddisgyblion neu ddim disgyblion;
- yn cyfuno'r holl ddeddfwriaeth ynghylch trefniadaeth ysgolion.

Opsiwn 3: Sefydlu Dyfarnwr Annibynnol

7.29 Yn fyr, byddai'r opsiwn hwn yn golygu:

- Sefydlu swydd dyfarnwr annibynnol, sy'n debyg i'r rôl sy'n bodoli yn Lloegr, a fyddai'n penderfynu ynghylch cynigion yn ymwneud â threfniadaeth ysgolion sy'n destun anghydfod. Y dyfarnwr fyddai'n gwneud y penderfyniad terfynol yn hytrach na Gweinidogion Cymru. Ni fyddai Gweinidogion Cymru yn rhan o'r broses.

7.30 Ni fyddai'r opsiwn 'dyfarnwr annibynnol':

- yn golygu bod rhagor o gynigion ynghylch trefniadaeth ysgolion yn cael eu datrys yn lleol;
- yn gwneud y broses yn fwy syml nac yn llai llafurus;
- yn cyflwyno gweithdrefnau mwy cyflym ar gyfer cau ysgolion gydag ychydig o ddisgyblion neu ddim disgyblion;
- yn datblygu rhagor o gysondeb yn y modd yr eir ati i ymgynghori, nac yn sicrhau bod yr arferion gorau yn cael eu mabwysiadu, gan wella ymddiriedaeth yn y system a hyder ynddi; nac
- yn cyfuno'r holl ddeddfwriaeth ynghylch trefniadaeth ysgolion.

Opsiwn 4: Gwaredu'r gofyniad am benderfynwr annibynnol

7.31 Yn fyr, byddai'r opsiwn hwn yn golygu:

- caniatáu i gynigwyr wneud penderfyniad ynghylch yr holl gynigion eu hunain a gwaredu unrhyw ofyniad i gorff annibynnol graffu ar unrhyw gynigion sy'n destun anghydfod.

7.32 Byddai'r opsiwn hwn yn cyflawni'r amcanion canlynol:

- byddai'r holl gynigion yn cael eu penderfynu'n lleol; a,
- byddai'r broses yn cael ei symleiddio'n sylweddol, byddai'n hawdd i'w deall, byddai modd ei chynnal yn gyflym iawn ac ni fyddai llawer o gostau.

7.33 Byddai llawer o anfanteision ynghlwm â'r opsiwn hwn, fodd bynnag:

- gallai diffyg unrhyw fath o graffu annibynnol ar y penderfyniadau a wneir gan gynigwyr danseilio hyder y sawl y bydd ad-drefnu ysgol yn effeithio arnynt yn y system;
- ni fyddai diffyg craffu yn unrhyw ysgogiad i awdurdodau lleol sicrhau bod y broses briodol yn cael ei dilyn; a
- gallai pobl leol deimlo nad ydynt yn gallu cyfrannu at y broses i'r un graddau.

7.34 Gellid, o bosibl, addasu'r opsiwn hwn a allai olygu bod y cynigion hynny sy'n eithriadol mewn rhyw fodd (ee cynigion sy'n ymwneud â chau ysgolion sydd â nifer uchel o ddisgyblion, neu gynigion sy'n golygu cludo disgyblion dros bellter maith) yn cael eu cyfeirio at benderfynwr annibynnol. Byddai'r

rhan fwyaf o gynigion yn cael eu penderfynu gan y cynigwyr, fodd bynnag. Gallai Gweinidogion Cymru hefyd gynnal y pŵer i alw cynigion i mewn os ydynt yn teimlo nad yw'r cynigwyr wedi dilyn y broses briodol. Mae proses bresennol yr Alban ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch trefniadaeth ysgolion yn cynnwys y ddwy ddarpariaeth hyn. Fodd bynnag, byddai arfer pŵer i alw cynnig i mewn yn golygu bod angen ystyried yr achos yn ofalus ymlaen llaw. Byddai hyn yn llafurus iawn a gallai fod yn anymarferol. Yn ogystal, ni fyddai cyfeirio'r cynigion a wneir o dan amgylchiadau eithriadol yn mynd i'r afael â'r achosion lle y mae pobl leol wedi codi gwrthwynebiadau dilys a sylweddol i gynigion a wneir o dan amgylchiadau aneithriadol. Ni fyddai ychwaith yn gwneud llawer i ennyn hyder pobl yn y system.

Opsiwn 5: Diwygio'r broses ddeddfwriaethol

7.35 Byddai'r opsiwn hwn yn cynnwys diwygio'n sylweddol y broses ddeddfwriaethol ar gyfer penderfynu ynghylch cynigion yn ymwneud â threfniadaeth ysgolion fel bod y rhan fwyaf o gynigion yn cael eu penderfynu'n lleol, un ai gan y cynigydd (lle na chaiff llawer o wrthwynebiadau eu cyflwyno gan y rhai y bydd y cynigion yn effeithio'n uniongyrchol arnynt) neu, os oes llawer o wrthwynebiad lleol, gan Banel Penderfynu Lleol annibynnol. Byddai Gweinidogion Cymru yn parhau i benderfynu ar gynigion sy'n ymwneud yn llwyr ag ychwanegu neu waredu addysg chweched dosbarth, neu lle y ceir gwrthwynebiadau oddi wrth awdurdod lleol, neu yn achos cynigion sy'n effeithio ar ysgolion â chymeriad crefyddol, awdurdodau esgobaethol.

7.36 Yn fyr, byddai'r opsiwn hwn yn golygu:

- bod angen i lai o gynigion gael eu penderfynu gan drydydd parti annibynnol yn sgil gwrthwynebiadau;
- lle y mae angen penderfyniad annibynnol ynghylch cynigion, byddai proses a allai fod yn gyflymach ac a fydd yn cael ei chynnal yn lleol i raddau helaeth. Byddai hyn yn lleihau'r ansicrwydd ar gyfer y rhai y bydd y cynigion yn effeithio'n uniongyrchol arnynt;
- proses fyrrach ar gyfer cau ysgolion sydd â 10 o ddisgyblion neu lai neu ddim disgyblion;
- cyflwyno cod gorfodol ynghylch trefniadaeth ysgolion sy'n sicrhau bod arferion gorau ynghylch ymgynghori a materion eraill yn cael eu defnyddio mewn modd cyson ar draws Cymru; a,
- casglu ynghyd, mewn un man, yr holl ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â threfniadaeth ysgolion yng Nghymru.

7.37 O blith y cynigion a benderfynwyd gan Weinidogion Cymru dros y pum mlynedd diwethaf, rhagwelir na fyddai ond 6% ohonynt wedi cael eu penderfynu gan Weinidogion Cymru petai'r system ddiwygiedig o ad-drefnu wedi bod yn ei lle. O blith y gweddill, byddai tua 55% wedi cael eu penderfynu gan y Panel Penderfynu Lleol arfaethedig a byddai 39% wedi cael eu penderfynu gan y cynigwyr eu hunain. O ystyried y ffaith bod angen i Weinidogion Cymru gymeradwyo tua hanner yr holl gynigion a gyhoeddir, mae'n golygu trosglwyddo cryn gyfrifoldeb yn ôl i'r lefel leol.

Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg

Opsiwn 1: Gwneud dim

7.38 Mae'r broses o gyflwyno'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ar sail anstatudol eisoes wedi dechrau. Bydd awdurdodau lleol wedi cyflwyno eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg cyntaf ar sail anstatudol i Lywodraeth Cymru erbyn 15 Rhagfyr 2011 i'w gweithredu o 1 Ebrill 2012 ymlaen. Bydd yr awdurdodau lleol hefyd wedi cyflwyno'u ceisiadau am y Grant Cymraeg mewn Addysg erbyn 20 Ionawr 2012. Nod y Grant Cymraeg mewn Addysg a'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yw cyflawni deilliannau a thargedau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Darperir y Grant Cymraeg mewn Addysg i awdurdodau lleol yn 2012-13 ni waeth pa opsiwn a ffeirir.

7.39 Manteision

- Mae system anstatudol eisoes yn ei lle, sy'n cynnwys canllawiau ar gyfer paratoi'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a systemau cymeradwyo a monitro.
- Byddai gan awdurdodau lleol hyblygrwydd i ddilyn y canllawiau anstatudol fel y bo'n briodol.
- Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Cymru. Mae staff eisoes ar gael i weinyddu, cymeradwyo a monitro'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg anstatudol, ac ni fyddai goblygiadau ariannol o ran darparu cyllid i'r awdurdodau lleol i weithredu eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.
- Byddai'r Grant Cymraeg mewn Addysg yn cael ei roi i awdurdodau lleol i'w helpu i weithredu'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg anstatudol. Eto i gyd, ni fyddai dyrannu'r Grant Cymraeg mewn Addysg yn amodol ar gymeradwyo'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Hefyd, ni fyddai pwysau parhaus ar Lywodraeth Cymru i ddarparu'r Grant Cymraeg mewn Addysg er mwyn gorfodi'r awdurdodau lleol i baratoi'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

7.40 Anfanteision

- Byddai system gynllunio statudol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg (Cynlluniau Addysg Gymraeg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993) yn cael ei disodli gan system anstatudol.
- Ni fyddai modd gorfodi awdurdodau lleol i lunio Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i'w ddadansoddi a'i fonitro gan Lywodraeth Cymru.
- Oni ellir eu gorfodi, gallai awdurdodau lleol ystyried y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg fel tasg bapur sy'n cael braidd ddim effaith ar ddarparu cyfleoedd cyfrwng Cymraeg.
- Ni fyddai awdurdodau lleol yn atebol i Weinidogion Cymru am gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg iaith Gymraeg yn y cyfnod addysg statudol.

7.41 **Risgiau**

- Pe byddai awdurdod lleol yn gwrthod cydymffurfio, gallai hynny olygu nad yw'n cynllunio'n effeithio ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac felly'n methu â sicrhau digon o gyfleoedd cyfrwng Cymraeg addas.
- Gallai fod methiant i ddatblygu sgiliau dysgwyr yn y Gymraeg i'w llawn botensial a gallai hynny arwain at fethiant i gynyddu nifer y dysgwyr sydd â sgiliau lefel uchel yn y Gymraeg.

Opsiwn 2: Gwneud y lleiaf posibl

7.42 Gorfodi cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg anstatudol ar awdurdodau lleol drwy gynnig arian grant.

7.43 Yn yr opsiwn hwn, byddai gan awdurdodau lleol gymhellion ychwanegol i ddatblygu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg priodol, er eu bod yn parhau'n gynlluniau anstatudol, drwy eu cysylltu â chyllid grant. Byddai llwyddo yn y cais am swm llawn y Grant Cymraeg mewn Addysg yn amodol ar gymeradwyo Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdodau lleol.

7.44 **Manteision**

- Mae system anstatudol eisoes yn ei lle, sy'n cynnwys canllawiau ar gyfer paratoi'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a systemau cymeradwyo a monitro.
- Byddai cysylltu â chymorth grant yn gymhelliant i ddatblygu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg priodol.
- Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i'r awdurdodau lleol, ar wahân i'r ymrwymadau cyfredol i sicrhau 30% o arian cyfatebol ar gyfer y Grant Cymraeg mewn Addysg (2012-13), oherwydd maent eisoes yn paratoi ac yn cyflwyno Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg i Lywodraeth Cymru i'w cymeradwyo a'u monitro.

7.45 **Anfanteision**

- Byddai pwysau parhaus ar Lywodraeth Cymru i ddarparu'r cyllid Grant Cymraeg mewn Addysg i orfodi'r awdurdodau lleol i baratoi'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.
- Byddai cysylltiad uniongyrchol rhwng y Grant Cymraeg mewn Addysg ag elfennau penodol o'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Gallai hyn arwain at ddiffyg eglurder ynghylch beth yn union yw ystyr methiant digonol i gyflawni gofynion a allai olygu bod yr arian yn cael ei hawlio'n ôl neu lai o grant yn y dyfodol.
- Pe byddai cwtogi ar y Grant Cymraeg mewn Addysg, ni fyddai gan Weinidogion Cymru gymaint o ddylanwad ar gymhellion awdurdodau lleol i baratoi neu weithredu'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

- Felly, byddai costau ychwanegol i Lywodraeth Cymru o ran cysylltu'r broses o ddadansoddi a monitro'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg â'r Grant Cymraeg mewn Addysg.

7.46 Risgiau

- Pe byddai'r awdurdodau lleol yn gwrthod cydymffurfio, a phe byddai angen rhoi sancsiynau, gallai hyn fod ar ffurf hawlio arian yn ôl neu ostyngiad yn y grant yn y dyfodol. Os felly, mae risg y gallai dylanwad y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg o ran sicrhau gwell cynllunio cyfrwng Cymraeg ac ailwampio'r fframwaith hyfforddi a chefnogi ar gyfer y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg fod yn llai o fewn yr awdurdodau lleol hynny lle gallai fod mwy o le i wella. Felly, gallai hawlio arian yn ôl neu ddal elfennau o'r grant yn ôl fod yn wrthgynhyrchiol.
- Gallai fod methiant i ddatblygu digon o gyfleoedd i ddysgwyr fanteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg.
- Gallai fod methiant i ddatblygu sgiliau dysgwyr yn y Gymraeg i'w llawn botensial a gallai hynny arwain at fethiant i gynyddu nifer y dysgwyr sydd â sgiliau lefel uchel yn y Gymraeg.

Opsiwn 3: Cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol

7.47 Gosod gofyniad statudol ar awdurdodau lleol i baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, i'w gymeradwyo a'i fonitro gan Weinidogion Cymru, a chymryd camau rhesymol i weithredu eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

7.48 Byddai'r opsiwn hwn yn bodloni'r amcanion polisi a amlinellir yn Adran 3. Byddai'r Grant Cymraeg mewn Addysg yn cael ei roi i awdurdodau lleol i'w helpu i weithredu'r cynllun. Eto i gyd, ni fyddai dyrannu'r Grant Cymraeg mewn Addysg yn amodol ar gymeradwyo'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

7.49 Manteision

- Byddai deddfwriaeth yn gosod dyletswyddau newydd o ran paratoi, gweithredu a chyhoeddi cynllun i wella addysg cyfrwng Cymraeg (y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg). Bernir nad yw'r pwerau presennol yn ddigonol gan fod angen gofynion manylach na'r hyn sydd yn y deddfwriaeth bresennol.
- Felly, byddai'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg statudol yn disodli Cynlluniau Addysg Gymraeg Bwrdd yr Iaith Gymraeg, y mae'r awdurdodau lleol wedi bod yn cydymffurfio â hwy ers blynyddoedd. Ychydig o faich gweinyddol ychwanegol, os o gwbl, fyddai ar yr awdurdodau lleol.
- Pe byddai'r broses o baratoi a chyflwyno'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg i Weinidogion Cymru i'w cymeradwyo yn cael ei gwneud yn statudol ar yr holl awdurdodau lleol, byddai modd monitro'n agos gynlluniau'r awdurdodau lleol ar gyfer darpariaeth

cyfrwng Cymraeg cyn-statudol a statudol a'u monitro hefyd ar sail targedau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Byddai hyn yn arwain hefyd at sefyllfa lle byddai'r awdurdodau lleol yn canolbwyntio ar wella safonau llythrennedd mewn Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith, ac at fwy o gynllunio cydweithredol yn achos Datblygiad Proffesiynol Parhaus.

- Byddai sefydlu gwell system gynllunio i'r awdurdodau lleol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn arwain at fwy o gydlyniant a chysondeb o ran darparu lleoedd cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion, gan ddiwallu'r angen neu'r galw a ragamcenir ym mhob ardal ac ar draws rhanbarthau.
- Byddai deddfwriaeth yn creu sefyllfa lle mai'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg fyddai'r prif ddull o fwrw ymlaen â'r cyfeiriad strategol cenedlaethol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a bod yn atebol i Weinidogion Cymru.
- Byddai disgwyl i awdurdodau lleol wneud darpariaeth yn eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg i roi mwy o gyfleoedd i ddysgwyr gael addysg cyfrwng Cymraeg lle bo hynny'n briodol.
- Gallai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr awdurdodau lleol yn gweithredu polisiau sy'n rhoi mwy o gyfle i ddysgwyr wireddu eu potensial yn y Gymraeg, ac felly sicrhau bod mwy o ddysgwyr â sgiliau lefel uchel yn y Gymraeg.
- Pe byddai cwtogi ar y Grant Cymraeg mewn Addysg, byddai Gweinidogion Cymru yn dal i fedru gwneud awdurdodau lleol yn gyfrifol am baratoi'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

7.50 **Anfanteision**

- Byddai rhai goblygiadau ariannol i awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru o ran gweithredu'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Caiff y rhain eu hystyried yn Adran 8.

7.51 **Risgiau**

- Pe byddai awdurdod lleol yn gwrthod cydymffurfio â deddfwriaeth, gallai hynny olygu nad yw'n cynllunio'n effeithio ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac felly'n methu â sicrhau digon o gyfleoedd cyfrwng Cymraeg addas.

Y Cyfarfod Blynyddol Rhieni

Dewis 1: Gwneud Dim

7.52 O dan adran 33 o Ddeddf Addysg 2002, mae'n ofynnol i gyrrff llywodraethu gynnal cyfarfod blynyddol rhieni bob blwyddyn, oni bai bod un o'r eithriadau yn Rheoliadau Cyfarfod Blynyddol Rhieni (Esemptiadau) (Cymru) 2005 yn gymwys. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu ei bod yn ofynnol i gyrrff llywodraethu gynnal cyfarfod â'r rhieni bob yn ail flwyddyn ysgol. Yn y blynyddoedd eraill maent yn gofyn i rieni a hoffent gael cyfarfod. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu bod y dull presennol o weithredu yn parhau.

Opsiwn 2: Gwneud y lleiaf posibl - Gwaredu'r gofyniad i gynnal cyfarfod blynyddol rhieni

7.53 O dan y gyfraith bresennol, mae gan Weinidogion Cymru bŵer yn Adran 103(3) o Ddeddf Addysg 2005 i wneud gorchymyn i ddiddymu'r gofyniad am gyfarfod blynyddol rhwng y llywodraethwyr a'r rhieni, ac i ddiddymu'r rheoliadau presennol. Pe byddai gorchymyn o'r fath yn cael ei wneud ni fyddai angen i gyrff llywodraethu wneud trefniadau i gwrdd â'r rhieni bob yn ail flwyddyn a gofyn am eu barn yn y blynyddoedd eraill.

7.54 O gofio bod rhieni, yn ôl yr hyn a ddeallwn, yn ddifater ac yn amharod i gyfarfod â'r llywodraethwyr o dan y trefniadau presennol, gallai'r opsiwn hwn olygu na fyddai llywodraethwyr ambell ysgol fyth yn gorfod mynd ati i gynnwys rhieni ym mywyd ehangach a chymuned yr ysgol, na cheisio'u barn am ddatblygiad a chyfeiriad yr ysgol yn y dyfodol.

7.55 Pe byddai'r rhieni'n awyddus i drafod mater gyda'r corff llywodraethu, mae'r opsiwn hwn yn rhoi'r hawl iddynt ofyn am gyfarfod, a hyd yn oed pe byddent yn gofyn am gyfarfod â'r llywodraethwyr, nid oes rheidrwydd ar y llywodraethwyr i wneud hynny.

Opsiwn 3: Cyflwyno deddfwriaeth - Rhoi'r hawl i rieni alw nifer cyfyngedig o gyfarfodydd â'r corff llywodraethu.

7.56 O dan yr opsiwn arfaethedig ni fyddai angen i gyrff llywodraethu drefnu cyfarfod oni bai fod cworwm o rieni yn gofyn am un.

7.57 Ar ôl ymgynghori ar y cynigion i roi i gworwm o rieni yr hawl i ofyn am gyfarfod gyda'r corff llywodraethu, penderfynwyd y dylai rhieni fedru gofyn am hyd at dri chyfarfod ym mhob blwyddyn ysgol. Y cworwm arfaethedig o rieni fyddai'n ofynnol i ofyn am gyfarfod fyddai:

- rhieni 10% o ddisgyblion cofrestredig mewn ysgol uwchradd neu rieni 30 disgybl cofrestredig, pa un bynnag yw'r isaf; neu
- rhieni 10% o ddisgyblion cofrestredig mewn ysgol gynradd neu rieni 10 disgybl cofrestredig, pa un bynnag yw'r isaf.

7.58 Byddai'r hawl i alw am un cyfarfod yn unig y flwyddyn yn cyfyngu ar allu rhieni i ymgysylltu â'r corff llywodraethu, a gallai'r rhieni fod yn awyddus i gario materion sydd heb eu cwblhau ymlaen i gyfarfod arall, ond nid yw'r trefniant hwn yn rhoi'r hawl i'r rhieni ofyn am unrhyw gyfarfodydd pellach. Byddai angen iddynt ddibynnu ar ewyllys da'r corff llywodraethu i'w cyfarfod eto.

7.59 Byddai cynyddu nifer y cyfarfodydd posibl yn gyfle gwirioneddol i'r rhieni gadw mewn cysylltiad â'r corff llywodraethu yn ystod y flwyddyn ysgol ynghylch mater sy'n peri pryder iddynt a byddent yn medru cael cyfarfod(ydd) dilynol/diweddaru pe byddent yn dymuno hynny. Hefyd, byddai cyfle i'r rhieni drafod materion gwahanol mewn cyfarfodydd dilynol. Mae'r opsiwn hwn yn gyfle i'r rhieni fod â rhywfaint o reolaeth ar yr adeg y cynhelir y cyfarfodydd hyn a phennu'r agenda.

7.60 Yn achos rhieni, mantais yr opsiwn hwn yw mai hwy fydd yn penderfynu (ar yr amod bod digon o ddiddordeb gan rieni eraill) pryd i gyfarfod â'r corff llywodraethu a bydd ganddynt rywfaint o reolaeth hefyd dros y pynciau a gaiff eu trafod yn y cyfarfod.

Cwmsela mewn ysgolion

Opsiwn 1: Gwneud dim

7.61 Byddai'r opsiwn hwn yn golygu parhau â'r trefniant presennol o ddarparu'r strategaeth cwmsela mewn ysgolion drwy grant penodol i awdurdodau lleol.

Opsiwn 2: Gwneud y lleiaf posibl

7.62 Trosglwyddo cyllid i'r Grant Cynnal Refeniw, heb ddeddfwriaeth ategol

O dan yr opsiwn hwn, pan fydd y cyllid wedi'i drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw, cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol fydd penderfynu sut orau i ddefnyddio'r arian ac a ddylid parhau i gynnig gwasanaethau cwmsela mewn ysgolion. Byddai canllawiau ar weithredu cwmsela mewn ysgolion yn cael eu paratoi i gefnogi awdurdodau lleol sy'n dewis parhau i gynnig gwasanaeth cwmsela. Y risg mwyaf gyda'r opsiwn hwn yw y gallai awdurdodau lleol, heb ddeddfwriaeth, benderfynu peidio â pharhau â'r ddarpariaeth neu gwtogi'n sylweddol arni. Pe byddai darpariaeth yn cael ei thynnu'n ôl neu ei chwtdogi, gallai gael effaith negyddol ar iechyd a lles disgyblion.

Opsiwn 3: Cyflwyno deddfwriaeth

7.63 Pe byddai'r cyllid yn cael ei drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw, a bod hynny'n cael ei gefnogi gan ddeddfwriaeth, byddai hynny'n sefydlu'n gadarn bolisi Llywodraeth Cymru o gynnig gwasanaeth cwmsela mewn ysgolion yng Nghymru. Byddai mantais hefyd drwy fod llai o fiwrocratiaeth ynghlwm wrth redeg y cynllun grant, yn achos yr awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru fel ei gilydd, a byddai'n gydnaws â'r Adolygiad o Adnoddau Rheng Flaen. Byddai Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro a gwerthuso'r data dienw ar allbwn a deilliannau a ddarperir gan yr awdurdodau lleol.

Y Fenter Brechwast am Ddim

Opsiwn 1: Gwneud dim

7.64 Byddai modd parhau â'r trefniadau cyfredol, hynny yw darparu rhaglen o frecwast am ddim drwy grant penodol i awdurdodau lleol (mae'r trefniant hwn wedi bod ar waith ers mis Medi 2004). Gwneir y taliadau bob tymor fel ôl-daliadau.

7.65 Ar hyn o bryd, mae'r awdurdodau lleol yn hawlio am yr elfennau ariannu unigol:

- Lwfans penodol y dydd i bob plentyn ar gyfer bwyd;
- Lwfans penodol y dydd am staff i oruchwylio a pharatoi'r bwyd - ar sail cyfradd safonol yr awr, a nifer y disgyblion i bob aelod o staff;
- Lwfans sefydlu, i brynu cyfarpar, a lwfans ar gyfer prynu eitemau newydd yn lle'r hen rai ar ôl 3 blynedd yn y fenter;
- Y gost o ddarparu hyfforddiant penodol ee Hylendid Bwyd Sylfaenol a gwiriad y Swyddfa Cofnodion Troseddol ar gyfer cyflogion newydd;
- Lwfans fesul tymor i bob ysgol i helpu i weithredu'r cynllun - gellir defnyddio'r arian hwn yn hyblyg i helpu i weithredu'r fenter, er enghraifft i dalu am gostau bwyd uwch neu gyflogau uwch na'r symiau safonol.

7.66 Hefyd, bydd pob awdurdod lleol yn cael ffi weinyddu am reoli'r fenter - mae'r ffi hon yn seiliedig ar nifer yr ysgolion sy'n cymryd rhan yn y fenter bob tymor.

7.67 Fel rhan o amodau a thelerau'r cynllun grant, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wirio ar hap o leiaf 5% o'r ysgolion sy'n cymryd rhan yn y fenter bob tymor. Caiff adroddiadau am yr hapwiriadau eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

7.68 Fel un o amodau'r grant, os digwydd i swm y cyllid am y flwyddyn fod yn fwy na £100,000 (fel yn achos 21 o'r 22 awdurdod), bydd yn ofynnol i awdurdodau adolygu'r cynllun fel rhan o'u trefniadau archwilio mewnol.

7.69 O dan yr opsiwn hwn gallai ysgolion ychwanegol benderfynu darparu brecwast am ddim ar unrhyw adeg. Mae nifer yr ysgolion ychwanegol sy'n dod yn rhan o'r fenter bob tymor yn eithaf isel a gellid cynnwys y gwaith gweinyddol yn nhrefniadau presennol swyddogion Llywodraeth Cymru. Mae awdurdodau lleol yn cael cyllid i weinyddu'r cynllun ar sail nifer yr ysgolion sy'n cymryd rhan.

Opsiwn 2 : Trosglwyddo'r cyllid i'r Grant Cynnal Refeniw heb ddeddfwriaeth

7.70 Pan fydd y cyllid wedi'i drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw, cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol fydd penderfynu sut orau i ddefnyddio'r arian ac a ddylid parhau â'r fenter. Byddai'r canllawiau cyfredol ar weithredu'r fenter brecwast am ddim mewn ysgolion yn cael eu datblygu i gefnogi awdurdodau lleol sy'n dewis parhau i gynnig brecwast am ddim. Y risg mwyaf sydd ynghlwm â'r opsiwn hwn yw y gallai awdurdodau lleol, heb ddeddfwriaeth, benderfynu peidio â pharhau â'r ddarpariaeth; cwtogi'r rhaglen; neu beidio â gadael i unrhyw ysgolion eraill fod yn rhan ohoni. Yng Nghyfrifiad Ysgolion 2011, roedd 1,052 o ysgolion wedi darparu data am frechwast am ddim ac roedd nifer y plant oedd yn cael o leiaf un brecwast yr wythnos cyn y cyfrifiad yn 66,954. Mae'r sesiynau brecwast hefyd yn gyfle i:

- greu cyflogaeth leol;
- caffael yn lleol;
- galluogi rhieni sy'n gweithio ollwng eu plant yn yr ysgol ar y ffordd i'r gwaith gan wybod eu bod yn ddiogel ac yn cael brecwast iach.

7.71 Pe byddai darpariaeth yn cael ei thynnu'n ôl neu ei chwtdogi, gallai gael effaith negyddol ar y meysydd hyn.

7.72 Rhagwelir y byddai angen system tampio i drosglwyddo o gyllid a arweinir gan alw i gyllid sydd wedi'i drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw ac sy'n seiliedig ar fformiwla safonol. Byddai hynny'n golygu bod rhai'n ennill ac yn colli yn achos y rhaglen benodol hon, wrth i lefel y galw amrywio ar draws awdurdodau lleol Cymru. Dyma'r achos, o bosibl, gyda throsglwyddiadau eraill i'r Grant Cynnal Refeniw, ac o ganlyniad gallai, ar y cyfan, ddod yn gyfartal.

Opsiwn 3: Cyflwyno deddfwriaeth a throsglwyddo'r cyllid i'r Grant Cynnal Refeniw

7.73 Pe byddai'r cyllid yn cael ei drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw, a bod hynny'n cael ei gefnogi gan ddeddfwriaeth, byddai hynny'n sefydlu'n gadarn bolisi Llywodraeth Cymru o gynrig brechwast am ddim mewn ysgolion cynradd yng Nghymru. Byddai mantais hefyd drwy fod llai o fiwrocratiaeth ynghlwm wrth redeg y cynllun grant, yn achos yr awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru fel ei gilydd, a byddai'n gydnaws â'r Adolygiad o Adnoddau Rheng Flaen.

7.74 Mae posibilrwydd y gallai awdurdod lleol, mewn rhai amgylchiadau, wrthod cais ysgol i gymryd rhan yn y cynllun. Yn yr amgylchiadau hyn, byddai angen i'r awdurdod lleol ddangos y byddai'n afresymol iddo wneud y ddarpariaeth honno am resymau a allai gynnwys, er enghraifft, galw isel neu ddim galw o gwbl; cost y ddarpariaeth yn rhy uchel o ystyried y nifer sydd am fanteisio arni; neu fethiant i recriwtio staff.

7.75 Byddai'r un materion sy'n ymwneud â lefel y cyllid i'w drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw ar gyfer Opsiwn 2 yn gymwys i'r opsiwn hwn hefyd.

Taliadau Hyblyg ar gyfer Ysgolion

7.76 Bwriad y polisi yw caniatáu i ysgolion ac awdurdodau lleol gael mwy o hyblygrwydd dros brisiau prydau ysgol, o fewn terfyn wedi'i gapio. Gallai trefniadau taliadau hyblyg a luniwyd yn briodol helpu teuluoedd isel eu hincwm ac annog rhagor o ddisgyblion i fwyta prydau ysgol.

7.77 Ymhlith yr amgylchiadau y gellid defnyddio'r hyblygrwydd hwn y mae: (a) er mwyn caniatáu gostyngiad yng nghost prydau am gyfnod penodol pan dderbynnir disgyblion newydd i ysgolion babanod, ysgolion iau ac ysgolion cynradd (b) er mwyn caniatáu gostyngiad yng nghost prydau ar gyfer teuluoedd lle mae mwy nag un plentyn am gael prydau ysgol (c) ar gyfer teuluoedd isel eu hincwm sy'n derbyn credyd treth gwaith ar y gyfradd uchaf.

7.78 Yr awdurdodau lleol fydd biau'r dewis i godi taliadau hyblyg a bydd gofyn iddynt wneud penderfyniad lleol i roi cymhorthdal tuag at y prydau yn ystod cyfnod y cynrig. Dim ond yn yr awdurdodau lleol hynny a fydd yn dewis

codi taliadau hyblyg y gwelir effaith. Byddai maint yr effaith yn dibynnu ar sut yr ânt ati i roi'r taliadau hyblyg ar waith.

7.79 Byddai'r newid hwn yn y polisi yn gydnaws â datblygiadau polisi ehangach:

- Blas am Oes - agenda Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella'r bwyd a'r diod a ddarperir mewn ysgolion;
- Mae Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer 'Hybu prydau mewn ysgolion a sefydliadau addysgol eraill' a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol/cyrff llywodraethu annog rhagor i ddewis prydau ysgol. Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi cytuno i roi cychwyn ar yr amryw ddarpariaethau sydd yn y Mesur hwn ac ar ddrafftio'r rheoliadau a fydd yn gosod y gofynion ar gyfer y bwyd a diod a ddarperir mewn ysgolion. Bydd y ddeddfwriaeth yn cychwyn ym mis Medi 2012 ar gyfer ysgolion cynradd ac ym mis Medi 2013 ar gyfer ysgolion uwchradd.
- Y Strategaeth Tlodi Plant - Mae potensial i'r ddeddfwriaeth arfaethedig effeithio ar dlodi plant ac anghydraddoldebau iechyd oherwydd byddai'n rhoi mwy o hyblygrwydd i ysgolion ac awdurdodau lleol amrywio'u prisiau, a gallai hynny helpu teuluoedd ar incwm isel a chynyddu'r nifer sy'n bwyta prydau ysgol iach.

7.80 O'u cyflwyno, mae potensial i daliadau hyblyg gael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion ysgol drwy leihau a chael gwared ar rwystrau ac anghydraddoldebau a allai fodoli ar hyn o bryd.

7.81 Gallai'r newid fod o fudd arbennig i blant yn eu blwyddyn gyntaf mewn ysgol newydd mewn sefyllfa lle gallai'r awdurdod lleol benderfynu darparu prydau am ddim am gyfnod penodol er mwyn annog plant i roi cynnig ar brydau ysgol. Er ei bod hi'n debyg mai dros dro y caiff y taliadau hyblyg eu cyflwyno yn yr amgylchiadau hyn, y gobaith yw y bydd teuluoedd a phlant, unwaith y byddant wedi arfer dewis cinio iach i'w fwyta yn yr ysgol, yn parhau i fwyta'n iach am weddill eu hoes.

7.82 Mae tystiolaeth eang hefyd³ y gall cinio ysgol iach gael effaith gadarnhaol ar ymddygiad disgyblion, pa mor effro ydyn nhw, eu gallu i ganolbwyntio a'u perfformiad yn yr ysgol yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Gan ystyried tystiolaeth o'r fath, mae awdurdodau lleol ac ysgolion wedi bod yn gweithio tuag at ddarparu ciniawau ysgol sy'n bodloni'r gofynion maethol newydd a gynigir yn y pecyn Blas am Oes ac annog disgyblion i gael cinio ysgol.

³ *School Food Trust: School lunch and behaviour in secondary schools* (cyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2009)

Healthy school meals and educational outcomes, Belot a James (2009)

School lunch and behaviour in primary schools, Ymddiriedolaeth Bwyd Ysgolion

Effects of diet on behaviour and cognition in children, yn y *British Journal of Nutrition*, Bellisle 2004

7.83 Credir y gall cynnig y manteision hyn, drwy weithredu'r trefniadau priodol ar gyfer taliadau hyblyg, i ddisgyblion o deuluoedd isel eu hincwm fod o fudd anghymesur, o dan rai amgylchiadau, oherwydd mae'n bosibl mai'r unig bryd maethlon cytbwys a gânt yn ystod y dydd fydd eu cinio ysgol. Mae cael prydau ysgol am ddim (FSM) yn dibynnu ar brawf modd ac yn agored i bob teulu sy'n gymwys ac sy'n gwneud cais amdanynt. Er nad yw'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim bob amser yn manteisio ar hynny, mae llawer o deuluoedd isel eu hincwm yn cael anhawster i dalu am brydau ysgol, yn enwedig os oes ganddynt fwy nag un plentyn.

7.84 Yn Lloegr, yn y blynyddoedd diwethaf, deallir bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi caniatáu i nifer o awdurdodau lleol dreialu amrywiaeth eang o gynigion ar gyfer prydau ysgol yn unol â'r darpariaethau a geir yn Neddf Addysg 2002 o dan y Pŵer i Arloesi. Ym mhob achos, mae'r nifer sy'n cael cinio wedi cynyddu. Yn ogystal â bod o fantais i'r disgyblion hynny sydd wedi manteisio ar y cynigion, mae hefyd o gymorth i'r awdurdodau lleol ac ysgolion sicrhau bod eu gwasanaethau cinio ysgol yn fwy hyfyw a chynaliadwy yn y tymor hir.

7.85 Mae Deddf Addysg 2011 wedi diwygio'r gofynion o ran codi tâl yn Lloegr er mwyn caniatáu i awdurdodau lleol ac ysgolion yn Lloegr ddefnyddio cynigion arbennig wrth brisio prydau bwyd er mwyn annog rhagor o ddisgyblion i roi cynnig ar ginio ysgol iach.

Opsiwn 1: Gwneud dim

7.86 Byddai gwneud dim yn cynnal y system sy'n bodoli ar hyn o bryd ar gyfer prisio lle caiff awdurdodau lleol ddarparu llaeth, prydau a lluniaeth o fath arall i gategoriâu penodol o blant, a chânt godi tâl am y ddarpariaeth honno. Felly, lle maent yn codi tâl, byddai'n rhaid iddynt barhau i godi'r un pris ar bawb am yr un swm o'r un eitem.

7.87 Byddai trefniadau prisio o'r fath yn parhau i rwystro awdurdodau lleol ac ysgolion rhag helpu teuluoedd sydd â nifer o blant drwy godi pris llai am yr ail blentyn a phlant dilynol, neu godi llai ar blant iau na phlant hŷn. Nid oes dim ychwaith i rwystro darparwyr prydau ysgol rhag codi tâl ar ddisgyblion uwchlaw cost cynhyrchu'r bwyd sy'n cael ei gynnig.

Opsiwn 2: Defnyddio'r Pŵer i Arloesi

7.88 Byddai'r opsiwn hwn yn defnyddio Pŵer i Arloesi, sydd eisoes yn bodoli. Mae Pennod 1 o Ran 1 o Ddeddf Addysg 2002 ("Deddf 2002") yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ymateb i gais gan awdurdod lleol drwy roi gorchymyn sy'n atal neu'n addasu deddfwriaeth am gyfnod o hyd at 3 blynedd. Bwriad y pŵer yw galluogi prosiectau peilot arloesol i gael eu cynnal a gallant, drwy orchymyn, gael eu hestyn am gyfnod pellach o 3 blynedd.

7.89 Cyn y gellir arfer y Pŵer i Arloesi bydd angen i Weinidogion Cymru ddwyn i rym y darpariaethau sydd yn Adrannau 1 i 5 o Ddeddf 2002 drwy Orchymyn a wneir o dan Adran 216 o Ddeddf 2002.

7.90 Os caiff yr adrannau perthnasol eu dwyn i rym, gallai awdurdodau lleol neu gyrff llywodraethu ysgolion â chyllideb ddirprwyedig wneud cais i Weinidogion Cymru dreialu codi taliadau hyblyg am brydau ysgol.

Opsiwn 3: Diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol

7.91 O dan yr opsiwn hwn caiff y ddeddfwriaeth ei diwygio er mwyn galluogi awdurdodau lleol ac ysgolion yng Nghymru i amrywio pris llaeth, prydau a lluniaeth o fath arall a ddarperir mewn ysgolion.

7.92 Serch hynny, mater i'r awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion â chyllideb ddirprwyedig fydd penderfynu, ar ôl ystyried unrhyw oblygiadau cyllido, a fyddant am ddewis amrywio'r prisiau.

8. Costau a manteision

8.1 Mae'r bennod hon yn cynnwys dadansoddiad o'r costau a'r manteision y manylir arnynt yn Adran 7.

Ymyrryd mewn ysgolion sy'n peri pryder

Opsiwn 1: Gwneud dim

8.2 Byddai'r sefyllfa bresennol lle nad yw'r awdurdodau lleol yn defnyddio'r pwerau sydd ganddynt yn effeithiol ac yn rhagweithiol yn parhau. Golyga hyn, lle bo ysgol yn dechrau cael pethau'n anodd, ac yn dangos gostyngiad yn safonau'i haddysg a/neu yn ei dulliau rheoli ariannol, nad yw rôl statudol yr awdurdod lleol o ran gwella ysgolion bob amser yn cael ei harfer ar yr adeg briodol. Yn achos llawer o'r ysgolion hynny a ddirywiodd i'r fath raddau fel bod Estyn wedi asesu eu bod angen mesurau arbennig roedd problemau o ran perfformiad a allai fod wedi eu hadnabod a'u datrys lawer yn gynt.

8.3 Mae'r gost o ymyrryd mewn ysgolion sy'n peri pryder yn amrywio'n sylweddol, yn ôl y math o ymyriadau sydd eu hangen. Dyma enghreifftiau o'r math o gostau ar gyfer ymyrryd mewn ysgolion sy'n peri pryder:

- Mae gan awdurdodau lleol eisoes bŵer i gyhoeddi hysbysiad rhybuddio. Amcangyfrifir mai cost cyhoeddi hysbysiad rhybuddio ysgrifenedig yw tua £1000.
- Gall hi fod yn ofynnol i gorff llywodraethu/ysgol wan gydweithio ag ysgol/corff llywodraethu arall. Mae ychydig o gostau yn debygol o ddeillio o hyn (dim mwy na £500 yn fwy na thebyg).
- Mae awdurdodau lleol yn cynnig cymorth i ysgolion â gwella a monitro perfformiad fel mater o drefn. Dyma enghreifftiau o gamau a chostau posibl:
 - mentora a goruchwyllo gan swyddogion gwella ysgolion yr awdurdod lleol neu bennaeth profiadol o ysgol arall, er enghraifft 10 diwrnod am tua £200 y dydd am gyfanswm o £2,000 (ar sail cyflog dangosol o £40,000 y flwyddyn);
 - cymorth ychwanegol, er enghraifft 40 diwrnod ychwanegol o ymyrraeth gynorthwyol am tua £300 y dydd am gyfanswm o £12,000 (ar sail cyflog dangosol o £60,000 y flwyddyn);
 - weithiau gallai ymyrraeth allanol olygu bod angen i aelod o staff neu fwy nag un aelod o staff fod yn destun gweithdrefnau cymhwysedd, neu gall olygu, o dan amgylchiadau eithriadol, fod angen penodi staff yn eu lle. Ni fyddai hynny'n golygu costau ychwanegol oni bai bod costau diswyddo neu gostau recriwtio staff ychwanegol. Mae cyflog athro ysgol sydd newydd gymhwyso yn dechrau ar £21,588; y pwynt uchaf ar raddfa gyflogau'r penaethiaid yw £105,097.
- Lle bo awdurdod yn cymhwyso'i bwerau i ddisodli bwrdd llywodraethwyr gyda bwrdd gweithrediaeth interim, mae ganddo bŵer i gynnig tâl i aelodau'r bwrdd hwnnw fel y bo'n briodol. Hyd yma nid oes bwrdd o'r fath wedi bod drwy gylch llawn o waith gwella ysgolion, ond fel canllaw bras, byddai bwrdd gweithrediaeth interim

sy'n cynnwys 5 aelod a'r rheini'n ennill £300 y dydd, ac yn cyfarfod 6 gwaith y flwyddyn am ddwy flynedd, yn costio £90,000.

- O dan amgylchiadau eithriadol, efallai y bydd angen i Weinidogion Cymru ddefnyddio eu pwerau i roi cyfarwyddyd i awdurdod lleol gau ysgol. Byddai hyn yn golygu costau diswyddo neu adleoli ar gyfer staff yr ysgol a allai fod yn filiynau o bunnau. Byddai disgwyl i'r awdurdod lleol ysgwyddo'r costau hyn.

8.4 Mae gan awdurdodau lleol eisoes bwerau i ymyrryd mewn ysgolion sy'n peri pryder. Ar hyn o bryd nid yw Llywodraeth Cymru yn casglu data am nifer yr hysbysiadau rhybuddio a anfonir gan awdurdodau lleol a'r amgylchiadau y cânt eu hanfon. Yn yr un modd, nid oes gennym ddata ynghylch pryd y mae awdurdodau lleol yn penodi llywodraethwyr ychwanegol, neu'n atal dros dro yr hawl i gyllideb ddirprwyedig. Hyd yma dim ond un awdurdod lleol yng Nghymru sydd wedi penodi bwrdd gweithrediaeth interim yn lle'r corff llywodraethu. Bydd costau gweinyddol i awdurdodau lleol o ran anfon hysbysiadau rhybuddio (tua £1000), a bydd costau i awdurdodau lleol o ran darparu/comisiynu cymorth ac i ysgolion o ran cymryd camau ymatebol. Bydd lefel y cymorth a ddarperir gan awdurdod lleol yn dibynnu ar lefel a natur y cymorth sydd ei angen gan yr ysgol sy'n methu, a bydd yn amrywio o ysgol i ysgol. Gallai'r cymorth a ddarperir amrywio o drefnu bod pennaeth profiadol yn cynnig cyngor i ysgol sy'n methu ynghylch y ffordd orau o ailasesu ei blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn ysgol nesaf, i ymyriadau mwy difrifol sy'n golygu ariannu dyddiau ychwanegol swyddog gwella ysgolion. Mae awdurdodau lleol yn cynnig gwasanaethau monitro a gwasanaethau gwella ysgolion fel mater o drefn ar gyfer pob ysgol. Gallai methu ag ymyrryd yn ddigon buan, er enghraifft drwy gyhoeddi hysbysiad rhybuddio, olygu bod y problemau'n ymwreiddio fwy fyth gan arwain at ymyriadau drutach maes o law, neu hyd yn oed fod yr ysgol yn methu ac yn gorfod cau.

8.5 Mae'r buddiannau ansoddol ar safonau addysg hyd yn oed yn fwy arwyddocaol na'r costau ariannol o ymyrryd mewn ysgolion sy'n peri pryder: gall ysgol sy'n dangos arweinyddiaeth gadarn ac sy'n mynd rhagddi â chynllun gwella ysgol ddangos canlyniadau cyflym (ee yn y cynnydd o ran cyfran y disgyblion sy'n cael pump TGAU neu ragor pan fyddant yn gadael).

Opsiwn 2: Gwneud y lleiaf posibl - Cyfuno ac ailddatgan y darpariaethau presennol

8.6 Byddai costau gweinyddol i Lywodraeth Cymru o ran cyfuno ac ailddatgan y darpariaethau presennol, a diweddarau'r canllawiau anstatudol i adlewyrchu'r newidiadau hyn, ond byddai'r costau hynny'n fach iawn (costau untro o £2,000 yn 2012/13 ar sail costau cyhoeddi canllawiau tebyg).

8.7 Byddai cyfuno ac ailddatgan y darpariaethau presennol o fantais i awdurdodau lleol oherwydd byddai'n gwneud y gyfraith yn gliriach ac yn sicrhau eu bod yn deall y pwerau sy'n bodoli ar hyn o bryd ac o dan ba amgylchiadau y cânt eu defnyddio. Eto i gyd, bydd y meini prawf ar gyfer cyhoeddi hysbysiadau rhybuddio yn parhau i rwystro awdurdodau lleol rhag eu cyhoeddi'n ddigon cynnar. Canlyniad hyn yw y bydd ysgolion yn cael

parhau i ddirywio am gyfnod rhy hir gan arwain at yr angen am rai o'r ymyriadau mwy costus a amlinellir yn 8.3 uchod.

Opsiwn 3: Cyfuno, a lle bo angen, diwygio darpariaethau presennol

8.8 Nid yw'r darpariaethau hyn yn gosod beichiau ychwanegol ar awdurdodau lleol. Mae gan awdurdodau lleol eisoes bwerau i ymyrryd mewn ysgolion sy'n peri pryder. Y bwriad yw eu hannog i ddefnyddio'r pwerau hyn yn gynt ac yn fwy effeithiol. Os yw ysgol yn ysgol sy'n peri pryder ac os nad yw'n barod i ymwneud â'r awdurdod lleol nac yn gallu gwneud hynny mewn modd adeiladol er mwyn sicrhau gwelliannau mae'n rhesymol disgwyl i'r awdurdod lleol ymyrryd ar ryw adeg. O'r herwydd, er y gallwn ragweld cynnydd yn nifer yr hysbysiadau rhybuddio cynnar a gyhoeddir, byddem yn disgwyl lleihad yn y gofyn am ymyriadau mwy dwys a mwy costus yn nes ymlaen os bydd problemau'n cyrraedd penllanw.

8.9 Rydym yn rhagweld y bydd ehangu'r meini prawf ar gyfer cyhoeddi hysbysiadau rhybuddio yn annog awdurdodau lleol i gyhoeddi hysbysiadau rhybuddio'n gynt er mwyn sicrhau bod ysgolion yn gwella'n gynt. Fel y nodir yn Opsiwn 1 uchod, y gost weinyddol i awdurdodau lleol sydd ynghlwm â chyhoeddi hysbysiadau rhybuddio yw tua £1000. Gallai awdurdodau lleol hefyd wynebu costau wrth ddarparu/comisiynu cymorth a gallai ysgolion wynebu costau wrth ymateb i'r gwendidau yn unol â'r enghreifftiau a nodir yn Opsiwn 1. Bydd y costau'n dibynnu ar natur y methiant a'r camau penodol y mae angen eu cymryd i ymateb iddo. Felly, mae'n anodd ei fesur gan ei fod yn seiliedig, gan mwyaf, ar amser swyddogion yr awdurdodau lleol. Amcangyfrifir y gallai dau swyddog dreulio wythnos yn archwilio'r holl gyfarfodydd, yn casglu'r dystiolaeth ac yn cymhwyso'r hysbysiadau rhybuddio am amcangyfrif gros o £500 y dydd (ar sail wythnos o ddau gyflog dangosol o £50,000). Serch hynny, gan y byddai'r gwaith hwn yn cael ei ystyried yn waith ag iddo flaenoriaeth uchel, gellir rhagdybio y byddai'r angen i lunio hysbysiad rhybuddio yn cael blaenoriaeth dros weithgareddau eraill a byddai'n costio llai. Mae awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau monitro a gwasanaethau gwella ysgolion i ysgolion fel mater o drefn. Mae ymyrraeth gynnar yn debygol o fod yn llai costus, fodd bynnag, a dylai arwain at arbed costau yn y tymor hwy gan na fyddai ysgolion yn gallu parhau i dangyflawni am gyfnodau hir neu hyd nes y bydd problemau'n cyrraedd penllanw, gan arwain at ymyriadau mwy costus yn y tymor hwy. O'r herwydd, gallai cymhwyso pwerau awdurdodau lleol yn unol â chanllawiau statudol ynghylch ysgolion sy'n peri pryder arwain at ymyriadau llai costus.

8.10 Byddai mynychu ysgolion sy'n tangyflawni am gyfnodau hir yn niweidiol iawn i blant a phobl ifanc o ran eu deilliannau addysgol. Mae manteision economaidd sylweddol ynghlwm â gwella cyrhaeddiad addysgol plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'n anodd mesur y costau hyn.

8.11 Fel y nodir yn opsiwn 2 byddai rhai costau gweinyddol i Lywodraeth Cymru yn sgil cyhoeddi canllawiau statudol ynghylch ysgolion sy'n peri pryder ond ni ddisgwylir i'r costau hyn fod yn sylweddol (costau untro o tua £2,000 yn 2012/13) ar sail y gost o gyhoeddi'r canllawiau blaenorol.

Yr opsiwn a ffefrir

8.12 Ar ôl ystyried yn ofalus yr holl opsiynau rydym wedi penderfynu peidio â dewis opsiwn 1 nac opsiwn 2. Ni fyddai'r opsiynau hyn yn newid y sefyllfa bresennol, lle gall ysgolion barhau i dangyflawni am gyfnodau hir oherwydd nad yw'r awdurdodau lleol yn defnyddio'u holl bwerau ymyrryd. Mae Estyn wedi tynnu sylw at y sefyllfa hon.

8.13 Byddai hyn yn parhau i gael effaith niweidiol ar ddeilliannau addysgol y plant a'r bobl ifanc sy'n mynychu'r ysgolion hynny a byddai cost ehangach i gymdeithas yn ogystal.

8.14 Rydym wedi penderfynu dewis Opsiwn 3 gan mai dyma'r unig opsiwn a fydd yn cyflawni'r nod cyffredinol o sicrhau bod awdurdodau lleol yn ymwybodol o'u pwerau ymyrryd mewn ysgolion sy'n peri pryder ac o bwerau ymyrryd Gweinidogion Cymru. Bydd hefyd yn sicrhau eu bod yn defnyddio'r pwerau hynny mewn modd effeithiol a rhagweithiol, gan wella'n gyflym ysgolion sy'n tangyflawni.

Gwella Ysgolion

8.15 Byddai'r canllawiau statudol ynghylch gwella ysgolion yn pennu sut y gallai athrawon, ysgolion neu eraill ymgymryd â'u rolau presennol mewn modd mwy effeithiol.

Opsiwn 1: Gwneud Dim

Costau

8.16 Er na fyddai unrhyw gostau deddfwriaethol ychwanegol yn uniongyrchol gysylltiedig â'r opsiwn hwn, mae safonau ysgolion yn debygol o barhau'n is nag y dylent heb ganllawiau statudol ar gyfer gwella ysgolion. Er bydd rhai ysgolion yn pennu ac yn gweithredu prosesau addysgol, fel cynlluniau gwaith, sy'n arferion gorau, bydd llawer yn parhau i beidio â gwneud hynny, fel y dengys y dystiolaeth o arolygiadau ysgolion ac astudiaethau Estyn. Yn yr hirdymor gallai rhai costau ariannol fod ynghlwm â'r gofyniad am fesurau ymyrraeth eraill i fynd i'r afael â materion perfformiad, fel gwerthusiad allanol neu gynnwys arbenigwyr allanol i wella perfformiad addysgol. Amcangyfrifir y gallai cyfanswm y costau hyn fod tua £350,000, sy'n cynnwys £50,000 ar gyfer cynnal gwerthusiad allanol, a £300,000 ar gyfer gweithredu cynllun gweithredu'r gwerthusiad. Gallai'r costau ychwanegol hyn, i'w talu gan Lywodraeth Cymru, godi yn ystod y 5 mlynedd nesaf, os bydd safonau perfformiad yn parhau i ddirywio.

Manteision

8.17 Ni ragwelir bod unrhyw fanteision ychwanegol ynghlwm â chynnal y trefniadau presennol. Fodd bynnag, byddai'r opsiwn hwn yn cynnal y dull hyblyg presennol ar gyfer gwella ysgolion, heb gyfyngiadau canllawiau

statudol a rhagnodol. Gall awdurdodau lleol barhau i weithredu dull ad hoc o wella perfformiad, gan bennu'r ysgolion sydd ag arferion da a hybu dulliau effeithiol o rannu hyn ag ysgolion sy'n tangyflawni.

Risgiau

8.18 Mae'r dystiolaeth bresennol wedi dangos yn glir nad yw'r dull hwn yn llwyddo i godi safonau perfformiad. Os nad oes unrhyw bwerau i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i ysgolion llai llwyddiannus fabwysiadu arferion effeithiol, mae'r bwch o ran perfformiad yn debygol o barhau.

Opsiwn 2: Gwneud y lleiaf posibl

Costau

8.19 Amcangyfrifir y bydd costau ariannol cyffredinol yr opsiwn hwn tua £430,000. Dim ond £7,500 o'r costau hyn, sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd parhaus â rhanddeiliaid, fydd yn gostau rheolaidd Mae'r costau hyn yn cynnwys costau trosiannol sydd ynghlwm â chodi ymwybyddiaeth o fewn ysgolion ac awdurdodau lleol (amcangyfrifir y bydd yn costio tua £313,000), casglu ynghyd arferion gorau (amcangyfrifir y bydd yn costio ychydig llai na £110,000). Bydd gweddill y costau ynghlwm ag ymgynghori a chyhoeddi. Daw proffil y costau i'r amlwg dros sawl blwyddyn ariannol, gan gyd-fynd â blynyddoedd academaidd o 2012/13 ymlaen.

8.20 Byddai cyfanswm y costau, sef £430,000 fel y nodir uchod, yn effeithio ar Lywodraeth Cymru, llywodraeth leol ac ysgolion. Byddai angen i Lywodraeth Cymru dalu'r costau datblygu hyn drwy'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion.

8.21 Fodd bynnag, gallai'r costau hyn gynyddu os bydd y costau ymyrraeth ychwanegol o £350,000 yn cynnwys £50,000 i gynnal gwerthusiad allanol a £300,000 ar gyfer penodi secondai am ddwy flynedd i weithredu cynllun gweithredu'r gwerthusiad, sydd ynghlwm ag opsiwn 1, hefyd yn berthnasol.

Manteision

8.22 O'i gymharu ag opsiwn 1, byddai'r dull hwn yn galluogi awdurdodau lleol i gynnal peth rhyddid a hyblygrwydd ar gyfer mabwysiadu dulliau arloesol o wella ysgolion mewn perthynas â'r cwricwlwm lleol. Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn creu cwmipas i Weinidogion Cymru lywio'r agenda ar gyfer gwella ysgolion gan ddefnyddio'r ddeddfwriaeth bresennol, hybu newidiadau polisi newydd drwy orchymyn cwricwlwm neu lunio rheoliadau ar gyfer dylanwadu ar hyfforddiant athrawon.

Risgiau

8.23 Byddai'r opsiwn hwn yn cyfyngu'n sylweddol ar y pwerau ymyrryd er mwyn hybu'r defnydd ehangach o weithgareddau arferion gorau o fewn ysgolion. O'r herwydd, efallai na fydd yn gallu cyflawni'r gofynion polisi.

Opsiwn 3

Costau

8.24 Cost gyffredinol yr opsiwn hwn yw tua £1,700,000. Yn ogystal â'r costau gwerth £430,000 a amlinellir ar gyfer Opsiwn 2, byddai hyn hefyd yn cynnwys costau o tua £1,000,000 sy'n gysylltiedig â chymorth awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion, ynghyd â chostau amcangyfrifol o £270,000 sy'n gysylltiedig â rhagor o waith codi ymwybyddiaeth o fewn ysgolion, costau gwerthuso a chostau yn ymwneud ag arferion gorau. Mae'r costau hyn, sy'n gostau trosiannol, yn seiliedig ar weithredu un strategaeth gwella ysgol a byddent yn codi dros flwyddyn. Gallai'r gwir gostau gynyddu, gan ddibynnu ar nifer y polisiâu gwella ysgolion sy'n cael eu datblygu ar yr un pryd.

8.25 Byddai'r costau ychwanegol o £1,700,000, a fyddai ynghlwm â'r opsiwn hwn, yn effeithio ar Lywodraeth Cymru, llywodraeth leol ac ysgolion. Byddai angen i Lywodraeth Cymru dalu'r costau datblygu hyn drwy'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion.

8.26 Gan y bydd sail statudol i'r canllawiau gallai fod rhai costau dilynol ychwanegol ynghlwm â darparu hyfforddiant ar gyfer ysgolion a darparu cymorth parhaus â gweithredu. Byddai'r costau hyn yn dibynnu ar pa mor gymhleth yw'r maes polisi â blaenoriaeth ac ar lefel y cymorth â gweithredu sy'n ofynnol. Amcangyfrifir bod y costau cymorth â gweithredu parhaus tua £500,000 y flwyddyn (dros gyfnod o 3-5 mlynedd), wrth i lefel y cymorth leihau ac wrth i'r polisi ddechrau cynnal ei hun.

8.27 Bydd y fframwaith statudol gwella ysgolion yn cynnwys cyfres o ddogfennau canllawiau, yn hytrach nag un cyhoeddiad cyffredinol. Mae'r amcanestyniadau yn seiliedig ar gyhoeddi a gweithredu canllawiau statudol ynghylch un flaenoriaeth gwella ysgolion. Mae blaenoriaethau yn y dyfodol yn parhau i gael eu pennu drwy'r broses bandio ac archwiliadau, a bydd angen asesu'r costau ymhellach pan fydd manylion mwy penodol ar gael.

Manteision (gweler hefyd Adrannau 3.22; 8.1)

8.28 Mae hi'n anodd iawn amcangyfrif y manteision posibl sy'n uniongyrchol gysylltiedig â gwelliannau i ganllawiau ar gyfer ysgolion. Serch hynny, mae'r dystiolaeth ehangach yn ategu pwysigrwydd safon athrawon o fewn deilliannau addysgol. Gallai gwelliannau cysylltiedig sy'n effeithiol ysgogi manteision addysgol pwysig.

8.29 *Byddai rhai o'r manteision i'r system gyfredol yn cynnwys:*

- byddai canllawiau statudol yn rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol gryf ar awdurdodau lleol ac ysgolion i'w dilyn oni bai y byddant yn cwblhau proses statudol. Bydd mabwysiadu dull gorfodol sydd wedi'i safoni yn dechrau lleihau lefel uchel yr amrywiad yn lleol drwy roi

cyfarwyddyd ynghylch y dull o wella ysgolion ar sail arferion da profedig;

- mwy o gapasiti i Lywodraeth Cymru ymyrryd, herio a safoni perfformiad, gan gynnwys mynd i'r afael â'r rhai o'r amrywiadau o ran rhannu arferion da;
- pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdodau lleol/ysgolion i gydymffurfio â'r canllawiau statudol ar wella ysgolion er mwyn mynd i'r afael â materion perfformiad;
- cynnal hyblygrwydd ar gyfer awdurdodau lleol i arloesi'n lleol, cyn belled â bod y dull cyferbyniol yn cyflawni'r deilliannau addysgol a ddymunir;
- bydd symud i ddull statudol o weithredu o ran rhannu arferion da yn cynyddu'r cydweithredu, ac yn rhoi cyfle i ysgolion wella.
- Byddai costau yn cael eu harbed, o ran yr amser y mae athrawon a phenaethiaid yn ei dreulio yn ymchwilio ac yn datblygu arferion ar gyfer eu hysgol. Er enghraifft, os gallai ysgol gyfeirio at ganllawiau statudol y mae eu hansawdd wedi'i sicrhau ar gyfer diweddarau maes o ymarfer addysgol, gallai hyn leihau'r costau chwilio i'r ysgol o ddiwrnod o leiaf (o leiaf £100, ar sail cyflog cyfartalog athro) am bob maes sy'n gysylltiedig â gwella ysgolion. Bydd cynlluniau datblygu ysgolion, gan fwyaf, yn cynnwys sawl maes ar gyfer gwella a bennir bob blwyddyn, tua chwech ar gyfartaledd. Bydd hyn yn arbed £600 i bob ysgol bob blwyddyn, neu o leiaf gwerth £1 filiwn o amser athro a dreulir ar weithgarwch mwy cynhyrchiol.

8.30 *Risgiau*

- nid oes sail gyfreithiol i'r canllawiau ac nid ydynt yn rhoi pwerau na dyletswyddau. Caiff corff neu berson wyro oddi wrth ganllawiau statudol os oes ganddynt resymau da dros wneud hynny ac os ydynt yn dilyn y weithdrefn a amlinellir uchod. Gallai fod yn anodd casglu digon o dystiolaeth i herio achos dros wyro;
- bydd effeithiolrwydd canllawiau statudol yn dibynnu ar ansawdd y gwaith drafftio, a ydynt yn cael llawer o gyhoeddusrwydd, a ydynt yn cynrychioli arferion da a pha mor effeithiol y cânt eu monitro. Bydd angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod trefniadau porthgadw effeithiol yn bodoli i sicrhau dull cyson o weithredu.

Yr opsiwn a ffefrir

8.31 O ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd uchod, Opsiwn 3 yw'r opsiwn a ffefrir.

8.32 Y prif resymau yw:

- Mae'r dystiolaeth sydd ar gael wedi profi dro ar ôl tro fod y dull hyblyg o wella ysgolion a amlinellir yn opsiynau 1 a 2 wedi methu'n llwyr.
- Er bod y costau sy'n gysylltiedig â'r opsiwn a ffefrir yn uwch na chostau'r opsiynau eraill, o ystyried diwygiadau tebyg a fabwysiadwyd yn llwyddiannus mewn gwledydd sy'n perfformio'n dda, gallai gweithredu fel hyn arwain at fanteision mwy o lawer o ran cyfrannu at welliannau yn y deilliannau addysg, a byddai hynny'n ddigon i gefnogi Opsiwn 3.
- Bydd yr opsiwn hwn yn ffordd o hybu Cynllun Gweithredu 20 Pwynt y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar gyfer Addysg yng Nghymru, gan godi safonau a lleihau'r bwlch mewn cyrhaeddiad drwy ddull gorfodol sy'n seiliedig ar arferion gorau profedig.
- Bydd y dull hwn yn ategu gwaith yr Uned Safonau Ysgolion ac yn sicrhau bod y Gweinidog mewn sefyllfa i ymateb yn bendant i flaenoriaethau newydd, gan gynnwys y ffordd anghyson y caiff arferion gorau eu rhannu.
- Bydd yr opsiwn hwn hefyd yn atgyfnerthu trefniadau arolygu diwygiedig Estyn wrth bennu a dosbarthu arferion arweiniol o fewn y sector. Mae tystiolaeth Estyn wedi profi bod llawer o ysgolion yn cyflawni'n dda iawn a gall yr ysgolion hyn fod yn fodelau defnyddiol ar gyfer eraill ynghylch yr hyn sy'n gweithio orau.
- Bydd yr opsiwn hwn hefyd yn sicrhau digon o hyblygrwydd fel y gall awdurdodau lleol fabwysiadu dull arloesol o wella ysgolion, ond nid mewn ffordd na chaiff ei chefnogi gan y llywodraeth.
- Bydd y dull hwn hefyd yn dechrau cyflawni ymrwymiad y Gweinidog tuag at sicrhau mai arferion gorau fydd ein harferion safonol, gan ddechrau newid y diwylliant o ddatblygiad proffesiynol parhaus i hybu addysgu rhagorol a chodi safonau ar draws Cymru, megis drwy weithredu cymunedau dysgu proffesiynol.
- Bydd dull safonol o wella ysgolion, drwy ganllawiau statudol rhagnodol, yn gwella'r modd y mae ysgolion yn hunanwerthuso ac yn cynllunio gwelliannau a bydd hefyd yn sicrhau cymaint â phosibl

o fewnbwn o wasanaethau lleol er mwyn cefnogi gwelliannau i ysgolion.

- Bydd y dull hwn yn gwella effeithiolrwydd ysgolion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt a bydd hefyd yn galluogi ysgolion llwyddiannus i dynnu sylw at arferion arweiniol a fydd yn cefnogi'r system ehangach yng Nghymru. Bydd newid i ddull mwy rhagnodol, a fydd yn amlinellu o dan ba amgylchiadau y gellir gwyrto, hefyd yn lleihau'r ceisiadau i herio'r canllawiau.
- Bydd Opsiwn 3 yn gwella ansawdd a chysondeb yr addysgu drwy annog athrawon i seilio eu harferion ar dechnegau y gwyddys eu bod yn gweithio a sicrhau bod cyfleoedd datblygu proffesiynol yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau ar gyfer gwella ysgolion. Bydd hyn, yn y pen draw, yn gwella profiadau dysgu myfyrwyr yn yr ystafell ddosbarth.
- Bydd Opsiwn 3 hefyd yn atgyfnerthu darpariaethau cymharol o fewn y Bil i gyhoeddi canllawiau statudol ynghylch ymyrraeth ffurfiol mewn ysgolion gan awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru.
- Bydd Opsiwn 3 yn gosod y sylfeini fel y gall Cymru gystadlu â gwledydd eraill sy'n perfformio'n dda a chyflawni llawer wrth anelu at y fantais hirdymor o greu a chynnal diwylliant o wella.

Trefniadaeth ysgolion

8.33 Byddai costau untro yn gysylltiedig â gweithredu'r darpariaethau trefniadaeth ysgolion yn y Bil. Nid yw'r rhain yn debygol o fod yn uwch na £6,500.

8.34 Byddai gweithredu'r paneli dyfarnu lleol yn golygu cost flynyddol gyfartalog ym mhob ardal awdurdod lleol, sy'n annhebygol o fod yn uwch na £2,500 (£55,000 ar draws Cymru).

Opsiwn 1: Gwneud dim

Costau

8.35 Er na chaiff y gost ei chyfrifo'n arferol, amcangyfrifir mai cost gyfartalog penderfyniad ynghylch cynnig yn ymwneud â threfniadaeth ysgol gan Weinidogion Cymru (sy'n seiliedig ar amcangyfrif o amser staff yn ôl gradd a dreulir ar bob cynnig yn unol â'r costau cyflog cyfartalog ar gyfer pob gradd) yw rhwng £4,000 a £5,000. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae tua 17 cynnig, ar gyfartaledd, wedi'u penderfynu gan Weinidogion Cymru. O'r herwydd, y gost flynyddol bresennol i Lywodraeth Cymru o benderfynu ynghylch cynnigion yw hyd at £85,000 y flwyddyn.

8.36 Ni fyddai unrhyw gostau rheolaidd ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Hefyd, ni fyddai unrhyw drosglwyddiadau o dan yr opsiwn hwn.

8.37 Os caiff yr opsiwn hwn ei ddewis, nid oes unrhyw reswm dros gredu y byddai nifer y cynigion a benderfynir yn newid yn sylweddol, felly byddai'r costau penderfynu blynyddol yn parhau ar yr un lefel. Byddai derbyn yr opsiwn hwn hefyd yn golygu na fyddai awdurdodau lleol nac eraill yn wynebu unrhyw gostau uniongyrchol ychwanegol.

Manteision

8.38 Mae'r rhai sy'n ymwneud â hi yn deall y system bresennol yn dda, ac mae'n fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau cadarn. Serch hynny, nid oes unrhyw fanteision ychwanegol o barhau â'r opsiwn hwn.

Opsiwn 2: Gwneud y lleiaf posibl

Costau

8.39 Mae'r costau untro, trosiannol, ac ychwanegol o baratoi ac argraffu canllawiau newydd ar yr arferion gorau, cyhoeddi rheoliadau diwygiedig a chynnal hyfforddiant cynefino ar gyfer swyddogion awdurdodau lleol yn annhebygol o fod yn fwy nag £8,500 (£6,500 ar gyfer canllawiau a £2,000 ar gyfer rheoliadau).

8.40 O ran costau rheolaidd, nid yw cynigion sy'n cynnwys addasu ysgolion presennol ond yn cynrychioli traean o'r cynigion a gyhoeddir - mae cynigion sy'n gysylltiedig â chau neu sefydlu ysgolion yn fwy cyffredin ac maent yn dueddol o fod yn fwy dadleuol. O'r herwydd, byddai rhan helaeth o gost bresennol y cynigion ynghylch trefniadaeth ysgolion, i gynigwyr a Gweinidogion Cymru, yn parhau hyd yn oed os nad oes angen cynigion statudol ynghylch pob addasiad i ysgolion presennol.

Manteision

8.41 Byddai cael gwared â'r angen am gynigion statudol mewn perthynas ag addasiadau i ysgolion (er enghraifft, er mwyn cynyddu capasiti ysgol yn sylweddol) yn arbed ar y costau parhaus i awdurdodau lleol a chynigwyr eraill o ymgynghori ynghylch cynigion o'r fath a'u cyhoeddi. Er ei bod hi'n anodd amcangyfrif y costau hyn, maent yn debygol o amrywio o £2,000 i £3,000 y cynnig (gan gymryd bod y costau cyhoeddi mewn papur newydd tua £1,800 ac ymarfer ymgynghori cyfyngedig) hyd at sawl mil o bunnau am gynigion sy'n gymhleth neu'n ddadleuol iawn. Byddai lleihau ystod yr addasiadau rhagnodedig hefyd yn arbed rhwng £4,000 a £5,000 i Weinidogion Cymru am bob cynnig nad oes bellach angen penderfyniad yn ei gylch.

Opsiwn 3: Sefydlu Dyfarnwr Annibynnol

Costau

8.42 Byddai rhai costau cychwynnol trosiannol ynghlwm â sefydlu dyfarnwr annibynnol, gan gynnwys costau recriwtio a chostau hyfforddi ar gyfer y

pedwar neu'r pump aelod o staff y byddai, o bosibl, eu hangen. Nid yw'r rhain wedi'u cyfrif, ond disgwylir iddynt fod yn weddol isel.

8.43 Byddai'r costau rheolaidd o weithredu system dyfarnwr annibynnol yn sylweddol. Er enghraifft, roedd costau rhedeg blynyddol Swyddfa'r Dyfarnwr Ysgolion (OSA) yn Lloegr yn 2010-11 tua £655,000. Amcangyfrifodd Swyddfa'r Dyfarnwr Ysgolion fod y dyfarnwr wedi treulio tua 24% o'i amser ar gynigion yn ymwneud â threfniadaeth ysgolion yn 2010-11 (mae'r Swyddfa hefyd yn ymdrin â materion fel gwrthwynebiadau i dderbyniadau). Byddai hyn yn awgrymu mai cyfanswm y gost o ymdrin â chynigion statudol oedd tua £157,000 (hynny yw 24% o £655,000), neu £4,249 am bob un o'r 37 cynnig y penderfynwyd arnynt yn yr un cyfnod o amser (sy'n cyfateb yn fras i'r amcangyfrif o £4,000 - £5,000 am bob penderfyniad a wneir gan Weinidogion Cymru).

8.44 Dros y pum mlynedd diwethaf, mae tua 17 cynnig, ar gyfartaledd, wedi'u penderfynu gan Weinidogion Cymru. Pe byddai system yn cynnwys dyfarnwr yn cael ei sefydlu ni fyddai unrhyw reswm amlwg pam y byddai nifer y cynigion y byddai angen eu penderfynu yn newid. Yn unol â hyn, a chan ystyried cost model Lloegr, y costau uwch sydd ynghlwm â'r model hwnnw ynghyd â chostau adeilad (nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y ffigurau ynghylch costau rhedeg a ddarparwyd gan Swyddfa'r Dyfarnwr Ysgolion) nid yw'n debygol y gallai system dyfarnwr annibynnol gael ei gweithredu yng Nghymru am lai na £100,000 y flwyddyn, hynny yw lleiafswm y gost debygol o benderfynu ar bob cynnig (£5,000) wedi'i luosi gan amcangyfrif y cynigion mewn blwyddyn (17) ynghyd â chostau adeilad.

8.45 Ni fyddai unrhyw gostau'n cael eu trosglwyddo o dan yr opsiwn hwn - cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru fyddai ariannu'r dyfarnwr annibynnol, yn union fel y penderfyniadau cyfredol a wneir gan Weinidogion Cymru.

Manteision

8.46 Fel yr amlinellir yn opsiwn 1, gallai'r gost flynyddol i Lywodraeth Cymru o benderfynu ar gynigion fod hyd at £85,000 y flwyddyn ar hyn o bryd. Byddai'r arbedion hyn yn gwneud iawn am y costau a wariwyd drwy ddefnyddio dyfarnwr annibynnol.

8.47 Prif fantais system â dyfarnwr annibynnol fyddai'r ffaith ei bod yn sicrhau elfen gref o graffu annibynnol a hefyd yn gwaredu unrhyw elfen bosibl o ragfarn wleidyddol yn y broses o wneud penderfyniadau.

Opsiwn 4: Gwaredu'r gofyniad am benderfynwr annibynnol

Costau

8.48 Ni fyddai costau trosiannol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn heblaw'r gost o ddarparu hyfforddiant cynefino i swyddogion yr awdurdodau lleol. Swyddogion Llywodraeth Cymru fyddai'n gwneud hynny ac mae'r gost yn annhebygol o fod yn fwy na £1,500.

8.49 O ran y costau rheolaidd, ychydig o gostau ariannol ychwanegol fyddai ar gyfer unrhyw barti sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Gan mai'r cynigwyr fyddai'n penderfynu ar yr holl gynigion, byddai hyn yn golygu rhai costau ychwanegol iddynt hwy o ran yr amser a'r ymdrech ychwanegol sydd ynghlwm â'r gwaith. Byddai hyn yn arbennig o wir yn achos cynigion dadleuol. Fodd bynnag, byddai'r gost ariannol yn fach iawn - nid yw'n debygol o fod yn fwy nag ychydig o gannoedd am bob cynnig.

Manteision

8.50 Byddai'r opsiwn hwn yn arwain at arbedion ariannol i Lywodraeth Cymru sydd gyfwerth â chost gyfartalog flynyddol o benderfynu ar gynnig dadleuol ynghylch trefniadaeth ysgolion, hynny yw amcangyfrif o hyd at £85,000.

8.51 Byddai'r opsiwn hwn yn arwain at weithdrefn symlach ar gyfer penderfynu ar bob cynnig a fyddai yn ei dro yn lleihau'n sylweddol yr amser a dreulir i brosesu cynigion. Mewn rhai achosion, gallai'r gostyngiad hwn yn yr amser penderfynu arwain at arbedion sylweddol. Er enghraifft, lle mae'r cynigion yn cynnwys adeiladu neu addasu adeiladau ysgol, gallai unrhyw oedi a achosir i'r amserlen adeiladu gan broses benderfynu hirfaith gynyddu'r costau adeiladu'n sylweddol. Yn wir, mae llawer o gynigion sy'n ymwneud â chau neu uno ysgolion yn arwain at arbedion refeniw sy'n werth degau o filoedd o bunnau'r flwyddyn (a hynny'n aml drwy ostwng costau staff, yn enwedig cyflogau penaethiaid) felly gallai unrhyw oedi wrth weithredu fod yn gostus.

8.52 Heblaw hynny, mae mwy o sicrwydd yn gysylltiedig â'r broses symlach a gallai hynny annog awdurdodau lleol ac eraill i roi cynigion ger bron yn gyflymach, ac felly sicrhau eu bod yn cael unrhyw arbedion adnodd sy'n gysylltiedig â'r cynigion yn gynt.

8.53 Serch hynny, nid oes modd mesur yn hawdd effeithiau llawn unrhyw newidiadau yn nhrefniadaeth ysgolion neu yn amseriad trefniadaeth ysgolion. Byddai goblygiadau o'r fath yn destun asesiadau ar wahân.

Opsiwn 5: Diwygio'r broses ddeddfwriaethol

Costau

8.54 Mae'r costau untro (trosiannol) o baratoi ac argraffu canllawiau perthnasol ar y ddeddfwriaeth a'r arferion gorau, cyhoeddi a chynnal hyfforddiant cynefino ar gyfer swyddogion awdurdodau lleol yn annhebygol o fod yn fwy na £6,500. Ni fyddai'r costau hyn ond yn berthnasol i'r opsiwn hwn a byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru eu hysgwyddo yn y flwyddyn ariannol 2012/2013 ac o bosibl ym mlwyddyn ariannol 2013/14.

8.55 Byddai'r opsiwn hwn, ac yn arbennig gweithredu paneli dyfarnu lleol, yn golygu rhai costau ychwanegol rheolaidd i awdurdodau lleol. Byddai hyn yn

cynnwys lwfansau a threuliau a delir i aelodau'r paneli dyfarnu lleol, cost darparu clerc a'r cymorth gweinyddol angenrheidiol, cyngor cyfreithiol a chostau llogi ystafelloedd.

8.56 Byddai'n anodd pennu'r union gostau hyn gan y gallent amrywio yn ôl amgylchiadau lleol a chymhlethdod unrhyw gynnig sy'n cael ei ystyried (er enghraifft gallai cynnig mwy cymhleth olygu bod yn rhaid i banel dyfarnu lleol gyfarfod sawl gwaith, ond mewn achosion eraill gallai un neu ddau gyfarfod fod yn ddigon.) Fodd bynnag, credir y gallent amrywio, fesul cynnig, o lai na £500 lle gall cynigion gael eu penderfynu mewn dau gyfarfod (gan gymryd na fydd cost llogi'r ystafell a'r lluniaeth, y lwfansau a'r treuliau a'r costau clericio yn fwy na £250 fesul cyfarfod) ac ychydig o gymorth gweinyddol neu gyngor cyfreithiol, i uchafswm tebygol o £5,000 lle y mae angen cyfres o gyfarfodydd, lle y mae angen cyngor cyfreithiol a lle y mae angen i swyddogion ddarparu llawer iawn o gymorth gweinyddol.

8.57 Mae dadansoddiad o'r cynigion a benderfynwyd gan Weinidogion Cymru dros y 5 mlynedd diwethaf yn awgrymu y byddai panel penderfynu lleol pob awdurdod lleol yn penderfynu ar ychydig dros 1 cynnig bob dwy flynedd ar gyfartaledd. Golyga hyn y byddai'r gost flynyddol gyfartalog o weithredu pob panel penderfynu lleol yn annhebygol o fod yn fwy na £2,500 o ystyried y rhagdybiaethau a wnaed uchod. Gallai'r gost gynyddu yn y dyfodol os bydd cyfran uwch o gynigion yn cael digon o wrthwynebiadau i sbarduno penderfyniad gan banel dyfarnu lleol, neu os bydd nifer y cynigion a gyhoeddir yn cynyddu, ond mae'n annhebygol y bydd nifer cyfartalog y cynigion a gaiff eu penderfynu gan banel dyfarnu lleol yn fwy nag 1 y flwyddyn, neu y byddai'r gost yn fwy na £5,000 ar gyfer pob awdurdod lleol y flwyddyn.

8.58 Byddai angen i Lywodraeth Cymru fonitro i ba raddau y mae awdurdodau lleol a'r paneli dyfarnu lleol yn cydymffurfio â'u gofynion statudol. Byddai'r gost o wneud hynny'n fach, ac yn llai na £1,000 y flwyddyn yn fwy na thebyg. Hefyd, byddai Gweinidogion Cymru yn parhau i benderfynu ar rai cynigion; un y flwyddyn ar gyfartaledd am gost o tua £5,000 y flwyddyn.

8.59 Byddai rhyw gymaint o drosglwyddo costau ynghlwm wrth yr opsiwn hwn am mai awdurdodau lleol fyddai'n gyfrifol i ryw raddau am y gost o benderfynu ar gynigion dadleuol, ac nid Gweinidogion Cymru fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Caiff y costau hyn eu pennu ym mharagraffau 8.50 ac 8.56 i 8.59 uchod. Amcangyfrifir ar hyn o bryd fod penderfyniadau gan Weinidogion yn costio hyd at £85,000 y flwyddyn i Lywodraeth Cymru. O dan yr opsiwn hwn byddai Llywodraeth Cymru yn arbed tua £77,000 y flwyddyn, ond byddai gwariant awdurdodau lleol yn cynyddu tua £55,000 y flwyddyn os bydd nifer y cynigion yr ymdrinnir â hwy yn parhau ar yr un lefel.

Manteision

8.60 O dan yr opsiwn hwn, ac yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r cynigion a benderfynwyd gan yr awdurdod lleol yn y 5 mlynedd diwethaf, byddai Gweinidogion Cymru yn penderfynu ar lai na dau gynnig y flwyddyn, a fyddai'n costio tua £8,000 - £10,000 y flwyddyn yn amser y staff (yn seiliedig

ar yr amcangyfrif o'r costau cyfartalog a roddwyd eisoes). Byddai hyn yn arbed hyd at £77,000 y flwyddyn (o ran adnoddau staff).

8.61 Fel yn achos opsiwn 4, ond i raddau llai, byddai'r opsiwn hwn yn arwain at weithdrefn symlach ar gyfer penderfynu ar gynigion, yn enwedig cynigion sy'n ymwneud â chau ysgolion sydd â llai na 10 disgybl neu'r 38% o gynigion y mae angen i Weinidogion Cymru benderfynu arnynt ar hyn o bryd, ond a fyddai o dan y trefniadau newydd, yn cael eu penderfynu gan y cynigydd. Byddai hyn, yn ei dro, yn cwtogi ar yr amser sydd ei angen i brosesu cynigion. Mewn rhai achosion, gallai'r gostyngiad hwn yn yr amser penderfynu arwain at arbedion sylweddol.

8.62 Er enghraifft, lle mae'r cynigion yn cynnwys adeiladu neu addasu adeiladau ysgol, gallai unrhyw oedi a achosir i'r amserlen adeiladu gan broses benderfynu hirfaith gynyddu'r costau adeiladu'n sylweddol. Yn achos ysgolion heb ddisgyblion, byddai'r costau sy'n gysylltiedig â chadw adeilad ac ati, yn cael eu diddymu lawer yn gynt. Yn wir, mae llawer o gynigion sy'n ymwneud â chau neu uno ysgolion yn arwain at arbedion refeniw sy'n werth degau o filoedd o bunnau'r flwyddyn (a hynny'n aml drwy ostwng costau staff, yn enwedig cyflogau penaethiaid) felly gallai unrhyw oedi wrth weithredu fod yn gostus. Heblaw hynny, mae mwy o sicrwydd yn gysylltiedig â'r broses symlach a gallai hynny annog awdurdodau lleol ac eraill i roi cynigion ger bron yn gyflymach, ac felly sicrhau eu bod yn cael unrhyw arbedion effeithlonrwydd sy'n gysylltiedig â'r cynigion yn gynt.

8.63 Serch hynny, nid oes modd mesur yn hawdd effeithiau llawn unrhyw newidiadau yn nhrefniadaeth ysgolion neu yn amseriad trefniadaeth ysgolion. Byddai goblygiadau o'r fath yn destun asesiadau ar wahân.

Yr opsiwn a ffefrir

8.64 Byddai diwygio'r broses ddeddfwriaethol yn golygu arbedion i Lywodraeth Cymru. Byddai rhai mân gostau ychwanegol i awdurdodau lleol yn gysylltiedig â gweithredu'r paneli dyfarnu lleol. Ond ar y llaw arall gellid disgwyl y byddai proses symlach yn arbed arian drwy fod yn fwy effeithlon. At hynny, byddai'r opsiwn hwn yn cyfrannu'n sylweddol at gyflawni pob un o'r pum amcan polisi. Felly, ffefrir Opsiwn 5.

Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg

8.65 Mae rhai costau sylfaenol sy'n gymwys i bob opsiwn.

8.66 O ran y costau gweinyddol, amcangyfrifir bod y costau blynyddol i Lywodraeth Cymru o ran y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a gyflwynir gan bob awdurdod lleol i'w gymeradwyo a'i fonitro (yn seiliedig ar 3 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn a chostau teithio perthnasol), tua £116,000. Amcangyfrifir bod y costau gweinyddol i awdurdodau lleol tua £14,000 fesul awdurdod lleol. Hefyd, mae rhai mân gostau yn ymwneud â chyhoeddi'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, ac amcangyfrifir na fydd y rheini ddim mwy na £2,000 i bob awdurdod lleol.

8.67 Amcangyfrifir felly, bod y costau gweinyddol blynyddol, gyda'i gilydd, tua £468,000. Gan fod y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ar hyn o bryd yn cael eu paratoi, eu cymeradwyo a'u monitro'n anstatudol, mae Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol eisoes yn ysgwyddo'r costau hyn a bydd hyn yn parhau o dan bob opsiwn.

8.68 Mae'r gofynion ariannu ar gyfer y Grant Cymraeg mewn Addysg yn gymwys o dan bob opsiwn fel y mae pethau nawr. Yn seiliedig ar lefel gyfredol y grant, byddai gofyn i Lywodraeth Cymru ddarparu £5.030 miliwn y flwyddyn a byddai gofyn i awdurdodau lleol ddarparu 33% o arian cyfatebol, sy'n gyfanswm o £2.47 miliwn ar draws yr holl awdurdodau lleol.

8.69 Ond yn achos Opsiwn 2, gallai defnyddio'r Grant Cymraeg mewn Addysg fel un o'r cymhellion ar gyfer y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg arwain, o bosibl, at ofynion hirdymor i gynnal y cyfryw ddulliau ariannu.

8.70 Yn ogystal â'r costau a amlinellir mewn man arall, gallai fod rhai goblygiadau o ran costau ariannu cyfalaf ar gyfer awdurdodau lleol pe byddai angen iddynt ddarparu mwy o leoedd cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion. Nid oes modd mesur y costau cyfalaf, oherwydd maent yn dibynnu a oes angen adeilad newydd, neu a oes angen adnewyddu neu ad-drefnu adeiladau ysgol, ac a wireddir yr anghenion hynny. Bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried y cyllid cyfalaf sydd ar gael pan fyddant yn asesu'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg o dan bob opsiwn.

Opsiwn 1: Gwneud dim: cadw'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn ddogfennau anstatudol i'w cwblhau gan yr awdurdodau lleol yn wirfoddol a'u trafod gyda Gweinidogion Cymru

8.71 O ystyried y byddai'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn parhau'n Gynlluniau anstatudol, ac na fyddai'r Grant Cymraeg mewn Addysg yn amodol ar gymeradwyo Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, mae'n bosibl y bydd rhai awdurdodau lleol yn gweithredu eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn llawn, tra bydd eraill ond yn gwneud yr hyn sy'n ofynnol. Felly, bydd cost yr opsiwn 'gwneud dim' yn amrywio yn ôl i ba raddau y bydd yr awdurdodau lleol yn gweithredu'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

8.72 Yn ogystal â'r costau sylfaenol uchod, pe byddai'r awdurdodau lleol yn glynu wrth y canllawiau anstatudol, byddai costau arnynt am gynnal arolygon rheolaidd i fesur y galw. Tybir bod y gost o weinyddu a dadansoddi arolygon, ar gyfartaledd, yn uchafswm o £15,000 yr un. Mae'r canllawiau'n argymhell cynnal arolygon unwaith bob 3 blynedd. Felly, cyfanswm y gost bob blwyddyn fyddai tua £5,000, ar gyfartaledd ym mhob awdurdod lleol, a byddai hynny tua £110,000 y flwyddyn ar draws yr holl awdurdodau lleol. Mae rhai awdurdodau lleol eisoes yn ysgwyddo'r costau hyn.

Opsiwn 2 : Gwneud y lleiaf posibl: Gorfodi Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg anstatudol ar awdurdodau lleol drwy gynnig arian grant.

8.73 Byddai'r opsiwn hwn yn golygu costau ychwanegol o ran cysylltu'r broses o ddadansoddi a monitro'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg â'r Grant Cymraeg mewn Addysg. Amcangyfrifir y bydd y costau gweinyddol ychwanegol o ran amser staff Llywodraeth Cymru tua £19,000 y flwyddyn, ar sail y costau staff safonol am hyd disgwylidig y gwaith. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn ysgwyddo'r costau gweinyddol hyn.

8.74 Fel y nodwyd uchod, gallai'r opsiwn hwn hefyd olygu rhai gofynion tymor hwy i gynnal y cyfryw dulliau ariannol fel rhan o'r cymhelliant a roddir i ddatblygu a gweithredu'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Heb gynnal lefelau cyllid y Grant Cymraeg mewn Addysg neu heb eu cynyddu, bydd dylanwad Llywodraeth Cymru ar awdurdodau lleol i gyflwyno a gweithredu eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn gyfyngedig. Felly, mae'r opsiwn hwn yn golygu ymrwymiad hirdymor i gyllid y Grant Cymraeg mewn Addysg fel dylanwad o ran llywodraethu.

Opsiwn 3: Deddfwriaeth sylfaenol: gosod gofyniad statudol ar awdurdodau lleol i baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, i'w gymeradwyo a'i fonitro gan Weinidogion Cymru, a chymryd camau rhesymol i weithredu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

8.75 Heblaw'r costau sylfaenol (£116,000 ar gyfer Llywodraeth Cymru a £352,000 ar draws yr holl awdurdodau lleol y flwyddyn) a chostau'r opsiwn Gwneud Dim (£110,000 ar draws yr holl awdurdodau lleol y flwyddyn), byddai hefyd rai costau gweinyddol a chyfreithiol untro (trosiannol) ar gyfer Llywodraeth Cymru o ran paratoi rheoliadau a chanllawiau statudol, sef tua £110,000 (yn seiliedig ar 2 staff cyfwerth ag amser llawn ar Fand F a chostau teithio cysylltiedig). Yr amserlen i Lywodraeth Cymru ysgwyddo'r costau ychwanegol (trosiannol) hyn fydd mis Ionawr 2013 - mis Rhagfyr 2013 yn ôl pob tebyg.

Yr opsiwn a ffefrir

8.76 Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd y cyfrifoldeb am greu gwell system gynllunio ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg. Mae unrhyw gynnydd yn y dyfodol wedi'i briodoli i'r defnydd a wneir o'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a'u gallu i ysgogi gwelliannau graddol a mesuradwy.

8.77 Disgwylir y byddai pob un o'r tri opsiwn yn arwain at ryw gynnydd o ran cyflawni'r deilliannau a ddisgwylir. Serch hynny, bydd amrywiaeth yng ngraddau'r gweithredu ac yn amseriad y gweithredu. Mae goblygiadau posibl i awdurdodau lleol o ran cyllid cyfalaf pe byddai angen iddynt addasu eu cynlluniau ysgolion o ganlyniad i'r arolwg o'r galw ymhlith rhieni. Serch hynny, er ei bod yn bosibl y gallai'r cyfryw ofynion amrywio o opsiwn i opsiwn, nid oes modd mesur y cyfryw effeithiau'n rhwydd ar hyn o bryd.

8.78 O dan yr opsiwn Gwneud Dim (Opsiwn 1), ni fyddai unrhyw ddull effeithiol o orfodi awdurdodau lleol i baratoi a gweithredu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Felly, mae'r agwedd ddarniog ac ymatebol at gynllunio a sicrhau darpariaeth yn debygol o barhau.

8.79 Byddai gorfodi'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ar yr awdurdodau lleol drwy eu cysylltu â chyllid grant (Opsiwn 2) yn golygu bod gan Weinidogion Cymru ryw gymaint o ddylanwad ar y graddau y mae awdurdodau lleol yn paratoi ac yn gweithredu'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Fodd bynnag, byddai hyn yn dibynnu ar gymorth grant, ac oherwydd hynny byddai pwysau parhaus ar Lywodraeth Cymru i ddarparu'r un lefel neu lefel uwch o gymorth grant i orfodi'r awdurdodau lleol i baratoi'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

8.80 Byddai rhoi gofyniad statudol ar awdurdodau lleol i baratoi Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Opsiwn 3) yn galluogi Gweinidogion Cymru i osod gofyniad statudol ar awdurdodau lleol i baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, i'w gymeradwyo a'i fonitro gan Weinidogion Cymru, ac i gymryd camau rhesymol i weithredu eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Byddai'r opsiwn hwn yn sicrhau y gellir gwireddu'r dymuniad i sefydlu system genedlaethol o gynllunio ac atebolrwydd ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg.

8.81 Ychydig o oblygiadau ariannol ychwanegol fyddai ar awdurdodau lleol yn achos Opsiwn 3 o ran y costau staff a'r amser gweinyddol fydd ei angen i gyflawni amodau a thelerau'r gofyniad statudol fel yr amlinellir yn y Bil. Mae'r manteision a ddisgwylir yn sgil yr opsiwn hwn, sy'n rhagori ar fanteision yr opsiynau eraill a ystyriwyd, yn arwain at y penderfyniad mai defnyddio deddfwriaeth yw'r opsiwn a ffefrir.

8.82 Bernir felly mai gwneud y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn statudol yw'r cam mwyaf effeithiol i wireddu'r bwriad polisi hwn. Bydd gwneud y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn ofyniad statudol yn dystiolaeth bod Gweinidogion Cymru yn bwriadu sicrhau bod awdurdodau lleol yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a gwell parhad ieithyddol. Byddai hefyd yn sicrhau bod ymarferwyr yn cael eu datblygu ymhellach.

Y Cyfarfod Blynyddol Rhieni

Opsiwn 1: Gwneud dim

8.83 Ni fyddai gadael y trefniadau cyfredol fel y maent, sef bod cyrff llywodraethu yn cynnal cyfarfod â'r rhieni bob yn ail flwyddyn, ac yn gofyn iddynt yn y blynyddoedd eraill a hoffent gyfarfod, yn achosi unrhyw gostau ychwanegol i ysgolion a rhieni heblaw'r hyn sy'n cael ei wario eisoes megis

- y gost i'r ysgol o argraffu hysbysiad yn rhoi gwybod i rieni am y cyfarfod, neu'n gofyn iddynt a hoffent gael cyfarfod;

- amser llywodraethwyr a'r clerics i fynychu cyfarfod;
- amser person i drefnu'r cyfarfod; a'r
- costau teithio ac amser i rieni pe byddent yn dewis ei fynychu.

8.84 Mae'n anodd iawn pennu'r union gostau oherwydd bod cymaint o amrywiadau i'w hystyried. Er enghraifft, bydd y gost o anfon hysbysiad at rieni yn dibynnu ar faint o ddisgyblion sydd yn yr ysgol, a faint o rieni y bydd angen cysylltu â hwy ac a yw'r rhieni hynny wedi dweud a ydynt am gael hysbysiad wedi'i argraffu neu hysbysiad electronig. Mewn ysgol fach iawn, sydd â 30 disgybl, gallai hyn fod mor isel â £15, neu £750 mewn ysgol sydd â 1,500 o ddisgyblion, yn seiliedig ar dâl o 50c yr hysbysiad. Mae'r costau hyn yn cymryd yn ganiataol y byddai pob rhiant am gael copi o'r hysbysiad wedi'i argraffu. Mae'n debygol y bydd y costau hyn yn llai lle mae'r rhieni wedi gofyn am hysbysiad electronig.

8.85 O ran amser y llywodraethwyr a'r clerics i fynychu cyfarfod â'r rhieni, bydd hyn yn dibynnu ar ba adeg y caiff y cyfarfod ei drefnu. Os caiff ei gynnal ar ôl cyfarfod o'r corff llywodraethu, bydd y clerics a'r llywodraethwyr eisoes yn bresennol. Y gost o ran amser felly yw 15 munud o amser aros ychwanegol i weld a ddaw'r rhieni i'r cyfarfod. Mae'r gost o dalu'r clerics yn dibynnu pwy yw'r clerics a sut y caiff ei gyflogi. Gallai hyn amrywio o £25 yr ysgol am glerc a gyflogir yn breifat hyd at £150 os yw'r ysgol yn defnyddio clerics yr awdurdod lleol. Unwaith eto, ni ellir mesur cost yr amser i'r person sy'n trefnu'r ystafell oherwydd bydd hynny'n dibynnu ar ei raddfa gyflog.

8.86 Bydd y costau amser a theithio i rieni yn amrywio yn ôl pa mor agos neu bell y maent o leoliad y cyfarfod. Bydd rhai rhieni yn cerdded i'r ysgol; mewn rhai dinasoedd bydd rhai rhieni yn gyrru am 10-15 munud, ond mewn ardaloedd gwledig gallent fod yn teithio am hyd at awr i gyrraedd yr ysgol. Bydd y costau hynny yn dibynnu ar injan y car sydd ganddynt a'r petrol a ddefnyddir.

8.87 Serch hynny, ni fyddai manteision ychwanegol wrth barhau â'r system gyfredol.

8.88 Ni fyddai'r opsiwn i wneud dim yn cyflawni amcan polisi Llywodraeth Cymru o gael gwared â'r rheidwydd ar gyrff llywodraethu i gynnal cyfarfod â'r rhieni, ac ychydig iawn o rieni yn dod i'r cyfarfod neu'n ei gefnogi, a rhoi rheolaeth i rieni ynghylch pryd y caiff y cyfarfodydd hyn eu cynnal. Bob yn ail flwyddyn byddai'n rhaid parhau i gynnal cyfarfod neu byddai'n rhaid gofyn am farn rhieni ynghylch a ddylid cael cyfarfod ai peidio.

Opsiwn 2: Cael gwared â'r rheidwydd i gynnal cyfarfod blynyddol rhieni

8.89 Byddai'r opsiwn hwn yn arwain at arbedion ychwanegol oherwydd byddai'n osgoi'r costau cyfredol fel y mân gostau o weinyddu'r cyfarfod a'r costau o gynnal cyfarfodydd blynyddol rhieni. Hefyd, byddai rhai manteision posibl o ran osgoi gwastraffu amser llywodraethwyr.

8.90 Eto i gyd, mae'r rhieni ymhlith prif randdeiliaid yr ysgol, ac er y byddai sawl ysgol a chorff llywodraethu yn falch o weld yr angen am drefnu cyfarfod o'r fath yn cael ei ddiddymu, mae hefyd yn cael gwared â'r cyfle sydd gan rieni i drafod materion sy'n peri pryder neu gael unrhyw lais yn y modd y caiff ysgol ei rhedeg, a manteision cysylltiad o'r fath. Mae'n anodd iawn mesur y cyfryw fanteision.

8.91 Mae'r opsiwn hwn hefyd yn golygu na fyddai rheidrwydd ar gyrrff llywodraethu i gynnal cyfarfod nac i gynnwys y rhieni ac ni fyddai gan rieni hawl i ofyn am gyfarfod. I sawl ysgol, gallai hyn olygu na fydd y rhieni na'r llywodraethwyr fyth yn cyfarfod, ac mae hynny'n debygol o gael effaith negyddol ar y berthynas rhwng rhieni ac ysgolion.

Opsiwn 3: Rhoi'r hawl i rieni ofyn am nifer cyfyngedig o gyfarfodydd gyda'r corff llywodraethu.

8.92 Yn achos cyrrff llywodraethu, o ystyried y dystiolaeth gyfredol sy'n awgrymu nad oes gan y rhieni, ar y cyfan, ddiddordeb mewn mynychu cyfarfodydd neu nad ydynt yn cael cyfle i gael cyfarfod amserol, disgwylir mai ychydig o ysgolion fydd yn cael cais gan rieni i drefnu cyfarfod. I'r rhan fwyaf o ysgolion, golyga hyn na fydd rhaid iddynt fynd drwy broses o drefnu cyfarfod nad oes braidd neb yn ei fynychu (os o gwbl). Os felly, ni fyddai hyn yn achosi'r costau cyfredol sy'n gysylltiedig â'r adnoddau a neilltuir i drefnu cyfarfodydd o'r fath.

8.93 O ran y rhieni, mae'r opsiwn hwn yn amlwg yn rhoi'r cyfrifoldeb arnynt i ofyn i'r corff llywodraethu am gyfarfod. O dan y cynigion byddai'n rhaid i rieni drefnu i gael nifer penodol o lofnodion i wneud cais am gyfarfod.

8.94 O safbwynt costau, pe byddai corff llywodraethu yn cyfarfod â'r rhieni unwaith y flwyddyn yn dilyn cais oddi wrthynt, dylai'r costau o drefnu'r cyfarfod, ei fynychu a theithio iddo, y costau clerco a'r costau i rieni fod yn debyg i'r costau sy'n codi ar hyn o bryd pan fydd y corff llywodraethu yn trefnu cyfarfod blynyddol rhieni, ac a fynychir gan rieni. O ystyried yr amrywiadau sy'n gysylltiedig â hyn, nid oes modd rhoi amcangyfrif, ond tybir y bydd braidd ddim costau.

8.95 Pe byddai'r rhieni yn medru gofyn am gyfarfodydd ychwanegol (hyd at ddau gyfarfod y flwyddyn) byddai disgwyl i hyn, o'i weithredu, ac o'i gymharu â'r hyn sydd eisoes ar waith, gynyddu'r costau o ran ymrwymiad amser y llywodraethwyr (gan gynnwys staff yr ysgol), clerco y corff llywodraethu a'r person sy'n trefnu'r ystafell ar gyfer y cyfarfod. Gallai fod cynnydd bach hefyd yn nyletswyddau gweinyddol cadeirydd y llywodraethwyr a'r clerco, a fyddai'n gyfrifol am reoli'r cyfarfodydd a chadw cofnodion.

8.96 Byddai hefyd rai costau ychwanegol i'r ysgol i argraffu a dosbarthu hysbysiadau papur (lle bo angen) i rieni eraill i roi gwybod iddynt am y cais am gyfarfod a'r amser a'r dyddiad arfaethedig. Byddai rhai mân gostau teithio ychwanegol i lywodraethwyr oherwydd byddai angen iddynt deithio i'r ysgol ar gyfer y ddau gyfarfod. Byddai rhai costau teithio ychwanegol i'r rhieni sy'n

mynychu'r cyfarfodydd ychwanegol, ond mân gostau fyddai'r rheini hefyd fwy na thebyg. Byddai mynychu cyfarfodydd ychwanegol y flwyddyn hefyd yn golygu cynnydd bach yn amser llywodraethwyr a rhieni. Byddai costau hefyd i'r rhieni o ran ennyn digon o ddiddordeb i gynnig y cyfarfod. O ystyried yr amrywiadau sy'n gysylltiedig â hyn, nid oes modd rhoi amcangyfrif, ond tybir y bydd braidd ddim costau.

8.97 O ystyried yr amryfal drefniadau sydd yn eu lle ar gyfer clercio cyrff llywodraethu, sydd i'w gweld yn Adran 8 o'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Mesur Addysg (Cymru) 2011, a gyhoeddwyd ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru, nid oes modd proffwydo'n gywir faint yn fwy o gostau a achosir i'r corff llywodraethu wrth drefnu bod hyd at dri chyfarfod y flwyddyn yn cael ei glercio o ganlyniad i gais gan y rhieni. Yn seiliedig ar yr wybodaeth a gafwyd gan yr awdurdodau lleol hynny sy'n clercio cyrff llywodraethu, ni fyddai'r gost o glercio cyfarfodydd, sy'n ychwanegol at y rhai yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth, yn fwy nag oddeutu £150 y cyfarfod. Os byddai corff llywodraethu yn cynnal tri chyfarfod y flwyddyn (sy'n ddau yn fwy na'r hyn sy'n ofynnol ar hyn o bryd o dan y gyfraith) gallai hyn gynyddu'r gost i glerc awdurdod lleol i £300 fesul ysgol. I glerc preifat, ar sail swm o £25 fesul cyfarfod, byddai hyn yn cynyddu'r costau i'r ysgol i £50.

8.98 Er y gallai cynnal hyd at dri chyfarfod y flwyddyn, o bosibl, fynd â mwy o amser y llywodraethwyr, y mae'n creu cyfle i rieni a'r llywodraethwyr gyfarfod a thrafod y materion sy'n peri pryder i'r rhieni. Gallai hyn o bosib ddod â buddiannau ychwanegol, er bod y rhain yn anodd iawn i'w mesur.

8.99 Bydd gwybod bod ysgolion yn atebol i'r rhieni yn y modd hwn yn eu helpu i ganolbwyntio ar fod yn fwy tryloyw am y cynlluniau ar gyfer datblygu'r ysgol a bydd rhieni yn medru cyfrannu at y broses hon.

Y casgliad a'r opsiwn a ffefrir

8.100 Nid oes unrhyw fanteision ynghlwm ag opsiwn un, sef ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff llywodraethu gynnal cyfarfod blynyddol rhieni. Ni chaiff y cyfarfodydd hyn eu gwerthfawrogi na'u cefnogi gan rieni mewn llawer o ysgolion yng Nghymru.

8.101 Nid yw opsiwn dau, sef gwaredu'r gofyniad i gyrff llywodraethu gynnal cyfarfod blynyddol rhieni a sefydlu trefn arall yn ei le, yn opsiwn hyfyw gan y golyga na fyddai'n ofynnol i ysgolion gynnwys rhieni, ac na fyddai gan rieni unrhyw hawliau i ofyn am gyfarfod â'r corff llywodraethu.

8.102 Yr opsiwn a ffefrir gennym yw opsiwn tri, sef rhoi'r hawl i gworwm o rieni ofyn am hyd at dri chyfarfod y flwyddyn. Byddai hyn yn sicrhau bod rhieni'n gallu rheoli amseriad y cyfarfodydd hyn a bod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal pan fydd ganddynt faterion i'w trafod. Byddai'r rhieni hefyd yn gallu pennu'r agenda ynghyd â'r materion i'w trafod yn y cyfarfod.

Cwmsela mewn ysgolion

Opsiwn 1: Gwneud dim

8.103 Byddai parhau i gynnig grant wedi'i neilltuo yn sicrhau y gellir parhau i ddarparu cwmsela mewn ysgolion yn unol â'r hyn a bennir yn y Strategaeth (2008). Bydd y trefniadau gweinyddu cyfredol a lefel y gwasanaethau a ddarperir yn parhau ac felly ni fydd unrhyw gostau na manteision ychwanegol yn deillio o'r opsiwn hwn.

8.104 Dyma'r sefyllfa ar hyn o bryd, gan fod rhyw 160 cwmselydd yn gweithio mewn ysgolion uwchradd, ysgolion uwchradd arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion ledled Cymru. Mewn chwe thymor o gasglu data, mae dros 10,500 o bobl ifanc wedi cwblhau 11,043 cyfnod o gwmsela. Y gost ganolrif am bob person ifanc yw £449.40 a'r gost ganolrif am bob sesiwn yw £86.90.

8.105 Manteision

- Mantais yr opsiwn hwn yw mai lleiafswm eu cyllid y byddai awdurdodau lleol yn ei wario ar gwmsela;
- Mae'r sefyllfa bresennol wedi bod yn llwyddiant ac mae pob awdurdod lleol wedi sicrhau bod disgyblion ym mhob un o'u hysgolion uwchradd yn medru cael cwmsela un i un;
- Mae telerau ac amodau'r grant yn sicrhau bod y cynllun yn cael ei fonitro a'i werthuso'n rheolaidd gan yr awdurdodau lleol a bod adroddiadau blynyddol a chynigion manwl yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru;
- Mae telerau ac amodau'r grant yn sicrhau bod data dienw ar gael bob tymor am allbwn a deilliannau pobl ifanc sy'n cael eu cwmsela ac mae hynny'n rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru am y sefyllfa ledled Cymru;
- Mae'r telerau ac amodau'n sicrhau bod yr holl wasanaethau'n gweithio o fewn fframwaith moesegol ee Cymdeithas Cwmsela a Seicotherapi Prydain, ac maent yn darparu ar gyfer goruchwyllo'n rheolaidd bob cwmselydd sy'n gweithio mewn ysgolion yng Nghymru a sicrhau eu datblygiad proffesiynol parhaus;
- Mae cysondeb yn y dull o weithredu ledled Cymru yn unol â'r Pecyn Cymorth Gweithredu Cwmsela mewn Ysgolion (2009).

8.106 Anfanteision

- Ni fyddai'n cyflawni'r disgwyliad y byddai grantiau wedi'u neilltuo ar gael am rai blynyddoedd yn unig ac y byddai disgresiwn lleol ynghylch lefel y cyllid;
- Byddai cyfle'n cael ei golli i gael gwared â'r beichiau biwrocraataidd sy'n gysylltiedig â gweinyddu'r grant;
- Gellid cyfeirio'r grant i flaenoriaeth newydd o fewn Llywodraeth Cymru, gan adael yr awdurdodau lleol yn y sefyllfa amhosibl o geisio parhau â'r gwasanaethau cwmsela yn eu hardaloedd.

Opsiwn 2: Trosglwyddo cyllid i'r Grant Cynnal Refeniw heb ddeddfwriaeth

8.107 Byddai'r opsiwn hwn yn sicrhau arbedion o ran costau gweinyddol i Lywodraeth Cymru. O fewn Llywodraeth Cymru, mae gweinyddu'r grant yn golygu costau staff blynyddol o tua £29,000. Byddai modd defnyddio'r adnoddau hyn mewn man arall yn yr Adran.

8.108 Mae'n anodd tu hwnt amcangyfrif y costau sy'n gysylltiedig â gweinyddu'r cynllun grant ar lefel awdurdod lleol - mae'r gwaith sydd angen ei wneud yn cynnwys y gost o baratoi ceisiadau, y costau gweinyddol parhaus a'r costau o gynnal archwiliad mewnol. Ar sail gwaith blaenorol a wnaed o fewn Llywodraeth Cymru i amcangyfrif costau gweinyddu cynlluniau grant penodol bernir y byddai'r costau gweinyddol yn cyfateb i tua 2.5% o werth y grant, a fyddai tua £112,000. Gan na fyddai peth o'r gwaith gweinyddol bellach yn ofynnol byddai modd defnyddio elfen o'r adnodd hwn mewn man arall o'r awdurdod lleol.

8.109 Manteision

- Byddai trosglwyddo'r cyllid heb ddeddfwriaeth yn rhoi hyblygrwydd i awdurdodau lleol wario'r arian yn ôl eu hanghenion lleol.
- Llai o fiwrocratiaeth (llai o waith casglu data/llai o waith papur).
- Cyllid grant wedi'i symleiddio yn unol ag egwyddorion Hwyluso Llywodraeth.
- Ar ôl eu cyflwyno'n raddol a/neu ar ôl 3 blynedd, byddai'r dyraniadau'n cynyddu yn unol â'r gwariant.

8.110 Anfanteision

- Mae perygl y gallai'r cyllid gael ei ddargyfeirio i amryw o weithgareddau na fyddai'n gyson ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu cwnsela i ddisgyblion ysgol (tudalen 2 Gwasanaethau Cwnsela mewn Ysgolion yng Nghymru - Strategaeth Genedlaethol 2008).
- Mae'n bosibl na fyddai plant a phobl ifanc yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i gefnogi eu hiechyd a'u lles emosiynol.
- Pennir y swm ar yr adeg y caiff ei drosglwyddo ac ni ellir ei newid pan fydd wedi'i drosglwyddo.
- Ar ôl tair blynedd, byddai'n anodd gweld faint o arian a ddyrannwyd ar gyfer y grant penodol gan ei fod yn cael ei ymgorffori yn y dyraniad ar gyfer y maes gwasanaeth perthnasol, ond gellid cyfrif y swm tybiannol pe byddai angen.

Opsiwn 3: Trosglwyddo'r cyllid i'r Grant Cynnal Refeniw a chyflwyno deddfwriaeth

8.111 Byddai'r opsiwn hwn yn arwain at arbedion o ran costau gweinyddol i Lywodraeth Cymru. Amcangyfrifir y byddai'r arbedion o ran y costau staff

blynyddol tua £29,000. Byddai modd defnyddio'r adnoddau hyn mewn man arall yn yr Adran.

8.112 Unwaith eto, yn yr un modd ag opsiwn 2, byddai arbedion o ran costau gweinyddol i'r awdurdod lleol gan na fyddai peth o'r gwaith gweinyddol bellach yn ofynnol. Felly, byddai modd defnyddio'r adnodd hwn mewn man arall o fewn yr awdurdod lleol.

8.113 Manteision

- Pe byddai'r cyllid yn cael ei drosglwyddo, a bod hynny'n cael ei gefnogi gan ddeddfwriaeth, byddai hynny'n sefydlu'n gadarn bolisi Llywodraeth Cymru o gynnig gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion yng Nghymru a sicrhau bod pobl ifanc yn parhau i gael y cymorth y maent wedi'i gael ers cyflwyno'r Strategaeth yn 2008.
- Ffurfioli'r drefn bresennol fyddai'r ddyletswydd yn anad dim. Dylai'r ddarpariaeth yn y gyllideb adeg y trosglwyddo fod yn ddigon felly ar gyfer gwneud darpariaeth resymol, o ystyried bod gwasanaeth o ryw fath ar gael eisoes ym mhob ysgol uwchradd;
- Byddai hefyd yn rhoi hyblygrwydd i awdurdodau lleol wario'r arian yn ôl eu hanghenion lleol;
- Byddai'n rhoi hyblygrwydd i awdurdodau lleol wario'r arian yn ôl eu hanghenion lleol yn unol â'r canllawiau statudol ar ddarparu cwnsela ffurfiol o fewn fframwaith moesegol.
- Byddai'n sicrhau bod data dienw am allbynnau a deilliannau'n parhau i gael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn darparu gwybodaeth werthfawr am broffil y bobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth cwnsela.
- Llai o fiwrocratiaeth (llai o waith casglu data/llai o waith papur).
- Cyllid grant wedi'i symleiddio yn unol ag egwyddorion Hwyluso Llywodraeth.
- Ar ôl eu cyflwyno'n raddol a/neu ar ôl 3 blynedd, byddai'r dyraniadau'n cynyddu yn unol â'r gwariant.

8.114 Anfanteision

- Mae perygl y gallai awdurdod lleol ddarparu gwasanaethau ar lefel is na'r trefniadau presennol. Yn yr amgylchiadau hyn, byddai angen i'r awdurdod lleol ddangos bod y ddarpariaeth a wnaed ganddo yn rhesymol. Drwy barhau i gasglu data dienw ar ddemograffi a deilliannau gellid dangos a oedd y ddarpariaeth yn rhesymol.
- Pennir y swm ar yr adeg y caiff ei drosglwyddo ac ni ellir ei newid pan fydd wedi'i drosglwyddo.
- Ar ôl tair blynedd, byddai'n anodd gweld faint o arian a ddyrannwyd ar gyfer y grant penodol gan ei fod yn cael ei ymgorffori yn y dyraniad ar gyfer y maes gwasanaeth perthnasol, ond gellid cyfrif y swm tybiannol pe byddai angen.

Yr opsiwn a ffefrir

8.115 O ystyried yr arbedion posibl o ran costau gweinyddol, yr anfanteision, y manteision a'r risgiau ehangach sydd ynghlwm â phob opsiwn, bernir mai Opsiwn 3 yw'r opsiwn a ffefrir.

Y Fenter Brecwast am Ddim

8.116 Ers Medi 2004, mae'r Fenter Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd wedi'i gweinyddu drwy gyfrwng grant penodol i'r awdurdodau lleol. Gwneir y taliadau bob tymor fel ôl-daliadau. Mae'r grant yn gymhleth i'w weinyddu, er enghraifft ceir is-benawdau ar gyfer cyllid sy'n cynnwys bwyd fesul dydd fesul plentyn; cyfradd ddyddiol ar gyfer goruchwylwyr (nifer y goruchwylwyr sy'n seiliedig ar y gymhareb staff i ddisgyblion); costau gweithredol fesul tymor; costau hyfforddi ar gyfer cyrsiau penodedig; gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol; costau sefydlu (llestri, tostwyr etc) a chostau prynu eitemau newydd yn lle hen rai. Pe byddai'r cyllid yn cael ei drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw, a bod hynny'n cael ei gefnogi gan ddeddfwriaeth, byddai llai o fiwrocratiaeth (llai o waith casglu data/llai o waith papur) ynghlwm wrth redeg y cynllun grant, yn achos yr awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru fel ei gilydd, a byddai'n gydnaws â'r Adolygiad o Adnoddau Rheng Flaen. O dan y system ariannu bresennol nid oes cymhelliant i sicrhau gwell gwerth am arian - mae hyn yn fwy tebygol o ddigwydd pan gaiff y cyllid ei ddarparu fel rhan o'r Grant Cynnal Refeniw. Er enghraifft, o dan y cynllun grant cyfredol, gall awdurdodau lleol hawlio swm safonol o £1,000 (ar gyfer hyd at 150 o ddisgyblion) ar gyfer y costau sefydlu dechreuol ym mhob ysgol. Efallai y bydd gan rai ysgolion niferoedd bach ee 10 o blant, ac y bydd eraill yn fwy, ee 80 o blant, er y byddai'r ddwy ysgol yn derbyn yr un swm ar gyfer sefydlu. Digon tebyg yw'r trefniadau ar gyfer costau gweithredol hefyd, lle ceir hawlio £500 y tymor am bob ysgol i helpu i weithredu'r cynllun (mae hyn yn cynnwys casglu data a threfnu hyfforddiant), ni waeth sawl plentyn sy'n rhan o'r cynllun. Er bod y system safonol hon o ariannu yn galluogi Llywodraeth Cymru i weinyddu'r cynllun yn fwy effeithiol, nid yw o reidrwydd yn sicrhau gwerth am arian am nad yw'n cydnabod amrywiaeth yn y lefelau o angen. Drwy reoli'r cyllid ar lefel leol, byddai awdurdodau lleol yn medru gweld faint o alw sydd mewn ysgolion unigol a gwneud penderfyniadau'n seiliedig ar wybodaeth leol.

8.117 Ar hyn o bryd, caiff yr arian ei ddyrannu i awdurdodau lleol yn ôl y galw, ac mewn rhai awdurdodau lleol mae dros 80% o'u hysgolion yn cymryd rhan o gymharu ag un awdurdod lleol sydd â llai na 2% yn cymryd rhan. Felly, bydd y cyllid, o'i drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw, yn golygu bod rhai awdurdodau lleol yn cael mwy na'r hyn y maent yn ei gael ar hyn o bryd drwy grant penodol ac eraill yn cael llai, ac mae'n dra thebygol y bydd angen system tampio.

8.118 Ar gyfer yr holl opsiynau mae'r gyllideb yn cynnwys darpariaeth o £10.7 miliwn, £12.7 miliwn a £14.7 miliwn y flwyddyn ar gyfer y cyfnod 2011-14. Mae'r cynnydd yn y costau yn darparu ar gyfer cynnydd yn y galw dros y cyfnod o dair blynedd.

Opsiwn 1: Gwneud dim

8.119 O dan y cynllun grant penodol byddai awdurdod lleol yn cael hyd at £5,000 y tymor am weinyddu'r cynllun. Mae'r swm yn dibynnu ar nifer yr ysgolion sy'n cymryd rhan yn y fenter yn ystod y tymor. Yn ystod 2010-11

cafodd cyfanswm o tua £185,000 ei dalu i awdurdodau lleol ar gyfer gweinyddu'r cynllun. Mae hyn yn cyfateb i 1.65% o'r grant a dalwyd yn ystod yr un cyfnod.

8.120 Ar gyfer yr opsiwn hwn, byddai'r costau cysylltiedig yn newid yn unol â'r ffactorau a bennir ym mharagraff 3.56. O dan y cynllun grant presennol, byddai disgwyl i'r costau gweinyddol blynyddol barhau ar lefelau tebyg i'r hyn a oedd yn berthnasol ar gyfer 2010-11. Pe byddai pob ysgol yn cymryd rhan, yr uchafswm y gellid ei hawlio am gostau gweinyddol blynyddol fyddai £229,500.

8.121 Manteision

- Lle mae ysgol gynradd yn gwneud cais am frechwast am ddim a lle mae galw am frechwast gan y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol honno, bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid fel yr amlinellir uchod;
- Mae'r dull presennol wedi bod yn llwyddiant ac yng Nghyfrifiad Ysgolion 2011, nodwyd bod 1,052 o ysgolion cynradd yn darparu brechwast am ddim.
- Yn ôl telerau ac amodau'r grant rhaid i awdurdodau lleol fonitro'r sefyllfa bob tymor;
- Yn ôl telerau ac amodau'r grant mae'n ofynnol bod y ddarpariaeth hon yn cael ei darparu o fewn fframwaith cyffredin er mwyn sicrhau dull cyson o weithredu ledled Cymru.

8.122 Anfanteision

- Ni fyddai'n cyflawni'r disgwyliad y byddai grantiau wedi'u neilltuo ar gael am rai blynyddoedd yn unig ac y byddai disgresiwn lleol ynghylch lefel y cyllid;
- Mae'r cynllun grant yn fiwrocraataidd i'w weinyddu;
- Mae'r cynllun grant yn defnyddio model ariannu wedi'i safoni ac nid yw'n cymryd i ystyriaeth y costau gwirioneddol sy'n gysylltiedig â chyflawni'r fenter ar lefel leol. Er enghraifft, bydd y costau cyflog yn amrywio ond mae Llywodraeth Cymru yn rhoi ad-daliad am staff brechwast ar gyfradd safonol o £8.44 yr awr
- Nid yw'r cynllun grant yn annog effeithlonrwydd wrth weithredu'r fenter ee gallai clwb brechwast sy'n darparu ar gyfer 20 plentyn o oedran cynradd ddefnyddio'r model ariannu i gyflogi tri aelod o staff, er nad oes angen, o bosibl, fwy na dau.
- Mae'n anodd rheoli'n effeithiol gyllideb sy'n cael ei harwain gan alw ar draws 22 ardal awdurdod lleol.

Opsiwn 2 : Trosglwyddo'r cyllid i'r Grant Cynnal Refeniw heb ddeddfwriaeth:

8.123 Byddai'r opsiwn hwn yn creu cyfle i gyflawni rhai arbedion sy'n gysylltiedig â'r costau gweinyddol.

8.124 O fewn Llywodraeth Cymru, mae'r costau staff blynyddol sydd ynghlwm â gweinyddu'r grant tua £15,000. Byddai modd defnyddio'r adnoddau hyn mewn man arall yn yr Adran.

8.125 Yn ystod 2010-11 talwyd cyfanswm o £185,000 i awdurdodau lleol i weinyddu'r cynllun; ni fyddai angen rhywfaint o'r gwaith hwn mwyach ond mae'n anodd pennu'n bendant ar hyn o bryd pa gyfran y gallai fod. Felly, byddai modd defnyddio rhywfaint o'r adnoddau hyn mewn man arall yn yr awdurdod lleol.

8.126 Gallai defnyddio system tampio arwain o bosibl at rai goblygiadau o ran adnoddau, er nad oes goblygiadau o'r fath wedi'u hasesu hyd yma.

8.127 Manteision

- Byddai trosglwyddo'r cyllid heb ddeddfwriaeth yn rhoi hyblygrwydd i awdurdodau lleol wario'r arian yn ôl eu hanghenion lleol.
- Llai o fiwrocratiaeth (llai o waith casglu data/llai o waith papur).
- Cyllid grant wedi'i symleiddio yn unol ag egwyddorion Hwyluso Llywodraeth.
- Ar ôl eu cyflwyno'n raddol a/neu ar ôl 3 blynedd, byddai'r dyraniadau'n cynyddu yn unol â'r gwariant.

8.128 Anfanteision

- Mae perygl y gallai'r cyllid gael ei ddargyfeirio i amryw o weithgareddau na fyddai'n gyson ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i barhau â'r fenter hon.
- Pennir swm y cyllid ar yr adeg y caiff ei drosglwyddo ac ni ellir ei newid pan fydd wedi'i drosglwyddo.
- Byddai'n rhaid i'r dyraniadau fod yn seiliedig ar fformiwla yn hytrach nag ar y costau uniongyrchol, ond gellir cyflwyno hyn yn raddol dros gyfnod o 3 blynedd.
- Ar ôl tair blynedd, byddai'n anodd gweld faint o arian a ddyrannwyd ar gyfer y grant penodol gan ei fod yn cael ei ymgorffori yn y dyraniad ar gyfer y maes gwasanaeth perthnasol, ond gellid cyfrif y swm tybiannol pe byddai angen.

Opsiwn 3: Cyflwyno deddfwriaeth a throsglwyddo'r cyllid i'r Grant Cynnal Refeniw

8.129 Byddai'r gyllideb yn cael ei throsglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw pan fydd wedi'i chynyddu o £2 filiwn i ganiatáu ar gyfer ehangu'r ddarpariaeth brechwast am ddim.

8.130 O ran opsiwn 2, byddai'n creu cyfle i gyflawni rhai arbedion sy'n gysylltiedig â chostau gweinyddol.

8.131 O fewn Llywodraeth Cymru, mae'r costau staff blynyddol sydd ynghlwm â gweinyddu'r grant tua £15,000. Byddai modd defnyddio'r adnoddau hyn mewn man arall yn yr Adran.

8.132 Yn ystod 2010-11 talwyd cyfanswm o £185,000 i awdurdodau lleol i weinyddu'r cynllun; ni fyddai angen rhywfaint o'r gwaith hwn mwyach. Felly, byddai modd defnyddio rhywfaint o'r adnoddau hyn mewn man arall yn yr awdurdod lleol.

8.133 Manteision

- Byddai trosglwyddo'r cyllid a'i ategu gan ddeddfwriaeth yn sicrhau bod awdurdodau lleol, lle bo galw, yn darparu neu'n parhau i ddarparu brecwast am ddim oni bai fod hynny'n afresymol;
- Ffurfioli'r drefn bresennol fyddai'r ddyletswydd yn anad dim;
- Dylai'r gyllideb sydd i'w throsglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw ddarparu ar gyfer parhad y ddarpariaeth bresennol a chynyddu nifer yr ysgolion/y plant sy'n cymryd rhan (oni bai fod hynny'n afresymol);
- Byddai'n rhoi hyblygrwydd i awdurdodau lleol wario'r arian yn ôl eu hanghenion lleol yn unol â'r canllawiau statudol ar ddarparu brecwast am ddim;
- Llai o fiwrocratiaeth (llai o waith casglu data/llai o waith papur).
- Cyllid grant wedi'i symleiddio yn unol ag egwyddorion Hwyluso Llywodraeth.
- Ar ôl eu cyflwyno'n raddol a/neu ar ôl 3 blynedd, byddai'r dyraniadau'n cynyddu yn unol â'r gwariant.

8.134 Anfanteision

- Mae posibilrwydd y gallai'r awdurdodau lleol benderfynu peidio â darparu neu barhau i ddarparu brecwast. Yn yr amgylchiadau hyn, byddai angen i'r awdurdod ddangos y byddai'n afresymol iddo wneud darpariaeth o'r fath. Drwy barhau i gasglu data drwy'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol byddai modd gweld a yw'r ddarpariaeth yn rhesymol.
- Pennir swm y cyllid ar yr adeg y caiff ei drosglwyddo ac ni ellir ei newid pan fydd wedi'i drosglwyddo.
- Byddai'n rhaid i'r dyraniadau fod yn seiliedig ar fformiwla yn hytrach nag ar y costau uniongyrchol, ond gellir cyflwyno hyn yn raddol dros gyfnod o 3 blynedd.
- Ar ôl tair blynedd byddai'n anodd gweld faint o arian a ddyrannwyd ar gyfer y grant penodol gan ei fod yn cael ei ymgorffori yn y dyraniad ar gyfer y maes gwasanaeth perthnasol, ond gellid cyfrif y swm tybiannol pe byddai angen.

Yr opsiwn a ffefrir

8.135 Gan ystyried yr arbedion cost posibl, a'r manteision, yr anfanteision a'r risgiau eraill sy'n gysylltiedig â'r opsiynau, bernir mai Opsiwn 3 yw'r opsiwn a

ffefrir gan y byddai'n sicrhau parhad y ddarpariaeth hon pan gaiff y cyllid ei drosglwyddo i'r Grant Cymorth Refeniw.

Codi taliadau hyblyg am brydau ysgol

Opsiwn 1: Gwneud dim

8.136 Ni fyddai'r opsiwn Gwneud Dim yn achosi unrhyw gostau na manteision ychwanegol, a byddai'n cynnal y trefniadau presennol.

8.137 Manteision

- Systemau lle bydd awdurdodau lleol ac ysgolion yn codi'r un pris ar bawb am yr un swm o'r un eitem.

8.138 Anfanteision

- Nid yw'r system bresennol yn caniatáu i ddarparwyr prydau amrywio'r prisiau na chynnig gostyngiadau. Er enghraifft, lle bo gan deulu dri o blant o oedran ysgol, a £2 y dydd yn cael ei godi am brydau, gallai'r gost i'r teulu fod yn £30 yr wythnos. Nid oes lle i ostwng y tâl a godir am yr ail a'r trydydd plentyn.
- Nid oes terfyn ar y swm y gellir ei godi ar ddisgyblion am bryd ysgol.
- Mae hyn yn cyfyngu ar allu awdurdodau lleol ac ysgolion i geisio cynyddu nifer y disgyblion sy'n cael prydau ysgol a mynd i'r afael â deiet gwael.

Opsiwn 2: Defnyddio'r Pŵer i Arloesi

8.139 Rhagwelir y byddai rhywfaint o gostau sefydlu cychwynnol a chostau rheolaidd yn sgil hynny, yn dibynnu ar y modd y caiff y pŵer i arloesi ei ddefnyddio yn lleol. Gallai'r costau gynnwys costau staff i ysgolion ac awdurdodau lleol, amser Gweinidogion Cymru ar gyfer gwerthuso pob cais, costau gweinyddu, costau monitro a chostau systemau. Mae'n amhosibl amcangyfrif ar hyn o bryd beth fyddai'r costau hynny o ystyried yr amryw ddulliau a allai gael eu defnyddio.

8.140 Byddai'r manteision sy'n gysylltiedig â defnyddio Pŵer i Arloesi yn dibynnu ar natur y cynlluniau taliadau hyblyg arfaethedig a'r defnydd ohonynt. Byddai angen asesu holl effeithiau'r cynlluniau yn unol â chynigion penodol.

8.141 Manteision

- Mae deddfwriaeth yn bodoli sy'n hwyluso'r gwaith o dreialu codi taliadau hyblyg am brydau ysgol.

8.142 Anfanteision

- Mae'r ffordd hon o fynd ati yn fiwrocraidd. Mae'r pŵer i amrywio'r tâl yn ddibynnol ar y canlynol:

- (i) bod awdurdodau lleol (neu gyrff llywodraethu sydd â chyllideb ddirprwyedig) yn gwneud cais i Weinidogion Cymru dreialu codi taliadau hyblyg; a
 - (ii) bod Gweinidogion Cymru yn fodlon bod y gofynion ar gyfer gwneud Gorchymyn o dan Ddeddf 2002 wedi'u bodloni.
- Mae'r broses hon yn cymryd llawer o amser a byddai'n rhaid i ysgolion a'r awdurdod lleol wneud llawer o waith cynllunio ymlaen llaw er mwyn ymgynghori â'r rhai a enwyd yn adran 4(2) o Ddeddf 2002 cyn cyflwyno cais. Byddai goblygiadau yn deillio o hyn o ran adnoddau i'r ysgolion a'r awdurdodau lleol;
 - Rhaid ymdrin â phob cais yn unigol, ac mae terfyn amser penodol i bob Gorchymyn (hyd at uchafswm o 3 blynedd fel arfer);
 - Ni chât bwriad y polisi i greu pŵer cyffredinol ei wireddu oni bai y byddai pob awdurdod lleol yng Nghymru a phob corff llywodraethu â chyllideb ddirprwyedig yn gwneud cais i dreialu taliadau hyblyg ac y byddai Gweinidogion Cymru yn gwneud Gorchymyn mewn perthynas â'r awdurdodau hynny.

Opsiwn 3: Diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol

8.143 Rhagwelir y byddai rhywfaint o gostau sefydlu cychwynnol a chostau rheolaidd, er enghraifft costau gweinyddu, monitro a systemau, yn dibynnu ar y modd y caiff y pŵer i arloesi ei ddefnyddio yn lleol. Bydd y costau'n amrywio, gan ddibynnu ar y gwahanol ddulliau a ddefnyddir. O'r herwydd nid yw'n bosibl pennu'r union gostau. Eto i gyd, os byddai darparwr prydau ysgol yn caniatáu i'r disgyblion newydd gael prydau ysgol am ddim am wythnos, er enghraifft, gallai gostio tua £1.80 y dydd fesul plentyn. Os ydym yn rhagdybio bod 30 o blant mewn dosbarth a bod pob un ohonynt yn cael pryd ysgol byddai'n costio $30 \times 5 \times £1.80 = £270$ fesul ysgol. Nid yw hyn yn adlewyrchu'r ffaith y gallai rhai plant eisoes fod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim; efallai na fydd pob plentyn yn derbyn y cynnig o bryd ysgol am ddim ac efallai bod yn well ganddynt ddod â chinio pecyn; bydd nifer y disgyblion fesul ysgol yn amrywio. Gallai'r arbedion a fyddai ynghlwm â chasglu a bancio'r arian cinio am y disgyblion hyn wneud iawn am unrhyw gostau gweinyddol. O ran gwaith monitro parhaus, er y byddai rhai costau ynghlwm ag ef rhagwelir na fyddai llawer gan y byddai darparwyr prydau ysgol eisoes yn casglu peth data ynghylch nifer y disgyblion sy'n cael prydau ysgol.

8.144 Byddai'r manteision sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn yn dibynnu ar natur y cynlluniau taliadau hyblyg arfaethedig a'r defnydd ohonynt. Byddai angen asesu holl effeithiau'r cynlluniau yn unol â chynigion penodol.

8.145 O ystyried y bwriad i osod terfyn ar y tâl a godir ar ddisgyblion, byddai caniatáu i awdurdodau lleol ddefnyddio'r hyblygrwydd hwn yn arwain at oblygiadau ariannol iddynt, a gallai hynny effeithio ar wasanaethau eraill sydd â chyllidebau sefydlog. Unwaith eto, byddai angen ystyried hyn mewn perthynas â chynigion penodol lle y cânt eu gwneud.

8.146 Manteision

- Byddai'r pris a gâi ei godi ar ddisgyblion am bryd ysgol yn cael ei gapio yn unol â chost cynhyrchu'r pryd hwnnw;
- Gellid cynnig gostyngiadau a chynigion arbennig er mwyn annog disgyblion i ddewis opsiynau iachach;
- Gallai'r ddarpariaeth hon gael ei defnyddio'n hyblyg i fodloni anghenion lleol - er enghraifft, gallai awdurdod lleol benderfynu estyn prydau ysgol am ddim i gynnwys teuluoedd sy'n bodloni meini prawf penodol;
- Cynnydd posibl yn nifer y disgyblion sy'n dewis prydau ysgol.

8.147 Anfanteision

- Byddai'n rhaid i ddarparwyr prydau ysgol asesu effeithiau'r cynigion penodol, gan bennu a fyddai'r dull hyblyg y maent yn ystyried ei fabwysiadu yn fuddiol. Byddai rhai goblygiadau o ran adnoddau yn deillio o hyn.
- Gan ddibynnu ar y math o hyblygrwydd a gâi ei ddefnyddio, byddai angen i ddarparwyr prydau ysgol roi cymhorthdal ar gyfer cost prydau ysgol a gallai hyn fod yn y tymor byr, y tymor canolig neu'r tymor hir. Mae cyfyngiadau tynn ar gyllidebau arlwyo a gallai'r gost o roi cymhorthdal ar gyfer prydau ysgol atal rhai awdurdodau lleol rhag codi taliadau hyblyg. Fodd bynnag, ar lefel fwy strategol gallai cynyddu nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n bwyta deiet cytbwys iach ac sy'n datblygu arferion bwyta da leihau faint o arian sy'n cael ei wario ar fynd i'r afael â gordewdra;
- Unwaith eto, gan ddibynnu ar y math o hyblygrwydd a gâi ei ddefnyddio, gallai fod yn anodd ei weinyddu, er enghraifft lle bo gan deulu dri o blant o oedran ysgol a lle bo'r plant yn mynychu ysgolion gwahanol o fewn ardal yr awdurdod lleol.
- Mae risg y gallai codi tâl gwahanol ar wahanol ddisgyblion am yr un prydau neu brydau tebyg gael ei ystyried yn annheg gan rieni y mae eu plant yn talu pris llawn am y prydau ac y gallai hynny, yn ei dro, arwain at gwynion.

Yr opsiwn a ffefrir

8.148 O ystyried y costau, y buddiannau, yr anfanteision a'r manteision, ac ar ôl eu pwysu a'u mesur, Opsiwn 3 fyddai'r opsiwn a ffefrir. Byddai'r opsiwn hwn yn sicrhau'r hyblygrwydd i fod yn arloesol wrth dreialu dulliau o gynyddu nifer y disgyblion sy'n dewis prydau ysgol, ar y cyd â gwaith ehangach ar wella safonau maeth prydau ysgol a mynd i'r afael â thlodi plant. Mae hefyd yn sicrhau na all y tâl a godir am bryd ysgol fynd yn uwch na'r costau cynhyrchu.

9. Asesiad o'r gystadleuaeth

9.1 Ni fydd y darpariaethau yn y Bil yn effeithio ar fusnesau, elusennau a/neu'r sector gwirfoddol.

9.2 Felly, nid oes angen hidl cystadleuaeth yn yr achos hwn.

10. Adolygu ar ôl gweithredu

Ymyrryd mewn ysgolion sy'n peri pryder

10.1 Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r ddeddfwriaeth flwyddyn wedi iddi gael ei gweithredu, a bydd yn gofyn barn Estyn a'r awdurdodau lleol am ei heffaith.

10.2 Bydd Estyn yn parhau'n gyfrifol am arolygu ysgolion fel rhan o'i gylch arolygu ac am ystyried a yw'r ysgol yn methu â rhoi addysg o safon dderbyniol i'w disgyblion a'i bod yn peri pryder. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro nifer yr ysgolion sy'n peri pryder a'r amgylchiadau perthnasol.

10.3 Drwy ei harchwiliadau a'i gwaith bandio, bydd gan yr Uned Safonau Ysgolion rôl o ran monitro safonau ysgolion.

10.4 Mae swyddogion yn ymwneud ag amryw o randdeiliaid mewn sawl gwahanol ffordd gan gynnwys cyfarfodydd, cynadleddau a gohebiaeth. Bydd gwella ysgolion ac ymyrraeth yn parhau'n rhan o drafodaethau'r Adran Addysg a Sgiliau â rhanddeiliaid sy'n cynnwys Estyn, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, Consortia Rhanbarthol ac awdurdodau lleol. Byddwn yn parhau i gasglu data ynghylch ysgolion sy'n peri pryder er mwyn cadarnhau a yw'r ddeddfwriaeth wedi arwain at well arferion.

Gwella Ysgolion

10.5 MEWNOL

- **Yr Uned Safonau Ysgolion**
Adolygu canlyniadau archwiliadau parhaus gan yr Uned Safonau Ysgolion er mwyn monitro'r arfer o rannu arferion gorau a gwerthuso'r gwaith o weithredu polisïau.
- **Grwpiau Sicrhau Ansawdd**
Mae'r Is-adran Gwella Dysgu a Datblygiad Proffesiynol wedi penodi Grŵp Sicrhau Ansawdd a fydd yn arwain datblygiad strategaethau addysgu dibynadwy iawn. Bydd yr Is-adran Gwella Dysgu a Datblygiad Proffesiynol hefyd yn sefydlu Grŵp Porthgadw, a fydd yn cynnwys addysgwyr profiadol a all brofi canllawiau statudol drafft ynghylch gwella ysgolion cyn eu cyhoeddi.
- **Diffyg Cydymffurfiaeth**
Cyn cyhoeddi canllawiau statudol ynghylch gwella ysgolion, bydd yr Is-adran Gwella Dysgu a Datblygiad Proffesiynol yn pennu cysylltiadau polisi/cyfreithiol a fydd yn ymdrin â cheisiadau ysgrifenedig oddi wrth awdurdodau ysgolion i wyro oddi wrth ganllawiau statudol.

10.6 ALLANOL

- **Cyngor gan Estyn**
Adolygu'r dystiolaeth a geir o fewn Adroddiad Blynyddol Estyn ar gyfer 2013-14 er mwyn asesu gwelliannau o ran hunanwerthuso ysgolion, cynllunio gwelliannau a rhagor o arferion arweiniol o fewn y sector. Comisiynu ymchwil wedi'i deilwra'n arbennig gan Estyn a fydd yn canolbwyntio'n benodol ar wella ysgolion ac ar yr effaith ar arferion o fewn yr ystafell ddosbarth.
- **Gwerthusiadau annibynnol**
Adolygiad mwy hirdymor o bolisiau sy'n effeithio ar yr agenda ar gyfer gwella ysgolion, hynny yw strategaethau addysgu dibynadwy iawn; cymunedau dysgu proffesiynol.
- **Parhau i adolygu'r modd y cyflawnir 20 Prif Flaenoriaeth y Gweinidog**
Grŵp Rhanddeiliaid Allanol.
- **Adolygiad o'r targedau a amlinellir yn yr adroddiad ar Adolygu Strwythurau Addysg yng Nghymru (Vivian Thomas).**
Mae'n bosibl y gallai adolygiad pellach gael ei gynnal yn 2013.
- **Asesiad o'r Effaith - Rhaglen ar gyfer Diwygio Ysgolion**
Asesiad mwy hirdymor o effaith dulliau gweithredu, strategaethau a thechnegau ar gyfer gwella ysgolion a'r rhaglen gyffredinol ar gyfer diwygio ysgolion.

Trefniadaeth Ysgolion

10.7 Caiff cyfran y penderfyniadau ar drefniadaeth ysgolion a wneir ar lefel leol ei monitro drwy'r dadansoddiad parhaus o ddata Llywodraeth Cymru ar gynigion trefniadaeth ysgolion. Caiff y data eu casglu o'r wybodaeth y bydd yn ofynnol i gynigwyr a phenderfynwyr, yn unol â darpariaethau'r Bil, ei hanfon at Weinidogion Cymru ar wahanol gamau yn y broses statudol newydd.

10.8 Bydd y gwelliant yn effeithiolrwydd awdurdodau lleol o ran cynllunio lleoedd ysgol yn cael ei fonitro drwy gyfeirio at fesurau sy'n cynnwys:

- nifer yr awdurdodau lleol sydd â mwy na 10% o'u lleoedd ysgol dros ben (drwy ddadansoddi'r data a ddarperir bob blwyddyn am lleoedd ysgol awdurdodau lleol);
- nifer yr awdurdodau lleol y mae Estyn wedi dyfarnu bod eu cynlluniau trefniadaeth ysgolion yn dda yn arolygiadau awdurdodau lleol Estyn (yn ôl y dadansoddiad blynyddol o adroddiadau awdurdodau lleol Estyn); a
- yr amser a gymerir ar gyfartaledd i benderfynu'n derfynol ar y cynigion a gyhoeddwyd (drwy'r dadansoddiad parhaus o ddata Llywodraeth Cymru am drefniadaeth ysgolion).

10.9 Canfyddiadau'r gwaith monitro hwn fyddai'n penderfynu a oes angen adolygu'r fframwaith deddfwriaethol newydd yn y dyfodol. Mae'n annhebygol y gellid dod i unrhyw gasgliad am yr angen am adolygiad hyd nes bydd y system wedi gwreiddio'n briodol a hyd nes bydd digon o ddata ar gael. Gallai hyn, o bosibl, fod am gyfnod o dair blynedd neu ragor. Felly, mae'n annhebygol y gwneir unrhyw adolygiad cyffredinol cyn 2016.

10.10 Yn y cyfamser, mae'n bosibl y bydd adolygiad neu adolygiadau yn canolbwyntio'n benodol ar agweddau ar y diwygiadau a reoleiddir yn cael ei wneud os bydd angen am hynny yng ngoleuni datblygiadau polisi parhaus.

Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg

10.11 Pan fydd y Bil arfaethedig a'r is-ddeddfwriaeth yn ei lle, caiff y cynnydd ar weithredu'r ddeddfwriaeth newydd a'i heffaith ei fonitro drwy gyfarfodydd monitro blynyddol gyda chynrychiolwyr yr awdurdodau lleol. Caiff y cynnydd ei drafod hefyd bob blwyddyn yn Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o addysg a hyfforddiant.

10.12 O ran gwella safonau addysg, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro pa mor effeithiol ac effeithlon yw darpariaeth yr awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion drwy gasglu data a thrwy dystiolaeth arolygu Estyn.

10.13 Caiff y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ei gwerthuso'n llawn, a bydd hynny'n dechrau yn 2012. Caiff y Strategaeth ei hadolygu'n ffurfiol yn 2015, a bydd hynny'n cynnwys adolygu pa mor effeithiol yw'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg o ran gwella'r cynllunio ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg ac o ran cyflawni'r deilliannau yn Adran 3.

Y Cyfarfod Blynyddol Rhieni

10.14 Bydd swyddogion yn monitro effaith y ddeddfwriaeth newydd drwy ein cyfarfodydd rheolaidd, a'n cyfarfodydd rhanddeiliaid/swyddogion. Bydd swyddogion yn cyfarfod â chynrychiolwyr Swyddogion Cefnogi Llywodraethwyr Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru deirgwaith y flwyddyn ac yn mynychu eu cynhadledd flynyddol, ac yn cyfarfod â Llywodraethwyr Cymru bob chwarter.

Cwnsela mewn ysgolion

10.15 Bydd swyddogion yn monitro effaith y ddeddfwriaeth newydd drwy ddata dienw a ddarperir gan awdurdodau lleol ar ddemograffi a deilliannau'r plant a'r bobl ifanc hynny sy'n gofyn am wasanaeth cwnsela.

Y Fenter Brecwast am Ddim

10.16 Bydd ysgolion yn parhau i ddarparu data bob blwyddyn i Lywodraeth Cymru am y nifer sy'n cymryd brecwast am ddim. Bydd y data ar ffurf datganiad y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion.

Codi Taliadau Hyblyg am Brydau Ysgol

10.17 Ddeuddeg mis ar ôl rhoi cychwyn ar y ddeddfwriaeth hon bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn am adborth gan awdurdodau lleol i weld a ydynt wedi defnyddio'r pŵer hwn ac os ydynt ym mha fodd a beth oedd yr effaith. O ystyried graddfa'r defnydd ar daliadau hyblyg, gellir hefyd, maes o law, ystyried y gofyniad i asesu'r effeithiau'n fwy ffurfiol.

ATODIAD A - NODIADAU ESBONIADOL

Cyflwyniad

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn ymwneud â'r Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 24 Ebrill 2012.
2. Fe'u lluniwyd gan Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Bil a helpu i lywio dadl arno. Nid ydynt yn ffurfio rhan o'r Bil drafft nac wedi eu hardystio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
3. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Bil. Ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Bil. Pan na fo'n ymddangos bod angen unrhyw esboniad neu unrhyw sylwadau ar adran o'r Bil, nis rhoddir.
4. Mae'r pwerau i wneud y Bil i'w cael yn Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac Atodlen 7 iddi. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud darpariaeth ar gyfer y Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion ac mewn cysylltiad ag ef, yn rhinwedd Atodlen 7, pwnc 5 (addysg a hyfforddiant) a phwnc 9 (iechyd a gwasanaethau iechyd).
5. Yn y Nodiadau Esboniadol hyn, ystyr "Deddf 1998" yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Sylwadau ar Adrannau

Rhan 1 - Cyflwyniad

Adran 1 – Trosolwg ar y Bil hwn

6. Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg ar ddarpariaethau allweddol y Bil. Mae 6 Rhan a 5 Atodlen i'r Bil.

Rhan 2 - Safonau

Pennod 1 - Ymyrryd ym Materion Rhedeg Ysgolion a Gynhelir

7. Mae'r Bennod hon, a Phennod 2 o Ran 2, yn diwygio'r gyfraith bresennol mewn cysylltiad ag ymyrraeth gan awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru ym materion rhedeg ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol ac ymyrraeth gan Weinidogion Cymru ym materion arfer swyddogaethau addysg gan awdurdodau lleol.

8. Yn gyffredinol, mater i'r awdurdod lleol yn y lle cyntaf fydd cymryd camau mewn cysylltiad ag ysgolion sy'n peri pryder, a dim ond pan fo'r awdurdod wedi methu â'u cymryd, neu pan fo wedi cymryd camau ond wedi gwneud hynny mewn modd annigonol, y bydd Gweinidogion Cymru, yn gyffredinol, yn cymryd camau.

Y seiliau dros ymyrryd

Adran 2 – Y seiliau dros ymyrryd

9. Mae'r adran hon yn nodi wyth sail dros ymyrraeth gan awdurdod lleol neu Weinidogion Cymru mewn ysgol a gynhelir.

10. Mae'r seiliau dros ymyrryd a nodir yn yr adran hon yn disodli'r seiliau a nodir yn adran 15(2)(a) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ("Deddf 1998"), gyda diwygiadau. Yn ychwanegol, mae Seiliau 5 a 6 wedi eu sylfaenu ar bwerau ymyrryd Gweinidogion Cymru yn adrannau 496 a 497 o Ddeddf Addysg 1996 (gweithredu afresymol gan gorff llywodraethu neu ei fethiant â chydymffurfio â dyletswydd). Mae disodli darpariaethau adrannau 496 a 497 o Ddeddf Addysg 1996 fan hyn yn golygu y caiff awdurdodau lleol yn ogystal â Gweinidogion Cymru ymyrryd ym materion rhedeg ysgol a gynhelir ar sail methiant corff llywodraethu â chydymffurfio â dyletswydd neu weithredu afresymol ganddo. Erbyn hyn, mae Seiliau 5 a 6 hefyd yn cynnwys cyfeiriad at fethiant pennaeth â chydymffurfio â dyletswydd neu weithredu afresymol ganddo.

Ymyrraeth gan awdurdod lleol

Adran 3 – Hysbysiad rhybuddio

11. Mae'r adran hon yn darparu y caiff yr awdurdod lleol, os yw un neu fwy o Seiliau 1 i 6 a nodir yn adran 2 yn bodoli, roi hysbysiad rhybuddio i gorff llywodraethu ysgol, ac mae'n pennu pa wybodaeth y mae'n rhaid i hysbysiad rhybuddio ei chynnwys. Yn gyffredinol, dechrau'r broses ymyrryd gan awdurdod lleol mewn ysgol yw'r hysbysiad rhybuddio, a gall arwain at y pwerau ymyrryd yn cael eu harfer ganddo.

Adran 4 – Pŵer i ymyrryd

12. Mae'r adran hon yn nodi'r amgylchiadau pan gaiff awdurdod lleol arfer y pwerau i ymyrryd mewn ysgol a gynhelir. Nodir y pwerau ymyrryd yn adrannau 5 i 9.

13. Pan fo awdurdod lleol wedi ei fodloni bod un neu fwy o Seiliau 1 i 6 yn bodoli, ac wedi cydymffurfio â'r weithdrefn ar gyfer rhoi hysbysiad rhybuddio a nodir yn adran 3, yna caiff arfer ei bwerau ymyrryd. Fodd bynnag, os yw awdurdod lleol o'r farn bod un neu fwy o Seiliau 1 i 6 yn bodoli a hefyd o'r farn

bod risg gysylltiedig i iechyd a diogelwch unrhyw berson a honno'n risg sy'n galw am weithredu brys, neu fod y corff llywodraethu'n annhebyg o allu cydymffurfio neu sicrhau cydymffurfedd â hysbysiad rhybuddio, yna nid oes rhaid iddo gydymffurfio â'r weithdrefn ar gyfer rhoi hysbysiad rhybuddio cyn arfer ei bwerau ymyrryd.

14. Yn ychwanegol, caiff yr awdurdod lleol arfer ei bwerau ymyrryd os yw wedi ei fodloni bod Sail 7 neu Sail 8 yn bodoli (ysgolion y mae arolygiad wedi barnu bod arnynt angen gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig). Yn yr achos hwn, nid oes rhaid i'r awdurdod lleol ddyroddi hysbysiad rhybuddio.

Adran 5 – Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu sicrhau cyngor neu gydlafurio

15. Mae'r adran hon yn darparu pŵer newydd i awdurdod lleol gyfarwyddo corff llywodraethu ysgol i wneud trefniadau neu ymrwymo i gontract i ddarparu gwasanaethau cyngori, neu i gydlafurio yn unol ag adran 5(2) o Fesur Addysg (Cymru) 2011, er mwyn gwella perfformiad yr ysgol.

Adran 6 – Pŵer i benodi llywodraethwyr ychwanegol

16. Mae'r adran hon yn disodli'r pŵer ymyrryd yn adran 16 o Ddeddf 1998, ac yn darparu i awdurdodau lleol bŵer i benodi llywodraethwyr ychwanegol i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir.

Adran 7 – Pŵer awdurdod lleol i gyfansoddi corff llywodraethu o aelodau gweithrediaeth interim

17. Mae'r adran hon yn disodli'r pŵer ymyrryd yn adran 16A o Ddeddf 1998. Mae'n darparu i awdurdodau lleol bŵer i benodi corff llywodraethu a gyfansoddwyd yn arbennig yn lle'r llywodraethwyr presennol mewn ysgol pan fo gan yr awdurdod lleol bŵer i ymyrryd. Gelwir y corff llywodraethu a gyfansoddwyd yn arbennig yn fwrdd gweithrediaeth interim a bydd yn cymryd drosodd y gwaith o redeg yr ysgol. Mae Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch byrddau gweithrediaeth interim.

Adran 8 – Pŵer awdurdod lleol i atal dros dro yr hawl i gael cyllideb ddirprwyedig

18. O dan adran 49 o Ddeddf 1998, mae gan bob ysgol a gynhelir hawl i gael cyllideb ddirprwyedig, sy'n golygu bod gan eu cyrff llywodraethu hawlogaeth i reoli cyllideb yr ysgol. Mae'r adran hon yn disodli'r pŵer ymyrryd yn adran 17 o Ddeddf 1998, ac yn darparu pŵer i awdurdodau lleol atal dros dro yr hawl i gael cyllideb ddirprwyedig os oes gan awdurdod lleol y pŵer i ymyrryd yn yr ysgol.

Adran 9 – Pŵer cyffredinol i roi cyfarwyddiadau a chymryd camau

19. Mae'r adran hon yn darparu pŵer cyffredinol i'r awdurdod lleol ddyroddi'r cyfarwyddiadau hynny y mae o'r farn eu bod yn briodol i gorff llywodraethu neu bennaeth ysgol y mae'r awdurdod yn ei chynnal, a chymryd unrhyw gamau eraill, pan fo un neu fwy o'r seiliau dros ymyrryd yn bodoli.

20. Mae'r adran hon yn disodli adran 62 o Ddeddf 1998 (*pŵer awdurdod lleol i atal methiant mewn disgyblaeth*). Mae hefyd yn darparu i awdurdodau lleol bwerau tebyg i bwerau ymyrryd Gweinidogion Cymru yn adrannau 496 a 497 o Ddeddf Addysg 1996 (ond yn annhebyg i adrannau 496 a 497, nid yw'r pŵer i ymyrryd yma yn gyfyngedig i'r achosion hynny lle y mae Sail 5 neu Sail 6 yn bodoli).

Ymyrraeth gan Weinidogion Cymru

Adran 10 – Hysbysiad rhybuddio

21. Mae'r adran hon yn nodi'r amgylchiadau pan gaiff Gweinidogion Cymru roi hysbysiad rhybuddio ffurfiol i ysgol a gynhelir. Yn gyffredinol, dechrau'r broses ymyrryd gan Weinidogion Cymru mewn ysgol yw hysbysiad rhybuddio, a gall arwain at bwerau ymyrryd Gweinidogion Cymru yn cael eu harfer.

22. Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi hysbysiad rhybuddio i gorff llywodraethu ysgol pan fo un neu fwy o Seiliau 1 i 6 (a nodir yn adran 2) yn bodoli, ond bod yr awdurdod lleol heb roi hysbysiad rhybuddio neu wedi gwneud hynny mewn termau sy'n annigonol ym marn Gweinidogion Cymru. Bydd yr hysbysiad rhybuddio yn esbonio i'r corff llywodraethu y rhesymau pam y mae'n cael ei roi a'r camau y dylai'r corff llywodraethu eu cymryd.

Adran 11 – Pŵer Gweinidogion Cymru i ymyrryd

23. Mae'r adran hon yn nodi'r amgylchiadau pan gaiff Gweinidogion Cymru arfer y pwerau i ymyrryd mewn ysgol a gynhelir. Nodir y pwerau ymyrryd yn adrannau 12 i 17.

24. Pan fo Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod un neu fwy o Seiliau 1 i 6 yn bodoli, ac wedi cydymffurfio â'r weithdrefn ar gyfer rhoi hysbysiad rhybuddio a nodir yn adran 10, yna cânt arfer eu pwerau ymyrryd. Fodd bynnag, os yw Gweinidogion Cymru o'r farn bod un neu fwy o Seiliau 1 i 6 yn bodoli a bod risg gysylltiedig i iechyd a diogelwch unrhyw berson a honno'n risg sy'n galw am weithredu brys, neu fod y corff llywodraethu'n annhebyg o allu cydymffurfio neu sicrhau cydymffurfedd â hysbysiad rhybuddio, yna nid oes rhaid iddynt gydymffurfio â'r weithdrefn ar gyfer rhoi hysbysiad rhybuddio cyn arfer eu pwerau ymyrryd.

25. Yn ychwanegol, caiff Gweinidogion Cymru arfer eu pwerau ymyrryd os ydynt wedi eu bodloni bod Sail 7 neu Sail 8 yn bodoli (ysgolion y cafwyd mewn arolygiad bod arnynt angen gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig). Yn yr achos hwn, nid oes rhaid i Weinidogion Cymru gydymffurfio â'r weithdrefn ar gyfer rhoi hysbysiad rhybuddio.

Adran 12 – Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu sicrhau cyngor neu gydlafurio

26. Mae'r adran hon yn darparu pŵer sy'n adlewyrchu pŵer yr awdurdod lleol a geir yn adran 5 (*pŵer i'w gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu sicrhau cyngor neu gydlafurio*).

Adran 13 – Pŵer Gweinidogion Cymru i benodi llywodraethwyr ychwanegol

27. Mae'r adran hon yn darparu pŵer sy'n adlewyrchu pŵer yr awdurdod lleol a geir yn adran 6 (*pŵer i benodi llywodraethwyr ychwanegol*).

Adran 14 – Pŵer Gweinidogion Cymru i gyfansoddi corff llywodraethu o aelodau gweithrediaeth interim

28. Mae'r adran hon yn darparu pŵer sy'n adlewyrchu pŵer yr awdurdod lleol a geir yn adran 7 (*pŵer awdurdod lleol i gyfansoddi corff llywodraethu o aelodau gweithrediaeth interim*).

Adran 15 – Pŵer Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo bod ysgolion yn cael eu ffedereiddio

29. Mae'r adran hon yn disodli'r pŵer ymyrryd yn adran 18B o Ddeddf 1998 ac yn darparu i Weinidogion Cymru y pŵer i ddyroddi cyfarwyddiadau ynghylch ffedereiddio ysgolion. Mae ffederasiwn o ysgolion yn grŵp o ddwy neu ragor o ysgolion o dan un corff llywodraethu.

Adran 16 – Pŵer Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo bod ysgol yn cael ei chau

3. Mae'r adran hon yn disodli'r pŵer ymyrryd yn adran 19 o Ddeddf 1998 ac yn darparu i Weinidogion Cymru y pŵer i gyfarwyddo bod ysgol yn cael ei chau os oes ganddynt bŵer i ymyrryd ar dir Sail 8 (ysgol y mae arni angen mesurau arbennig). Pan fo Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo bod ysgol yn cael ei chau o dan yr adran hon, nid oes angen i awdurdod lleol wneud cynigion i derfynu'r ysgol o dan Ran 3.

Adran 17 – Pŵer cyffredinol i roi cyfarwyddiadau a chymryd camau

31. Mae'r adran hon yn darparu pŵer sy'n adlewyrchu pŵer yr awdurdod lleol yn adran 9 (*pŵer cyffredinol i roi cyfarwyddiadau a chymryd camau*).

Adrannau 18, 19 ac 20 ac Atodlen 1 – Darpariaethau atodol

32. Mae adran 18 yn cyflwyno Atodlen 1 sy'n gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas â byrddau gweithrediaeth interim (a gyfansoddwyd yn dilyn cyfarwyddyd o dan adran 7 neu 13). Mae'n ymwneud â'r trosi o gorff a gyfansoddwyd yn normal i gorff o aelodau gweithrediaeth interim, a hefyd y trosi o gorff llywodraethu o aelodau gweithrediaeth interim yn ôl i gorff llywodraethu a gyfansoddwyd yn normal. Yn ystod y cyfnod y mae'r aelodau gweithrediaeth interim yn eu swyddi, rhaid iddynt gyflawni swyddogaethau aelodau'r corff llywodraethu a gyfansoddwyd yn normal. Mae hyn yn golygu eu bod yn ddarostyngedig i'r un gyfraith ag aelodau'r corff llywodraethu a gyfansoddwyd yn normal. Fodd bynnag, nid ydynt yn ddarostyngedig i'r gyfraith sy'n gymwys mewn perthynas â chyfansoddiad a gweithdrefn corff llywodraethu yn y rheoliadau a wnaed o dan adran 19(2) neu (3) o Ddeddf Addysg 2002 (paragraff 13). Fodd bynnag, caniateir i reoliadau a wneir o dan baragraffau penodol o adran 19 o Ddeddf 2002 gael eu cymhwyso i'r bwrdd. Er enghraifft, pan fo rheoliadau a wnaed yn rhannol o dan adran 19(2) neu (3) wedi gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion staffio ysgolion, caniateid i ddarpariaethau o'r fath gael eu cymhwyso i'r bwrdd.

33. Mae adran 19 yn darparu bod yn rhaid i bennaeth neu gorff llywodraethu ysgol gydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir iddo gan awdurdod lleol neu Weinidogion Cymru o dan y Bennod hon. Rhaid i gyfarwyddyd fod yn ysgrifenedig a gellir ei orfodi drwy orchymyn mandadol llys.

34. Mae adran 20 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i awdurdodau lleol o ran arfer eu swyddogaethau o dan Bennod 1 o Ran 2 o'r Bil hwn. Yn unol â hynny, rhaid i awdurdod lleol roi sylw i ganllawiau o'r fath.

Pennod 2 - Ymyrryd mewn Awdurdodau Lleol

35. Mae'r Bennod hon yn nodi'r amgylchiadau pan gaiff Gweinidogion Cymru ymyrryd yn y ffordd y mae awdurdod lleol yn arfer ei swyddogaethau addysg (sef y swyddogaethau hynny a nodir yn Atodlen 36A i Ddeddf Addysg 1996).

Adran 21 – Y seiliau dros ymyrryd

36. Mae'r adran hon yn nodi'r seiliau dros ymyrryd y mae'n rhaid iddynt fodoli i Weinidogion Cymru ymyrryd mewn awdurdod lleol. Mae'r seiliau hyn yn disodli'r seiliau dros ymyrryd mewn awdurdodau lleol a nodir yn adrannau

496 i 497A o Ddeddf Addysg 1996 o ran Cymru. Os yw un neu fwy o'r seiliau hyn yn bodoli, caiff Gweinidogion Cymru ddechrau'r broses ymyrryd.

37. Ni fydd adrannau 496 i 497A o Ddeddf Addysg 1996 bellach yn gymwys ond i awdurdodau lleol yn Lloegr.

Adran 22 – Hysbysiad rhybuddio

38. Mae'r adran hon yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, os yw un neu fwy o'r tair sail a nodir yn adran 21 yn bodoli, ddyroddi hysbysiad rhybuddio i'r awdurdod lleol, ac mae'n pennu pa wybodaeth y mae'n rhaid i hysbysiad rhybuddio ei chynnwys. Rhaid i'r hysbysiad rhybuddio, ymhlith pethau eraill, esbonio pam y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y seiliau dros ymyrryd yn bodoli a'r hyn y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ei wneud i ymdrin â hwy. Yn gyffredinol, dechrau'r broses ymyrryd gan Weinidogion Cymru mewn awdurdod lleol yw hysbysiad rhybuddio, a gall arwain at bwerau ymyrryd Gweinidogion Cymru yn cael eu harfer.

Adran 23 – Pŵer Gweinidogion Cymru i ymyrryd

39. Mae'r adran hon yn nodi'r amgylchiadau pan gaiff Gweinidogion Cymru arfer y pwerau i ymyrryd mewn awdurdod lleol. Nodir y pwerau ymyrryd yn adrannau 24 i 28.

40. Pan fo Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod un neu fwy o Seiliau 1 i 3 yn bodoli, a'u bod wedi cydymffurfio â'r weithdrefn ar gyfer rhoi hysbysiad rhybuddio a nodir yn adran 22, yna cânt arfer eu pwerau ymyrryd. Fodd bynnag, os yw Gweinidogion Cymru o'r farn bod un neu fwy o Seiliau 1 i 3 yn bodoli a bod risg gysylltiedig i iechyd a diogelwch unrhyw berson a honno'n risg sy'n galw am weithredu brys, neu fod yr awdurdod lleol yn annhebyg o allu cydymffurfio neu sicrhau cydymffurfedd â hysbysiad rhybuddio, yna nid oes rhaid iddynt gydymffurfio â'r weithdrefn ar gyfer rhoi hysbysiad rhybuddio cyn arfer eu pwerau ymyrryd.

Adran 24 – Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gael gwasanaethau cynghori

41. Mae'r adran hon yn disodli'r pŵer ymyrryd yn adran 63 o Ddeddf Addysg 2002 ac yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol gael gwasanaethau cynghori gan drydydd parti.

Adran 25 – Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i swyddogaethau gael eu cyflawni gan bersonau eraill ar ran awdurdod

42. Mae'r adran hon yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ddefnyddio gwasanaethau trydydd parti i gyflawni ei swyddogaethau.

Adran 26 – Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i swyddogaethau gael eu cyflawni gan Weinidogion Cymru neu enwebai

43. Mae'r adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i swyddogaethau awdurdod lleol gael eu cyflawni gan Weinidogion Cymru neu berson a enwebir gan Weinidogion Cymru.

Adran 27 – Pŵer i gyfarwyddo'r modd y mae swyddogaethau addysg eraill yn cael eu harfer

44. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru, wrth ddyroddi cyfarwyddiadau o dan adran 25 neu 26, i gynnwys cyfarwyddiadau sy'n ymwneud ag unrhyw un neu rai o swyddogaethau addysg yr awdurdod lleol, ac nid yn unig y swyddogaethau hynny y mae'r pwerau ymyrryd yn ymwneud â hwy.

Adran 28 – Pŵer cyffredinol i roi cyfarwyddiadau a chymryd camau

45. Pan fo'r pŵer i ymyrryd yn bodoli, mae'r adran hon yn darparu pŵer cyffredinol i roi cyfarwyddiadau i awdurdod lleol, a chymryd camau mewn perthynas ag ef. Mae cymryd camau yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud pethau eraill y maent o'r farn y gallent helpu i ymdrin â'r seiliau dros ymyrryd, ac eithrio gwneud cyfarwyddyd.

Adran 29 – Cyfarwyddiadau

46. Mae'r adran hon yn darparu bod yn rhaid i awdurdod lleol gydymffurfio â chyfarwyddyd. Rhaid i gyfarwyddyd fod yn ysgrifenedig a gellir ei orfodi drwy orchymyn mandadol llys.

Adran 30 – Dyletswydd i gydweithredu

47. Mae'r adran hon, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu gynorthwyo gyda'r camau y mae'n ofynnol eu cymryd i gydymffurfio â chyfarwyddiadau, yn disodli adran 497AA o Ddeddf Addysg 1996 (*pŵer i sicrhau bod swyddogaethau'n cael eu cyflawni'n briodol: dyletswydd awdurdod pan fo cyfarwyddiadau'n cael eu hystyried*) gyda rhai diwygiadau.

Adran 31 – Pwerau mynd i mewn ac arolygu

48. Mae'r adran hon, sy'n nodi hawliau mynediad mewn cysylltiad â chyflawni cyfarwyddiadau, yn disodli adran 497B o Ddeddf Addysg 1996 (*pŵer i sicrhau bod swyddogaethau'n cael eu cyflawni'n briodol: darpariaethau pellach*) gyda rhai diwygiadau.

Pennod 3 – Canllawiau Gwella Ysgolion

49. Mae'r Bennod hon yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i benaethiaid, cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol ynghylch sut i arfer eu swyddogaethau er mwyn gwella safonau addysg.

Adran 32 - Ystyr “awdurdod ysgol”

50. Mae'r adran hon yn diffinio'r term “awdurdod ysgol” i olygu awdurdod lleol, corff llywodraethu neu bennaeth ysgol a gynhelir yng Nghymru. Mae'r awdurdodau ysgol hyn yn y sefyllfa orau i wella safonau addysg mewn ysgolion.

Adran 33 - Pŵer i ddyroddi canllawiau gwella ysgolion

51. Mae'r adran hon yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i awdurdodau ysgol gan nodi'r ffordd y maent i wella safonau addysg mewn ysgolion.

Adran 34 - Ymgynghori a gweithdrefnau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

52. Mae'r adran hon yn nodi'r weithdrefn y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ei dilyn cyn dyroddi canllawiau gwella ysgolion. Ymhlith pethau eraill mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ynghylch y canllawiau a gosod copi ohonynt gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Adran 35 - Dyletswydd i ddilyn canllawiau gwella ysgolion

53. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar awdurdodau ysgol i gydymffurfio â'r canllawiau a ddyroddir o dan adran 33.

54. Mae'r adran hon yn caniatáu i awdurdodau ysgol wyro oddi wrth y canllawiau hynny mewn amgylchiadau penodol er mwyn darparu ar gyfer rhywfaint o hyblygrwydd ac arloesi. Pan fo awdurdod ysgol yn dymuno gwyo oddi wrth y canllawiau, rhaid iddo ddyroddi datganiad polisi gan roi manylion ynghylch ei bolisi amgen ar gyfer arfer y swyddogaethau addysg o dan sylw. Yna, rhaid iddo ddilyn y polisi amgen hwnnw. Os bydd yr awdurdodau ysgol yn gwyo'n rhannol oddi wrth y canllawiau, bydd yn rhaid iddynt lynu wrth y datganiad polisi ac (i'r graddau nad yw'r datganiad polisi yn ymwneud â mater) y canllawiau.

55. Yn ychwanegol, ni fydd y ddyletswydd i ddilyn y canllawiau gwella ysgolion neu ddatganiad polisi yn gymwys pe byddai gwneud hynny'n arwain at ganlyniadau afresymol.

Adran 36 - Datganiadau polisi: gofynion a phwerau ategol

56. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas â'r datganiadau polisi y mae'n rhaid i awdurdod lleol neu gorff llywodraethu eu dyroddi cyn y caniateir iddo wyro oddi wrth y canllawiau gwella ysgolion.

Adran 37 - Cyfarwyddiadau

57. Pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried nad yw'r ffordd amgen o weithredu a nodir yn natganiad polisi awdurdod ysgol yn debyg o wella safonau addysgol, cânt ddyroddi i'r awdurdod ysgol gyfarwyddyd sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo gydymffurfio â'r canllawiau. Rhaid dyroddi cyfarwyddyd yn ysgrifenedig a gellir ei orfodi drwy orchymyn mandadol.

Rhan 3: Trefniadaeth Ysgolion

58. Mae Rhan 3 yn diwygio ac yn dwyn ynghyd mewn un lle y gyfraith sy'n ymwneud â threfniadaeth ysgolion ar gyfer Cymru; yn ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi Cod newydd am Drefniadaeth Ysgolion; ac mae'n creu fframwaith newydd ar gyfer penderfynu ar gynigion sy'n derbyn gwrthwynebiadau, gan gynnwys sefydlu panelau penderfynu lleol a phroses symlach ar gyfer cynigion i gau ysgolion sydd â llai na 10 disgybl.

Pennod 1: Y Cod am Drefniadaeth Ysgolion

Adran 38 - Cod Trefniadaeth Ysgolion

59. Mae'r adran hon yn creu gofyniad i Weinidogion Cymru ddyroddi a chyhoeddi cod (neu godau) am drefniadaeth ysgolion ("y Cod") y mae'n rhaid i'r personau a restrir yn *is-adran 2* weithredu yn unol ag ef os yw'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol iddynt wneud hynny. Caiff y Cod hefyd gynnwys canllawiau sy'n nodi nodau, amcanion a materion eraill y mae'n rhaid i'r personau a enwir roi sylw iddynt.

Adran 39 - Llunio a chymeradwyo Cod Trefniadaeth Ysgolion

60. Mae'r adran hon yn nodi'r weithdrefn y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ei dilyn cyn dyroddi'r Cod. Ymhlith pethau eraill mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ynghylch y Cod a gosod copi ohono gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Pennod 2: Cynigion Trefniadaeth Ysgolion

Adran 40 - Cyfyngu ar sefydlu, newid a therfynu ysgolion a gynhelir

61. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i ysgol a gynhelir gael ei hagor neu ei chau, neu i newid sylweddol (a elwir yn 'newid rheoleiddiedig') gael ei wneud, yn unol â'r prosesau a nodir yn y Rhan hon – ac eithrio pan fo Gweinidogion Cymru yn defnyddio eu pŵer ymyrryd i gyfarwyddo bod ysgol yn cael ei chau o dan adran 16. Nodir y newidiadau rheoleiddiedig yn Atodlen 2. Mae is-adran 5 o adran 40 yn gwahardd unrhyw newid i ysgol a gynhelir, sy'n newid ei chymeriad crefyddol neu'n peri iddi gaffael neu golli cymeriad crefyddol.

62. Gwnaed darpariaeth debyg yn adrannau 28(11) a 33 o Ddeddf 1998.

Adrannau 41 – 44 ac Atodlen 2: Cynigion y caniateir iddynt gael eu gwneud mewn cysylltiad ag ysgolion yng Nghymru

63. Mae'r adrannau hyn yn rhoi i awdurdodau lleol y pŵer i wneud cynigion:

- i sefydlu ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol, ysgol feithrin a gynhelir, ysgol arbennig gymunedol neu ysgol arbennig sefydledig;
- i derfynu ysgol gymunedol, ysgol feithrin a gynhelir, ysgol wirfoddol, ysgol sefydledig, ysgol arbennig gymunedol neu ysgol arbennig sefydledig;
- i wneud newid rheoleiddiedig i ysgol gymunedol, ysgol feithrin a gynhelir, ysgol arbennig gymunedol neu ysgol arbennig sefydledig;
- i wneud newid rheoleiddiedig i gynyddu neu leihau capasiti mewn ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig nad oes ganddi gymeriad crefyddol;
- gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru, i wneud newid rheoleiddiedig i agor neu gau chweched dosbarth ysgol mewn ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig.

64. Yn ychwanegol, caiff unrhyw berson wneud cynnig i sefydlu ysgol wirfoddol a chaiff corff llywodraethu ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol neu ysgol arbennig sefydledig wneud cynigion i wneud newid rheoleiddiedig i'r ysgol neu i derfynu'r ysgol.

65. Mae Atodlen 2 yn nodi'n fanwl y newidiadau rheoleiddiedig y caniateir eu gwneud i ysgol. Ymhlith newidiadau eraill mae'n caniatáu ar gyfer:

- newidiadau i gapasiti'r ysgol (paragraffau 10 i 14). Wrth bwysu a mesur a yw capasiti'r ysgol wedi newid, mae newidiadau blaenorol i'w hystyried fel na ellir gwneud newidiadau i'r capasiti yn gynyddrannol heb yr angen i wneud cynigion;
- cynnydd neu leihad yn ystod oedran yr ysgol (paragraff 5). Nid yw cynnydd yn ystod oedran uchaf ysgol yn caniatáu i chweched dosbarth gael ei ychwanegu. Mae darpariaeth ar wahân yn yr Atodlen (ym mharagraff 6) yn caniatáu i chweched dosbarth gael ei ychwanegu at ysgol (neu ei dynnu oddi wrthi);
- newidiadau i gyfrwng iaith yr ysgol (paragraffau 7 ac 8). Mae'r rhain wedi eu diweddarau ers Rheoliadau Addysg (Cynigion Trefniadaeth Ysgolion) (Cymru) 1999 i adlewyrchu cyflwyno'r cyfnod sylfaen a methodolegau addysgu mewn ysgolion cynradd; nid yw'r rhain bellach yn cyfeirio at bynciau ond yn hytrach at ganrannau'r amser a dreulir yn addysgu disgyblion.

66. Mae paragraff 26 o'r Atodlen yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru ychwanegu, newid neu ddileu newid rheoleiddiedig drwy Orchymyn.

67. Mae'r darpariaethau hyn wedi eu seilio ar adrannau 28, 29 a 31 o Ddeddf 1998 a'r rheoliadau a wnaed o dan y pwerau hyn.

Adran 45 – 48 ac Atodlen 5: Newid categori ysgol

68. Rhennir ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol (heblaw am ysgolion meithrin a gynhelir) i gategoriâu gwahanol a nodir yn adran 20 o Ddeddf 1998. Mae adrannau 45 i 48 (yn seiliedig ar adran 35 o Ddeddf 1998 ac Atodlen 7 iddi) yn manylu ar pwy gaiff wneud cynigion i newid categori ysgol; mae'r grid isod yn crynhoi hyn; (ystyr WG yw ysgol wirfoddol a gynorthwyr, ystyr WR yw ysgol wirfoddol a reolir, ystyr CLI yw corff llywodraethu ac ystyr ALI yw awdurdod lleol).

Categori o ysgol	Gall ddod yn	Cynigydd
Ysgol gymunedol	WG neu WR	CLI
Ysgol WG	Ysgol gymunedol neu WR	CLI
WR	Ysgol gymunedol neu WG	CLI
Ysgol sefydledig	Ysgol gymunedol, WG neu WR	CLI
Ysgol arbennig gymunedol	Ysgol arbennig sefydledig	CLI neu ALI
Ysgol arbennig	Ysgol arbennig	BLI

69. Ni chaiff ysgol newid categori i ddod yn ysgol sefydledig.

70. Mae Atodlen 3 i Ddeddf 1998 yn nodi'r treuliau y mae corff llywodraethu ysgol wirfoddol a gynorthwyr yn gyfrifol am eu talu. Rhaid i ysgol wirfoddol a gynorthwyr wneud cynigion i ddod yn ysgol wirfoddol a reolir os yw corff llywodraethu'r ysgol honno yn methu â chyflawni ei rwymedigaethau ariannol fel a nodir yn yr Atodlen 3 honno (adran 46) neu'n anfodlon gwneud hynny. Er mwyn dod yn ysgol wirfoddol a gynorthwyr rhaid i gorff llywodraethu fodloni Gweinidogion Cymru y gall fodloni'r rhwymedigaethau ariannol hynny am gyfnod o bum mlynedd o leiaf ar ôl i'r newid categori ddigwydd (adran 47).

71. Nid yw newid categori yn awdurdodi unrhyw newid yng nghymeriad crefyddol yr ysgol nac yn ei hawdurdodi i sefydlu corff sefydledig (fel y'i diffinnir yn adran 21 o Ddeddf 1998), nac i ymuno neu ymadael â chorff o'r fath.

72. Os yw ysgol i ddod yn ysgol gymunedol neu'n ysgol arbennig gymunedol, rhaid iddi ymrwymo i'r cytundebau trosglwyddo y ceir manylion amdanynt yn Atodlen 5. Mae'r Atodlen hon yn darparu ar gyfer ac yn nodi'r broses y mae'n rhaid i gyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol ei rhoi ar waith i weithredu'r cynigion i newid ysgolion ac yn gwneud darpariaeth debyg i'r un a geir yn Rheoliadau Newid Categori Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2001. Mae'n nodi, ymysg pethau eraill, y manylion ynghylch sut y mae trosglwyddo staff a thir. Mae pŵer yn cael ei ddarparu i Weinidogion Cymru wneud rholiadau mewn cysylltiad â sut y mae newid categori'n cael effaith ar lywodraethu'r ysgol.

Adran 49 - Cyhoeddi ac ymgynghori

73. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol bod ymgynghoriad ar gynigion trefniadaeth ysgol a'u bod yn cael eu cyhoeddi. Bydd y Cod yn nodi'r gofynion ar gyfer ymgynghori ac yn ymwneud â sut a phryd y mae cyhoeddi cynigion. Rhaid i gynigwyr gyhoeddi adroddiad ar yr ymgynghori. Rhaid i'r cynigydd anfon copiâu o'r cynigion cyhoeddedig at Weinidogion Cymru, ac at yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r gofyniad i ymgynghori yn gymwys yn achos cynigion i derfynu ysgolion sydd â llai na 10 disgybl cofrestredig ar y trydydd dydd Mawrth o'r mis Ionawr blaenorol (fel y'i diffinnir yn adran 57). Hwn yw'r dyddiad y cynhelir y Cyfrifiad Blynyddol Ysgolion (ac felly, bydd modd gwybod nifer y disgyblion sydd mewn ysgol ar y dyddiad hwnnw).

Adran 50- Gwrthwynebu

74. Mae'r adran hon yn galluogi unrhyw berson i wrthwynebu cynnig yn ysgrifenedig o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad cyhoeddi ("y cyfnod

gwrthwynebu”) ac yn ei gwneud yn ofynnol i gynigwyr gyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau a wnaed ynghyd â'u hymatebion i'r gwrthwynebiadau hynny cyn diwedd 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y diwrnod mae'r cyfnod gwrthwynebu'n dod i ben.

Adrannau 51-55 ac Atodlen 3: Categoriâu gwrthwynebwyr a chymeradwyaeth

75. Caiff unrhyw berson wrthwynebu cynnig, ond p'un a yw person yn dod o fewn un o'r tri chategori o wrthwynebwyr (a nodir yn adran 51) ai peidio fydd yn pennu pwy sy'n rhoi penderfyniad ar y cynnig, fel y manylir arno yn y tabl dilynol

<u>Pan fo'r sefyllfa fel a ganlyn–</u>	<u>Pwy sy'n penderfynu'r cynnig</u>
Os oes leiaf un gwrthwynebydd categori 1 neu fod y cynnig yn ymwneud ag addysg chweched dosbarth	Gweinidogion Cymru (adran 52)
Pan nad oes unrhyw wrthwynebwyr categori 1, neu fod o leiaf 2 wrthwynebydd categori 2 ac/ neu o leiaf 10 o wrthwynebwyr categori 3	Y Panel Penderfynu Lleol (adran 53)
Pan nad oes unrhyw wrthwynebwyr categori 1 na 2, neu fod hyd at 9 gwrthwynebydd categori 3, ac/neu gwrthwynebwyr nad ydynt yn dod o dan unrhyw un neu rai o'r categorïau, neu pan nad oes gwrthwynebiadau	Y Cynigydd (adran 55)

76. Mae gwrthwynebiadau mewn perthynas â therfynu ysgol sydd â llai na 10 disgybl cofrestredig i'w penderfynu gan y cynigydd ar waethaf y categori (adran 52(9)).

77. Gwneir darpariaeth hefyd i ddarparu dogfennau i Weinidogion Cymru neu banel penderfynu lleol sy'n ymwneud â sut i ymdrin â chynigion cysylltiedig (adran 54).

78. Mae adran 53 ac Atodlen 3 yn darparu fframwaith sy'n ymwneud ag aelodaeth, gweithdrefn a materion amrywiol mewn perthynas â phanel penderfynu lleol. Mae'r panel penderfynu lleol i gynnwys 5 aelod sydd i'w trin fel aelodau o'r awdurdod penodi at ddibenion Rhan 8 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Mae hyn yn golygu y bydd modd talu lwfansau a threuliau i aelodau o banel penderfynu lleol yn unol â Mesur 2011.

79. Bydd y panel penderfynu lleol hefyd yn gorff o fewn awdurdodaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Golyga hyn y gallai cwyn

gael ei gwneud i'r Ombwdsmon am y panel penderfynu lleol yn yr un ffordd ag y gallai cwyn gael ei gwneud am banel apêl annibynnol ar gyfer derbyniadau i ysgolion neu waharddiadau ohonynt.

Adran 56 ac Atodlenni 4 a 5 - Gweithredu

80. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i gynigion sydd wedi eu cymeradwyo, neu fod y cynigydd wedi penderfynu y dylid eu gweithredu, gael eu gweithredu ar y ffurf y cawsant eu cymeradwyo neu eu penderfynu, ac yn unol ag Atodlen 5 ar gyfer cynigion newid categori, neu'n unol ag Atodlen 4 ar gyfer pob math arall o gynig.

81. Mae Atodlen 4 yn darparu manylion pellach ynghylch gweithredu cynnig statudol gan gynnwys cyfrifoldebau ar gyfer gweithredu mathau gwahanol o gynigion, a darparu mangreoedd a chymorth. Mae Atodlen 5 yn darparu manylion pellach ynghylch gweithredu'r cynigion newid categori, gan gynnwys trosglwyddo staff a thir.

82. Caiff y cynigydd ohirio penderfyniad hyd at dair blynedd, neu benderfynu peidio â gweithredu'r cynnig o gwbl, os yw wedi ei fodloni y byddai gweithredu'r cynnig yn afresymol o anodd neu fod amgylchiadau wedi newid i'r fath raddau fel y byddai'r gweithredu hwnnw yn amhriodol. Caiff y cynigydd hefyd benderfynu dod â'r gweithredu ynghynt am gyfnod sydd hyd at 13 o wythnosau.

83. Wrth wneud y penderfyniadau hynny, rhaid i'r cynigydd hysbysu'r corff llywodraethu priodol a'r awdurdod lleol (pan nad yw un o'r ddau hyn yn gynigydd). Pan fo'r cynigion wedi derbyn cymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru neu'r panel penderfynu lleol, rhaid i'r cynigydd gael cytundeb Gweinidogion Cymru cyn gwneud unrhyw benderfyniad i ohirio, rhoi'r gorau i unrhyw weithredu neu ddod â'r cyfnod gweithredu ynghynt.

84. Mae adran 56 ac Atodlen 4 yn disodli, gyda diwygiadau, Atodlen 6 i Ddeddf 1998. Mae Atodlen 5 yn seiliedig ar Reoliadau Newid Categori Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2001

Pennod 3: Rhesymoli lleoedd ysgol

Adrannau 58 - 64: Rhesymoli lleoedd ysgol - pwerau a gweithdrefnau

85. Mae'r adrannau hyn yn nodi pwerau Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu i arfer eu pwerau o dan Bennod 2 o'r Rhan hon i wneud cynigion i gynyddu neu leihau'r nifer o leoedd ysgol yn eu

hardal er mwyn mynd i'r afael â darpariaeth annigonol neu or-ddarparu - e.e. "rhesymoli lleoedd ysgol".

86. Os yw awdurdod lleol yn methu â rhesymoli lleoedd ysgol, darperir pwerau i Weinidogion Cymru wneud eu cynigion eu hunain i resymoli lleoedd (ac mae'r darpariaethau hyn hefyd yn nodi'r weithdrefn sydd i'w dilyn petai'r cynigion hyn yn cael eu cyhoeddi).

87. Mae'r adrannau hyn gan mwyaf yn ailddeddfu Atodlen 7 i Ddeddf 1998.

Pennod 4 Darpariaeth ranbarthol ar gyfer anghenion addysgol arbennig

Adrannau 65 – 71: Darpariaeth ranbarthol ar gyfer anghenion addysgol arbennig, pwerau a gweithdrefnau

88. Mae'r adrannau hyn yn nodi pwerau Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo awdurdodau lleol i ystyried gwneud darpariaeth ranbarthol ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig, neu i gyfarwyddo awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu i wneud trefniadau neu gynigion ar gyfer darpariaeth ranbarthol. Gall darpariaeth ranbarthol ymwneud â darparu addysg mewn ysgol a gynhelir gan un awdurdod lleol ar gyfer plant o awdurdodau eraill, neu fod un awdurdod lleol yn darparu nwyddau a gwasanaethau i awdurdodau neu ysgolion eraill.

89. Mae adran 71 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru wneud eu cynigion eu hunain mewn perthynas â darpariaeth ranbarthol (yn cynnwys y weithdrefn sydd i'w dilyn petai'r cynigion hyn yn cael eu cyhoeddi).

90. Mae'r adrannau hyn yn seiliedig ar y darpariaethau a geir yn adrannau 191 i 193 o Ddeddf Addysg 2002.

Pennod 5: Cynigion i ailstrwythuro addysg chweched dosbarth

Adrannau 72 – 78

91. Mae'r adrannau hyn, sy'n seiliedig ar adran 113A o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 ac Atodlen 7A iddi, yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru wneud cynigion i sefydlu ysgolion cymunedol newydd, ysgolion arbennig cymunedol newydd neu ysgolion arbennig sefydledig newydd i ddarparu addysg chweched dosbarth yn unig; ychwanegu addysg chweched dosbarth at unrhyw ysgol bresennol a gynhelir, neu ddileu'r addysg chweched dosbarth ohonynt; terfynu unrhyw ysgol chweched dosbarth bresennol; a'r

gweithdrefnau sydd i'w dilyn os yw Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi cynigion i ailstrwythuro'r chweched dosbarth.

92. Mae adran 78 yn gwneud diwygiadau canlyniadol mewn perthynas ag adroddiadau arolygu ar addysg chweched dosbarth. Mae adran 113 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 ac Atodlen 7 iddi wedi darparu pwerau i Weinidogion Cymru i gyhoeddi cynigion i derfynu ysgol nad oedd ond yn darparu addysg chweched dosbarth, neu i ddileu chweched dosbarth o ysgol. Mae'r pwerau hyn wedi eu hysgogi gan adroddiad arolygu anffafriol gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Gan fod adran 72 yn darparu pŵer annibynnol i Weinidogion Cymru ddwyn cynigion i addasu neu ddileu chweched dosbarth yn eu blaen, nid oes bellach angen yr ysgogiadau yn Atodlen 7 i Ddeddf Dysgu a Medrau 2000. Fodd bynnag, mae'r gofyniad i adrodd ar wahân ar ddigonolrwydd addysg chweched dosbarth fel rhan o arolwg ysgol gyffredinol, neu arolwg ardal yn dal i fod yn berthnasol, ac mae Deddf Addysg 2005 wedi ei diwygio er mwyn cadw'r gofyniad hwn. Mae'r adrannau hyn yn seiliedig ar y ddarpariaeth sydd i'w chael ym mharagraffau 1 i 6 o Atodlen 7 i Ddeddf Dysgu a Medrau 2000.

Pennod 6: Darpariaethau amrywiol ac atodol

Adran 79 - Ysgolion ffederal

93. Mae'r adran hon yn caniatáu i gynigion i sefydlu ysgol newydd i gynnwys sefydlu ysgol fel ysgol ffederal. Ysgol ffederal yw ysgol sydd yn rhan o grŵp o ysgolion gydag un corff llywodraethu.

Adran 80 - Gwaharddiad ar awdurdodau lleol rhag sefydlu ysgolion yn Lloegr

94. Mae'r adran hon yn gwahardd sefydlu ysgol yn Lloegr a fyddai'n cael ei chynnal gan awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r adran hon yn ailddeddfu adran 69 o Ddeddf Addysg 2005.

Adran 81 - Hysbysiad gan gorff llywodraethu am derfynu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol

95. Mae'r adran hon, sy'n ailddeddfu ac yn diweddarau adran 30 o Ddeddf 1998, yn galluogi corff llywodraethu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol, drwy ddilyn y weithdrefn sy'n ofynnol gan yr adran hon, i derfynu ei ysgol drwy gyflwyno hysbysiad am gyfnod o ddwy flynedd o leiaf i Weinidogion Cymru a'r awdurdod lleol.

Adran 82 - Cyfarwyddyd sy'n ei gwneud yn ofynnol bod ysgol arbennig gymunedol neu ysgol arbennig sefydledig yn cael ei therfynu

96. Mae'r adran hon, sy'n ailddeddfu adran 32 o Ddeddf 1998 yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo'r awdurdod lleol i derfynu (heb yr angen am gynigion o dan adran 44) ysgol arbennig gymunedol neu ysgol arbennig sefydledig os ystyriant ei bod yn hwylus i wneud hynny er mwyn iechyd a diogelwch a llesiant y disgyblion. Cyn gwneud hynny, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â phersonau penodedig. Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd ddarparu hysbysiad i'r corff llywodraethu perthnasol a'r pennaeth.

Rhan 4: Cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg

97. Mae Rhan 4 yn ei gwneud yn ofyniad statudol bod yn rhaid i awdurdodau lleol gael cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg (CSCAau) yn barod yn eu lle. Mae hwn yn disodli cynllun gwirfoddol

Adran 85 – Lluio cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg

98. Mae'r adran hon yn nodi beth a ddylai gael ei gynnwys mewn CSCA. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol i lunio cynllun, cadw golwg arno, a'i ddiwygio os bydd angen. Mae'r adran hon hefyd yn nodi'r personau y mae'n ofynnol i awdurdod lleol ymgynghori â hwy wrth lunio neu ddiwygio ei CSCA.

Adran 86 - Cymeradwyo, cyhoeddi a gweithredu cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg

99. Bydd yn ofynnol i bob awdurdod lleol gyflwyno ei CSCA i Weinidogion Cymru eu cymeradwyo. Caiff Gweinidogion Cymru gymeradwyo, addasu neu wrthod CSCA (a gosod eu cynllun hwy yn ei le). Mae is-adran (6) yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i gymryd pob cam rhesymol i weithredu ei CSCA.

Adran 87 - Asesu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg

100. Mae'r adran hon yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol asesu'r galw gan rieni yn ei ardal am addysg cyfrwng Cymraeg mewn amgylchiadau penodol. Caiff y rheoliadau hynny wneud darpariaeth ynghylch sut a phryd y dylai awdurdod lleol wneud asesiad o'r galw.

Adran 88 - Rheoliadau a chanllawiau

101. Mae'r adran hon yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau a fydd yn gwneud darpariaethau pellach ar faterion megis ffurf a

chynnwys CSCA, ei amseriad a'i barhad, cadw golwg ar CSCA ac ymgynghori a chyflwyno CSCA i'w gymeradwyo gan Weinidogion Cymru a'i gyhoeddi. Caiff rheoliadau hefyd wneud darpariaeth i alluogi cydgynllun gan ddau awdurdod lleol neu ragor.

102. Mae'r adran hon hefyd yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu hystyried wrth arfer eu swyddogaethau o dan Ran 4.

Rhan 5: Swyddogaethau Amrywiol Ysgolion

Adran 89 – Dyletswydd i ddarparu brecwast am ddim i ddisgyblion mewn ysgolion cynradd

103. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ddarparu brecwast am ddim ar bod diwrnod ysgol i ddisgyblion mewn ysgolion cynradd y mae'n eu cynnal os yw'r corff llywodraethu wedi gwneud cais ysgrifenedig i'r awdurdod lleol am ddarparu brecwast a bod 90 o ddiwrnodau wedi mynd heibio ers iddynt gael y cais.

104. Ni fydd y dyletswydd ar awdurdod lleol i ddarparu brecwast yn gymwys os yw'r corff llywodraethu wedi gofyn i'r awdurdod lleol beidio â darparu brecwast, neu fod yr awdurdod lleol yn penderfynu y byddai darparu neu barhau i ddarparu brecwast yn yr ysgol yn afresymol.

105. Mae'r adran yn nodi'r gofynion y mae'n rhaid i awdurdod lleol eu bodloni pan fo'n gwneud trefniadau brecwast. Mae'n darparu pŵer hefyd i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu roi sylw iddynt.

Adran 90 – Darpariaeth drosiannol

106. Mae is-adran (1) yn gymwys pan fo awdurdod lleol sy'n cynnal ysgol gynradd, neu ei chorff llywodraethu, eisoes yn darparu brecwast i ddisgyblion ar yr adeg y daw dyletswydd yr awdurdod lleol o dan adran 89 i rym. Yn yr amgylchiadau hynny, mae dyletswydd yr awdurdod lleol o dan adran 89 yn gymwys mewn perthynas â'r ysgol fel petai gofynion adran 89(1) wedi eu bodloni.

107. Mae is-adrannau (2) a (3) yn gymwys os yw corff llywodraethu ysgol gynradd a gynhelir wedi gwneud cais ysgrifenedig i'r awdurdod lleol ddarparu brecwast yn yr ysgol cyn i ddyletswydd yr awdurdod lleol o dan adran 89 ddod i rym, ac ni wnaed trefniadau gan yr awdurdod lleol na'r corff llywodraethu i frechwast gael ei ddarparu ar gyfer disgyblion yn yr ysgol. Yn yr amgylchiadau hynny, mae'r cais a wnaed gan y corff llywodraethu i gael ei drin fel petai wedi

cael ei wneud ar y diwrnod y daeth dyletswydd yr awdurdod lleol o dan adran 89 i rym.

Adran 92 – Diwygio'r pŵer i godi tâl am brydau bwyd ysgol etc

108. Mae'r adran hon yn diwygio adrannau 512ZA (pŵer i godi tâl am brydau bwyd etc) a 533 (swyddogaethau cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir mewn cysylltiad â darparu prydau bwyd ysgol etc) o Ddeddf 1996.

109. Mae is-adrannau (2)(b) a (3)(b) yn diddymu'r gofyniad fod yn rhaid bod unrhyw dâl a godir am ddarparu llaeth, prydau bwyd a lluniaeth arall mewn ysgolion yr un fath ar gyfer pob person am yr un nifer o'r un eitem. Bydd diddymu'r gofyniad hwn yn rhoi'r dewis i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu i godi pris gwahanol am yr un nifer o'r un eitem.

110. Bydd codi prisiau hyblyg er enghraifft yn galluogi awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu i godi llai am brydau bwyd ysgol a ddarperir i blant teuluoedd ar incwm isel nad ydynt yn gymwys i gael prydau bwyd ysgol am ddim er mwyn eu hannog i gymryd prydau bwyd ysgol. Mae codi prisiau hyblyg yn ddewisol ac yn ddarostyngedig i amgylchiadau lleol. Ni fydd y newid hwn yn cael effaith ar ddarparu prydau bwyd ysgol am ddim (a llaeth am ddim) i ddisgyblion cymwys.

111. Effaith y diwygiadau a wnaed gan is-adrannau 2(a) a 3(a) yw bod awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yn cael eu hatal rhag codi mwy na chost darparu llaeth, prydau bwyd a lluniaeth arall i ddisgyblion. Ar hyn o bryd, nid oes uchafswm ar faint y gall ysgol godi ar ddisgybl. Ni fydd hyn yn cael effaith ar y ddarpariaeth o brydau bwyd ysgol am ddim (a llaeth am ddim) i ddisgyblion cymwys.

Adran 93 – Gwasanaethau cwnsela annibynnol ar gyfer disgyblion ysgol a phlant eraill

112. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol wneud darpariaeth resymol am wasanaeth cwnsela annibynnol ar gyfer categorïau penodedig bersonau o ran anghenion iechyd ac anghenion emosiynol a chymdeithasol.

113. Mae'r adran hon yn nodi'r gofynion y mae'n rhaid i awdurdod lleol eu bodloni wrth iddynt wneud trefniadau cwnsela.

114. Mae hefyd yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau cwnsela mewn lleoedd a bennir yn y rheoliadau.

Adran 94 – Gwybodaeth am wasanaethau cwnsela annibynnol eraill

115. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i gael gwybodaeth gan awdurdod lleol ynghylch ei wasanaeth cwnsela annibynnol. Mae is-

adrannau (1) a (2) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gydymffurfio â chyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru drwy ddarparu a chrynhoi gwybodaeth ynglŷn â'r gwasanaeth cwnsela. Mae is-adran (3) yn atal datgelu pwy yw unigolyn dynodedig ac mae is-adran (4) yn nodi'r sefyllfa pan nad yr awdurdod lleol yw'r person sy'n darparu'r gwasanaeth cwnsela.

Adran 95 – Dyletswydd corff llywodraethu ysgol a gynhelir i gynnal cyfarfodydd yn dilyn deiseb gan rieni

116. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i gorff llywodraethu gynnal cyfarfod os bodlonir y pedwar amod isod:-

1. ei fod wedi cael deiseb yn gofyn am gyfarfod gan:
 - rhieni 10% o'r disgyblion cofrestredig, neu;
 - rhieni 10 o ddisgyblion cofrestredig yn achos ysgol gynradd, neu;
 - rhieni 30 o ddisgyblion cofrestredig yn achos ysgol uwchradd;
2. mai diben y cyfarfod yw trafod mater mewn perthynas â'r ysgol;
3. na fydd mwy na thri chyfarfod o'r fath mewn blwyddyn ysgol; a
4. bod digon o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol er mwyn cynnal y cyfarfod.

117. Ar ôl cael cais rhaid i'r corff llywodraethu hysbysu rhieni'r disgyblion cofrestredig yn yr ysgol o ddyddiad a diben y cyfarfod a rhaid iddo gynnal y cyfarfod o fewn 20 o ddiwrnodau (fel y cânt eu cyfrifo yn unol ag is-adran (9) a (10)) ar ôl derbyn y ddeiseb.

118. Rhaid i'r corff llywodraethu roi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru ar sut y mae i gyflawni ei ddyletswydd yn yr adran hon.

Adran 96 – Diddymu dyletswydd i gynnal cyfarfod blynyddol rhieni

119. O ganlyniad i'r ddarpariaeth ar gyfarfodydd rhieni yn adran 95, mae'r adran hon yn diddymu adran 33 o Ddeddf Addysg 2002, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir i gynnal cyfarfod blynyddol Rhieni (ac felly bydd Rheoliadau Cyfarfod Blynyddol Rhieni (Esemptiadau) (Cymru) 2005 a wnaed o dan y pŵer hwnnw yn dirwyn i ben).

RHAN 6

Cyffredinol

Adran 98 – Gorchmynion a rheoliadau

120. Mae'r adran hon yn nodi'r rheoliadau a'r gorchmynion sydd i'w gwneud o dan y Bil hwn drwy offeryn statudol ac mae'n nodi gweithdrefn Cynulliad Cenedlaethol Cymru o ran yr offerynnau hyn.

Adran 99 – Dehongli'n gyffredinol a mynegai o ymadroddion sydd wedi eu diffinio

121. Mae adran 99 yn diffinio termau a ddefnyddir yn y Bil a hefyd mae'n cynnwys mynegai o dermau sydd wedi eu diffinio at ddiben rhai darpariaethau yn y Bil. Mae is-adran (1) yn darparu bod y Bil i'w ddarllen fel petai'n un â Deddf Addysg 1996. Mae hyn yn golygu bod y darpariaethau cyffredinol a'r diffiniadau cyffredinol yn y Ddeddf honno yn gymwys hefyd i'r Bil hwn. Er enghraifft, mae'r diffiniad o "education functions" awdurdod lleol yn Neddf Addysg 1996 yn cyfeirio at y swyddogaethau a nodir yn Atodlen 36A o'r Ddeddf honno. Mae'r term "swyddogaethau addysg" pan y'i defnyddir yn y Bil hwn, yn golygu'r un peth ag "education functions" yn Neddf 1996. Os oes gwahaniaeth mewn ystyr rhwng term a ddefnyddir yn y Bil hwn a them yn Neddf Addysg 1996, mae'r ystyr a roddir at ddibenion y Bil yn gymwys iddo.

Adran 100 ac Atodlen 6 – Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol

122. Mae adran 100 yn rhoi effaith i Atodlen 6, sy'n cynnwys mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol o ganlyniad i'r darpariaethau yn Rhannau 2, 3 a 5.

123. Ymysg pethau eraill mae'n diwygio Mesur Byrddau Addysg Esgobaethol 1991. Mesur Eglwys Loegr yw hwn. Tra bo Cymru gyfan, bron, o fewn ffiniau'r Eglwys yng Nghymru, mae ambell blwyf ym Mhowys yn ffurfio rhan o esgobaeth sydd o fewn Eglwys Loegr.

124. Gallai diwygiadau i Fesur Eglwys Loegr fod wedi cael eu gwneud gan y Ddeddf hon, Ysgrifennydd Gwladol Cymru o dan adran 150 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan Ddeddf Seneddol y DU neu gan Fesur Eglwys Loegr. Ceisiodd Llywodraeth Cymru farn Eglwys Loegr ar y mater hwn a sicrhau bod yr Ysgrifennydd Cyffredinol i Gyngor yr Archesgobion yn cytuno i'r diwygiadau sydd i'w gwneud gan y Ddeddf hon.

Adran 101– Cychwyn

125. Mae'r adran hon yn darparu bod adrannau 1 (trosolwg ar y Ddeddf hon), 101 (cychwyn) a 102 (enw byr y Ddeddf hon a'i chynnwys yn un o'r Deddfau Addysg) yn dod i rym drannoeth y diwrnod y ceir y Cydsyniad Brenhinol.

126. Mae Pennod 3 (canllawiau gwella ysgolion) o Ran 2, adran 92 (diwygio'r pŵer i godi tâl am brydau bwyd ysgol etc) a pharagraffau 26, 29(1), 30 ac 31 o Ran 3 o Atodlen 6 (diwygiadau o ganlyniad i adran 92) (ac adran 100 mewn perthynas â'r paragraffau hynny) yn dod i rym 2 fis ar ôl cael y Cydsyniad Brenhinol.

127. Bydd gweddill y Bil yn dod i rym yn unol â gorchmynion cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru.

Adran 102 – Enw byr y Ddeddf hon a'i chynnwys yn un o'r Deddfau Addysg

128. Mae'r adran hon yn darparu mai enw byr y Ddeddf hon fydd Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Mae hefyd yn darparu bod y Bil hwn i'w gynnwys yn y rhestr o Ddeddfau Addysg a nodir yn adran 578 o Ddeddf Addysg 1996. Golyga hyn y bydd cyfeiriadau mewn unrhyw ddeddfwriaeth at “the Education Acts” neu “y Deddfau Addysg” yn cynnwys y Bil hwn.

Paratowyd y ddogfen hon gan gyfreithwyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru i roi gwybodaeth a chyngor i Aelodau'r Cynulliad a'u staff am faterion y mae'r Cynulliad a'i bwyllgorau'n eu hystyried ac nid at unrhyw ddiben arall. Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth a'r cyngor a geir yn y ddogfen hon yn gywir, ond ni dderbynnir cyfrifoldeb am unrhyw ddibyniaeth a roddir arnynt gan drydydd parti.

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Bil ynghylch Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru)

Papur briffio cyfreithiol - Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth

1. Cyflwyniad i'r Bil a throsolwg arno

Mae'r papur hwn yn amlinellu pa bwerau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil ynghylch Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) ("y Bil") i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth.

Nod y Bil yw:

- diwygio pwerau awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru i ymyrryd ym materion rhedeg ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol sy'n peri pryder;
- diwygio pwerau Gweinidogion Cymru i ymyrryd ym materion arfer swyddogaethau addysg gan awdurdodau lleol;
- darparu ar gyfer canllawiau gwella ysgolion;
- diwygio'r trefniadau statudol ar gyfer trefniadaeth ysgolion a gynhelir;
- darparu ar gyfer cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg;
- gwneud darpariaeth amrywiol mewn perthynas ag ysgolion a gynhelir, gan gynnwys darpariaethau mewn perthynas â brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd, codi taliadau hyblyg am brydau ysgol, cwnsela mewn ysgolion, cyfarfodydd rhieni a chod ymarfer ar y berthynas rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion a gynhelir.

2. Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth

Mae'r Bil arfaethedig yn cynnwys nifer o bwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth. Ceir esboniad o'r rhain yn Rhan 1.5 o'r Memorandwm Esboniadol a osodwyd gyda'r Bil arfaethedig ac yn y Nodiadau Esboniadol sy'n ymddangos ar ddiwedd y Memorandwm hwnnw.

Mae Rheol Sefydlog 26.6(vii) yn nodi bod yn rhaid i'r Aelod sy'n gyfrifol, wrth gyflwyno Bil, osod Memorandwm Esboniadol sy'n cydfynd ag ef ac sy'n cynnwys y materion a ganlyn:

(vii) os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, nodi mewn perthynas â phob darpariaeth o'r fath:

- (a) y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo ac ym mha fodd y mae'r pŵer i gael ei arfer;
- (b) pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo'r pŵer; ac
- (c) y weithdrefn Cynulliad (os oes un) y mae'r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i'w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod odani, a pham y barnwyd ei bod yn briodol ei gosod o dan y weithdrefn honno (ac nid ei gosod o dan unrhyw weithdrefn arall).

Mae adran 98 o'r Bil yn nodi'r rheoliadau a'r gorchmynion o dan y Bil sydd i'w gwneud drwy offeryn statudol a gweithdrefn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") ar gyfer yr offerynnau hynny. Mae hefyd yn rhestru rhai pwerau sy'n caniatáu i Orchmynion gael eu gwneud ond nad ydynt yn arferadwy drwy offeryn statudol.

Mae'r Bil arfaethedig yn nodi'r pwerau a ganlyn i wneud is-ddeddfwriaeth:-

(i) Trefniadaeth Ysgolion - Y Cod am Drefniadaeth Ysgolion ("y Cod") (Adran 39)

Mae adran 38 yn gwneud darpariaeth bod yn rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi cod ar drefniadaeth ysgolion a diweddarau'r cod hwnnw o dro i dro. Bydd y Cod yn cynnwys darpariaethau ynghylch arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, paneli penderfynu lleol ac unrhyw un arall sy'n gysylltiedig â chynigion a wnaed. Caiff y Cod osod gofynion, a chynnwys canllawiau ar gyfer pennu nodau ac amcanion a materion eraill. Bydd pennu gofynion mewn cod yn hytrach nag ar wyneb y Bil neu mewn rheoliadau yn golygu bod modd defnyddio iaith sy'n haws i'w deall gan bartion sydd â diddordeb. Mae'r ffaith y caiff y Cod arfaethedig bennu gofynion yn ei gwneud yn glir bod natur ddeddfwriaethol iddo yn hytrach na natur weinyddol.

Mae adran 39 yn nodi'r weithdrefn i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod Statudol ar drefniadaeth ysgolion. Bydd darpariaethau yn y cod yn seiliedig ar arfer gorau, a bydd y cod yn caniatáu i'r egwyddorion a'r arferion gorau hynny gael eu hymgorffori gydag amser.

Gweithdrefn: Bydd y Cod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn sydd wedi'i nodi yn y Bil. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw un addas yn eu tyb hwy ynghylch y Cod drafft (neu'r Cod diwygiedig). Rhaid i gopi drafft o'r Cod gael ei osod gerbron y Cynulliad. Os yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu (cyn diwedd y cyfnod o 40 diwrnod) peidio â chymeradwyo fersiwn drafft o'r Cod, rhaid i Weinidogion Cymru beidio â chyhoeddi'r Cod arfaethedig ar ei ffurf ddrafft. Os na chaiff cynnig o'r fath ei wneud cyn diwedd y cyfnod o 40

diwrnod, yna mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r Cod. Daw'r Cod, neu'r Cod diwygiedig, i rym ar y dyddiad a bennir drwy Orchymyn gan Weinidogion Cymru. Mae'r weithdrefn yn adlewyrchu'r drefn o osod codau Derbyniadau i Ysgolion ac Apelau Derbyn i Ysgolion. I bob diben, mae'r weithdrefn hefyd yn adlewyrchu'r "weithdrefn negyddol", er bod fetó'r Cynulliad yn arferadwy cyn i'r Cod gael ei wneud yn hytrach na wedi hynny, fel sy'n arferol gydag Offerynnau Statudol.

(ii) Cynigion Trefniadaeth Ysgolion – Sefydlu, newid a therfynu ysgolion a gynhelir (Adran 57(3))

Mae Pennod 2 o Ran 2 o'r Bil yn gwneud darpariaethau manwl ynghylch sefydlu, newid a therfynu ysgolion a gynhelir, ac wrth wneud hynny yn rhoi pwerau amrywiol i awdurdodau lleol, Gweinidogion Cymru a chyrrff llywodraethu ysgolion.

Mae adran 57 yn adran ddehongli ac mae is-adran (1) yn rhestru nifer o ddiffiniadau sydd ym Mhennod 2. Ystyr "ysgol fach" yw ysgol sydd â llai na 10 o ddisgyblion cofrestredig ar y trydydd dydd Mawrth yn y mis Ionawr yn union cyn y dyddiad y caiff y cynigion eu gwneud. Ar hyn o bryd, y dyddiad hwn yw dyddiad cyfrifiad blynyddol yr ysgol. Mae adran 57(3) yn caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy Orchymyn, newid y dyddiad yn y Bil os oes angen.

Gweithdrefn: Mae adran 98(4) yn nodi y bydd gorchymyn a wnaed o dan adran 57(3) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

(iii) Asesu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg (Adran 87)

Mae adran 87(1) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru, sy'n arferadwy drwy reoliadau i'w "gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol, yn unol â rheoliadau, wneud asesiad o'r galw ymhlith rhieni yn ei ardal am addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu plant." Caiff adran 87(2) (ymhlith pethau eraill) wneud darpariaethau ynghylch sut a phryd i gynnal asesiad.

Gweithdrefn: Bydd unrhyw reoliad o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol (Adran 98(4)).

(iv) Asesu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg – Rheoliadau a chanllawiau (Adran 88)

Mae adran 88(1) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg. Mae adran 88(2) yn caniatáu i'r rheoliadau bennu ffurf a chynnwys cynllun (88(2)(a)); amseriad a hyd cynllun (88(2)(b)); cadw golwg ar gynllun a'i ddiwygio (88(2)(c)); ymgynghori yn ystod y broses o lunio cynllun a'i ddiwygio (88(2)(d)); cyflwyno cynllun i gael ei gymeradwyo (88(2)(e)); a phryd a sut i gyhoeddi cynllun (88(2)(f)). Mae adran 88(3) yn gwneud darpariaeth y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau hefyd sy'n galluogi awdurdodau lleol i baratoi a chyflwyno cydgyllun i ganiatáu i awdurdodau lleol gydweithio.

Gweithdrefn: Bydd unrhyw reoliad o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol (Adran 98(4)).

(v) Gwasanaethau cwnsela annibynnol ar gyfer disgyblion ysgol a phlant eraill (Adran 93)

Mae adran 93 yn gwneud darpariaeth bod yn rhaid i awdurdod lleol sicrhau darpariaeth resymol ar gyfer gwasanaeth cwnsela mewn cysylltiad ag anghenion iechyd, anghenion emosiynol ac anghenion cymdeithasol ar gyfer disgyblion ysgol a grwpiau penodol eraill. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod cynllun cwnsela yn cael ei dreialu mewn ysgolion cynradd ar hyn o bryd ac y byddai'r pwerau gwneud rheoliadau hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ymateb i unrhyw anghenion sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn y dyfodol. Bydd is-adran (5) hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i "wasanaeth cwnsela annibynnol gael ei ddarparu mewn mannau eraill."

Gweithdrefn: Bydd unrhyw reoliad o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol (Adran 98(4)).

(vi) Atodlen 1 – Sefydlu corff llywodraethu a gyfansoddwyd yn normal (Atodlen 1, paragraff 17(2))

Mae Atodlen 1, paragraff 17(2) yn darparu pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ar gyfer trosi o fwrdd gweithrediaeth interim i gorff llywodraethu a gyfansoddwyd yn normal. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai diben rheoliadau o'r fath fydd amlinellu'r trefniadau technegol pan fydd y bwrdd gweithrediaeth interim wedi cwblhau ei fusnes, a phan fydd corff llywodraethu a gyfansoddwyd yn normal yn derbyn cyfrifoldeb dros lywodraethu a gweithrediaeth yr ysgol.

Gweithdrefn: Bydd unrhyw reoliad o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol (Adran 98(4)).

(vii) Atodlen 2 - Newidiadau rheoleiddiedig (Atodlen 2, paragraff 26)

Bydd paragraff 26 o Atodlen 2 yn caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, ychwanegu, dileu neu ddiwygio addasiadau penodedig ysgolion. Mae hwn yn bŵer sylweddol gan ei fod yn caniatáu i Weinidog Cymru ddiwygio'r Bil yn y cyd-destun hwn, heb yr angen am ddeddfwriaeth sylfaenol newydd.

Gweithdrefn: Bydd unrhyw reoliad o'r fath yn ddarostyngedig i weithdrefn y penderfyniad cadarnhaol.

(viii) Atodlen 5 - Gweithredu cynigion i newid categori ysgol (Atodlen 5, paragraff 40)

Mae Atodlen 5 yn darparu gweithdrefnau ar gyfer adeg pan fydd ysgol yn newid categori yn unol â chynigion. Mae paragraff 40 yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru o ran gweithredu cynigion i newid categori ysgol o ran llywodraethu'r ysgol.

Gweithdrefn: Bydd unrhyw reoliad o'r fath yn ddarostyngedig i weithdrefn y penderfyniad negyddol (Adran 98(4)).

(ix) Darpariaethau Cychwyn

Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ar gyfer adrannau 1 (trosolwg), 101 (cychwyn) ac 102 (teitl byr a chynnwys fel un o'r Deddfau Addysg) i ddod i rym y diwrnod ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol. Daw Pennod 3 (canllawiau gwella ysgolion) o Ran 2, adran 92 (diwygio'r pŵer i godi tâl am brydau bwyd ysgol etc.) a pharagraffau 26, 29(1), 30 a 31 o Ran 3 o Atodiad 6 (diwygiadau canlyniadol i adran 92) (ac adran 100 mewn perthynas â'r paragraffau hynny) i rym ddau fis ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol.

Mae Adran 101(3) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud gorchmynion cychwyn i ddod â rhannau eraill y Bil i rym pan fydd angen.

Gweithdrefn: Ni ddarperir gweithdrefn graffu ar gyfer gorchmynion cychwyn, ac mae hyn yn arfer deddfwriaethol arferol.

3. Pwerau Dirprwyedig nad ydynt yn arferadwy drwy offeryn statudol

Yn y Bil hwn, mae rhai darpariaethau yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud gorchmynion nad ydynt yn arferadwy drwy offeryn statudol ac nad ydynt, felly, yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn graffu gan y Cynulliad.

(i) Rhesymoli Lleoedd Ysgolion - Cyfarwyddiadau i wneud cynigion ar gyfer rhesymoli lleoedd ysgolion

Mae adran 58 yn gwneud darpariaethau ar gyfer achlysuron lle mae Gweinidogion Cymru yn credu bod darpariaeth ormodol neu annigonol ar gyfer addysg gynradd neu uwchradd mewn ysgolion a gynhelir mewn ardal awdurdod lleol neu mewn rhan o'r ardal honno. Mae adran 58(2) yn gwneud darpariaeth y caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn "(a) cyfarwyddo'r awdurdod lleol i arfer ei bwerau i wneud cynigion i sefydlu, newid neu derfynu ysgolion, a (b) cyfarwyddo corff llywodraethu ysgol sefydledig, gwirfoddol neu arbennig sefydledig a gynhelir gan yr awdurdod i arfer ei bwerau i wneud cynigion i newid ei ysgol." Rhaid i orchymyn o'r fath wedyn ei gwneud yn ofynnol i'r cynigion gael eu cyhoeddi heb fod yn hwyrach na'r dyddiad a bennir yn y gorchymyn, i'r cynigion gymhwyso unrhyw egwyddorion a bennir yn y gorchymyn, a phan fo Gweinidogion Cymru o'r farn bod darpariaeth annigonol, neu ei bod yn debygol y bydd darpariaeth annigonol, pennu'r nifer ychwanegol o ddisgyblion y mae lle i'w drefnu ar eu cyfer.

Gweithdrefn: Mae adran 98(2) yn nodi na fydd gorchymyn a wneir o dan adran 58(2) yn cael ei wneud drwy offeryn statudol. Felly ni fydd unrhyw orchymyn yn ddarostyngedig i weithdrefn graffu gan y Cynulliad.

(ii) Darpariaeth Ranbarthol ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig (Adran 67(2))

Mae'r bennod hon yn gwneud darpariaeth ar gyfer y posibilrwydd y byddai dau neu fwy o awdurdodau lleol yn gallu cyflawni swyddogaethau addysg arbennig yn rhanbarthol os y bennir y byddai'n fwy effeithiol neu effeithlon mewn perthynas ag ardaloedd yr awdurdodau hynny.

Mae adran 65 yn darparu diffiniadau o'r hyn a ystyrir yn "ddarpariaeth ranbarthol" a "swyddogaethau addysg arbennig". Mae adran 66 yn gwneud darpariaeth "[y] caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdodau lleol i ystyried a fyddent hwy yn gallu cyflawni eu swyddogaethau addysg arbennig, mewn cysylltiad a phlant sydd a'r anghenion addysgol arbennig a bennir yn y cyfarwyddyd, yn fwy effeithlon neu effeithiol pe cai darpariaeth ranbarthol ei gwneud." Mae is-adran (2) yn nodi "rhaid i'r awdurdodau y rhoddir cyfarwyddyd iddynt gyflwyno adroddiad ar eu casgliadau i Weinidogion Cymru heb fod yn hwyrach na'r amser a bennir yn y cyfarwyddyd."

Mae adran 67(2) yn rhoi pwerau gwneud gorchymynion i Weinidogion Cymru er mwyn sicrhau bod darpariaeth ranbarthol yn cael ei gwneud mewn perthynas â'r disgrifiad o blant o'r ardaloedd a bennir.

Gweithdrefn: Yn debyg i adran 57(2), mae adran 98(2) yn nodi na fydd gorchymyn a wneir o dan adran 67(2) yn arferadwy gan offeryn statudol. Felly, ni fydd unrhyw orchymyn yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn graffu gan y Cynulliad.

(iii) Atodlen 5, Rhan 3, Paragraff 34 - Trosglwyddo Tir

Mae paragraff 34 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn mewn perthynas â throsglwyddo tir mewn rhai amgylchiadau sy'n eithrio rhai darpariaethau a gofynion a fyddai'n gymwys fel arfer ar gyfer mathau eraill o drosglwyddo tir o dan y Bil.

Gweithdrefn: Mae adran 98(2) yn nodi na fydd gorchymyn a wneir o dan baragraff 34(1) (b) yn arferadwy gan offeryn statudol ac na fydd, felly, yn ddarostyngedig i weithdrefn graffu bellach gan y Cynulliad. Mae hwn yn debyg i orchymyn prynu gorfodol na fyddai'n ddarostyngedig i weithdrefn Cynulliad.

4. Pwerau Cyfarwyddo

Er mwyn bod yn gyflawn, mae'r Bil, fel yr amlinellodd llythyr y Gweinidog, dyddiedig 16 Mai 2012, yn cynnwys llawer o bwerau cyfarwyddo eraill ar gyfer Gweinidogion Cymru sydd wedi'u gosod ar wyneb y Bil. Bydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn craffu ar y pwerau hyn ac yn eu hystyried wrth drafod egwyddorion cyffredinol y Bil yn ystod cyfnod 1 o'r broses ddeddfu.

Yn gryno, mae pwerau cyfarwyddo yn adrannau 12, 15, 16 a 17 sy'n ymwneud ag ymyrraeth Gweinidogion Cymru mewn Corff Llywodraethu Ysgolion. Mae hyn yn cynnwys y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu gydweithio a sicrhau cyngor gan drydydd partion, i gyfarwyddo ffedereiddio ysgolion, i gyfarwyddo bod ysgol yn cael ei

chau a phŵer cyffredinol i roi cyfarwyddiadau cyffredinol a chymryd camau angenrheidiol.

Mae adrannau 24, 25, 26, 27 a 28 yn cynnwys pwerau cyfarwyddo mewn perthynas ag ymyrraeth Gweinidogion Cymru mewn awdurdodau lleol. Mae'r pwerau cyfarwyddo hyn yn cynnwys y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gael gwasanaethau cynghori; i'w gwneud yn ofynnol i swyddogaethau gael eu cyflawni gan bersonau eraill ar ran awdurdod; i'w gwneud yn ofynnol i swyddogaethau gael eu cyflawni gan Weinidogion Cymru neu enwebai; y pŵer i gyfarwyddo'r modd y mae swyddogaethau addysg eraill yn cael eu harfer; a phŵer cyffredinol i roi cyfarwyddiadau cyffredinol a chymryd camau angenrheidiol.

Mae adran 82 yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod lleol i derfynu ysgol arbennig gymunedol neu ysgol arbennig sefydledig a gynhelir ganddo ar ddiwrnod penodedig, os ydynt yn credu ei bod yn hwylus gwneud hynny er iechyd, diogelwch neu les disgyblion yn yr ysgol.

Yn olaf, mae adran 94 yn rhoi'r pwerau i Weinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdodau lleol i ddarparu gwybodaeth am eu gwasanaethau cwnsela annibynnol.

5. Pwerau i gyhoeddi Canllawiau Statudol

Mae'r Bil hefyd yn cynnwys llawer o bwerau i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol ar amrywiaeth o bynciau.

